

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

07/10/2015

Cynnwys Contents

[1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol](#)

[1. Questions to the Minister for Natural Resources](#)

[2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi](#)

[2. Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty](#)

[3. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau—Deddfwriaeth Orfodol i Sicrhau bod Diffibrilwyr ar gael ym Mhob Man Cyhoeddus](#)

[3. Debate on a Petitions Committee Report—Mandatory Welsh Legislation to Ensure Defibrillators in All Public Places](#)

[4. Dadl Plaid Cymru: Datganoli](#)

[4. Plaid Cymru Debate: Devolution](#)

[5. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Iechyd Meddwl](#)

[5. Welsh Liberal Democrats Debate: Mental Health](#)

[6. Cyfnod Pleidleisio](#)

[6. Voting Time](#)

[7. Dadl Fer: Dyfodol Adeiladau Capeli yng Nghymru](#)

[7. Short Debate: The Future of Chapel Buildings in Wales](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol**

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

1. Questions to the Minister for Natural Resources

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The first item this afternoon are questions to the Minister for Natural Resources. Question 1 is from Paul Davies.

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol. Daw cwestiwn 1 gan Paul Davies.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Llifogydd yng Ngorllewin Cymru

Flooding in West Wales

13:31 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â llifogydd yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0347(NR)

1. What is the Welsh Government doing to tackle flooding in west Wales? OAQ(4)0347(NR)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:31 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources

I thank the Member for his question. Flood and coastal erosion risk management remains a priority across the whole of Wales and we are continuing to invest. Over the lifetime of this Government, we will invest over £33 million in flood and coastal risk management across west Wales to build resilience to flooding.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar draws Cymru gyfan ac rydym yn parhau i fuddsoddi. Yn ystod oes y Llywodraeth hon, byddwn yn buddsoddi dros £33 miliwn yn y gwaith o reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ar draws gorllewin Cymru er mwyn datblygu'r gallu i wrthsefyll llifogydd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:31

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I'm sure you'll be aware of flooding incidents in lower town Fishguard in my constituency, which have highlighted the importance of making coastal flood-risk management much more resilient in the future. Now, I've recently met with residents, local town councillors, local authority representatives and Natural Resources Wales, to discuss solutions to some of the problems facing people living in that area. Given the seriousness of this situation, can I ask you to liaise with your officials to work with all the stakeholders I've just mentioned in order to find a sensible and lasting solution to the problem? Would you be prepared to visit the area with me in the near future to see for yourself the problems facing my constituents?

Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn ymwybodol o achosion o lifogydd yng ngwaelod y dref yn Abergwaun yn fy etholaeth, sydd wedi amlygu pa mor bwysig yw sicrhau bod y broses o reoli risg llifogydd arfordirol yn llawer mwy gwydn yn y dyfodol. Nawr, cyfarfûm yn ddiweddar â thrigolion, cynghorwyr tref lleol, cynrychiolwyr awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru, i drafod atebion i rai o'r problemau sy'n wynebu'r bobl sy'n byw yn yr ardal honno. O ystyried difrifoldeb y sefyllfa, a gaf fi ofyn i chi gysylltu â'ch swyddogion i weithio gyda'r holl randdeiliaid y cyfeiriais atynt yn awr, er mwyn dod o hyd i ateb synhwyrol a pharhaol i'r problem? A fydddech yn barod i ymweld â'r ardal gyda mi yn y dyfodol agos i weld drosoch eich hun y problemau sy'n wynebu fy etholwyr?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:32

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am not shy of visiting areas with Paul Davies, as he well knows. Recently, I went on a visit with him and Jocelyn Davies to a particular region. Fishguard is also a town I'm familiar with and I am aware of the flooding that has taken place there. If the Member wishes to write to me with more detail, then I will consider his proposals.

Rwy'n fwy na pharod i ymweld ag ardaloedd gyda Paul Davies, fel y gŵyr yn iawn. Bûm ar ymweliad ag ardal benodol yn ddiweddar gydag ef a Jocelyn Davies. Hefyd, mae Abergwaun yn dref rwy'n gyfarwydd â hi ac rwy'n ymwybodol o'r llifogydd sydd wedi digwydd yno. Os yw'r Aelod yn dymuno ysgrifennu ataf gyda mwy o fanylion, byddaf yn ystyried ei argymhellion.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:32

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, what work does the Government undertake to look at how we may adapt development for flood plains and areas liable to flooding? I am thinking in particular of non-residential aspects here, as we already have tourism businesses and economic development located in the flood plain already. For example, I visited the Corran Resort & Spa in Laugharne recently, which is located in the flood plain and looking to expand. That is difficult because it's on a flood plain. On the other hand, it's an essential tourism business, and matching the two together in some sort of adaptive technology is, possibly, the way forward. Now, I wouldn't expect you to comment on individual applications because this one may come to you. Well, I feel this is a challenge, first of all, and is this something that the Government is looking at, because, surely, we already have a lot of development on flood plains, as has already been mentioned?

Weinidog, pa waith y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i edrych ar sut y gallwn addasu gwaith datblygu ar orlifdiroedd ac ardaloedd sy'n agored i lifogydd? Rwy'n meddwl yn benodol am agweddau di-breswyl yma, gan fod gennym eisoes fusnesau twristiaeth a datblygu economaidd wedi'u lleoli ar y gorlifdir yn barod. Er enghraifft, ymwelais â Corran Resort & Spa yn Nhalacharn yn ddiweddar, sydd wedi'i leoli ar y gorlifdir ac yn ystyried ehangu. Mae hynny'n anodd oherwydd ei fod ar orlifdir. Ar y llaw arall, mae'n fusnes twristiaeth hanfodol, ac mae'n bosibl mai paru'r ddau â'i gilydd mewn rhyw fath o dechnoleg ymaddasol yw'r ffordd ymlaen. Nawr, ni fyddwn yn disgwyl i chi roi sylwadau ar geisiadau unigol gan y gallai hwn ddod atoch. Wel, rwy'n teimlo bod hon yn her, yn gyntaf oll, ac a yw'n rhywbeth y mae'r Llywodraeth yn edrych arno, oherwydd, yn sicr, mae gennym eisoes lawer o ddatblygu ar orlifdiroedd, fel y crybwyllwyd eisoes?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:33

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member raises a very important issue, and non-specific issue. I think the issues contained in technical advice note 15 demonstrate very clearly our ability to measure flood risk. But, I do share the Member's interest in that there are mitigation opportunities for developments, which we should consider very carefully, along with some engineering aspects that could take place. But, we have to look at the precautionary approach where flood plains exist.

Mae'r Aelod yn crybwyll mater pwysig iawn, a mater sy'n amhenodol. Rwy'n meddwl bod y materion a gynhwyswyd yn nodyn cyngor technegol 15 yn dangos yn glir iawn ein gallu i fesur risg llifogydd. Ond rwy'n rhannu diddordeb yr Aelod o ran cyfleoedd lliniaru ar gyfer datblygiadau, a dylem eu hystyried yn ofalus iawn, ynghyd â rhai agweddau peirianyddol y gellid eu rhoi ar waith. Ond mae'n rhaid i ni edrych ar y dull rhagofalus lle y ceir gorlifdiroedd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Taliadau Amaeth-amgylcheddol

Agri-environment Payments

13:33

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr amserlen ar gyfer taliadau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru? OAQ(4)0360(NR)

2. Will the Minister make a statement on the timescale for agri-environment payments in Wales? OAQ(4)0360(NR)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:33 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food
Annual payments under the Glastir scheme will be made to contract holders within the appropriate payment period as defined in the rural development regulations, subject to validation of the claims received.
Bydd taliadau blynyddol o dan y cynllun Glastir yn cael eu gwneud i ddeiliaid contract o fewn y cyfnod talu priodol fel y'i diffinnir yn y rheoliadau datblygu gwledig, yn amodol ar ddilysu'r hawliadau a ddaeth i law.
- 13:34 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you, Deputy Minister, for your answer. The European Commission has said that member states will be allowed to pay up to 85 per cent of the agri-environment payments from 16 October and these payments are, of course, important for farmers who have embraced such schemes as Glastir. You did send Members a letter last week with regard to the basic payment scheme, but that letter didn't outline your position on these payments. These payments are normally made in November. So, can you confirm when farmers will be receiving this payment in order that they can be helped, of course, at this difficult time with cash flow issues?
Diolch am eich ateb, Ddirprwy Weinidog. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi dweud y bydd aelod-wladwriaethau'n cael caniatâd i dalu hyd at 85 y cant o'r taliadau amaeth-amgylcheddol o 16 Hydref, ac mae'r taliadau hyn, wrth gwrs, yn bwysig i ffermwyr sydd wedi manteisio ar gynlluniau megis Glastir. Fe anfonoch chi lythyr at yr Aelodau yr wythnos diwethaf ynglŷn â chynllun y taliad sylfaenol, ond nid oedd y llythyr hwnnw'n amlinellu eich safbwynt ar y taliadau hyn. Fel arfer, gwneir y taliadau ym mis Tachwedd. Felly, a allwch gadarnhau pa bryd y bydd ffermwyr yn cael y taliad er mwyn eu helpu gyda materion llif arian, wrth gwrs, ar yr adeg anodd hon?
- 13:34 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Well, you make the point that cash flow issues are, you know, serious concerns for farmers, and that's why I've taken many of the decisions I have with regard to the basic payment scheme and why payment of the basic payment scheme is the No. 1 priority for Welsh Government. But, where contracts have been, or are currently being, worked up for new Glastir scheme entrants, we do expect those to be offered from the end of October. And payment windows for existing agri-environment programmes, obviously, depend on the specific schemes that are in question. But, for the Glastir scheme entrants who are currently in negotiation, we expect that to be from the end of October.
Wel, rydych yn gwneud y pwynt fod materion llif arian, wyddoch chi, yn peri pryderon difrifol i ffermwyr a dyna pam y bu i mi wneud llawer o'r penderfyniadau a wneuthum ar gynllun y taliad sylfaenol a pham mai talu cynllun y taliad sylfaenol yw'r flaenoriaeth gyntaf i Lywodraeth Cymru. Ond lle y lluniwyd contractau, neu lle y maent ar hyn o bryd yn cael eu llunio ar gyfer dechreuwy newydd cynllun Glastir, rydym yn disgwyl y caiff y rheini eu cynnig o ddiwedd mis Hydref. Ac yn amlwg, mae cyfnodau talu'r rhaglenni amaeth-amgylcheddol presennol yn dibynnu ar y cynlluniau penodol dan sylw. Ond ar gyfer dechreuwy cynllun Glastir sydd mewn trafodaethau ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl i hynny fod o ddiwedd mis Hydref.
- 13:35 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Minister, you've said in correspondence to me that European funding is not available to subsidise puppy farms, and yet there is £1.4 million of European funding going to farms in Carmarthenshire and Ceredigion that also operate as puppy farms. What mechanisms are in place to ensure that that funding is not used to cross-subsidise that puppy farming activity?
Weinidog, rydych wedi dweud mewn gohebiaeth a gefais oddi wrthyhych nad oes arian Ewropeaidd ar gael i roi cymhorthdal i ffermydd cŵn bach, ac eto mae £1.4 miliwn o arian Ewropeaidd yn mynd i ffermydd yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion sydd hefyd yn gweithredu fel ffermydd cŵn bach. Pa fecanweithiau sydd ar waith i sicrhau na fydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio fel croes-gymhorthdal ar gyfer gweithgarwch ffermio cŵn bach o'r fath?
- 13:35 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Well, you're absolutely right that there is no funding available for puppy farming, as I outlined in my correspondence to you on this issue. Any payments that are made under the basic payments scheme are paid, and they're subject to cross-compliance regulations. And that has to do with the actual activity of farming, not any of the other diversification projects that may be involved there.
Wel, rydych yn gwbl gywir nad oes arian ar gael ar gyfer ffermio cŵn bach, fel yr amlinellais yn fy ngohebiaeth â chi ar y mater hwn. Telir unrhyw daliadau a wneir o dan gynllun y taliad sylfaenol, ac maent yn ddarostyngedig i reoliadau traws gydymffurfio. Ac mae hynny'n ymwneud â gweithgaredd ffermio go iawn, nid unrhyw brosiect arallgyfeirio arall a allai fod ar waith yno.

In terms of the safeguards that we have for animals, we've obviously introduced our new breeding regulations, which I hope will raise the standard of animal welfare in all breeding establishments, across Wales.
O ran y mesurau diogelwch sydd gennym ar gyfer anifeiliaid, yn amlwg, rydym wedi cyflwyno ein rheoliadau bridio newydd, ac rwy'n gobeithio y byddant yn gwella safon lles anifeiliaid ym mhob sefydliad bridio, ledled Cymru.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from Party Spokespeople

- 13:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to questions from the party spokespeople, and, first this afternoon, the Welsh Conservatives' spokesperson, Russell George.
- Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau, ac yn gyntaf y prynhawn yma, llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Russell George.
- 13:36 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch, Presiding Officer. Deputy Minister, the leader of the opposition probed the First Minister yesterday on the basic payments scheme, and failed to gain clarity on a number of points. Indeed, there are some contradictions between what you both say. So, I am returning to this issue with you again today. Yesterday, the First Minister acknowledged the fact that the EU agricultural commissioner has relaxed the rules, which means that member states can pay 70 per cent of advance payments. So, I want to specifically ask: why aren't you confident that you can make payments without the risk of facing fines from the European Commission, when the European Commission are the ones that have relaxed the rules in the first place?
- Diolch, Lywydd. Ddirprwy Weinidog, gofynnodd arweinydd yr wrthblaid i'r Prif Weinidog ddoe ynglŷn â chynllun y taliad sylfaenol, a methodd â chael eglurhad ar nifer o bwyntiau. Yn wir, mae rhai anghysondebau rhwng yr hyn rydych eich dau'n ei ddweud. Felly, dychwelaf at y mater hwn eto heddiw. Ddoe, cydnabu'r Prif Weinidog y ffaith fod comisiynydd amaethyddol yr UE wedi llacio'r rheolau, sy'n golygu y gall aelod-wladwriaethau dalu 70 y cant o'r taliadau cyntaf. Felly, rwyf am ofyn yn benodol: pam nad ydych yn hyderus y gallwch wneud taliadau heb y risg o wynebu dirwyon gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan mai'r Comisiwn Ewropeaidd yw'r rhai sydd wedi llacio'r rheolau yn y lle cyntaf?
- 13:37 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, the rules that the European Commission have relaxed don't go far enough in order to allow us to make these payments early in October of this year. The First Minister was very clear yesterday that the rules that have been relaxed relate to on-the-spot checks. Those are important, but the rules that we need to comply with, in order to make our payments, relate to the much more rigorous testing of inspections, and so forth, on farms. So, it's just a non-starter, not only for Wales, but for any other country in the UK, as I understand it.
- Wel, nid yw'r rheolau y mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi'u llacio yn mynd yn ddigon pell i'n galluogi i wneud y taliadau hyn yn gynnar ym mis Hydref eleni. Roedd y Prif Weinidog yn glir iawn ddoe fod y rheolau sydd wedi'u llacio yn ymwneud ag archwiliadau yn y fan a'r lle. Mae'r rhain yn bwysig, ond mae'r rheolau sy'n rhaid i ni gydymffurfio â hwy er mwyn gwneud ein taliadau yn ymwneud â chynnal profion llawer iawn mwy trylwyr mewn archwiliadau, ac yn y blaen, ar ffermydd. Felly mae'n ddi-werth, nid yn unig i Gymru, ond i unrhyw wlad arall yn y DU, yn ôl a ddeallaf.
- 13:37 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Deputy Minister. So, can I ask why you are unable to confirm with certainty the number of farmers who will receive part payments in December? Will it be 70 per cent, will it be 90 per cent, or will it just be a token few?
- Diolch, Ddirprwy Weinidog. Felly, a gaf fi ofyn pam nad ydych yn gallu cadarnhau gyda sicrwydd nifer y ffermwyr a fydd yn cael rhandaliad ym mis Rhagfyr? A fydd yn 70 y cant, yn 90 y cant, neu'n ychydig bach er mwyn sioe yn unig?
- 13:37 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, as you know, our aim to make those part payments, as early as possible in the EU payment window, which the First Minister correctly said yesterday starts on 1 December, and then runs through to June of next year. And that initial part payment will consist of around 70 per cent to 80 per cent of the individual's basic payments scheme claim, with the balance then to follow in the spring, once the total eligible land area of Wales has been clarified.
- Wel, fel y gwyddoch, ein nod yw gwneud y rhandaliadau hynny cyn gynhared â phosibl yng nghyfnod talu yr UE, sy'n dechrau ar 1 Rhagfyr, fel y dywedodd y Prif Weinidog yn gywir ddoe, ac yn parhau nes fis Mehefin y flwyddyn nesaf. A bydd y rhandaliad cyntaf hwn yn cynnwys tua 70 y cant i 80 y cant o hawliad cynllun taliad sylfaenol yr unigolyn, gyda'r gweddill wedyn i ddilyn yn y gwanwyn, pan ddaw'n eglur beth fydd cyfanswm arwynebedd y tir cymwys yng Nghymru.

This isn't news, of course; I've been saying this for the last year. We've been telling farmers for the last year that they should expect part payments as early as possible in the window. Our current assessment is that we expect the majority of part payments to be made in December of this year, with the remainder to be made early in 2016.

Nid yw hyn yn newyddion, wrth gwrs; rwyf wedi bod yn dweud hyn dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi bod yn dweud wrth ffermwyr dros y flwyddyn ddiwethaf y dylent ddisgwyl rhandaliadau cyn gynhared â phosibl yn y cyfnod talu. Yn ôl ein hasesiad ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o'r rhandaliadau'n cael eu gwneud ym mis Rhagfyr eleni, gyda'r gweddill yn cael eu gwneud yn gynnar yn 2016.

13:38 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Minister, but the answer, of course, was the number of farmers who would receive part payments in December—that was my specific question. But, you say that entitlements cannot be calculated until the spring of next year, when you will know how much eligible land there is. But, given the fact that farmers and unions and their representatives, have worked flat out to make the 15 May deadline for submission of basic payment scheme applications, why is it going to take you a year to work out the amount of eligible land in Wales?

Diolch, Ddirprwy Weinidog, ond yr ateb, wrth gwrs, oedd nifer y ffermwyr a fyddai'n derbyn rhandaliadau ym mis Rhagfyr—dyna oedd fy nghwestiwn penodol. Ond rydych yn dweud na ellir cyfrifo hawliadau tan y gwanwyn nesaf, pan fyddwch yn gwybod faint o dir cymwys a geir. Ond o ystyried y ffaith fod ffermwyr ac undebau a'u cynrychiolwyr wedi gweithio'n galed i gyflwyno ceisiadau cynllun y taliad sylfaenol erbyn y dyddiad cau ar 15 Mai, pam y mae'n mynd i gymryd blwyddyn i chi ddarganfod faint o dir sy'n gymwys yng Nghymru ?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:39 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I'm grateful that you did refer to the amount of work that the unions, and others, have put into helping their members update their SAFF information, and upload their SAFF information. We're very, very grateful for the efforts they have put in there. I mean, our expectations are very much consistent with the expectations of what will be happening elsewhere in the UK, in terms of the making of the payments in December, and then in January.

Wel, rwy'n ddiolchgar eich bod wedi cyfeirio at faint o waith y mae'r undebau, ac eraill, wedi'i wneud yn helpu eu haelodau i ddiweddarau gwybodaeth ffurflen eu cais sengl, a llwytho gwybodaeth ffurflen eu cais sengl. Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu hymdrechion. Hynny yw, mae ein disgwyliadau yn debyg iawn i'r disgwyliadau ynghylch yr hyn a fydd yn digwydd mewn manau eraill yn y DU, o ran gwneud y taliadau ym mis Rhagfyr, ac yna ym mis Ionawr.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

This is the first year of an extremely complicated, new basic payment scheme, which we're moving to, which is why there's a whole raft of work, in terms of designing the systems that need to underpin this, which needs to be undertaken before we can make any payments, and that's before we start talking about the huge amounts of inspection, and so on, that goes on in order to make these payments. So, if farmers want to help Government, the thing that they can do—and I hope that you would encourage them to do—is to respond to our queries and concerns with the utmost of speed and then we can start processing the payments as quickly as we possibly can.

Dyma ni'n symud i flwyddyn gyntaf cynllun taliad sylfaenol newydd sy'n hynod o gymhleth, a dyna pam y mae pentwr o waith i'w wneud ar lunio'r systemau sydd eu hangen yn sail i hyn, gwaith sydd angen ei wneud cyn y gallwn wneud unrhyw daliadau, a hynny cyn i ni ddechrau sôn am y gwaith archwilio helaeth, ac yn y blaen, sy'n digwydd er mwyn gwneud y taliadau hyn. Felly, os yw ffermwyr am helpu'r Llywodraeth, yr hyn y gallant ei wneud—a'r hyn rwy'n gobeithio y byddech yn eu hannog i'w wneud—yw ymateb i'n hymholiadau a'n pryderon mor gyflym â phosibl, yna gallwn ddechrau prosesu'r taliadau cyn gynted ag y gallwn.

13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, William Powell.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, William Powell.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:40 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, can you outline the Welsh Government's recent correspondence with the Secretary of State for Wales in relation to the Environment (Wales) Bill?

Weinidog, a wnewch chi amlinellu gohebiaeth ddiweddar Llywodraeth Cymru gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd (Cymru)?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:40 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for his question. We recently received confirmation that part of the Environment (Wales) Bill wouldn't receive the consents that we had applied for at an earlier position. This was very much a surprise to us, for the conversations we'd had previously with the department seemed positive.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Yn ddiweddar cawsom gadarnhad na fyddai rhan o Fil yr Amgylchedd (Cymru) yn derbyn y cydsyniadau y gwnaethom gais amdanynt ar gynharach. Roedd hwn yn syndod mawr i ni gan fod y sgyrsiau a gawsom gyda'r adran yn flaenorol yn ymddangos yn gadarnhaol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 13:40 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I'm grateful to the Minister for confirming that. Indeed, members of the Environment and Sustainability Committee were somewhat taken aback some weeks ago to learn that the Welsh Government only sought the Secretary of State's formal consent for the Bill on 7 August this year. Considering that the Bill was introduced on 11 May, some three months earlier, and that the gestation of this groundbreaking Bill has taken several years, can you please explain the Welsh Government's decision to leave it so late in the day to seek the consent of the Secretary of State?
- Diolch i'r Gweinidog am gadarnhau hynny. Yn wir, synnwyd aelodau o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd braidd rai wythnosau yn ôl o ddeall na cheisiodd Llywodraeth Cymru gydsyniad ffurfiol yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer y Bil hyd nes 7 Awst eleni. O ystyried bod y Bil wedi'i gyflwyno ar 11 Mai, tua thri mis yn gynharach, a bod cyfnod datblygu'r Bil hwn sy'n torri tir newydd wedi cymryd nifer o flynyddoedd, a wnewch chi esbonio penderfyniad Llywodraeth Cymru i'w gadael mor hwyr cyn gofyn am gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol?
- 13:41 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- This isn't an unusual process, to have discussions with the relevant departments prior to the Bill being established. We'd had many conversations with the Secretary of State's department. Indeed, we'd had confirmation prior to the general election that we were on target for agreement. This was as much a surprise to you as it was to me in terms of the non-agreement by the Secretary of State.
- Nid yw'n broses anarferol i gael trafodaethau gyda'r adrannau perthnasol cyn i'r Bil gael ei sefydlu. Rydym wedi cael llawer o sgysiaau gydag adran yr Ysgrifennydd Gwladol. Yn wir, roeddem wedi cael cadarnhad cyn yr etholiad cyffredinol ein bod yn ar y trywydd iawn i gael cytundeb. Roedd hi'n gymaint o syndod i mi ag i chi na chafwyd cytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol.
- 13:41 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I'm grateful for that, but, given that the terrain that's to be exempted from the biodiversity duty includes a significant area of Wales, including some of our iconic landscapes, such as Mynydd Epynt, to what extent, in your view, does this actually undermine the Bill's aim to safeguard the natural environment of our nation?
- Weinidog, diolch i chi, ond o ystyried bod y tir sy'n cael ei eithrio o'r ddyletswydd bioamrywiaeth yn cynnwys rhan helaeth o Gymru, gan gynnwys rhai o'n tirweddau eiconig, megis Mynydd Epynt, i ba raddau, yn eich barn chi, y mae hyn mewn gwirionedd yn tanseilio nod y Bil i ddiogelu amgylchedd naturiol ein gwlad?
- 13:42 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- It completely undermines the Bill, and I would hope that you could join with me in encouraging the Secretary of State and the UK Government to commit to delivering on the commitment that we understood it to be earlier in May.
- Mae'n tanseilio'r Bil yn llwyr, a byddwn yn gobeithio y gallwch ategu fy anogaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol a Llywodraeth y DU ymrwymo i gyflawni'r ymrwymiad fel y'i deallem yn gynharach ym mis Mai.
- 13:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Llyr Gruffydd.
- Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Llyr Gruffydd.
- 13:42 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch, Lywydd. Deputy Minister, two and a half years ago, both you and I voted for a Bill relating to the agricultural wages board to be treated as emergency legislation. Now, two and half years later, we still don't have that board in place. Is that acceptable?
- Diolch, Lywydd. Ddirprwy Weinidog, ddwy flynedd a hanner yn ôl, fe bleidleisioch chi a minnau dros drin Bil yn ymwneud â'r bwrdd cyflogau amaethyddol fel deddfwriaeth frys. Nawr, ddwy flynedd a hanner yn ddiweddarach, rydym yn dal i ddisgwyl i'r bwrdd hwnnw gael ei roi ar waith. A yw hynny'n dderbyniol?

13:42

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, when legislation is going through the process of becoming law and getting to the point where it makes a real difference to people's lives, it does take time. Scrutiny needs to take place; there has to be a great deal of consultation, both in terms of the membership of the panel—that's a public appointments process—and in terms of using the interim Order powers, which I have been given under the power of that Act. You'll be aware that I recently consulted on using those interim powers, and I hope to make a statement on that very shortly. We've also consulted on the membership of the board, which will be advising Government in future, and making those decisions about payments, and, again, I hope to make a statement on this very shortly.

Yn amlwg, pan fydd deddfwriaeth yn mynd drwy'r broses o ddod yn gyfraith ac yn cyrraedd y pwynt lle y mae'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl, mae'n cymryd amser. Mae angen craffu; mae'n rhaid cael llawer iawn o ymgynghori, a hynny o ran aelodaeth y panel—proses penodiadau cyhoeddus yw honno—ac o ran defnyddio'r pwerau Gorchymyn interim a roddwyd i mi o dan bŵer y Ddeddf honno. Fe wyddoch fy mod wedi ymgynghori'n ddiweddar ar ddefnyddio'r pwerau interim hynny, ac rwy'n gobeithio gwneud datganiad ar y mater cyn bo hir iawn. Rydym hefyd wedi ymgynghori ar aelodaeth y bwrdd, a fydd yn cynghori'r Llywodraeth yn y dyfodol, ac yn gwneud y penderfyniadau am y taliadau, ac unwaith eto, rwy'n gobeithio gwneud datganiad ar hyn yn fuan iawn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yet, two and a half years after that emergency legislation, we don't have the advisory panel in place, and it's a year and a half since Royal Assent, and we still don't have it in place. Now, four years ago, Deputy Minister, Gareth Williams, in his 'Working Smarter' report outlined how your Government could help reduce bureaucracy and red tape for the agricultural industry. One of his key recommendations was to scrap the six-day standstill rule, which locks down farms after animals are brought onto the farm. It was recommended in this report as a quick win, to be delivered by July 2012, and the Government accepted that recommendation. Three and a half years later, Welsh farms are still waiting for the six-day standstill rule to be scrapped. Is that acceptable?

Eto i gyd, ddwy flynedd a hanner ar ôl y ddeddfwriaeth frys, nid oes gennym banel ymgynghorol ar waith, ac mae'n flwyddyn a hanner ers i'r Cydsyniad Brenhinol gael ei roi, ac rydym yn dal i ddisgwyl iddo gael ei sefydlu. Nawr, bedair blynedd yn ôl, amlinellodd y Dirprwy Weinidog, Gareth Williams, yn ei adroddiad 'Hwyluso'r Drefn' sut y gallai eich Llywodraeth helpu i leihau biwrocratiaeth a mân reolau ar gyfer y diwydiant amaethyddol. Un o'i argymhellion allweddol oedd cael gwared ar y gwaharddiad symud chwe diwrnod, sy'n rhoi ffermydd dan gyfyngiad ar ôl dod ag anifeiliaid ar y fferm. Argymhellwyd hyn yn yr adroddiad fel ateb cyflym, i'w gyflawni erbyn mis Gorffennaf 2012 a derbyniodd y Llywodraeth yr argymhelliad hwnnw. Dair blynedd a hanner yn ddiweddarach, mae ffermydd Cymru yn dal i aros i'r gwaharddiad symud chwe diwrnod gael ei ddileu. A yw hynny'n dderbyniol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The six-day standstill rule will come to an end at the end of 2016, and the reason this takes so long is because it's an extremely complex piece of legislation. We're talking here about biosecurity and animal health and welfare. When you talk about quarantine units, which is what we're talking about now, you can't just cordon off a corner of your farm, for example; you have to work out how to move these animals onto and off farms, so this all plays in to the work that we're doing on EIDCymru and on the county parish holding project as well. So, these items are all very much underpinned by needing to work together, so you can't have one without making progress on the other, and these are huge pieces of work. This represents a huge investment in the farming industry in Wales on the part of Welsh Government, because millions of pounds have gone in to invest in both EIDCymru and CPH, and then that will be used to monitor the movement on and off these quarantine units. Progress is being made, and I'm grateful to the advisory group that is helping us with that.

Bydd y gwaharddiad symud chwe diwrnod yn dod i ben ar ddiwedd 2016, a'r rheswm y mae'n cymryd cymaint o amser yw bod y ddeddfwriaeth yn hynod o gymhleth. Rydym yn sôn yma am fioldiogelwch ac iechyd a lles anifeiliaid. Pan soniwyd am unedau cwarantîn, sef yr hyn rydym yn sôn amdano yn awr, rhaid gwneud mwy nag ynysu cornel o'ch fferm, er enghraifft; rhaid i chi lunio ffordd o symud yr anifeiliaid hyn i ffermydd ac ohonynt, felly mae hyn i gyd yn rhan o'r gwaith rydym yn ei wneud ar EIDCymru ac ar brosiect rhif y daliad hefyd. Felly, mae'r angen i weithio gyda'n gilydd yn sail bendant i'r holl bethau hyn, felly ni allwch gael un heb wneud cynnydd ar y llall, ac mae'r rhain yn galw am waith helaeth. Mae'n fuddsoddiad enfawr yn y diwydiant ffermio yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru, gan fod miliynau o bunnoedd wedi mynd tuag at fuddsoddi yn EIDCymru a phrosiect rhif y daliad, a defnyddir hwnnw wedyn i fonitro symudiadau i'r unedau cwarantîn hyn ac ohonynt. Mae cynnydd yn cael ei wneud, ac rwy'n ddiolchgar i'r grŵp cynghori sy'n ein helpu gyda hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yet, four years ago, Gareth Williams believed that it could have been done in six months, and we are still waiting. That's the reality, and I think many people will be aggrieved that it is taking so long. Before the summer, you announced new schemes under the rural development programme, of course, one of which is the sustainable production grant. Projects have to cost at least £40,000 to be eligible for support, and that'll suit a certain number of farms who require that level of investment, and indeed who can afford the level of match funding required to lever that investment. But many farmers, of course, are telling me that what they need are small-scale grants of a few thousand pounds to make more affordable but still essential investment in making their farms more efficient. When you took that £0.25 billion away from Welsh farmers and out of pillar 1, they were led to believe, of course, that that money would come back through more accessible schemes than what we have at the moment. So, can you tell us when you'll be launching such a scheme that will see direct on-farm investment at a level that more Welsh farmers can access?

Eto i gyd, bedair blynedd yn ôl, credai Gareth Williams y gellid bod wedi ei wneud ymhén chwe mis, ac rydym yn dal i aros. Dyna'r realiti, ac rwy'n credu y bydd llawer o bobl yn ddig ei fod yn cymryd cymaint o amser. Cyn yr haf, fe gyhoeddodd gynlluniau newydd o dan y rhaglen datblygu gwledig, wrth gwrs, ac un ohonynt yw'r grant cynhyrchu cynaliadwy. Rhaid i brosiectau gostio o leiaf £40,000 i fod yn gymwys i gael cymorth, a bydd hynny'n addas ar gyfer nifer penodol o ffermydd sydd angen y lefel honno o fuddsoddiad, ac yn wir sy'n gallu fforddio'r arian cyfatebol sydd ei angen i ddenu'r buddsoddiad hwnnw. Ond mae llawer o ffermwyr, wrth gwrs, yn dweud wrthyf mai'r hyn sydd ei angen arnynt yw grantiau bach o ychydig filoedd o bunnoedd i wneud buddsoddiadau mwy fforddiadwy ond yr un mor hanfodol er mwyn gwneud eu ffermydd yn fwy effeithlon. Pan aethoch â'r £0.25 biliwn oddi wrth ffermwyr Cymru ac allan o golofn 1, cawsant eu harwain i gredu, wrth gwrs, y byddai'r arian yn dod yn ôl drwy gynlluniau mwy hygyrch na'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd. Felly, a allwch ddweud wrthym pa bryd y byddwch yn lansio cynllun o'r fath a fydd yn arwain at fuddsoddi uniongyrchol ar y fferm ar lefel y gall mwy o ffermwyr Cymru gael mynediad ato?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have to tell you that farmers will be able to access far more than the 15 per cent that was transferred from pillar 1 through the RDP. Nearly everything in the RDP is open to farmers and accessible to farmers, not least the Glastir programme, which represents a huge investment there as well. The sustainable production grant is a strategic investment fund, and so we need to use that to help both the economic viability and the environmental performance of farms. Improving these things go hand in hand, and it's not a choice of doing one or the other. Welsh Government believes that, to have strategic step change in the kind of way that we want to see for the industry, does require significant investment, and that's why we're looking at these strategically important projects at the moment. Of course, it's a seven-year programme, so we might wish to introduce other schemes in due course, but at the moment we're looking to the industry to really make some step changes in terms of its environmental performance, because we know that farms are big contributors in terms of our greenhouse gas emissions, so we need to deal with that. But also to take the industry to the place where we need it to be. You know, we talk about it all the time—it is sustainable, it's resilient, it's profitable. And that's where you do need these large-scale investments. Because if it was the case that a small-scale investment would really be life-changing on a farm, and would be the difference between profitability and non-profitability, then farmers would be doing these small things anyway.

Mae'n rhaid i mi ddweud wrthyfch y bydd ffermwyr yn gallu cael mynediad at lawer mwy na'r 15 y cant a drosglwyddwyd o golofn 1 drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig. Mae bron bopeth yn y Cynllun Datblygu Gwledig yn agored i ffermwyr ac yn hygyrch i ffermwyr, yn enwedig y rhaglen Glastir, sy'n fuddsoddiad enfawr hefyd. Cronfa buddsoddi strategol yw'r grant cynhyrchu cynaliadwy, felly mae angen i ni ei ddefnyddio i hybu hyfywedd economaidd a pherfformiad amgylcheddol ffermydd. Mae gwella'r pethau hyn yn mynd law yn llaw â'i gilydd, ac nid yw'n fater o ddewis gwneud un neu'r llall. Er mwyn cael newid strategol yn y ffordd rydym am ei weld ar gyfer y diwydiant, cred Llywodraeth Cymru fod angen buddsoddiad sylweddol, a dyna pam rydym yn edrych ar y prosiectau strategol bwysig hyn yn awr. Wrth gwrs, mae'n rhaglen saith mlynedd, felly efallai y byddem yn dymuno cyflwyno cynlluniau eraill maes o law, ond ar hyn o bryd rydym yn disgwyl i'r diwydiant wneud rhai newidiadau sylweddol o ran ei berfformiad amgylcheddol, oherwydd gwyddom fod ffermydd yn cyfrannu'n helaeth at ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr, felly mae angen i ni fynd i'r afael â hynny. Ond hefyd rhaid mynd â'r diwydiant i ble y mae angen iddo fod. Wyddoch chi, rydym yn siarad am y peth drwy'r amser—mae'n gynaliadwy, mae'n gydnherth, mae'n broffidiol. A dyna ble y mae angen i chi gael y buddsoddiadau mawr hyn. Oherwydd pe bai'n wir y gallai buddsoddiad bach ar fferm newid bywydau, a sicrhau'r gwahaniaeth rhwng bod yn broffidiol a bod yn amhroffidiol, yna byddai ffermwyr yn gwneud y pethau bach hyn beth bynnag.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move back to questions on the paper, and question 3 is Elin Jones.

Symudwn yn ôl yn awr at y cwestiynau ar y papur, a daw cwestiwn 3 gan Elin Jones.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Atal Llifogydd

Flood Prevention

| | | | |
|-----------------------------|--|---|--|
| 13:47 | <p>Elin Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>3. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i atal llifogydd yn Llanbadarn Fawr, Ceredigion? OAQ(4)0352(NR)[W]</i></p> | <p><i>3. Will the Minister provide an update on plans to prevent flooding in Llanbadarn Fawr, Ceredigion? OAQ(4)0352(NR)[W]</i></p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 13:47 | <p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank the Member for her question. Natural Resources Wales are taking the lead, working in partnership with relevant stakeholders, including the county council, ScottishPower and Network Rail, in investigating engineering solutions to address the flood risk in the community that she represents.</p> | <p>Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Gan weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol, yn cynnwys y cyngor sir, ScottishPower a Network Rail, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain y gwaith o ymchwilio i atebion peiranyddol i fynd i'r afael â'r perygl o lifogydd yn y gymuned y mae'n ei chynrychioli.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 13:47 | <p>Elin Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Byddwch yn cofio, Weinidog, fod cymuned Llanbadarn Fawr wedi dioddef llifogydd sylweddol iawn dair blynedd yn ôl, ac wedi cael addewid o gynllun i wneud hynny'n llai tebygol yn y dyfodol. Maen nhw'n dal i aros am y cynllun yna. Rwy'n ymwybodol o'r hyn rydych yn ei ddweud, fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda phartneriaid eraill, ond mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn araf iawn yn cael cydsyniad oddi wrth rai o'r partneriaid yma i fwrw ymlaen â'r gwaith. Felly, a gaf i ofyn i chi ofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru i ailddyblu eu hymdrechion nhw i sicrhau bod y cynllun yma i atal llifogydd, sydd wedi cael ei addo i bobl Llanbadarn, yn cael ei wireddu yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach?</p> | <p>You will recall, Minister, that the community of Llanbadarn Fawr suffered significant flooding three years ago, and were given a pledge of a plan to make that less likely in future. They are still waiting for that plan. I'm aware of what you say, that Natural Resources Wales are working with other partners, but NRW are very slow in getting consent from some of these partners to proceed with the work. So, can I ask you to ask NRW to redouble their efforts to ensure that this flood prevention plan, which has been promised to the people of Llanbadarn, is achieved sooner rather than later?</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 13:48 | <p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>Of course, and I visited many areas in her constituency that have been subject to flooding. We've had some great successes in mitigation recently in that area. I am aware of this particular issue. I will ask NRW to write to the Member directly with actions that they are taking and where they're up to in terms of the schedule.</p> | <p>Wrth gwrs, ac ymwelais â llawer o ardaloedd yn ei hetholaeth sydd wedi dioddef llifogydd. Rydym wedi cael rhai llwyddiannau mawr gyda mesurau lliniaru yn yr ardal yn ddiweddar. Rwy'n ymwybodol o'r mater penodol hwn. Byddaf yn gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru ysgrifennu at yr Aelod yn uniongyrchol gyda chmau y maent yn eu cymryd a lle y maent wedi'i gyrraedd o ran yr amserlen.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| Y Sector Bwyd a Diod | | The Food and Drink Sector | |
| 13:48 | <p>Russell George Bywgraffiad Biography</p> <p><i>4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth sydd ar gael i'r rhai sy'n gweithredu yn y sector bwyd a diod? OAQ(4)0363(NR)</i></p> | <p><i>4. Will the Minister make a statement on the support available to those operating in the food and drink sector? OAQ(4)0363(NR)</i></p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 13:49 | <p>Rebecca Evans Bywgraffiad Biography</p> <p>'Towards Sustainable Growth', our action plan for the food and drink sector, sets out the key areas of support for the industry to achieve sustainable growth of 30 per cent by 2020. The business growth and market development actions focus on targeted activity to deliver jobs, growth and wealth for Wales.</p> | <p>Mae 'Tuag at Dwf Cynaliadwy', ein cynllun gweithredu ar gyfer y sector bwyd a diod, yn nodi'r meysydd cymorth allweddol er mwyn i'r diwydiant sicrhau twf cynaliadwy o 30 y cant erbyn 2020. Mae'r camau gweithredu twf busnes a datblygu'r farchnad yn canolbwyntio ar weithgarwch wedi'i dargedu ar gyfer darparu swyddi, twf a chyfoeth i Gymru.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |

13:49 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your answer, Deputy Minister. I've been contacted by several businesses who operate in the food sector who say that the Welsh Government's food department is failing to provide advice and guidance to businesses who are struggling to access funding for market research and funding for training. And I note your original answer to me didn't mention either of those subjects. Will you commit to looking at improving the way in which your department supports microbusinesses, specifically, in the sector that are looking to expand?

Diolch i chi am eich ateb, Ddirprwy Weinidog. Mae nifer o fusnesau sy'n gweithredu yn y sector bwyd wedi cysylltu â mi i ddweud bod adran fwyd Llywodraeth Cymru yn methu â rhoi cyngor ac arweiniad i fusnesau sy'n cael trafferth i gael gafael ar gyllid ar gyfer ymchwil i'r farchnad ac arian ar gyfer hyfforddiant. Ac rwy'n sylwi nad oedd eich ateb gwreiddiol yn sôn am y naill na'r llall o'r pynciau hynny. A wnewch chi ymrwymo i edrych ar wella'r ffordd y mae eich adran yn cefnogi microfusnesau, yn benodol, sy'n awyddus i ehangu yn y sector?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:49 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm sorry that those businesses who contacted you haven't contacted me, or perhaps even contacted my officials to discuss their needs. So, perhaps if you give me a list of those businesses, I'll ask my officials to contact them directly to discuss their training and market-development needs.

Mae'n ddrwg gennyf nad yw'r busnesau a gysylltodd â chi wedi cysylltu â mi, neu efallai hyd yn oed â fy swyddogion i drafod eu hanghenion. Felly, os caf restr o'r busnesau hynny gennyf, fe ofynnaf i fy swyddogion gysylltu â hwy'n uniongyrchol i drafod eu hanghenion o ran hyfforddi a datblygu'r farchnad.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

But, with regard to what we're doing in Welsh Government, food innovation is particularly important, and that's very much about market development. Three hundred and ninety-five businesses have accessed support, with 538 technical enquiries as part of our Food Innovation Wales programme over the last year. We've supported 40 companies to successfully achieve and maintain accreditation, such as British Retail Consortium and Safe and Local Supplier Accreditation standards, and we've also supported 26 new food businesses to start up as well. So, I'd be more than happy to see how we can support these businesses who've contacted you but not contacted me.

Ond mewn perthynas â'r hyn rydym yn ei wneud yn Llywodraeth Cymru, mae arloesedd ym maes bwyd yn arbennig o bwysig, ac mae hynny'n ymwneud i raddau helaeth â datblygu'r farchnad. Mae 395 o fusnesau wedi cael cymorth, gyda 538 o ymholiadau technegol, yn rhan o'n rhaglen Arloesi Bwyd Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi cynorthwyo 40 o gwmnïau i gyflawni a chynnal achrediad megis Consortiwm Manwerthu Prydain a safonau Cymeradwyo Cyflenwyr Diogel a Lleol, ac rydym hefyd wedi cynorthwyo 26 o fusnesau bwyd newydd i gychwyn. Felly, byddwn yn fwy na hapus i weld sut y gallwn gefnogi'r busnesau hyn sydd wedi cysylltu â chi, ond heb gysylltu â mi.

13:50 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, with a record number of Welsh food and drink producers winning prestigious UK taste awards recently, it's clear that the sector is going from strength to strength. This is thanks to quality products and the hard work and innovation of all those involved. What steps has the Welsh Government taken to build on the success of increased food and drink exports?

Ddirprwy Weinidog, gyda'r nifer fwyaf erioed o gynhyrchwyr bwyd a diod o Gymru wedi ennill gwobrau blas mawr y DU yn ddiweddar, mae'n amlwg bod y sector yn mynd o nerth i nerth, diolch i gynnyrch o ansawdd a gwaith caled ac arloesedd pawb sy'n rhan o'r gwaith. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith i adeiladu ar lwyddiant cynyddol allforion bwyd a diod?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:51 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You're absolutely right. Increasing food and drinks exports is absolutely critical to the success of our industry in Wales, and we've got a comprehensive range of programmes in order to support those businesses to do exactly that. That support ranges from bespoke one-to-one advice on areas such as developing the business's export strategy and market selection, through to identifying in-market opportunities and supporting companies to visit and exhibit in overseas markets as well. Earlier this year, you'll remember that I announced a fund of £2.5 million over the next two years to ensure that Wales does have a strong presence on the international stage, and that we can support our businesses in their export ambitions.

Rydych yn llygad eich lle. Mae cynyddu allforion bwyd a diod yn gwbl hanfodol i lwyddiant ein diwydiant yng Nghymru, ac mae gennym ystod gynhwysfawr o raglenni i gynorthwyo busnesau i wneud yn union hynny. Mae'r cymorth hwnnw'n amrywio o gyngor pwrpasol un i un mewn meysydd fel datblygu strategaeth y busnes ar gyfer allforio a dethol marchnadoedd, i nodi cyfleoedd yn y farchnad a chynorthwyo cwmnïau i ymweld â marchnadoedd tramor ac i arddangos eu nwyddau ynddynt hefyd. Yn gynharach eleni, fe gofiwch fy mod wedi cyhoeddi cronfa o £2.5 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf er mwyn sicrhau bod presenoldeb cryf gan Gymru ar y llwyfan rhyngwladol, ac y gallwn gefnogi ein busnesau yn eu huchelgeisiau allforio.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:51 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae capasiti cynhyrchu bwyd yn beth pwysig iawn, wrth gwrs, ac rwy'n ddiolchgar am gydweithrediad swyddogion y Llywodraeth, mewn cydweithrediad rhwng eich adran chi a'r adran economi, i edrych ar y broses ddichonoldeb o gael parc cynhyrchu bwyd newydd yn Ynys Môn, rhywbeth, rwy'n meddwl, sy'n allweddol er mwyn mynd â'r diwydiant ymlaen ar yr ynys. I ba raddau mae'r Gweinidog yn cytuno bod yn rhaid sicrhau bod yr isadeiledd iawn mewn lle er mwyn galluogi ein diwydiannau bwyd ni i dyfu, a byddai hynny yn cynnwys sicrhau bod yna eiddo priodol ar gael i'r diwydiannau allu datblygu ynddyn nhw?

The capacity for food production is extremely important, of course, and I'm grateful for the collaboration of Government officials, in collaboration between your department and the department for the economy, in looking at the feasibility of having a new food production park on Ynys Môn, which I think is essential to drive this forward on the island. To what extent does the Minister agree that we have to ensure that the correct infrastructure is in place in order to enable our food industries to grow, and that includes ensuring that there are the appropriate properties available for the industries to develop in?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:52 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I completely agree that having the correct properties available for our food businesses is critical, but I do recognise that, actually, there is a paucity of those available at the moment, even though our Welsh Government officials do work with individual businesses to better understand what their specific needs are and we do work with them in terms of identifying premises that might be suitable for what they wish to produce.

Wel, rwy'n cytuno'n llwyr fod sicrhau'r eiddo cywir ar gyfer ein busnesau bwyd yn hanfodol, ond rwy'n sylweddoli, mewn gwirionedd, fod prinder o'r rheini ar gael ar hyn o bryd, er bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda busnesau unigol i ddeall yn well beth yw eu hanghenion penodol, ac rydym yn gweithio gyda hwy ar ddod o hyd i safleoedd a allai fod yn addas ar gyfer yr hyn y maent yn dymuno ei gynhyrchu.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I was grateful to you for bringing forward that short debate recently on the issue of Ynys Môn and the ambitions there, and I'm glad that officials have been working to take that idea forward. If you'd like to meet to discuss that further, obviously I'd be more than keen to do that.

Roeddwn yn ddiolchgar i chi am gyflwyno'r ddatl fer yn ddiweddar ar Ynys Môn a'r uchelgeisiau yno, ac rwy'n falch fod swyddogion wedi bod yn gweithio ar ddatblygu'r syniad hwnnw. Os hoffech gyfarfod i drafod hynny ymhellach, yn amlwg fe fyddwn yn awyddus iawn i wneud hynny.

13:53 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

Deputy Minister, on Saturday, I had the pleasure of opening the eighteenth Brecon food fair, sponsored by the Brecon Beacons National Park, and 95 per cent of the products on sale on Saturday were Welsh products. Many people want to be able to support Welsh and British food producers by buying Welsh and British products, but sometimes can be led astray by what is mischievous or perhaps misleading labelling. What discussions have you had with Westminster Ministers, and in the European Union, about ensuring that consumers are given proper information that lets them make informed choices of buying Welsh and British produce, which they want to support?

Ddirprwy Weinidog, ddydd Sadwrn, cefais y pleser o agor deunawfed ffair fwyd Aberhonddu, a noddir gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac roedd 95 y cant o'r cynnyrch a oedd ar werth ddydd Sadwrn yn gynnyrch o Gymru. Mae llawer o bobl yn awyddus i gefnogi cynhyrchwyr bwyd o Gymru a Phrydain drwy brynu cynnyrch o Gymru a Phrydain, ond weithiau gallant gael eu camarwain gan labelu cyfeiliornus neu gamarweiniol o bosibl. Pa drafodaethau a gawsoch gyda Gweinidogion yn San Steffan, ac yn yr Undeb Ewropeaidd, o ran sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwybodaeth briodol sy'n eu galluogi i wneud dewisiadau gwybodus wrth brynu'r cynnyrch o Gymru a Phrydain y maent am ei gefnogi?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:54 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I couldn't agree more that it's important that consumers who want—. We know they want to buy Welsh, so they need to be able to have that choice on the supermarket shelves, but also in the kind of food festivals and food fairs that you're talking about as well. These discussions have been ongoing for some time at European level, and I do make representations on behalf of the Government in those respects, particularly, for example, with country of origin labelling for lightly processed meats—so, bacon, sausages and so on. We're keen to see that brought in, but it's very difficult, at the moment, to get a consensus across Europe on that.

Wel, rwy'n cytuno'n llwyr ei bod yn bwysig i ddefnyddwyr sydd eisiau—. Gwyddom eu bod am brynu cynnyrch o Gymru, felly mae angen iddynt allu cael y dewis hwnnw ar silffoedd yr archfarchnadoedd, ond hefyd yn y math o wyliau a ffeiriau bwyd rydych yn sôn amdanynt hefyd. Mae'r trafodaethau hyn wedi bod ar y gweill ers peth amser ar lefel Ewropeaidd, ac rwy'n gwneud sylwadau ar ran y Llywodraeth yn hynny o beth, yn enwedig, er enghraifft, ar labelu gwlad y tarddiad ar gyfer cigoedd heb eu prosesu'n helaeth—felly cig moch, selsig ac yn y blaen. Rydym yn awyddus i weld hynny'n cael ei gyflwyno, ond mae'n anodd iawn, ar hyn o bryd, sicrhau consensws ar draws Ewrop ar hyn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

We're very keen that, when we do bring in any new legislation with regard to labelling, that it is proportionate and it doesn't put an undue burden on the industry as well. So, we're always mindful of looking at what could potentially be a cost to business as well.

You'll be aware of the recent emergency meetings that we've been having with the Department for Food, Environment and Rural Affairs, both in London and in Brussels as well, with the farming unions, to discuss, in particular, the dairy industry, but I was keen also to put the red meat industry at the heart of those discussions as well. Labelling, again, was one of the issues that we talked about in depth. AHDB Dairy are taking forward a piece of work specifically related to that as a result of those meetings and I'd be more than happy to provide an update when there's sufficient progress to do so.

Amddiffyn yr Arfordir

Pan fyddwn yn cyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth newydd yn ymwneud â labelu, rydym yn awyddus iawn iddo fod yn gymesur ac nad yw'n rhoi baich gormodol ar y diwydiant hefyd. Felly, rydym bob amser yn cadw mewn cof fod angen edrych ar beth a allai fod yn gost i'r busnes hefyd.

Fe wyddoch am y cyfarfodydd brys a gawsom gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn ddiweddar, yn Llundain ac ym Mrwsel hefyd, gyda'r undebau ffermio i drafod y diwydiant llaeth yn arbennig, ond roeddwn yn awyddus i gynnwys y diwydiant cig coch yn rhan ganolog o'r trafodaethau hefyd. Unwaith eto, roedd labelu yn un o'r materion a drafodwyd yn fanwl. Mae AHDB Dairy yn datblygu gwaith sy'n ymwneud yn benodol â hynny o ganlyniad i'r cyfarfodydd a byddwn yn fwy na pharod i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf pan fydd digon o gynnnydd wedi bod i wneud hynny.

Coastal Protection

13:55 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwaith i amddiffyn yr arfordir ar draeth y gogledd, Llandudno? OAQ(4)0355(NR)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

5. Will the Minister make a statement on coastal protection works undertaken at Llandudno's north shore beach? OAQ(4)0355(NR)

13:55 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I thank the Member for her question. All coastal protections work at Llandudno North Shore in response to last year's storms was completed last year. Conwy County Borough Council is now working with relevant stakeholders, including the Restore Our Beach campaign group, to look at the long-term beach management strategy for Llandudno.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Cafodd yr holl waith i amddiffyn yr arfordir ar draeth y gogledd yn Llandudno mewn ymateb i stormydd y llynedd ei gwblhau y llynedd. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy bellach yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys grŵp ymgyrchu Restore Our Beach, i edrych ar strategaeth rheoli traeth hirdymor ar gyfer Llandudno.

13:55 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you, Minister. Completed they were, but completed well—they're two different things. Whilst Llandudno is Wales's third most popular tourism destination on TripAdvisor, this is actually due to the many hoteliers and private businesses trading therein. However, a decision taken by your Government and our local authority to dump 50,000 tonnes of quarry rock at North Shore has caused much anger, upset and frustration, particularly as there are now many ongoing problems associated that have to be dealt with daily, and extra revenue costs. According to the council's internal audit committee's report, it is evident that sample test loading, a condition of the marine permit licence, was not carried out. Minister, I have referred this matter to you directly, yet you dismissed it out of hand—

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch yn fawr, Weinidog. Cawsant eu cwblhau, do, ond eu cwblhau'n dda—dyna ddau beth gwahanol. Er mai Llandudno yw trydydd cyrchfan twristiaeth mwyaf poblogaidd Cymru ar TripAdvisor, y rheswm am hynny mewn gwirionedd yw nifer y gwestywyr a'r busnesau preifat sy'n masnachu yno. Fodd bynnag, mae penderfyniad eich Llywodraeth a'n hawdurdod lleol i ddadlwytho 50,000 tonnell o gerrig chwarel ar draeth y gogledd wedi achosi llawer o ddiecter, gofid a rhwystredigaeth, yn enwedig gan fod llawer o broblemau parhaus yn gysylltiedig â hynny bellach sy'n rhaid ymdrin â hwy yn ddyddiol, a chostau refeniw ychwanegol. Yn ôl adroddiad pwyllgor archwilio mewnol y cyngor, mae'n amlwg na chynhaliwyd prawf sampl ar y llwyth, un o amodau'r drwydded forol. Weinidog, cyfeiriais y mater atoch yn uniongyrchol, eto fe'i diystyrwyd yn llwyr gennyhych

13:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Are you coming to the question?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

A ydych yn dod at y cwestiwn?

13:56 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Yes. Why have you failed to enforce the relevant marine permit licences that were granted in this regard? It is your duty to do so.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Ydw. Pam rydych chi wedi methu â gorfodi'r trwyddedau morol perthnasol a roddwyd mewn perthynas â hyn? Eich dyletswydd yw gwneud hynny.

13:56 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I've corresponded with the Member on many occasions on this. I've been very clear about the works undertaken on that coastal strip. I'd be interested to understand what extra daily revenue costs are involved in this process. The Member may wish to write to me about that, but I seem to recall the Member jumping up and down on the beach the day before this activity took place, wishing and hoping for something to be done. When we take action, the Member complains. I'm very surprised, actually. We have donkeys on the beach, but there are some Members who still appear to be one-trick ponies. [Laughter.]

Wel, rwyf wedi gohebu gyda'r Aelod ynglŷn â hyn ar sawl achlysur. Rwyf wedi bod yn glir iawn ynghylch y gwaith a wnaed ar y llain arfordirol dan sylw. Hoffwn ddeall pa gostau refeniw ychwanegol dyddiol sy'n rhan o'r broses hon. Efallai yr hoffai'r Aelod ysgrifennu ataf ynglŷn â hynny, ond rwy'n rhyw gofio'r Aelod yn neidio i fyny ac i lawr ar y traeth y diwrnod cyn i'r gwaith hwn ddigwydd, yn dymuno ac yn gobeithio gweld rhywbeth yn cael ei wneud. Pan ydym yn gweithredu, mae'r Aelod yn cwyno. Rwy'n synnu'n fawr, mewn gwirionedd. Mae gennym fulod ar y traeth, ond mae'n ymddangos mai merlod 'un tric' yw rhai o'r Aelodau o hyd. [Chwerthin.]

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:57 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn sicr, mae angen bod yn ymwybodol, pan fo gwaith yn digwydd, wrth gwrs, mai nid dim ond gwneud gwaith at un bwriad mae rhywun yn ei wneud, ond bod yna gyfleoedd economaidd yn gallu datblygu o waith sy'n digwydd, ac rwy'n meddwl bod angen i ni longyfarch Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar yr hyn sydd wedi digwydd ym Mae Colwyn, wrth gwrs, lle mae yna draeth ardderchog wedi ei ddatblygu yn fan yna—un rwyf wedi ei fwynhau, a buasai'n dda petai Aelodau yn ymuno â mi, ar ambell I ddiwrnod braf, ar y traeth yn fan yna. Felly, a wnewch chi ymuno â mi wrth longyfarch y cyngor, sydd wedi gwireddu cyfle economaidd yn sgil cynllun, wrth gwrs, sydd yn cyflawni nifer o ddibenion eraill hefyd?

Certainly, we do need to be aware, when works do take place, of course, that one isn't just doing work to one end, but that economic opportunities can arise from that work also, and I think we should congratulate Conwy County Borough Council on what has happened in Colwyn Bay, for example, where an excellent beach has been developed there—one that I have enjoyed, and it would be a good thing if other Members were to join me on some sunny day on the beach there. So, will you join with me in congratulating the council, which has realised an economic opportunity in light of a scheme, of course, that has succeeded in a number of other areas too?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:58 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Indeed. There have been some great successes, and the additional activity from an investment around flooding activity can create so much more. I know Darren Millar yesterday alluded to some of the issues in his particular constituency. Again, I'm sure Llyr Gruffydd has enjoyed the events at that place too. It's something that we continue to do in our investment of this Government making sure that the £240 million is well spent and gets additional benefits in doing that too.

Yn wir. Cafwyd rhai llwyddiannau mawr, a gall y gweithgaredd ychwanegol o fuddsoddi mewn gwaith llifogydd greu cymaint yn fwy. Rwy'n gwybod bod Darren Millar wedi cyfeirio at rai o'r problemau yn ei etholaeth ddoe. Unwaith eto, rwy'n siŵr fod Llyr Gruffydd wedi mwynhau'r digwyddiadau yn y lle hwnnw hefyd. Mae'n rhywbeth rydym yn parhau i'w wneud gyda buddsoddiad y Llywodraeth gan sicrhau bod y £240 miliwn yn cael ei wario'n dda ac yn cael budd ychwanegol o wneud hynny hefyd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Rhywogaethau a Warchodir

Protected Species

13:58 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rywogaethau a warchodir yng Nghymru? OAQ(4)0348(NR)*

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

6. *Will the Minister make a statement on protected species in Wales? OAQ(4)0348(NR)*

13:58 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for his question. Wales has a suite of protected species legislation that the developing nature recovery plan will complement. The new approach to managing our natural resources in the Environment (Wales) Bill goes beyond protection, seeking to maintain and enhance biodiversity, increasing the resilience of our ecosystems.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae gan Gymru gyfres o ddeddfau'n ymwneud â rhywogaethau a warchodir a bydd y cynllun adfer natur yn eu hategu. Mae'r dull newydd o reoli ein hadnoddau naturiol ym Mil yr Amgylchedd (Cymru) yn mynd y tu hwnt i warchod, gan geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a chynyddu cydnheredd ein hecosystemau.

13:59

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank you for that answer, Minister. I've had lots of complaints over the years from my constituents regarding seagull populations on the north Wales coast in urban towns. Of course, seagulls are a protected species, but the gulls can be a great nuisance to local populations. They can be aggressive and noisy, particularly during the breeding season. They have been known to attack many individuals as well. They also, of course, contribute to litter, particularly on refuse collection days. Now, everyone expects some gulls beside the seaside and, in fact, they're a charming part of what the seaside has to offer, but it's about time that we saw some action from the Welsh Government on urban gull populations so that we can have some confidence that this issue is being tackled before it begins to deter visitors from our wonderful coastline. What action are you intending to take to review your current position on this particular protected species?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Rwyf wedi cael llawer o gwynion dros y blynyddoedd gan fy etholwyr ynghylch poblogaethau o wylanod mewn trefi ar arfordir gogledd Cymru. Wrth gwrs, mae gwylanod yn rhywogaeth a warchodir, ond gall y gwylanod fod yn niwsans mawr i boblogaethau lleol. Gallant fod yn ymosodol ac yn swnllyd, yn enwedig yn ystod y tymor bridio. Ceir sôn hefyd amdanynt yn ymosod ar sawl unigolyn. Maent hefyd, wrth gwrs, yn cyfrannu at sbwriel, yn enwedig ar ddiwrnodau casglu sbwriel. Nawr, mae pawb yn disgwyl gweld gwylanod ar lan y môr ac mewn gwirionedd, maent yn rhan hyfryd o'r hyn sydd gan draethau i'w gynnig, ond mae'n hen bryd i ni weld Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar fater poblogaethau gwylanod trefol er mwyn i ni gael rhywfaint o hyder fod y mater hwn yn cael ei ddatrys cyn iddo ddechrau atal ymwelwyr rhag ymweld â'n harfordir gwych. Pa gamau y bwriadwch eu rhoi ar waith i adolygu eich safbwynt presennol ar y rhywogaeth warchoddedig hon?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Again, I have corresponded with the Member with regard to this particularly and I do share his views on some of the issues around the urban gull population. We have been very careful, on balance, to make sure that we manage protected species, but I think there are already powers in place for local authorities to take action. It is something I've asked my team to give me some further advice on, because I do recognise, actually, some of the activities in urban settings, particularly in Cardiff, where there are some wild birds that take their actions on innocent bystanders as you walk past their nests. [Laughter.]

Unwaith eto, rwyf wedi gohebu gyda'r Aelod mewn perthynas â hyn yn benodol ac rwy'n rhannu ei farn ar rai o'r materion sy'n ymwneud â'r boblogaeth o wylanod trefol. Rydym wedi bod yn ofalus iawn, ar y cyfan, i wneud yn siŵr ein bod yn rheoli rhywogaethau a warchodir, ond rwy'n credu bod pwerau gan awdurdodau lleol eisoes i weithredu. Mae'n rhywbeth rwyf wedi gofyn i fy nhîm roi cyngor pellach i mi yn ei gylch, gan fy mod yn gwybod am rai o'r gweithgareddau mewn mannau trefol, yn enwedig yng Nghaerdydd, lle y ceir rhai adar gwyllt sy'n cyflawni eu gweithredoedd ar bobl ddiniwed wrth i chi gerdded heibio eu nythod. [Chwerthin.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I can't match that.

Minister, you will recall some while back—I think in November 2014—I raised the issues of species champions. In fact, I even suggested at the time that you could, perhaps, take on the role of the champion for the soaring eagle, and I would perhaps opt for the Tonyrefail falcon. But, we see a whole series of species that are being reintroduced in Ceredigion and Powys—the pine marten colonies and other species. Do you think now might be an opportune time to make progress on the idea of species champions? It's something that the Scottish Parliament has taken on board very successfully and I think it's something we could successfully take on board, ourselves. If you don't fancy the soaring eagle, I'm sure there are plenty of other species that need protecting.

Ni allaf gystadlu â hynny.

Weinidog, rywfaint o amser yn ôl—ym mis Tachwedd 2014 rwy'n credu—fe gofiwch fy mod wedi tynnu sylw at fater hyrwyddwyr rhywogaethau. Yn wir, awgrymais ar y pryd hyd yn oed y gallech efallai ymgymryd â rôl hyrwyddwr yr eryr esgynnol, a byddwn i'n dewis hebog Tonyrefail efallai. Ond yng Ngheredigion a Phowys, gwelwn ailgyflwyno cyfres gyfan o rywogaethau—cytrefi o feload coed a rhywogaethau eraill. A ydych yn credu y gallai fod yn adeg dda yn awr i ddatblygu'r syniad o hyrwyddwyr rhywogaethau? Mae'n rhywbeth y mae Senedd yr Alban wedi'i fabwysiadu yn llwyddiannus iawn, ac rwy'n meddwl ei fod yn rhywbeth y gallew ei fabwysiadu'n llwyddiannus ein hunain. Os nad yw'r eryr esgynnol at eich dant, rwy'n siŵr fod digon o rywogaethau eraill angen eu gwarchod.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very grateful for the Member's question. I look at the opposition benches and I can think of a few suggestions of protected species—

Rwy'n ddiolchgar iawn am gwestiwn yr Aelod. Rwy'n edrych ar feinciau'r wrthblaid, a gallaf feddwl am rai awgrymiadau am rywogaethau gwarchoddedig—

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thought you might.

Roeddwn i'n meddwl y gallech.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

| | | | |
|---|--|--|--|
| 14:01 | <p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>[Continues.]—that species champions would align themselves to quite well. Can I say that the Member is right to raise this issue? But I think I'd like to examine this in more detail, because I think we can actually broaden this proposal with regard to managing our natural resources, so not just species, but more so—the biodiversity and the environmental issues. I will ask the Member for a meeting soon to discuss this further.</p> | <p>[Yn parhau.]—y byddai hyrwyddwyr rhywogaethau'n cysylltu eu hunain â hwy'n eithaf da. A gaf fi ddweud bod yr Aelod yn iawn i godi'r mater hwn? Ond rwy'n meddwl yr hoffwn edrych ar hyn yn fanylach, gan fy mod o'r farn y gallwn ehangu'r cynnig hwn mewn gwirionedd o ran rheoli ein hadnoddau naturiol, felly nid rhywogaethau'n unig, ond mwy felly—bioamrywiaeth a materion amgylcheddol. Byddaf yn gofyn i'r Aelod am gyfarfod yn fuan i drafod hyn ymhellach.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:02 | <p>Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Diolch yn fawr, Weinidog. Mi awn ni yn ôl at yr adar gwyllt yr oeddech chi'n cyfeirio atyn nhw. O'r rhywogaethau adar hynny sy'n cael eu gwarchod yma yng Nghymru, yn y pum mlynedd diwethaf hyn, faint ohonyn nhw sydd wedi dangos cynnydd yn eu niferoedd?</p> | <p>Thank you, Minister. If we can return to the wild birds that you alluded to. Of those protected species of birds here in Wales, over the past five years, how many of them have shown an increase in their numbers?</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:02 | <p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I don't have the details to hand, but I will write to the Member and place a note in the Library regarding the question that the Member asked.</p> | <p>Nid oes gennyf y manylion wrth law, ond byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod ac yn gosod nodyn yn y Llyfrgell mewn perthynas â'r cwestiwn a ofynnodd yr Aelod.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:02 | <p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, as I think you've touched upon a few times already in answering this question and the supplementaries, I think it is crucial that we link the work to protect and promote biodiversity with work to safeguard particular species. I wonder if you could say a little bit about current Welsh Government policy to make those connections.</p> | <p>Weinidog, fel rydych eisoes wedi sôn fwy nag unwaith wrth ateb y cwestiwn hwn a'r cwestiynau atodol rwy'n credu, mae'n hanfodol ein bod yn cysylltu gwaith ar ddiogelu a hyrwyddo bioamrywiaeth â gwaith i warchod rhywogaethau penodol. Tybed a allwch ddweud ychydig am bolisi presennol Llywodraeth Cymru ar wneud y cysylltiadau hynny.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:03 | <p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank the Member for his question. This is exactly what we're doing with the Environment (Wales) Bill; we are seeking to enshrine in law the ecosystem approach recognised by the EU convention on biological diversity. The approach is also complementing the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 requirements that look to go beyond protection to enhance the resilience of our ecosystems. I'm very grateful for the Member's question—a very important one—that just outlines the positive action that we are taking as Welsh Government.</p> | <p>Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Dyma'n union yr hyn a wnawn gyda Bil yr Amgylchedd (Cymru); rydym yn ceisio ymgorffori mewn cyfraith y dull ecosystem a gydnabyddir gan gonfensiwn yr UE ar amrywiaeth biolegol. Mae'r dull hwn hefyd yn ategu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n ceisio mynd y tu hwnt i warchod er mwyn gwella cydnherthedd ein hecosystemau. Rwy'n ddiolchgar iawn am gwestiwn yr Aelod—sy'n gwestiwn pwysig iawn—yn amlinellu'r camau cadarnhaol rydym yn eu cymryd fel Llywodraeth Cymru.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| <p>Prosiectau Ynni Hydro-gymunedol</p> | | <p>Hydro-community Energy Projects</p> | |
| 14:03 | <p>Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography</p> <p><i>7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am brosiectau ynni hydro-gymunedol yng Nghymru? OAQ(4)0364(NR)[W]</i></p> | <p><i>7. Will the Minister make a statement on hydro-community energy projects in Wales? OAQ(4)0364(NR)W</i></p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:03 | <p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank the Member for his question. Community-led hydro schemes make an important contribution to the renewable energy mix in Wales. Welsh Government is fully supportive of the sector at a time when the UK Government are slashing subsidies for renewables.</p> | <p>Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae cynlluniau ynni dŵr dan arweiniad y gymuned yn gwneud cyfraniad pwysig at y gymysgedd ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl gefnogol i'r sector ar adeg pan fo Llywodraeth y DU yn torri cymorthdaliadau ynni adnewyddadwy.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |

- 14:03 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Wel, rŷch chi'n llygad eich lle, Weinidog, oherwydd mae gweithredoedd diweddar Llywodraeth San Steffan wedi taflu nifer o'r prosiectau hynny I fyny i'r awyr a dweud y lleiaf. Nid oes fawr o 'prospect' I nifer ohonyn nhw erbyn hyn, ar ôl blynyddoedd o waith paratoi—dod â phobl ynghyd, datblygu cynlluniau busnes, chwilio am ganiatâd cynllunio ac yn y blaen—a nawr maen nhw'n ffeindio eu hunain mewn sefyllfa lle mae'n annhebygol y bydd y prosiectau hynny'n mynd yn eu blaenau. A gaf I ofyn, felly, pa ystyriaeth mae Llywodraeth Cymru wedi ei rhoi I gamu i'r adwy er mwyn achub rhai o'r prosiectau hyn, yn hytrach na'u bod nhw'n mynd i'r gwellt?
- Well, you are absolutely right, Minister, because the recent actions of the Westminster Government have thrown many of those projects up into the air to say the least. There's little prospect for many of them now after many years of preparatory work—bringing people forward, developing business plans, seeking planning consent and so on—and now they find themselves in a situation where it's unlikely that those projects will proceed. Can I ask you, therefore, what consideration the Welsh Government has given to stepping into the breach to save some of these projects, rather than seeing them fail entirely?
- 14:04 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We're still investing in many of the projects and we will launch a new renewable energy support service in the new year.
- Rydym yn dal i fuddsoddi yn llawer o'r prosiectau a byddwn yn lansio gwasanaeth cymorth newydd ar gyfer ynni adnewyddadwy yn y flwyddyn newydd.
- 14:04 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I'm very pleased that the construction of the hydro scheme in Radyr weir on the River Taff in my constituency of Cardiff North has now actually started. I have mentioned this in this Chamber before. This will, in fact, generate enough electricity to power 550 homes. This is actually done in conjunction with the private sector. But it will also bring in about £140,000 into the city every year, as well as generating the electricity. So, doesn't he agree that this sort of scheme has very wide-ranging benefits and that the Government must do all it possibly can to encourage them?
- Rwy'n falch iawn fod y gwaith o adeiladu cynllun ynni dŵr cored Radur ar Afon Taf yn fy etholaeth, sef Gogledd Caerdydd, bellach wedi dechrau. Rwyf wedi crybwyll hyn yn y Siambr hon o'r blaen. Mewn gwirionedd, bydd yn cynhyrchu digon o drydan i bweru 550 o gartrefi. Fe'i gwneir ar y cyd â'r sector preifat, ond bydd hefyd yn dod â thua £140,000 i mewn i'r ddinas bob blwyddyn, yn ogystal â chynhyrchu trydan. Felly, onid yw'n cytuno bod manteision eang iawn i'r math hwn o gynllun, a bod yn rhaid i'r Llywodraeth wneud popeth y gall i'w hannog?
- 14:05 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Indeed. This is one example of a great hydro scheme that we have invested in as Welsh Government; there are many across Wales. That's why it's most disappointing that the UK Government have changed the feed-in tariff and the proposal around renewable energy, which is of great concern to us here. But what we can't do is just relax our intervention here, we must double our efforts to make sure that we can pursue, with vigour, the opportunity for green growth here in Wales and provide renewable energy, which we think is a great possibility, despite the issues that the UK Government presents.
- Yn wir. Dyma enghraifft o gynllun ynni dŵr gwych yr ydym ni fel Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi ynddo; ceir llawer ohonynt ledled Cymru. Dyna pam ein bod mor siomedig fod Llywodraeth y DU wedi newid y tariff cyflenwi trydan a'r cynnig yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy, sy'n destun pryder mawr i ni yma. Ond yr hyn na allwn ei wneud yw llacio ein hymyrraeth yma. Mae'n rhaid i ni ddyblu ein hymdrechion i wneud yn siŵr y gallwn fanteisio, gydag egni, ar y cyfle i sicrhau twf gwyrdd yma yng Nghymru a darparu ynni adnewyddadwy, sy'n creu posibiliadau gwych yn ein barn ni, er gwaethaf y problemau y mae Llywodraeth y DU yn eu creu.
- 14:05 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- May I endorse all that you've said, Minister, this afternoon? These are really first-rate schemes, but they do differ very much in size. There are several in my region: a very successful one in Monmouth and a very small one near Llanarth, but the one in Crumlin is having immense difficulty in coming forward—it is not of a particular scale, but there could be huge community benefits at a local level. I look forward to your initiative next month—sorry, in the new year, but will you emphasise that it applies to small schemes as well as the larger ones?
- A gaf fi ategu pob dim rydych wedi'i ddweud y prynhawn yma, Weinidog? Mae'r rhain yn gynlluniau o'r radd flaenaf, ond maent yn amrywio'n fawr o ran eu maint. Mae yna sawl un yn fy rhanbarth: un llwyddiannus iawn yn Nhrefynwy ac un bach iawn ger Llanarth, ond mae'r un yng Nghrymlyn yn cael anhawster mawr i ddatblygu—nid yw'n arbennig o fawr, ond gallai fod manteision cymunedol enfawr ar lefel leol. Edrychaf ymlaen at eich menter y mis nesaf—mae'n ddrwg gennyf, yn y flwyddyn newydd, ond a bnewch chi bwysleisio ei fod yn berthnasol i gynlluniau bach yn ogystal â'r rhai mwy o faint?

I can assure the Member that we are looking holistically in terms of the schemes that we present. I would hope that the Member could support us with conversations we're still having with the UK Government in terms of opportunities for Wales and for Scotland, indeed, working with our Celtic partners in terms of opportunities that we may wish to pursue here that they may not wish to pursue in England. I think there's an ability for us to work together to try and achieve that.

Gallaf sicrhau'r Aelod ein bod yn edrych yn gyfannol ar y cynlluniau rydym yn eu cyflwyno. Byddwn yn gobeithio y gallai'r Aelod ein cefnogi yn y sgyrsiau rydym yn dal i'w cael gyda Llywodraeth y DU o ran cyfleoedd ar gyfer Cymru ac ar gyfer yr Alban, yn wir, gan weithio gyda'n partneriaid Celtaidd o ran y cyfleoedd y gallem fod eisiau mynd ar eu trywydd yma nad ydynt o bosibl am fynd ar eu trywydd yn Lloegr. Rwy'n credu y gallwn weithio gyda'n gilydd i geisio cyflawni hynny.

14:06 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, as you have heard, Cardiff is not only home to populations of interesting wildlife, but also the Radyr weir development. But while some of these larger schemes rely on feed-in tariffs, clearly, there are schemes such as the hydro scheme in Clydach Vale that are actually used to provide energy for direct community facilities and resources. I'm wondering what the Welsh Government can do to support those smaller-scale, community-led activities that will enable local communities to resource their own equipment directly like that.

Weinidog, fel rydych wedi clywed, mae Caerdydd nid yn unig yn gartref i boblogaethau o fywyd gwylt diddorol, ond hefyd i ddatblygiad cored Radur. Ond er bod rhai o'r cynlluniau mwy o faint hyn yn dibynnu ar dariffau cyflenwi trydan, yn amlwg, mae yna gynlluniau fel y cynllun ynni dŵr yng Nghwm Clydach sy'n cael eu defnyddio i ddarparu ynni ar gyfer cyfleusterau ac adnoddau cymunedol yn uniongyrchol. Tybed beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gefnogi gweithgareddau llai o faint dan arweiniad y gymuned a fydd yn galluogi cymunedau lleol i ddarparu adnoddau ar gyfer eu cyfarpar eu hunain yn uniongyrchol fel hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, and we've invested a significant amount of funding through the Ynni'r Fro programme. We will be launching the new renewable energy support service next year. The problem we have is—as I said, the big surprise to us all was about the announcement from the UK Government, which put concern within the market, and the private investment then is really difficult to achieve. But we are trying to work with the sector. I've said we're very much open for business in terms of renewables, and we will continue to do what we can to pursue that.

Wrth gwrs, ac rydym wedi buddsoddi swm sylweddol o arian drwy raglen Ynni'r Fro. Byddwn yn lansio'r gwasanaeth cymorth newydd ar gyfer ynni adnewyddadwy y flwyddyn nesaf. Y broblem sydd gennym—fel y dywedais, y syndod mawr i ni i gyd oedd y cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU, sydd wedi peri pryder yn y farchnad, ac mae'n anodd sicrhau buddsoddiad preifat felly. Ond rydym yn ceisio gweithio gyda'r sector. Rwyf wedi dweud ein bod yn agored iawn ar gyfer busnes o ran ynni adnewyddadwy, a byddwn yn parhau i wneud yr hyn a allwn i fynd ar drywydd hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Sector Moch

The Pig Sector

14:08 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o iechyd y sector moch yng Nghymru? OAQ(4)0361(NR)

8. What assessment has the Minister made of the health of the pig sector in Wales? OAQ(4)0361(NR)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:08 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Our pig sector is small, but remains an important part of our wider agriculture industry. We provide support to all sectors of farming that require it to become sustainable and profitable. Farming Connect and the sustainable production grant are support mechanisms likely to be helpful to our pig farmers.

Mae ein sector moch yn fach, ond yn parhau i fod yn rhan bwysig o'n diwydiant amaethyddol ehangach. Rydym yn darparu cefnogaeth i bob sector amaethyddol sydd ei angen i fod yn gynaliadwy a phroffidiol. Mae Cyswllt Ffermio a'r grant cynhyrchu cynaliadwy yn systemau cefnogi sy'n debygol o fod o gymorth i'n ffermwyr moch.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:08

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very grateful to the Deputy Minister for that response. There have, in recent times, been a number of warnings about the need to improve biosecurity in the pig industry. Some commentators have even suggested that the industry faces the potential loss of millions of pounds, as well as valuable export markets, unless urgent action is taken to step up biosecurity measures. Key disease threats include porcine epidemic diarrhoea virus and African swine fever. Susanna Williamson from the Animal and Plant Health Agency has recently stressed the importance of heightening our biosecurity awareness and horizon-scanning to better identify such disease threats. In this context, Deputy Minister, what more can the Welsh Government do to improve biosecurity for the pig industry in Wales to ensure that it's put on a par with the beef and sheep sectors?

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Dirprwy Weinidog am yr ymateb hwnnw. Yn y cyfnod diweddar, cafwyd nifer o rybuddion am yr angen i wella bioddiogelwch yn y diwydiant moch. Mae rhai sylwebyddion hyd yn oed wedi awgrymu bod y diwydiant yn wynebu'r posibilrwydd o golli miliynau o bunnoedd, yn ogystal â marchnadoedd allforio gwerthfawr, oni bai bod camau brys yn cael eu rhoi ar waith i ddwysáu mesurau bioddiogelwch. Ymhlith y prif fgyrthiadau o ran clefydau, mae feirws epidemig dolur rhydd y moch a Thwymyn Affricanaidd y moch. Yn ddiweddar, pwysleisiodd Susanna Williamson o'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion pa mor bwysig yw gwella ein hymwybyddiaeth o fioddiogelwch a sganio'r gorwel i allu adnabod bygyrthiadau clefydau o'r fath yn well. Yn y cyd-destun hwn, Ddirprwy Weinidog, beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i wella bioddiogelwch ar gyfer y diwydiant moch yng Nghymru i sicrhau ei fod ar yr un lefel â'r sector cig eidion a defaid?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:09

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank you for that question, and, obviously, biosecurity is of critical importance, whatever sector of farming you are in. With regard to animal health and welfare, Hybu Cig Cymru specifically supports the pig industry to improve the quality and increase the cost-effectiveness of their farming in a sustainable way, and that does include ensuring the best possible animal health and welfare. So, they've highlighted the importance of understanding herd health and issues around its impact on production and the financial performance of farms in the discussions that they have with that particular part of the sector. They've also organised an information event for pig producers in April of this year to discuss the emerging threat from PEV, as you've just described. They've also been participating in the emergency planning work that the Office of the Chief Veterinary Officer operates here in Wales as well. So, the pig industry is very much plugged into everything that we're trying to achieve in terms of biosecurity in Wales.

Diolch i chi am y cwestiwn, ac yn amlwg, mae bioddiogelwch yn hollbwysig, waeth pa sector ffermio rydych yn rhan ohono. O ran iechyd a lles anifeiliaid, mae Hybu Cig Cymru yn cynorthwyo'r diwydiant moch yn benodol i wella ansawdd a chynyddu costeffeithiolrwydd eu ffermio mewn modd cynaliadwy, ac mae hynny'n cynnwys sicrhau'r lefel uchaf bosibl o iechyd a lles anifeiliaid. Felly, maent wedi tynnu sylw at bwysigrwydd deall materion iechyd y genfaint a materion yn ymwneud â'u heffaith ar gynhyrchiant a pherfformiad ariannol ffermydd yn y trafodaethau rhyngddynt a'r rhan benodol hon o'r sector. Maent hefyd wedi trefnu digwyddiad gwybodaeth i gynhyrchwyr moch ym mis Ebrill eleni i drafod y bygyrthiad sy'n dod i'r amlwg o enterofirysau moch (PEV), fel rydych chi newydd ei ddisgrifio. Maent hefyd wedi cyfrannu at y gwaith cynllunio at argyfwng y mae Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol yn ei wneud yma yng Nghymru hefyd. Felly, mae'r diwydiant moch yn rhan amlwg iawn o bopeth rydym yn ceisio'i gyflawni o ran bioddiogelwch yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Tariff Cyflenwi Trydan

The Feed-in Tariff

14:10

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

9. Pa asesiad sydd wedi'i wneud o effaith newidiadau i'r tariff cyflenwi trydan ar fusnesau ynni adnewyddadwy yng Nghymru? OAQ(4)0353(NR)

9. What assessment has been made of the impact of changes to the feed-in tariff on renewable energy businesses in Wales? OAQ(4)0353(NR)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for Cardiff Central for her question. We are undertaking a detailed analysis of the impacts of the changes to the feed-in tariff, and it's clear that they will have a significant impact on investment in Wales, on delivery of projects of energy generation, and on all the sectors that support their development.

Diolch i'r Aelod dros Ganol Caerdydd am ei chwestiwn. Rydym yn cynnal dadansoddiad manwl o effeithiau'r newidiadau i'r tariff cyflenwi trydan, ac mae'n amlwg y byddant yn effeithio'n sylweddol ar fuddsoddi yng Nghymru, ar gyflawni prosiectau cynhyrchu ynni, ac ar yr holl sectorau sy'n cynnal eu datblygiad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:10 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Given the huge possibilities for Wales to generate much cheaper electricity from renewables than it's currently forced to pay for from the private monopoly providers, what can be done to safeguard the skills that are at risk of disappearing as a result of the Chancellor of the Exchequer's scuppering feed-in tariff in July?
- O ystyried y posibiladau enfawr i Gymru o ran cynhyrchu trydan yn llawer rhatach o ynni adnewyddadwy na'r hyn y mae'r darparwyr monopoli preifat yn ei gorfodi i dalu amdano ar hyn o bryd, beth y gellir ei wneud i ddiogelu'r sgiliau sydd mewn perygl o ddiffannu o ganlyniad i ddileu'r tariff cyflenwi trydan gan Ganghellor y Trysorlys ym mis Gorffennaf?
- 14:11 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Well, we have written to the UK Government, and I've met with many of the sector leaders in this field. It does raise a significant concern. What I'm trying to do is encourage and give confidence to the market to say that we can still do business in Wales. We have to find alternative methods, and where there are areas where the grid connections are poor and have risks for us, maybe we should be starting to think about just local community energy schemes. But there is still an opportunity here in Wales, as I said, and in terms of planning we are open for business in renewables.
- Wel, rydym wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU, ac rwyf wedi cyfarfod â llawer o arweinwyr y sector yn y maes hwn. Mae'n destun pryder sylweddol. Yr hyn rwy'n ceisio ei wneud yw annog a rhoi hyder i'r farchnad ddweud ein bod yn dal i allu cynnal busnes yng Nghymru. Mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ddulliau amgen, ac mewn ardaloedd lle y mae'r cysylltiadau grid yn wael ac yn creu risgiau i ni, efallai y dylem ddechrau meddwl am gynlluniau ynni cymunedol lleol yn unig. Ond mae cyfle yma yng Nghymru o hyd, fel y dywedais, ac o ran cynllunio rydym ar agor ar gyfer busnes ym maes ynni adnewyddadwy.
- 14:11 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- The changes to the feed-in tariff are, of course, testament to the success of renewable energy schemes in recent years. Much of the funding for these schemes was made available by the previous Government, an opportunity that has been taken up by people at a far greater pace than ever expected. Now, I've had a number of constituents, Minister, contacting me, that have raised the issue of renewable energy projects being delayed as a result of Natural Resources Wales not responding to local authority planning applications in a timely manner. Can I ask you what you're doing to address this?
- Mae'r newidiadau i'r tariff cyflenwi trydan, wrth gwrs, yn dystiolaeth o lwyddiant cynlluniau ynni adnewyddadwy yn y blynyddoedd diwethaf. Y Llywodraeth flaenorol a roddodd lawer o'r cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn, cyfle y manteisiodd pobl arno'n llawer cyflymach nag a ddisgwyliwyd erioed. Nawr, mae nifer o etholwyr wedi cysylltu â mi, Weinidog, i sôn am yr oedi ar brosiectau ynni adnewyddadwy o ganlyniad i'r ffaith nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymateb i geisiadau cynllunio awdurdodau lleol mewn modd amserol. A gaf fi ofyn i chi beth rydych yn ei wneud i fynd i'r afael â hyn?
- 14:12 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- I agree. As the Member is a local authority member, I'm sure that he would have a view on this in terms of his own local authority holding back on some of the decisions on some very important renewable energy schemes in his area. I would not make comments on individual schemes, Llywydd, but the fact is that it is an issue that planning authorities with the authority to make plans and decisions should get on with the job; otherwise we'll remove that function from them.
- Rwy'n cytuno. Gan fod yr Aelod yn aelod o awdurdod lleol, rwy'n siŵr y byddai ganddo farn ar hyn o ran ei awdurdod lleol ei hun yn cadw rhai o'r penderfyniadau yn ôl ar rai o'r cynlluniau ynni adnewyddadwy pwysig yn ei ardal. Ni fyddwn yn gwneud sylwadau ar gynlluniau unigol, Lywydd, ond y ffaith yw y dylai awdurdodau cynllunio sydd â'r awdurdod i wneud cynlluniau a phenderfyniadau fwrw ymlaen â'r gwaith; fel arall byddwn yn mynd â'r swyddogaeth honno oddi wrthynt.
- 14:12 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Mi fydd y Gweinidog yn ymwybodol bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gobeithio mynd â'r ddeddfwriaeth hon drwy'r Senedd yn y fan honno yn ystod yr wythnosau nesaf. A gaf i ofyn i'r Gweinidog pa ymgynghoriad a fu gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru, a pha drafodaeth a fu rhwng swyddogion, cyn i'r polisi hwn gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin, a'r newid sydd yn digwydd?
- The Minister will be aware that the UK Government hopes to take this legislation through Parliament there over these next few weeks. Can I ask the Minister what consultation there has been with Welsh Government Ministers, and what discussion took place between officials before this policy was published in June, and the change that ensues as a result?

14:13

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There was minimal consultation. I will write to the Member specifically as I'm sure that he will have an interest in that, particularly about the conversations and discussions that we've had during this so-called consultation phase. The whole process has come as a surprise to the Government and as a surprise to the sector. Of course, I was interested—I didn't respond to part of the comments made by Russell George regarding the investment made by the previous Government in terms of a very popular scheme. The fact is that it was a popular scheme but it doesn't mean that it has to end now. I think, actually, if it has to be reduced, a controlled reduction would be much more beneficial to the industry and the sector and the many jobs in Wales here that rely on the renewables sector.

Ni chafwyd fawr ddim ymgynghori. Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod yn benodol gan y bydd ganddo ddi-ddordeb yn hynny, rwy'n siŵr, yn enwedig y sgrysiâu a'r trafodaethau a gawsom yn ystod y cyfnod ymgynghori fel y'i gelwir. Mae'r holl broses wedi bod yn syndod i'r Llywodraeth ac yn syndod i'r sector. Wrth gwrs, roedd gennyf ddi-ddordeb—nid ymatebais i'r rhan o'r sylwadau a wnaed gan Russell George ynghylch y buddsoddiad a wnaeth y Llywodraeth flaenorol mewn perthynas â chynllun poblogaidd iawn. Y ffaith yw ei fod yn gynllun poblogaidd, ond nid yw'n golygu bod yn rhaid iddo ddod i ben yn awr. Mewn gwirionedd, os oes yn rhaid iddo gael ei leihau, rwy'n credu y byddai lleihad dan reolaeth yn llawer mwy buddiol i'r diwydiant a'r sector a'r swyddi niferus yma yng Nghymru sy'n dibynnu ar y sector ynni adnewyddadwy.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:13

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, do you share my concern that the time that's been taken to agree a feed-in tariff for the Swansea bay tidal lagoon has had a direct impact on the decision to delay the construction of that tidal lagoon for a year? And can I ask you: what discussions have you had with the UK Government and with the relevant contracting company about that delay, and whether it is going to be a serious delay, which could threaten the future of the lagoon?

Weinidog, a ydych yn rhannu fy mhryder fod yr amser a gymerwyd i gytuno ar dariff cyflenwi trydan ar gyfer morlyn llanw bae Abertawe wedi effeithio'n uniongyrchol ar y penderfyniad i oedi'r gwaith o adeiladu'r morlyn llanw am flwyddyn? Ac a gaf fi ofyn i chi: pa drafodaethau a gawsoch gyda Llywodraeth y DU a chyda'r cwmni contractio perthnasol am yr oedi hwnnw, ac a yw'n mynd i fod yn oedi difrifol, a allai fygwth dyfodol y morlyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course. This falls under the remit of Edwina Hart in terms of that process, but I am aware that we should make sure that there is no spin in this at all. The fact that this company is seeking a strike price is the only thing that's holding this company back. Therefore, I would urge the UK Government to align the strike price as soon as possible so that we can continue with renewable sector growth in Wales.

Wrth gwrs. Daw hyn o dan gylch gwaith Edwina Hart o ran y broses honno, ond rwy'n ymwybodol y dylem wneud yn siŵr nad oes unrhyw sbin yn hyn o gwbl. Y ffaith fod y cwmni hwn yn chwilio am bris streic yw'r unig beth sy'n dal y cwmni hwn yn ôl. Felly, byddwn yn annog Llywodraeth y DU i gysoni'r pris streic cyn gynted ag y bo modd er mwyn i ni allu parhau gyda thwf y sector adnewyddadwy yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I recently visited what can only be described as a state-of-the-art eco-housing project in north Pembrokeshire. It will be Wales's first solar hamlet. The company, Western Solar, has invested greatly in developing hi-tech, low-energy affordable homes, and employing apprentices, skilled carpenters and electricians, not to mention the local supply chain of civil engineers and architects. It is a business model, of course, that was predicated on the existing feed-in tariffs, and reductions in that will be a major risk to future development. Do you agree with me, Minister, that we should be supporting innovation in the way that I have just described, rather than pulling the rug from underneath projects that are clearly within their communities?

Weinidog, yn ddiweddar ymwelais â hyn na ellir ond ei ddisgrifio fel prosiect eco-dai o'r radd flaenaf yng ngogledd Sir Benfro. Dyma fydd pentrefan solar cyntaf Cymru. Mae'r cwmni, Western Solar, wedi buddsoddi'n helaeth mewn datblygu cartrefi fforddiadwy ynni isel uwchdechnoleg, a chyflogi prentisiaid, seiri coed a thrydanwyr medrus, heb sôn am y gadwyn gyflenwi leol o beirianwyr sifil a phenseiri. Wrth gwrs, mae'n fodel busnes a oedd yn seiliedig ar y tariffau cyflenwi trydan a fodolai eisoes, a bydd cyfyngu ar y rheini'n risg fawr i ddatblygu yn y dyfodol. A ydych yn cytuno â mi, Weinidog, y dylem gefnogi arloesedd yn y ffordd rwyf newydd ei disgrifio, yn hytrach na thynnu'r tir o dan draed prosiectau sy'n amlwg eu bod o fewn eu cymunedau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

| | | | | |
|-------------------------------|--|--|---|--|
| 14:15 | Carl Sargeant Bywgraffiad Biography | <p>I absolutely agree. These are the projects that certainly we as Welsh Government would like to support more. Certainly, I know the Minister for housing is very keen to look at alternative methods of construction, and there are some things that we can look at together, but it is an issue around the feed-in tariff and how that has impacted on businesses directly, with no lead-in time or lead-out time. That's one of the concerns. One of the major factors of concern for the global economy is the environment. We have to start thinking about the way we construct buildings and do things differently. This is one of the good examples that we may be seen to lose because of actions taken by the UK Government at a moment's touch.</p> | <p>Cytunaf yn llwyr. Mae'r rhain yn brosiectau y byddem ni fel Llywodraeth Cymru yn sicr yn awyddus i'w cefnogi ymhellach. Yn sicr, rwy'n gwybod bod y Gweinidog tai yn awyddus iawn i edrych ar d dulliau amgen o adeiladu, ac mae rhai pethau y gallwn edrych arnynt gyda'n gilydd, ond mae'r tariff cyflenwi trydan yn broblem, a'r modd y mae hynny wedi effeithio ar fusnesau yn uniongyrchol, heb amser i baratoi neu i newid. Dyna un o'r pryderon. Un o'r prif ffactorau sy'n peri pryder i'r economi fyd-eang yw'r amgylchedd. Mae'n rhaid i ni ddechrau meddwl am y ffordd yr ydym yn codi adeiladau a gwneud pethau'n wahanol. Dyma un o'r enghreifftiau da y gellir ein gweld yn eu colli oherwydd yr hyn a wnaeth Llywodraeth y DU ar amrantiad.</p> | Senedd.tv Fideo Video |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | | | | |
| 14:16 | Suzy Davies Bywgraffiad Biography | <p><i>10. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae'n disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru weithio gyda chyrrff trydydd parti? OAQ(4)0362(NR)</i></p> | <p><i>10. Will the Minister provide an update on how he expects Natural Resources Wales to work with third party bodies? OAQ(4)0362(NR)</i></p> | Senedd.tv Fideo Video |
| 14:16 | Carl Sargeant Bywgraffiad Biography | <p>Natural Resources Wales works with organisations and the public, as set out in their public participation statement. Going forward, they will also be required to apply the collaboration and involvement requirements within the sustainable development principle set out in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.</p> | <p>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda sefydliadau a'r cyhoedd, fel y nodir yn eu datganiad cyfranogiad cyhoeddus. Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd gofyn iddynt hefyd gymhwyso gofynion cydweithio a chyfranogiad o fewn yr egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.</p> | Senedd.tv Fideo Video |
| 14:16 | Suzy Davies Bywgraffiad Biography | <p>Thank you very much for the answer, Minister. You may be aware, of course, of the concerns of my constituents in Gower regarding the loss of a footpath used by locals and tourists due to a breach in the defences between the freshwater and saltwater marshes at Cwm Ivy and Llanmadoc. There are competing interests here, Minister, which is why I'm asking you about this. With NRW looking at biodiversity losses and gains, the National Trust claiming it can't afford to restore the barrier, and of course the local authority being obliged to maintain a footpath that's fallen into the marsh. Bearing in mind that NRW has heritage responsibilities, and Government policy is for active lifestyles, what oversight do you have of that participation policy to make sure that a solution is reached that's agreeable to my constituents?</p> | <p>Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Weinidog. Efallai eich bod yn gwybod, wrth gwrs, am bryderon fy etholwyr yng Ngŵyr ynglŷn â cholli llwybr troed a ddefnyddir gan bobl leol a thwristiaid o ganlyniad i fwllch yn yr amddiffynfeydd rhwng dŵr croyw a chorsydd heli yng Nghwm Ivy a Llanmadoc. Ceir buddiannau sy'n cystadlu yma, Weinidog, a dyna pam rwy'n gofyn i chi ynglŷn â hyn. Gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn edrych ar golledion ac enillion bioamrywiaeth, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn honni na all fforddio adfer yr atalfa, ac wrth gwrs, yr awdurdod lleol dan orfodaeth i gynnal llwybr troed sydd wedi llithro i mewn i'r gors. O gofio bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyfrifoldebau treftadaeth, a pholisi'r Llywodraeth hon ar ffyrdd o fyw llesol, pa drosolwg sydd gennych ar y polisi cyfranogiad hwnnw er mwyn gallu sicrhau ateb sy'n bodloni fy etholwyr?</p> | Senedd.tv Fideo Video |
| 14:17 | Carl Sargeant Bywgraffiad Biography | <p>I am very familiar with the footpath the Member raises with me today. Many Members have done that also. It is something that I have asked for a report back on from NRW on the process of how they seek to achieve a resolution with other partner organisations. It would be fair to say, though, that there are mixed views from organisations seeking different things. We have to come to some local resolve on this.</p> | <p>Rwy'n gyfarwydd iawn â'r llwybr troed y mae'r Aelod yn sôn amdano heddiw. Mae llawer o'r Aelodau wedi gwneud hynny. Mae'n rhywbeth rwyf wedi gofyn am adroddiad yn ei gylch gan Cyfoeth Naturiol Cymru o ran eu proses o geisio sicrhau datrysiaid gyda sefydliadau partner eraill. Byddai'n deg dweud, fodd bynnag, fod yna safbwyntiau cymysg gan sefydliadau sydd eisiau pethau gwahanol. Mae'n rhaid i ni ddod i benderfyniad ar hyn yn lleol.</p> | Senedd.tv Fideo Video |

14:18

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm wondering how NRW work positively with campaign groups and local people. I have raised with you before, Minister, the issue with the abandoned site at Margam, the void there that is not only potentially subject to an overspill, but could also seep into the surrounding areas by other means. My constituents have tried and they've failed to embrace—. Talking to NRW, they found navigating the agency and finding the right person to speak to very, very difficult. I'm wondering how you can facilitate a discussion over this particular issue considering that one Neath Port Talbot councillor said this week that this could lead to another Aberfan if we're not careful. This is really important, Minister, and I hope that you can encourage NRW to speak with my constituents.

Tybed sut y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio'n gadarnhaol gyda grwpiau ymgyrchu a phobl leol. Rwyf wedi sôn wrthych o'r blaen, Weinidog, am yr hen safle ym Margam, y gwagle yno sydd nid yn unig yn agored i'r posibilrwydd o orlif, ond a allai hefyd lifo i'r ardaloedd cyfagos drwy ffyrdd eraill. Mae fy etholwyr wedi ceisio ac wedi methu â manteisio—. O siarad â Cyfoeth Naturiol Cymru, roeddent yn teimlo bod ymwneud â'r asiantaeth a dod o hyd i'r person iawn i siarad ag ef yn anodd iawn. Tybed sut y gallwch chi hwyluso trafodaeth ar y mater hwn o ystyried bod un o gynghorwyr Castell-nedd Port Talbot wedi dweud yr wythnos hon y gallai hyn arwain at Aberfan arall os na fyddwn yn ofalus. Mae hyn yn bwysig iawn, Weinidog, ac rwy'n gobeithio y gallwch annog Cyfoeth Naturiol Cymru i siarad gyda fy etholwyr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:18

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, it does surprise me that the Member raises this issue with me. I've never had that experience with NRW, but if the Member says that it's happening with her constituents, if she would like to write to me with detail, I will ensure that she gets a positive response.

Wel, mae'n syndod i mi fod yr Aelod yn crybwyll y mater hwn. Nid wyf erioed wedi cael profiad felly gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, ond os yw'r Aelod yn dweud ei fod yn digwydd gyda'i hetholwyr, os hoffai ysgrifennu ataf gyda'r manylion, byddaf yn sicrhau ei bod yn cael ymateb cadarnhaol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

2. Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty

[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.

14:19

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 2, which is questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty. Question 1 is from Lynne Neagle.

Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Daw cwestiwn 1 gan Lynne Neagle.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Lesddeiliaid yn Nhorfaen

Torfaen Leaseholders

14:19

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynydd a wnaed mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar lesddeiliaid yn Nhorfaen? OAQ(4)0377(CTP)

1. Will the Minister provide an update on progress made in relation to the issues affecting leaseholders in Torfaen? OAQ(4)0377(CTP)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

Thank you. My officials have fully explored the extent of this problem in Wales. The number of leasehold properties potentially affected is small. However, I do appreciate the significance for those leaseholders involved. I'm currently considering a series of options and recommendations and will issue a written statement later this month.

Diolch. Mae fy swyddogion wedi archwilio'n llawn i weld beth yw maint y broblem hon yng Nghymru. Mae nifer yr eiddo lesddaliadol a allai gael eu heffeithio yn fach. Fodd bynnag, rwy'n sylweddoli arwyddocâd hyn i'r lesddeiliaid dan sylw. Ar hyn o bryd rwy'n ystyried cyfres o opsiynau ac argymhellion a byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn ddiweddarach y mis hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I am very grateful for your support with this ongoing issue. However, as you're aware from my correspondence earlier this week, leaseholders in New Inn in my constituency are now facing new charges estimated to be at least £19,000, a huge sum of money, and as you can appreciate they are desperately worried.

I know that you reminded all social landlords in Wales of the ramifications of the Monmouth House tribunal result recently, but these latest charges have led me to believe that Bron Afon are not heeding your advice on this issue. What further steps can you urgently take to ensure that leaseholders are not hit by excessive charges, and can you provide an update on your examination of the possibility of introducing a cap on charges in Wales?

Diolch yn fawr, Weinidog. Rwy'n ddiolchgar iawn am eich cefnogaeth gyda'r broblem barhaus hon. Fodd bynnag, fel y gwyddoch o fy ngohebiaeth yn gynharach yr wythnos hon, mae lesddeiliaid yn New Inn yn fy etholaeth bellach yn wynebu taliadau newydd yr amcangyfrifir eu bod yn £19,000 fan lleiaf, swm enfawr o arian, ac fel y byddwch yn deall, maent yn poeni'n ofnadwy.

Gwn eich bod wedi atgoffa pob landlord cymdeithasol yng Nghymru ynghylch goblygiadau canlyniad y tribiwnlys ar Dŷ Trefynwy yn ddiweddar, ond mae'r taliadau diweddaraf hyn wedi fy arwain i gredu nad yw Bron Afon yn gwranddo ar eich cyngor ar y mater hwn. Pa gamau pellach y gallwch eu cymryd ar frys i sicrhau nad yw lesddeiliaid yn cael eu taro gan daliadau gormodol, ac a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eich archwiliad o'r posibilrwydd o gyflwyno cap ar daliadau yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

With your latter question, as I say, I am currently considering all of the recommendations that have come forward from officials and I will be issuing a written statement to Members later next month. I'm as anxious as you to find a way forward as quickly as possible, but I want to ensure that we have the right solution—that it's fair and just. I'm very concerned with the latest correspondence I have received from you, and I will be issuing you with a response very quickly. Also, I will remind Bron Afon again of their responsibilities.

Ar eich cwestiwn olaf, fel y dywedais, rwyf wrthi'n ystyried yr holl argymhellion sydd wedi'u cyflwyno gan swyddogion a byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig i'r Aelodau yn ddiweddarach y mis nesaf. Rwyf mor awyddus â chi i ddod o hyd i ffordd ymlaen cyn gynted ag y bo modd, ond rwyf am sicrhau ein bod yn dod o hyd i'r ateb cywir—ei fod yn deg a chyfiawn. Rwy'n bryderus iawn ynglŷn â'r ohebiaeth ddiweddaraf a gefais gennych, a byddaf yn cyhoeddi ymateb i chi'n gyflym iawn. Hefyd, byddaf yn atgoffa Bron Afon eto am eu cyfrifoldebau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:21 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank the Minister for her answer? Lynne Neagle has my full support, as she's aware, on this issue, and I'm pleased to hear you will be making a statement next month, Minister. It is completely unacceptable that, if you look at one aspect of this complex problem, leaseholders should be lumbered with bills for maintenance that effectively amounts to expensive improvements that will never prove cost-effective when they come to sell their property, and that has happened in a couple of cases. One of my constituents was asked to pay over £10,000 for improvements to a bedsit valued at less than £50,000, which would never be made up if the property was sold. Can you give us an assurance that you are going to look at the guidance to housing associations such as Bron Afon, and that you will put more pressure on them to make sure that they do act in the best possible interests of their leaseholders?

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am ei hateb? Rwy'n rhoi fy nghefnogaeth lawn i Lynne Neagle ar y mater hwn, fel y mae'n gwybod, ac rwy'n falch o glywed y byddwch yn gwneud datganiad y mis nesaf, Weinidog. Os edrychwch ar un agwedd ar y broblem gymhleth hon, mae'n gwbl annerbyniol y dylai lesddeiliaid orfod talu biliau am waith cynnal a chadw sydd i bob pwrpas yn welliannau drud na fyddant byth yn gosteffeithiol pan fyddant yn gwerthu eu heiddo, ac mae hynny wedi digwydd unwaith neu ddwy. Gofynnwyd i un o fy etholwyr dalu dros £10,000 am welliannau i fflat un ystafell sy'n werth llai na £50,000, arian na fyddai byth yn cael ei adennill wrth werthu'r eiddo. A allwch roi sicrwydd eich bod yn mynd i edrych ar y canllawiau i gymdeithasau tai megis Bron Afon, ac a fyddwch yn rhoi mwy o bwysau arnynt i wneud yn siŵr eu bod yn gweithredu er lles gorau eu lesddeiliaid?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:21 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, as I said, I have reissued guidance to them. I am currently considering—. I will be bringing forward a written statement next month. It is something that I think we absolutely have to get right, but it has to be fair for everybody.

Ie, fel y dywedais, rwyf wedi ailgyhoeddi canllawiau ar eu cyfer. Ar hyn o bryd rwy'n ystyried—. Byddaf yn cyflwyno datganiad ysgrifenedig y mis nesaf. Mae'n rhywbeth rwy'n meddwl sy'n rhaid i ni ei gael yn iawn, ond mae'n rhaid iddo fod yn deg i bawb.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Tai Fforddiadwy

Affordable Homes

| | | | |
|-------|--|---|--|
| 14:22 | <p>Mark Isherwood Bywgraffiad Biography</p> <p><i>2. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yng Nghymru? OAQ(4)0369(CTP)</i></p> | <p><i>2. How does the Welsh Government intend to increase the supply of affordable homes in Wales? OAQ(4)0369(CTP)</i></p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:22 | <p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you. Our social housing grant programme is investing over £400 million during this term of Government to increase the supply of affordable housing. We have delivered 6,890 additional affordable homes within the first three years of this administration, against our target of 10,000, which is excellent progress.</p> | <p>Diolch. Mae ein rhaglen grant tai cymdeithasol yn buddsoddi dros £400 miliwn yn ystod tymor y Llywodraeth hon i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Rydym wedi darparu 6,890 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ystod tair blynedd gyntaf y weinyddiaeth hon, yn erbyn ein targed o 10,000, sy'n gynydd ardderchog.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:22 | <p>Mark Isherwood Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you. Although a number of years have passed since the European Commission recommended a comprehensive housing reform programme to increase supply and, therefore, make housing more affordable, last month's Bevan Foundation report, 'The shape of Wales to come: Wales' economy, environment and society in 2020', said:</p> <p>'There is already a substantial shortfall between projected requirements and actual provision, with less than half the requirement being met...The biggest shortfall was in social housing'.</p> <p>Will you therefore join us, the Welsh Conservatives, in ruling out a reduction in social rents in Wales, recognising that housing associations in Wales point out that not only are rent levels already lower than in England but, were they to do so in the circumstances applying in Wales, this would further slash investment in, and supply of, new social housing?</p> | <p>Diolch. Er bod nifer o flynyddoedd wedi mynd heibio ers i'r Comisiwn Ewropeaidd argymhell rhaglen gynhwysfawr ar gyfer diwygio tai er mwyn cynyddu'r cyflenwad, a gwneud tai'n fwy fforddiadwy o ganlyniad i hynny, roedd adroddiad Sefydliad Bevan y mis diwethaf, 'The shape of Wales to come: Wales' economy, environment and society in 2020', yn dweud:</p> <p>'There is already a substantial shortfall between projected requirements and actual provision, with less than half the requirement being met...The biggest shortfall was in social housing'.</p> <p>A wnewch chi, felly, ymuno â ni, y Ceidwadwyr Cymreig, i ddiystyru gostyngiad i renti cymdeithasol yng Nghymru, gan gydnabod bod cymdeithasau tai yng Nghymru yn nodi nid yn unig bod lefelau rhenti eisoes yn is nag yn Lloegr, ond pe baent yn gwneud hynny o dan yr amgylchiadau sy'n bodoli yng Nghymru, byddai'n cyfyngu ar fuddsoddi pellach mewn tai cymdeithasol newydd a'r cyflenwad ohonynt?</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:23 | <p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Rent policy is something I'm considering at present. It's very interesting to see the Welsh Conservatives take a very different view to the UK Government.</p> | <p>Mae polisi rhent yn rhywbeth rwy'n ei ystyried ar hyn o bryd. Mae'n ddiddorol iawn gweld y Ceidwadwyr Cymreig yn arddel safbwynt gwahanol iawn i Lywodraeth y DU.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:23 | <p>Mike Hedges Bywgraffiad Biography</p> <p>Does the Minister agree with me that the two best ways of increasing the supply of affordable housing in Wales are: build council houses and end the right to buy?</p> | <p>A yw'r Gweinidog yn cytuno â mi mai'r ddwy ffordd orau o gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yng Nghymru yw: adeiladu tai cyngor a rhoi diwedd ar yr hawl i brynu?</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:23 | <p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>The short answer is 'yes'. I think it's really exciting that we're seeing councils building new council houses again. The number of new council houses built has been constrained, and will continue to be constrained by the borrowing cap, which the UK Government imposed as part of our housing revenue account subsidy exit agreement, but that has given councils the opportunity now to start building houses again. Ending right to buy and right to acquire is something, again, that will support social landlords and local authorities to go out there and build council houses, because I think it was a barrier to them doing so when they thought they could be sold two years down the line.</p> | <p>Yr ateb byr yw 'ydw'. Rwy'n credu ei bod yn wirioneddol gyffrous ein bod yn gweld cyngorau'n adeiladu tai cyngor newydd eto. Mae nifer y tai cyngor newydd a adeiladwyd wedi ei gyfyngu, a bydd yn parhau i gael ei gyfyngu gan y cap benthyca, a osodwyd gan Lywodraeth y DU yn rhan o'n cytundeb i ddod allan o system gymhorthdal y cyfrif refeniw tai, ond mae hynny wedi rhoi cyfle yn awr i'r cyngorau ddechrau adeiladu tai eto. Mae rhoi diwedd ar yr hawl i brynu a'r hawl i gaffael yn rhywbeth a fydd yn cynorthwyo landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau lleol i adeiladu tai cyngor, oherwydd credaf mai'r hyn a'u rhwystrodd rhag adeiladu tai oedd y ffaith y gellid gwerthu'r tai hynny ddwy flynedd yn ddiweddarach.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |

14:24

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n rhaid inni gofio, wrth gwrs, bod yn rhaid inni wneud tai yn fwy fforddiadwy i fyw ynddyn nhw hefyd, yn ogystal â'u cael nhw yn y lle cyntaf. Mae aelodau o'r pwyllgor amgylchedd yfory yn mynd i fod yn ymweld â Tŷ SOLCER—'Smart Operation for a Low Carbon Energy Region'—ym Mhen-y-bont, sydd, am bob £100 yr ydych yn gwario ar drydan, yn cynhyrchu gwerth £175 o drydan. Mae'n dŷ ynni positif; hynny yw, yn cynhyrchu mwy o ynni nag y mae e'n ei ddefnyddio. Mae hynny, wrth gwrs, yn golygu er, efallai, y byddai codi'r tŷ yn y lle cyntaf ychydig yn ddrutach, yn y tymor hirach mae'n mynd i fod yn creu arbedion ac, wrth gwrs, yn dod â buddiannau eraill o safbwynt swyddi, datblygiad economaidd a hefyd, wrth gwrs, buddiannau amgylcheddol. A gaf i ofyn, felly, i chi gydweithio ag aelodau eraill y Cabinet i sicrhau bod Cymru yn y dyfodol yn gweld llawer iawn mwy o dai o'r math yma yn cael eu hadeiladu, nes ein bod ni'n cyrraedd y pwynt, wrth gwrs, lle dim ond y math yma o dai sy'n cael eu codi yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We do have to bear in mind, of course, that we must make homes more affordable to live in too, as well as to purchase in the first place. Members of the environment committee will tomorrow be visiting the Smart Operation for a Low Carbon Energy Region House in Bridgend, which, for every £100 spent on electricity, produces £175-worth of electricity. It's a positive-energy home; that is it produces more energy than it uses. That, of course, means that, although building the home in the first place may be a little more expensive, in the longer term it will make savings and bring other benefits in terms of jobs, economic development and also, of course, environmental benefits. Can I ask you, therefore, for you to collaborate with other Cabinet members to ensure that, in the future, Wales sees far more homes of this kind being constructed, until we reach the point, of course, when only these kinds of homes are built in Wales?

14:25

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I think Llyr Gruffydd raises a very important point, and certainly I'm very happy to continue to work with Carl Sargeant, the Minister for Natural Resources, on this issue, and, certainly, with my engagement with house builders, that is a topic that they do want to discuss—as you said, if you make them more environmentally friendly at the beginning, you will save money down the line, and particularly when so many people are affected by fuel poverty.

Ie, rwy'n meddwl bod Llyr Gruffydd yn gwneud pwynt pwysig iawn, ac yn sicr rwy'n hapus iawn i barhau i weithio gyda Carl Sargeant, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, ar y mater hwn, ac yn sicr, gyda fy ymgysylltiad ag adeiladwyr tai, mae hwnnw'n bwnc y maent yn dymuno ei drafod—fel y dywedoch, os ydych yn eu gwneud yn fwy ecogyfeillgar ar y dechrau, byddwch yn arbed arian yn y pen draw, ac yn enwedig pan fo cymaint o bobl yn wynebu tlodi tanwydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:25

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I'm sure I'm not alone in the Chamber in having an increasing number of constituents coming to me raising queries about finding suitable affordable adapted housing for disabled people. One particular issue that comes up time and again is that many of the adaptable homes that have been offered to them are not actually fit for purpose in terms of accepting what you'd call a significant adaptation, like a hoist. In fact, one lady showed me around her beautiful adapted property in Barry a few weeks ago, but her daughter is trapped on the ground floor, because the stairs have a turn in them and it's not even possible to fit a stairlift in what is allegedly an adaptable home. So, could I ask you, Minister, what action you can take to encourage local authorities and social landlords to make sure that their adaptable affordable housing is actually fit for purpose for the lifetime needs of the people living in it?

Weinidog, rwy'n siŵr nad fi yw'r unig yn y Siambr sy'n cael nifer cynyddol o etholwyr yn dod ataf i holi ynglŷn â dod o hyd i dai fforddiadwy wedi'u haddasu ar gyfer pobl anabl. Un mater penodol sy'n codi dro ar ôl tro yw nad yw llawer o'r cartrefi wedi'u haddasu a gynigiwyd iddynt yn addas at y diben mewn gwirionedd i dderbyn yr hyn y byddech yn ei alw'n addasiad sylweddol, fel tectyn codi. Yn wir, dangosodd un wraig ei heiddo hyfryd wedi'i addasu yn y Barri i mi rai wythnosau yn ôl, ond mae ei merch yn dal i fod yn gaeth ar y llawr gwaelod, oherwydd bod tro yn y grisiau ac nid yw'n bosibl gosod lifft risiau hyd yn oed yn yr hyn yr honnir ei fod yn gartref addasadwy. Felly, a gaf fi ofyn i chi, Weinidog, pa gamau y gallwch eu rhoi ar waith i annog awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol i wneud yn siŵr bod eu tai fforddiadwy addasadwy mewn gwirionedd yn addas i'r diben ar gyfer anghenion gydol oes y bobl sy'n byw ynddynt?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:26

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, it is very important that that is the case, and also that they can be further adapted if required. Just a fortnight ago, I visited, actually, a development in Barry with Jane Hutt, the AM for the Vale of Glamorgan, where we saw within a complex of houses that had been built one house that was adapted for somebody with disability, and I think we want to see more of that and encourage more of that.

Ie, mae'n bwysig iawn fod hynny'n digwydd, a hefyd, fod modd eu haddasu ymhellach os oes angen. Bythefnos yn ôl, ymwelais â datblygiad yn y Barri gyda Jane Hutt, AC Bro Morgannwg, lle y gwelsom, mewn cyfadeilad o dai a adeiladwyd, un tŷ a addaswyd ar gyfer rhywun ag anabledd, ac rwy'n meddwl ein bod am weld mwy o hynny ac annog mwy o hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from Party Spokespeople

- 14:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- We now move to questions from the party spokespeople. First this afternoon is the Welsh Conservatives' spokesperson, Mark Isherwood.
- Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma, mae llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Mark Isherwood.
- 14:27 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Thank you. Given that the policies of successive UK Governments by definition apply throughout the UK, why do you think that last month's Bevan Foundation report, 'The shape of Wales to come', said that, if forecasts are right, Wales in 2020 will be even poorer economically, compared with the rest of the UK, there will be greater instance of ill health, and the gap in education attainment will remain?
- Diolch. O ystyried bod polisiau Llywodraethau olynol y DU drwy ddiffiniad yn berthnasol ar draws y DU, pam y credwch fod adroddiad Sefydliad Bevan y mis diwethaf, The shape of Wales to come', yn dweud, os yw'r rhagolygon yn gywir, y bydd Cymru yn 2020 hyd yn oed yn dlotach yn economaidd, o'i chymharu â gweddill y DU, y bydd mwy o salwch, ac y bydd y bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol yn parhau?
- 14:27 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Well, we know we have very specific issues that we need to address in Wales. We are doing a great deal to tackle poverty. You will be aware of our revised child poverty strategy. Here in Wales, we've kept the ambition to end child poverty by 2020, something that the UK Government have decided not to continue with, and we also have our tackling poverty action plan and our refreshed approach across Government.
- Wel, rydym yn gwybod bod gennym broblemau penodol iawn sydd angen i ni fynd i'r afael â hwy yng Nghymru. Rydym yn gwneud llawer iawn i drechu tlodi. Fe wyddoch am ein strategaeth tlodi plant ddiwygiedig. Yma yng Nghymru, rydym wedi cadw'r uchelgais i ddileu tlodi plant erbyn 2020, rhywbeth y mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu peidio â pharhau i'w wneud, ac mae gennym hefyd ein cynllun gweithredu ar drechu tlodi a'n hymagwedd newydd ar draws y Llywodraeth.
- 14:27 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Well, of course, Wales has the highest child poverty amongst the UK nations, the second highest amongst the 12 UK regions, and it's been rising since 2004. Although last month's Joseph Rowntree Foundation report, 'Monitoring Poverty and Social Exclusion in Wales 2015', found that the proportion of people living in poverty in Wales has remained unchanged at 23 per cent, this was still higher than the rate for England as a whole. Again, given that UK policies apply across the UK, how do you respond to its call for an economic strategy for Wales, including increased productivity, better jobs that offer progression, and support for families to get back into work?
- Wel, wrth gwrs, Cymru sydd â'r lefelau uchaf o dlodi plant o holl wledydd y DU, yr ail uchaf o blith 12 rhanbarth y DU, ac mae'r lefelau wedi bod yn codi ers 2004. Er bod adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree y mis diwethaf, 'Monitro Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol yng Nghymru 2015', wedi gweld bod y gyfran o bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru wedi aros yn ddigyfnewid ar 23 y cant, mae'n dal i fod yn uwch na'r gyfradd ar gyfer Lloegr gyfan. Unwaith eto, o gofio bod polisiau'r DU yn berthnasol ar draws y DU, sut rydych yn ymateb i'w galwad am strategaeth economaidd i Gymru, gan gynnwys mwy o gynhyrchiant, swyddi gwell sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer camu ymlaen, a chymorth i deuluoedd ddychwelyd i waith?
- 14:28 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Well, that is something that we are addressing. I'm working closely with the Minister for Economy, Science and Transport to ensure that the private sector, for instance, participate in our Lift programme, where we've seen over 2,000 people receive training opportunities. We've also got Communities for Work, which we've recently launched, working alongside our Communities First infrastructure.
- Wel, mae hynny'n rhywbeth rydym yn mynd i'r afael ag ef. Rwy'n gweithio'n agos gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i sicrhau bod y sector preifat, er enghraifft, yn rhan o'n rhaglen Esgyn, lle y gwelsom dros 2,000 o bobl yn cael cyfleoedd hyfforddi. Hefyd, mae gennym Cymunedau am Waith, a lanswyd gennym yn ddiweddar, gan weithio ochr yn ochr â'n seilwaith Cymunedau yn Gyntaf.

- 14:28 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course, as the Bevan Foundation pointed out, much of that need falls outside place-based schemes, such as Communities First. Given that we've had Welsh Government poverty-fighting schemes led by you and previous Labour colleagues for over 16 years, why do you think the Communities, Equality and Local Government Committee's inquiry into poverty in Wales stated that more than one in five people live in poverty in Wales, and that, since the early 2000s, the level of poverty in Wales has been static, whereas in other areas of the UK with high poverty, like north-east England, the level of poverty has fallen more than in Wales over the same period?
- Wrth gwrs, fel y nododd Sefydliad Bevan, mae llawer o'r angen hwnnw i'w weld y tu allan i gynlluniau sy'n seiliedig ar le, fel Cymunedau yn Gyntaf. O ystyried ein bod wedi cael cynlluniau ymladd tlodi Llywodraeth Cymru o dan eich arweiniad chi a'ch cydweithwyr Llafur blaenorol ers dros 16 mlynedd, pam rydych chi'n meddwl bod ymchwilliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i dlodi yng Nghymru wedi nodi bod mwy nag un o bob pump o bobl yn byw mewn tlodi yng Nghymru, ac ers y 2000au cynnar, fod lefel tlodi yng Nghymru wedi bod yn sefydlog, er bod lefelau tlodi mewn ardaloedd eraill yn y DU sydd â thlodi uchel, fel gogledd-ddwyrain Lloegr, wedi gostwng mwy nag yng Nghymru dros yr un cyfnod?
- 14:29 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, we have seen some very stubborn areas of poverty and, certainly, when you look at the Welsh index of multiple deprivation, we've seen wards that have remained in the top 10, for instance. You mentioned that we've had flagship tackling poverty programmes, such as Communities First; what we've seen recently is a change in that programme to ensure we are helping particularly younger people gain employment skills and get a route into employment. I think we need to continually look at our tackling poverty programmes to make sure that they are fit for purpose and that's what we've be doing with Communities First.
- Wel, rydym wedi gweld ardaloedd lle y ceir tlodi ystyfnig iawn ac yn sicr, pan edrychwch ar y mynegai amddifadedd lluosog, rydym wedi gweld wardiau sydd wedi parhau yn y 10 uchaf, er enghraifft. Fe sonioch ein bod wedi cael rhaglenni trechu tlodi blaenllaw, megis Cymunedau yn Gyntaf; yr hyn rydym wedi'i weld yn ddiweddar yw newid yn y rhaglen honno i sicrhau ein bod yn helpu pobl ifanc, yn enwedig, i feithrin sgiliau cyflogaeth a chael hyd i lwybr at waith. Rwy'n credu bod angen i ni edrych yn barhaus ar ein rhaglenni trechu tlodi i wneud yn siŵr eu bod yn addas at y diben a dyna beth rydym wedi'i wneud gyda Cymunedau yn Gyntaf.
- 14:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas.
- Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas.
- 14:30 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol bod yna gynnydd yn nifer y bobl sydd yn mynd ar ofyn banciau bwyd yng Nghymru. A ydych yn meddwl bod banciau bwyd nawr yn datblygu i fod yn rhan naturiol a pharhaol o'r gymdeithas yng Nghymru?
- Minister, you will be aware that there's been an increase in the number of people who use food banks in Wales. Do you believe that food banks are now developing to become a natural and permanent part of society in Wales?
- 14:30 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I certainly hope not. However, they do fantastic work. Most of them are obviously run by charities. I've visited several. One thing I have been pleased to see—I visited a food bank in Cardiff where, alongside the food bank, there were also advice services to help people. So, if somebody went in for a food parcel, they would drill down to see what other problems the person had and if there were any benefits, for instance, that they could claim.
- Wel, rwy'n bendant yn gobeithio nad ydynt. Fodd bynnag, maent yn gwneud gwaith gwych. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn amlwg yn cael eu rhedeg gan elusennau. Rwyf wedi ymweld â nifer ohonynt. Un peth rwyf wedi bod yn falch o'i weld—ymwelais â banc bwyd yng Nghaerdydd lle roedd gwasanaethau cynghori ar gael hefyd ar gyfer helpu pobl, ochr yn ochr â'r banc bwyd. Felly, os oes rhywun yn mynd i mewn i gael parcel bwyd, byddent yn edrych i weld pa broblemau eraill a oedd gan yr unigolyn ac a oedd unrhyw fudd-daliadau, er enghraifft, y gallai eu hawlio.
- 14:30 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yn yr 16 mlynedd rwyf wedi bod yn Aelod o'r Cynulliad yma, mae Llywodraeth Cymru yn gyson wedi gosod nod o fynd i'r afael â thlodi ymysg plant. Mae'n amlwg bod hynny wedi methu a bod pob ymdrech i fynd i'r afael â hynny wedi methu. Rych chi wedi cyfeirio at Gmunedau'n Gyntaf. Bwriad Cymunedau'n Gyntaf oedd trawsnewid profiadau pobl yng nghymunedau tlotaf Cymru. A ydy cymunedau pobl yng Nghymru hefyd wedi methu?
- In the 16 years that I've been a Member of this Assembly, Welsh Government has consistently set an aim of addressing child poverty. It's obvious that that has failed and that the efforts to address that have failed. You've referred to Communities First. The intention of Communities First was to transform people's experiences in the poorest communities of Wales. Has that also failed?

| | | | | |
|-------|--|--|---|--|
| 14:31 | Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography | <p>Na, I don't think so. We've seen some fantastic results in some areas of Communities First. For instance, we know 11,000 young people have improved their educational attainment from their contact with Communities First. You also have to recognise that poverty is changing. The very face of poverty is changing. We're seeing a rise of in-work poverty, for instance. But, I have to say the welfare reform coming from the UK Government is not helping us in our aim to eradicate poverty.</p> | <p>Na, nid wyf yn credu hynny. Rydym wedi gweld rhai canlyniadau gwych yn rhai o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Er enghraifft, gwyddom fod 11,000 o bobl ifanc wedi gwella eu cyrhaeddiad addysgol yn sgil eu cysylltiad â Cymunedau yn Gyntaf. Rhaid i chi hefyd gydnabod bod tlodi yn newid. Mae union natur tlodi yn newid. Rydym yn gweld cynnydd yn lefelau tlodi mewn gwaith, er enghraifft. Ond rhaid i mi ddweud nad yw'r diwygiadau lles o gyfeiriad Llywodraeth y DU yn ein helpu yn ein nod o ddileu tlodi.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:31 | Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography | <p>Rwyf yn derbyn yr hyn rŷch chi'n dweud am y polisïau o gynni sydd yn dod o San Steffan, ond am 16 mlynedd mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio mynd i'r afael â'r broblem yma o dlodi ac wedi methu â gwneud hynny. Rŷch chi'n sôn am lwyddiannau Cymunedau'n Gyntaf. Sut ydych chi'n asesu'r llwyddiannau hynny? A gaf eich cyfeirio chi'n benodol at ardal yn fetholaeth i, Pantyffynnon, sydd erbyn hyn yn teimlo eu bod nhw'n cael eu hanwybyddu yn llwyr oherwydd bod yr holl weithgareddau yn digwydd yn Llanelli oherwydd ei bod yn rhwyddach i gofnodi llwyddiannau mewn ardal drefol fel Llanelli a bod hynny, hwyrach, yn digoni eich asesiadau chi, ond nid yw'r gweithgaredd hynny yn ymledu i'r holl gymunedau tlotaf yng Nghymru?</p> | <p>I accept what you say about the austerity policies that are coming down from Westminster, but for 16 years Welsh Government have attempted to address the problem of poverty and have failed to do so. You talk about the success of Communities First. How do you assess that success? May I refer you specifically to an area in my constituency, Pantyffynnon, which by now feel that they are being totally ignored, because all the activities take place in Llanelli because it's easier to record and log successes in an urban area such as Llanelli, and that might be adequate for your assessments, but those activities do not spread out to all the poorest communities in Wales?</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:32 | Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography | <p>Well, I'm not aware of the detail about the area that you referred to, but I'd be very happy to discuss that matter with you in a meeting, if you wish.</p> | <p>Wel, nid wyf yn gwybod y manylion am yr ardal y cyfeiriwch ati, ond byddwn yn hapus iawn i drafod y mater gyda chi mewn cyfarfod, os dymunwch.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:33 | Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography | <p>Yes, tomorrow would be fine.</p> | <p>Ie, byddai yfory yn iawn.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:33 | Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography | <p>We now move to the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Peter Black.</p> | <p>Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:33 | Peter Black Bywgraffiad Biography | <p>Thank you, Presiding Officer. Minister, you'll be aware, of course, of recent research by Shelter Cymru into bed-and-breakfast accommodation and its use by homeless children. According to the Welsh Government's code of guidance, bed and breakfast is not normally regarded as suitable for families with children, pregnant women and 16 and 17-year-olds, though the Homelessness (Suitability of Accommodation) (Wales) Order 2015 does allow independent children to be accommodated in higher standard bed and breakfast for up to six weeks and in basic standard accommodation for up to two weeks. A recent BBC freedom of information request for 'Week In Week Out', however, found that over the past five years, 750 children aged 16 and 17 were sent to B&Bs in Wales. Of those, more than 100 stayed longer than the 6-week limit. Do you think that's acceptable?</p> | <p>Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, fe wyddoch, wrth gwrs, am ymchwil ddiweddar gan Shelter Cymru ar lety gwely a brewcwast a'i ddefnydd gan blant digartref. Yn ôl cod canllawiau Llywodraeth Cymru, nid ystyrir bod gwely a brewcwast fel arfer yn addas ar gyfer teuluoedd â phlant, merched beichiog a rhai 16 a 17 oed, er bod Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 yn caniatáu i blant annibynnol gael eu lletya mewn llety gwely a brewcwast safon uwch am hyd at chwe wythnos ac mewn llety safon sylfaenol am hyd at bythefnos. Fodd bynnag, gwelodd cais rhyddid gwybodaeth diweddar gan y BBC ar gyfer 'Week In Week Out', fod 750 o blant 16 a 17 oed wedi cael eu hanfon i lety gwely a brewcwast yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf. O'r rheini, arhosodd dros 100 ohonynt yn hwy na'r terfyn 6 wythnos. A ydych yn credu bod hynny'n dderbyniol?</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |

- 14:33 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 'No', is the short answer; I don't. I think, you know, we have our guidance and local authorities have a statutory duty to ensure that the accommodation they provide is suitable. We expect local authorities to provide an appropriate level of support to any young person who is placed in short-term accommodation and that's the key: it should be short term. Often, it is unsafe accommodation and it's completely inappropriate.
- 'Na', yw'r ateb byr; nid wyf yn credu hynny. Wyddoch chi, rwy'n meddwl bod gennym ein canllawiau ac mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i sicrhau bod y llety a ddarperir ganddynt yn addas. Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol ddarparu lefel briodol o gymorth i bob person ifanc a osodir mewn llety tymor byr a dyna'r allwedd: tymor byr y dylai fod. Yn aml, mae'n llety annioegel ac mae'n gwbl amhriodol.
- 14:34 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. It's very clear that among the people interviewed as part of Shelter Cymru's study were young people who had been housed in bed and breakfasts as care leavers. One man said he was exposed to drink and drugs while there, and he felt that the experience directly contributed to his subsequent substance misuse and mental health problems. The study also found that local authorities are spending up to £490 per room, per week on bed and breakfast and concluded that local authorities needed to be doing more to develop alternatives, such as volunteer host schemes, which do achieve much better outcomes and are only currently available in four local authorities in Wales. How are you able to take what best practice there is in Wales and try to spread that across all 22 councils to avoid these sorts of huge costs that have been run up by local councils?
- Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Ymhlith y bobl a gyfwelwyd yn rhan o astudiaeth Shelter Cymru, mae'n amlwg fod yna bobl ifanc a oedd wedi cael eu gosod mewn llety gwely a brecwast fel rhai sy'n gadael gofal. Dywedodd un dyn ei fod yn agored i beryglon alcohol a chyffuriau tra bu yno, a themlai fod y profiad wedi cyfrannu'n uniongyrchol at wneud iddo gamddefnyddio sylweddau yn dilyn hynny, ac at ei broblemau iechyd meddwl. Canfu'r astudiaeth hefyd fod awdurdodau lleol yn gwario hyd at £490 am bob ystafell, bob wythnos ar lety gwely a brecwast a daeth i'r casgliad fod angen i awdurdodau lleol wneud mwy i ddatblygu dewisiadau eraill, megis cynlluniau gwirfoddoli i gynnal cyfleuster, sy'n cyflawni canlyniadau llawer gwell ac sydd ar gael ar hyn o bryd mewn pedwar awdurdod lleol yn unig yng Nghymru. Sut y gallwch fanteisio ar yr arferion gorau a geir yma yng Nghymru a cheisio lleadaenu hynny ar draws pob un o'r 22 o gynghorau er mwyn osgoi'r mathau hyn o gostau enfawr sy'n wynebu cynghorau lleol?
- 14:35 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, you're quite right, there is good practice out there. We are working with the National Homelessness Network to encourage the use of schemes such as Nightstop, where a young person stays with a host family on a short-term basis, as an alternative to B&B. I'm also committed to reviewing the code of guidance on allocation of accommodation and homelessness before next March. I'm going to invite views from all stakeholders, across Wales, on all aspects of the guidance, and that includes emergency accommodation.
- Wel, rydych chi'n hollol iawn, mae yna arferion da i'w cael. Rydym yn gweithio gyda'r Rhwydwaith Digartrefedd Cenedlaethol i annog y defnydd o gynlluniau megis Lloches Dros Nos, lle y mae person ifanc yn aros gyda theulu ar sail tymor byr, fel dewis amgen yn lle gwely a brecwast. Rwyf wedi ymrwymo hefyd i adolygu'r cod canllawiau ar ddyrannu llety a digartrefedd cyn mis Mawrth nesaf. Rwy'n mynd i wahodd sylwadau gan yr holl randdeiliaid ledled Cymru ar bob agwedd ar y canllawiau, ac mae hynny'n cynnwys llety mewn argyfwng.
- 14:35 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, thank you for that, Minister. One of the recommendations—or the key recommendation—of the Shelter Cymru report is that the Welsh Government sets a target for a total ban on placing independent 16 and 17-year-olds in unsupported bed and breakfasts, set in the context of a continuous strategic reduction in bed-and-breakfast use for all homeless households. Would you be willing to endorse that objective, and try and come back—either to the committee, or to Plenary—with a timescale by which you can actually implement it?
- Wel, diolch i chi am hynny, Weinidog. Un o'r argymhellion—neu'r prif argymhelliad—yn adroddiad Shelter Cymru yw y dylai Llywodraeth Cymru bennu targed ar gyfer gosod gwaharddiad llwyr ar roi pobl ifanc annibynnol 16 a 17 oed mewn llety gwely a brecwast digymorth, yng nghyd-destun gostyngiad strategol parhaus yn y defnydd o wely a brecwast ar gyfer pob teulu digartref. A fydddech yn fodlon cymeradwyo'r amcan hwnnw, a cheisio dod ag amserlen naill ai i'r pwyllgor, neu'r Cyfarfod Llawn i nodi erbyn pryd y gallwch roi hyn ar waith mewn gwirionedd?
- 14:36 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I'm certainly happy to consider that.
- Rwy'n sicr yn hapus i ystyried hynny.
- 14:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move back to questions on the paper, and question 3 is from Gwenda Thomas.
- Symudwn yn ôl yn awr at y cwestiynau ar y papur, a daw cwestiwn 3 gan Gwenda Thomas.

Diwrnod Rhyngwladol yr Undebau Credyd

International Credit Union Day

14:36

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. I need to make a declaration of interest, in that I am a member of Neath Port Talbot Credit Union.

3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i nodi diwrnod rhyngwladol yr undebau credyd? OAQ(4)0372(CTP)

Diolch, Lywydd. Mae angen i mi wneud datganiad o fuddiant gan fy mod yn aelod o Undeb Credyd Castell-nedd Port Talbot.

3. Will the Minister make a statement on actions taken by the Welsh Government to note international credit union day? OAQ(4)0372(CTP)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:36

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. I too declare an interest. I am a member of a credit union.

We will be using our social media channels on International Credit Union Day to promote the good work being undertaken by credit unions across Wales. This will include reference to the celebration event to be held on 20 October, being organised by the Association of British Credit Unions.

Diolch. Rwyf innau'n datgan buddiant hefyd. Rwy'n aelod o undeb credyd.

Byddwn yn defnyddio ein cyfryngau cymdeithasol ar Ddiwrnod Rhyngwladol yr Undebau Credyd i hyrwyddo'r gwaith da sy'n cael ei wneud gan undebau credyd ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys cyfeiriad at y digwyddiad dathlu sydd i'w gynnal ar 20 Hydref, ac sy'n cael ei drefnu gan Gymdeithas Undebau Credyd Prydain.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:36

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. Will you join with me in congratulating Neath Port Talbot Credit Union, which has recently celebrated its tenth birthday? Since starting from scratch, in 2005, Neath Port Talbot Credit Union has grown to almost 10,000 members, provided over £8 million in affordable loans, achieved financial sustainability, and has begun paying its staff the living wage. Do you agree with me that such commitment to providing affordable financial services in our communities is to be supported?

Diolch yn fawr, Weinidog. A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch Undeb Credyd Castell-nedd Port Talbot sydd wedi dathlu ei ddegfed pen-blwydd yn ddiweddar? Ers dechrau o ddim yn 2005, mae Undeb Credyd Castell-nedd Port Talbot wedi tyfu i bron 10,000 o aelodau. Mae wedi darparu dros £8 miliwn mewn benthyciadau fforddiadwy, wedi sicrhau cynaliadwyedd ariannol, ac wedi dechrau talu'r cyflog byw i'w staff. A ydych yn cytuno y dylid cefnogi ymrwymiad o'r fath i ddarparu gwasanaethau ariannol fforddiadwy yn ein cymunedau?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:37

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, absolutely. That's a very impressive list of achievements, and I would like to congratulate Neath Port Talbot Credit Union on their 10-year anniversary, and for all their hard work across Neath and Port Talbot. You'll be aware that we've committed almost £2 million to support credit unions, and it's very pleasing to hear of the success of your particular credit union.

Ydw, yn bendant. Dyna restr drawiadol iawn o gyflawniadau, a hoffwn longyfarch Undeb Credyd Castell-nedd Port Talbot ar eu pen-blwydd yn ddeg oed, ac am eu holl waith caled ar draws Castell-nedd a Phort Talbot. Fe fyddwch yn ymwybodol ein bod wedi ymrwymo bron i £2 filiwn tuag at gefnogi undebau credyd, ac mae'n braf iawn clywed am lwyddiant eich undeb credyd chi.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:37

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could I also declare an interest? I am a member of two credit unions in my region.

One of the easiest and least costly actions that the Welsh Government can take to support International Credit Union Day is to encourage its considerable workforce, in its various locations across Wales, to save with a local credit union through direct payroll contributions. You may have an answer today, Minister, but, if not, would you write to Members to let us know what percentage of Welsh Government employees have signed up to saving through direct payroll contributions?

A gaf fi hefyd ddatgan buddiant? Rwy'n aelod o ddau undeb credyd yn fy rhanbarth.

Un o'r camau hawsaf a lleiaf costus y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i gefnogi Diwrnod Rhyngwladol yr Undebau Credyd yw annog ei gweithlu sylweddol, yn ei hamrywiol leoliadau ledled Cymru, i gynilo gydag undeb credyd lleol drwy gyfraniadau uniongyrchol drwy'r gyflogres. Efallai fod gennych ateb heddiw, Weinidog, ond os nad oes, a wnewch chi ysgrifennu at yr Aelodau i roi gwybod i ni pa ganran o weithwyr Llywodraeth Cymru sydd wedi ymrwymo i gynilo drwy gyfraniadau uniongyrchol drwy'r gyflogres?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:38 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, I'd be happy to write to Members with the percentage, but it is something we've had a particular focus on. We've had credit unions visiting all our Welsh Government offices. It's also something that's been taken up by my ministerial colleagues, within their portfolios, also. But, I'd be very happy to write to Members with the specific percentage.

lawn, byddwn yn hapus i ysgrifennu at yr Aelodau yn nodi'r ganran, ond mae'n rhywbeth rydym wedi canolbwyntio'n benodol arno. Rydym wedi cael undebau credyd yn ymweld â'n holl swyddfeydd Llywodraeth Cymru. Mae fy nghyd-Weinidogion wedi bod yn edrych arno hefyd o fewn eu portffolios. Ond byddwn yn hapus iawn i ysgrifennu at yr Aelodau yn nodi'r ganran benodol.

14:38 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I also need to declare an interest as a member of LASA (Loans and Savings Abertawe) Credit Union, and also say that I'm a local councillor—especially with regard to my last question, in fact.

Mae angen i minnau hefyd ddatgan buddiant fel aelod o LASA (Undeb Credyd Benthyciadau ac Arbedion Abertawe), a dweud hefyd fy mod yn gynghorydd lleol—yn enwedig mewn perthynas â fy nghwestiwn olaf, mewn gwirionedd.

Minister, would you agree with me that a vibrant, innovative, and growing Welsh credit union sector is a vital part of the Welsh financial landscape, and that, as a consequence, the Welsh Government needs to renew its credit union strategy, which lapsed in 2013? What are you doing to engage with the two trade associations that represent the vast majority of Welsh credit unions on this very important issue?

Weinidog, a fydddech yn cytuno bod sector undebau credyd bywiog ac arloesol sy'n tyfu yn rhan hanfodol o dirwedd ariannol Cymru, ac o ganlyniad, fod angen i Lywodraeth Cymru adnewyddu ei strategaeth undebau credyd, a ddaeth i ben yn 2013? Beth rydych yn ei wneud i ymgysylltu â'r ddwy gymdeithas fasnach sy'n cynrychioli'r mwyafrif helaeth o undebau credyd yng Nghymru ar y mater pwysig hwn?

14:38 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

What I will be doing is bringing forward a new strategy. That's being currently worked up with officials, and they are working with the trade societies that you referred to.

Yr hyn y byddaf yn ei wneud yw cyflwyno strategaeth newydd. Mae gwaith yn digwydd ar hynny ar hyn o bryd gyda fy swyddogion, ac maent yn gweithio gyda'r cymdeithasau masnach y cyfeirioch chi atynt.

Cefnogi'r Sector Wirfoddol

Supporting the Voluntary Sector

14:39 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

4. *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r sector wirfoddol yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0371(CTP)*

4. *What is the Welsh Government doing to support the voluntary sector in west Wales? OAQ(4)0371(CTP)*

14:39 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Government is committed to supporting the third sector, which makes a vital contribution across our Welsh communities. I have agreed over £1 million core funding for county voluntary councils and volunteer centres in west Wales this year, as part of total funding for the third sector—over £300 million per year.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gefnogi'r trydydd sector, sy'n gwneud cyfraniad hanfodol ar draws cymunedau Cymru. Rwyf wedi cytuno i roi mwy na £1 miliwn o gyllid craidd i gynghorau gwirfoddol sirol a chanolfannau gwirfoddoli yng ngorllewin Cymru eleni, yn rhan o'r cyfanswm cyllid ar gyfer y trydydd sector—dros £300 miliwn y flwyddyn.

14:39 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I'm grateful to the Minister for that answer. Now, Minister, I recently had the privilege of visiting HOPE, a great local charity that supports people living with MS, and other serious conditions. The charity is, of course, largely funded by the generosity of local people, and makes such a difference to local patients and their families. Given the importance of this charity, what is the Welsh Government doing to help protect the sustainability of particularly small local voluntary organisations like this to make them sustainable in the future?

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Nawr, Weinidog, yn ddiweddar, cefais y ffrind o ymweld â HOPE, elusen leol wych sy'n cefnogi pobl sy'n byw gyda sglerosis ymledol, a chyflyrau difrifol eraill. Wrth gwrs, ariannir yr elusen yn bennaf drwy haelioni pobl leol, ac mae'n gwneud cymaint o wahaniaeth i gleifion lleol a'u teuluoedd. O ystyried pwysigrwydd yr elusen hon, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i ddiogelu cynaliadwyedd mudiadau gwirfoddol lleol arbennig o fach fel yr elusen hon i'w gwneud yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol?

14:40

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It's very important that the funding that we give to the third sector is used in the most sustainable manner possible. I'm not aware of the specific charity to which you refer, but I think we can safely say that the success of any society is dependent on all parts working together and it's very good to hear of that particular charity. We know that we need the third sector and particular charities to support us as a Government; we can't do everything on our own. But, I think the sustainability of charities is very important; I don't want to see one fail and then a similar one open within a very short space of time. So, I think sustainability is something that we work very hard to ensure is going on out there.

Mae'n bwysig iawn fod y cyllid a rown i'r trydydd sector yn cael ei ddefnyddio yn y modd mwyaf cynaliadwy posibl. Nid wyf yn ymwybodol o'r elusen benodol y cyfeirwch ati, ond rwy'n meddwl y gallwn ddweud yn sicr fod llwyddiant unrhyw gymdeithas yn dibynnu ar bob rhan yn gweithio gyda'i gilydd ac mae'n dda iawn clywed am yr elusen arbennig hon. Gwyddom ein bod angen i'r trydydd sector ac elusennau penodol ein cefnogi ni fel Llywodraeth; ni allwn wneud popeth ar ein pen ein hunain. Ond rwy'n meddwl bod cynaliadwyedd elusennau'n bwysig iawn; nid wyf am weld un yn methu, ac yna un debyg yn dechrau o fewn cyfnod byr iawn o amser. Felly, rwy'n meddwl bod cynaliadwyedd yn rhywbeth rydym yn gweithio'n galed iawn i sicrhau ei fod yn digwydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:40

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, un o'r cyfleoedd sydd gyda ni gyda mudiadau elusennol yw'r ffordd y maen nhw'n gallu, yn y pen draw, arbed arian i wladwriaeth drwy ddod yn gynnar i mewn i broblemau a drwy gynnal pobl sydd ar goll, i bob pwrpas. Rwyf wedi ymweld sawl gwaith â chlwb ieuencid Dr M'z yng Nghaerfyrddin sydd yn gwneud y gwaith yna gyda phobl ifanc sydd heb sgiliau, a phobl ifanc sy'n chwilio am eu cyfeiriad mewn bywyd, a phobl ifanc sydd jest eisiau bod yn rhan o'r gymuned, ac maen nhw'n pontio yn effeithiol iawn yn fanna. Rwy'n deall, wrth gwrs, y cyd-destun o doriadau cyllidol, ond beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod awdurdodau lleol, a'r sector yn gyffredinol, yn edrych ar gefnogi rhai o'r mentrau yma, sydd mor bwysig i gynnal gwe ein cymdeithas ni?

Minister, one of the opportunities we have with charitable organisations is the way in which they can ultimately save money for the state by addressing problems at an early stage and supporting people who are in difficulties. I've visited Dr M'z youth club in Carmarthen that does that work with young people who don't have skills, and young people who are looking for a direction in life, and also young people who just want to be part of their community, and they bridge very effectively there. I understand the context of cuts that we're facing currently, but what's the Government doing to ensure that local authorities, and the sector more generally, are looking to support some of these initiatives that are so important in maintaining the social fabric?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:41

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Obviously, the present economic climate is impacting on the third sector, as other parts of life. It's all the more important that we continue to work very closely together to maximise the impact of our shared resources and support people in communities most affected by poverty and by disadvantage and other things, such as the example that Paul Davies gave about health and the charity supporting people with MS. So, it's about ensuring that we don't duplicate—I think that's really important—but also that we make the most of our resources.

Yn amlwg, mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn effeithio ar y trydydd sector, fel ar agweddau eraill ar fywyd. Mae'n bwysicach fyth ein bod yn parhau i weithio'n agos iawn gyda'n gilydd i wneud y gorau o effaith ein hadnoddau ar y cyd a chefnogi pobl yn y cymunedau yr effeithir arnynt fwyaf gan dlodi a chan anfantais a phethau eraill, fel yr enghraifft a roddodd Paul Davies am ieuchyd a'r elusen sy'n cefnogi pobl â sglerosis ymlledol. Felly, mae'n ymwneud â sicrhau nad ydym yn dyblygu—rwy'n credu bod hynny'n hynod o bwysig—ond hefyd ein bod yn gwneud y gorau o'n hadnoddau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Asedau Cymunedol

Community Assets

14:42

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i ddiogelu asedau cymunedol ledled Cymru? OAQ(4)0368(CTP)

5. What action is the Minister taking to protect community assets across Wales? OAQ(4)0368(CTP)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:42

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I recently undertook a consultation on protecting community assets, which closed on 11 September. There were 122 responses from a good cross-section of third and private sector organisations and community groups from across Wales. I intend to make a statement next month on the findings and next steps.

Yn ddiweddar, cynhaliais ymgynghoriad ar ddiogelu asedau cymunedol, a ddaeth i ben ar 11 Medi. Cafwyd 122 o ymatebion gan drawstoriad da o sefydliadau trydydd sector a'r sector preifat a grwpiau cymunedol o bob rhan o Gymru. Rwy'n bwriadu gwneud datganiad y mis nesaf ar y canfyddiadau a'r camau nesaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:42 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for the reply, Minister. As the Welsh Government consultation on how to protect community assets, which you just mentioned, ended on 11 September this year, when does the Minister believe that she will be in a position to respond to this consultation? Does she support the call for councils to list facilities that groups could take over should they be at risk of closure, to ensure that they're not lost to the community?
- Diolch am yr ateb, Weinidog. Gan fod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar sut i ddiogelu asedau cymunedol rydych newydd ei grybwyll wedi dod i ben ar 11 Medi eleni, pa bryd y mae'r Gweinidog yn credu y bydd mewn sefyllfa i ymateb i'r ymgynghoriad hwn? A yw'n cefnogi'r alwad ar gynghorau i restru cyfleusterau y gallai grwpiau gymryd meddiant arnynt pe baent mewn perygl o gau, er mwyn sicrhau nad yw'r gymuned yn eu colli?
- 14:43 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- As I said in my original answer, I will be making a statement next month, and having some sort of register is something that we're considering.
- Fel y dywedais yn fy ateb gwreiddiol, byddaf yn gwneud datganiad y mis nesaf, ac mae cael rhyw fath o gofrestr yn rhywbeth rydym yn ei ystyried.
- 14:43 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I'm sure you'll agree with me that it's vital that our community assets the length and breadth of Wales are protected and safeguarded for the benefit of local people. What is your view of the support that our more deprived communities—many of which can be found in my constituency—will need in order to make the best use of future opportunities to protect community assets?
- Weinidog, rwy'n siwr y byddwch yn cytuno ei bod yn hanfodol fod ein hasedau cymunedol ar hyd a lled Cymru yn cael eu gwarchod a'u diogelu er budd y bobl leol. Beth yw eich barn am y gefnogaeth y bydd ei hangen ar ein cymunedau difreintiedig—mae llawer ohonynt yn fy etholaeth—er mwyn gwneud y defnydd gorau o gyfleoedd yn y dyfodol i ddiogelu asedau cymunedol?
- 14:43 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Within the consultation, we're also considering what support is needed to upskill and work with our communities. Sometimes those skills are there in some communities, but in our more deprived communities, I think we have seen that there is a gap. So, I think it's really important that we develop a range of solutions to safeguard assets and services for the long term, and that we help people who do want to take over one of their community assets.
- Yn yr ymgynghoriad, rydym hefyd yn ystyried pa gymorth sydd ei angen i uwchsgilio a gweithio gyda'n cymunedau. Weithiau mae'r sgiliau hynny yno mewn rhai cymunedau, ond yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, rwy'n meddwl ein bod wedi gweld bod yna fwlch. Felly, rwy'n credu ei bod hi'n bwysig iawn ein bod yn datblygu ystod o atebion er mwyn diogelu asedau a gwasanaethau ar gyfer y tymor hir, a'n bod yn helpu pobl sy'n dymuno cymryd meddiant ar eu hasedau cymunedol.
- 14:44 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, residents living in Tremont Road, which is the A483 north of Llandrindod, have been informed by Powys County Council that a small car park that was made available many, many years ago to ensure that they could park their cars off the trunk road, because there's no access to parking on their properties, is now to become a charged-for car park. This has caused a huge amount of alarm. The community and the residents would like to take that car park over. If the car park is a drain on council resources, they're quite happy to take that car park over and run it themselves and look after it and maintain it themselves. Would you encourage Powys County Council to engage with such initiatives by local residents, who are quite willing and able, and have the skills and capacity, to take on and manage such facilities, rather than seeing them be charged for the right to park near their home?
- Weinidog, mae trigolion sy'n byw yn Heol Tremont, sef yr A483 i'r gogledd o Landrindod, wedi cael gwybod gan Gyngor Sir Powys fod maes parcio bach a ddaeth ar gael flynyddoedd lawer yn ôl er mwyn sicrhau y gallent barcio eu ceir oddi ar y gefnffordd am nad oes lle i barcio ar eu heiddo, bellach yn mynd i fod yn faes parcio y codir tâl am ei ddefnyddio. Mae hyn wedi achosi llawer iawn o bryder. Byddai'r gymuned a'r preswylwyr yn hoffi cymryd meddiant ar y maes parcio. Os yw'r maes parcio yn draul ar adnoddau'r cyngor, maent yn ddigon hapus i gymryd meddiant ar y maes parcio a'i gynnal a gofalu amdano eu hunain. A wnewch chi annog Cyngor Sir Powys i ymgysylltu â mentrau o'r fath gan drigolion lleol, sy'n ddigon bodlon, ac yn meddu ar y sgiliau a'r gallu, i gymryd meddiant ar gyfleusterau o'r fath a'u rheoli, yn hytrach na'u gweld yn gofod talu am yr hawl i barcio ger eu cartrefi?
- 14:45 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, absolutely. I think it's the first time I've heard of a car park being looked at to be taken over by a community, but I think that seems a very sensible way forward.
- Gwnaf, yn bendant. Rwy'n credu mai dyma'r tro cyntaf i mi glywed am gymuned yn ystyried cymryd meddiant ar faes parcio, ond credaf fod honno i'w gweld yn ffordd gall iawn o fwrw ymlaen.

| | | |
|-------|---|---|
| 14:45 | Mike Hedges Bywgraffiad Biography | Senedd.tv Fideo Video |
| | <p>Regarding community asset transfer, does the Minister share my concern about the danger of community assets being lost to the community by being taken over and closed, or by being taken over by individuals interested in the building or the land value, not the community? What advice is being given to local authorities and other public bodies to stop this happening?</p> | <p>O ran trosglwyddo asedau cymunedol, a yw'r Gweinidog yn rhannu fy mhryder ynghylch y perygl y gallai cymunedau golli asedau cymunedol drwy fod pobl yn cymryd meddiant arnynt ac yn eu cau, neu drwy fod unigolion sydd â diddordeb yn yr adeilad neu werth y tir yn hytrach na'r gymuned yn cymryd meddiant arnynt? Pa gyngor sy'n cael ei roi i awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill i atal hyn rhag digwydd?</p> |
| 14:45 | Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography | Senedd.tv Fideo Video |
| | <p>Yes, I think that's a very important point, and it's very important that we're mindful of the need to protect our community assets and ensuring that any new arrangements that come forward to support the aim are very well considered. I think we also need solutions there for the long term, so, whilst asset transfer is a good way forward in some cases, not in every case, I think we need to look at each case on a case-by-case analysis.</p> | <p>Ie, rwy'n credu bod hwnnw'n bwynt pwysig iawn, ac mae'n bwysig iawn ein bod yn ymwybodol o'r angen i ddiogelu ein hasedau cymunedol a sicrhau bod unrhyw drefniadau newydd a gyflwynir i gefnogi'r nod yn cael eu hystyried yn drylwyr. Rwy'n credu ein bod hefyd angen atebion ar gyfer y tymor hir, felly, er bod trosglwyddo asedau yn ffordd dda ymlaen mewn rhai achosion, nid yw hynny'n wir ym mhob achos, ac rwy'n credu bod angen i ni edrych ar bob enghraifft a'i dadansoddi fesul achos.</p> |
| | <p>I think also you'll be aware of my previous statements regarding community assets. As I say, we're looking at the consultation now and I will be coming forward with a statement next month, but I think that the point that Mike Hedges raises is something that we need to consider going forward.</p> | <p>Rwy'n meddwl hefyd y byddwch yn ymwybodol o fy natganiadau blaenorol ar asedau cymunedol. Fel rwy'n dweud, rydym yn edrych ar yr ymgynghoriad yn awr a byddaf yn cyflwyno datganiad y mis nesaf, ond credaf fod y pwynt a wnaeth Mike Hedges yn rhywbeth y mae angen i ni ei ystyried yn y dyfodol.</p> |
| | Adfywio Trefi | Town Regeneration |
| 14:46 | Paul Davies Bywgraffiad Biography | Senedd.tv Fideo Video |
| | <p>6. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r gwaith o adfywio trefi yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0370(CTP)</p> | <p>6. What is the Welsh Government doing to support the regeneration of towns in west Wales? OAQ(4)0370(CTP)</p> |
| 14:46 | Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography | Senedd.tv Fideo Video |
| | <p>Thank you. We are supporting a business improvement district in Llanelli and in Aberystwyth. Good progress is being made with town-centre partnerships in Ammanford, Carmarthen, Fishguard and Goodwick. Llanelli is a Vibrant and Viable Places tackling poverty area and has been awarded £1 million to deliver a mixed-use development in the town centre.</p> | <p>Diolch. Rydym yn cefnogi ardal gwella busnes yn Llanelli ac yn Aberystwyth. Mae cynnydd da yn cael ei wneud gyda phartneriaethau canol tref yn Rhydaman, Caerfyrddin, Abergwaun a Wdig. Mae Llanelli yn ardal trechu tldi Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ac mae wedi cael £1 filiwn ar gyfer darparu datblygiad defnydd cymysg yng nghanol y dref.</p> |
| 14:46 | Paul Davies Bywgraffiad Biography | Senedd.tv Fideo Video |
| | <p>Minister, as I'm sure you're aware, in 2003 the Welsh Government produced a joint plan with Pembrokeshire County Council to regenerate Fishguard and, indeed, north Pembrokeshire. Clearly, this important plan wasn't implemented at the time, but, if it had been, it would have helped reinvigorate the town centre. Given your recent visit to Fishguard and given what you've just told us today, will you now commit to re-examining that plan to help the regeneration of the local area?</p> | <p>Weinidog, fel y gwyddoch, rwy'n siŵr, yn 2003 cynhyrchodd Llywodraeth Cymru gynllun ar y cyd gyda Chyngor Sir Penfro i adfywio Abergwaun, a gogledd Sir Benfro, yn wir. Yn amlwg, ni weithredwyd y cynllun pwysig hwn ar y pryd, ond pe bai wedi'i roi ar waith, byddai wedi helpu i adfywio canol y dref. O ystyried eich ymweliad diweddar ag Abergwaun ac o ystyried yr hyn rydych newydd ei ddweud wrthym heddiw, a wnewch chi ymrwymo i ailedrych ar y cynllun yn awr er mwyn helpu i adfywio'r ardal leol?</p> |

14:47 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I can certainly look at it. On my visit to Fishguard, I was very impressed with the regeneration work that had been undertaken, and I know that there was a particular issue around a pub, with which I've assisted the group looking at it; I've written to the brewery and I know that there are some meetings going forward to try and ensure that's also taken over by the group, to have a look if that can be regenerated also. But, I was very impressed with the work, particularly around the market and the traders in the town.

Yn sicr, gallaf edrych arno. Ar fy ymweliad ag Abergwaun, roeddwn yn falch iawn o'r gwaith adfywio a wnaed, a gwn fod yna broblem benodol yn ymwneud â thafarn yno, ac rwyf wedi cynorthwyo'r grŵp a edrychai ar hynny; ysgrifennais at y bragdy ac rwy'n gwybod bod rhai cyfarfodydd wedi'u trefnu er mwyn ceisio sicrhau bod y grŵp yn cymryd meddiant arni, i weld a ellir adfywio honno hefyd. Ond roeddwn yn falch iawn o'r gwaith, yn enwedig o gwmpas y farchnad a'r masnachwyr yn y dref.

Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf

The Communities First Programme

14:48 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)0375(CTP)

7. Will the Minister make a statement on the Communities First programme? OAQ(4)0375(CTP)

14:48 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you. Communities First supports people to improve their life outcomes. Last year, over 3,000 people entered employment and over 11,050 children and young people improved their academic performance. The recent independent evaluation was positive about the model of working to deliver outcomes. Communities First continues to build on these strengths and deliver positive outcomes.

Diolch. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn cynorthwyo pobl i wella'u canlyniadau mewn bywyd. Y llynedd, dechreuodd dros 3,000 o bobl mewn gwaith a llwyddodd dros 11,050 o blant a phobl ifanc i wella eu perfformiad academaidd. Roedd y gwerthusiad annibynnol yn ddiweddar yn gadarnhaol ynglŷn â'r model gweithio ar gyfer sicrhau canlyniadau. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn parhau i adeiladu ar y cryfderau hyn a chyflawni canlyniadau cadarnhaol.

14:48 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister. As you'll be well aware, some local authorities are actually facilitators for this grant funding. However, the scrutiny process is just not transparent at all. How are you working with the Minister for local government to ensure that this really important funding, where it's going through a local authority stream, is actually well scrutinised?

Diolch yn fawr, Weinidog. Fel y byddwch yn gwybod yn iawn, mae rhai awdurdodau lleol yn hwyluswyr y cyllid grant hwn. Fodd bynnag, nid yw'r broses graffu yn dryloyw o gwbl. Sut rydych yn gweithio gyda'r Gweinidog llywodraeth leol i sicrhau bod y cyllid pwysig hwn, lle y mae'n mynd drwy ffrwd awdurdod lleol, yn cael ei graffu'n dda mewn gwirionedd?

14:48 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I absolutely disagree that it's not transparent; it is very transparent. It is very, very closely monitored. Quarterly reports are submitted. So, I absolutely disagree with the Member.

Rwy'n anghytuno'n llwyr nad yw'n dryloyw; mae'n dryloyw iawn. Caiff ei fonitro'n agos iawn. Cyflwynir adroddiadau chwarterol. Felly, rwy'n anghytuno'n llwyr â'r Aelod.

14:48 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, I'm sure you'll agree with me about the practical contribution Communities First continues to make towards tackling poverty in our communities, particularly when so many people are being hit hard by the policies of the Tory UK Government. For example, I was very impressed to see the work club run by one of the clusters in my constituency, and Deputy Minister, Ken Skates, did visit not so long ago. This cluster gets people into work and then provides continued support, if needed, and the testimony from service users highlighted how life-changing this has been. Will you outline the role of Communities First in promoting employability?

Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno â mi ynghylch y cyfraniad ymarferol y mae Cymunedau yn Gyntaf yn parhau i'w wneud tuag at drechu tlodi yn ein cymunedau, yn enwedig pan fo cymaint o bobl yn cael eu taro'n galed gan bolisiau Llywodraeth Doriaidd y DU. Er enghraifft, roeddwn yn falch iawn o weld y clwb gwaith sy'n cael ei gynnal gan un o'r dystyrau yn fy etholaeth, ac fe ymwelodd y Dirprwy Weinidog, Ken Skates, â'r clwb heb fod yn hir yn ôl. Mae'r clwstr yn cael pobl i mewn i waith ac yna'n darparu cefnogaeth barhaus, os oes angen, ac roedd tystiolaeth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth yn dangos sut y mae wedi newid bywydau. A wnech chi amlinellu rôl Cymunedau yn Gyntaf yn hyrwyddo cyflogadwyedd?

14:49

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I think I attended a similar work club—it may have been in another part of your constituency—and it was very good to see that one-to-one support being given by very dedicated Communities First support staff to individuals. I think it's absolutely right—we have had much more of a focus on employability over the last year, and the programme does provide a range of practical support to people who live, as you say, in our most deprived communities, to be able to gain the skills, gain the qualifications and also the experience—and that's what the Lift programme is doing—which are absolutely vital if they're going to go on and improve employability. So, I think, between Lift and, now, the Communities for Work programme, we are going to see a drive to better employment outcomes in our deprived communities.

Gwnaf, rwy'n meddwl fy mod wedi mynychu clwb gwaith tebyg—mewn rhan arall o'ch etholaeth o bosibl—ac roedd hi'n dda iawn gweld y cymorth un i un a roddir gan staff cymorth hynod o ymroddedig Cymunedau yn Gyntaf i unigolion. Rwy'n credu ei fod yn hollol iawn—rydym wedi cael llawer mwy o ffocws ar gyflogadwyedd dros y flwyddyn ymarferol i bobl sy'n byw, fel y dywedwch, yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, i allu meithrin y sgiliau, ennill y cymwysterau a hefyd y profiad—a dyna'r hyn y mae'r rhaglen Esgyn yn ei wneud—sy'n gwbl hanfodol os ydynt yn mynd i fwrw ati i wella cyflogadwyedd. Felly, rwy'n meddwl, rhwng Esgyn a'r rhaglen Cymunedau am Waith yn awr, rydym yn mynd i weld ymgyrch i sicrhau canlyniadau cyflogaeth gwell yn ein cymunedau difreintiedig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:50

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, yn eich llythyr i mi ym mis Medi ar Dechrau'n Deg yng Nglyncorwg a Chroeserw, dywedoch chi eich bod chi'n edrych am ganfyddiadau cynnar o'r setliad ariannol gan Lywodraeth Prydain, a fydd yn cael ei ddatgan yn y datganiad ym mis Hydref gan y Canghellor. A yw hwn yn rhywbeth yr ydych chi'n edrych amdano ar gyfer elfennau eraill o'r portffolio, o ran Cymunedau'n Gyntaf a Dechrau'n Deg, er mwyn i ni ddeall ble fydddech chi'n gallu rhoi arian yn y dyfodol?

Minister, in your letter to us in September on Flying Start in Glyncorwg and Croeserw, you said you were looking for early outcomes from the financial settlement from the UK Government, and I think we're expecting a statement from the Chancellor in November. Is that something you're seeking for other elements of your portfolio also, in terms of Communities First and Flying Start, so that we can understand where you will be spending in future?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:51

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, yes, clearly, if you think of the big four spending programmes, in my portfolio, I've got Supporting People, Flying Start, Families First and Communities First. Depending on what the comprehensive spending review tells us—I don't think we can call it an autumn statement; it's more of a winter statement—and, certainly, that is posing difficulties, looking at our budget going forward, I'm going to have to closely look at all four of those programmes.

Wel, ydy, yn amlwg, os ydych yn meddwl am y pedair prif raglen wariant yn fy mhortffolio, mae gennyf Cefnogi Pobl, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Cymunedau yn Gyntaf. Yn dibynnu ar yr hyn y bydd yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yn ei ddweud wrthym—nid wyf yn credu y gallwn ei alw'n ddatganiad yr hydref; mae'n fwy o ddatganiad y gaeaf—ac mae hwnnw'n bendant yn peri anawsterau, wrth edrych ar ein cyllideb ar gyfer y dyfodol, rwy'n mynd i orfod edrych yn fanwl ar bob un o'r pedair rhaglen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Tai Cymdeithasol

Social Housing

14:51

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba mor ddigonol yw'r cyflenwad tai cymdeithasol yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(4)0373(CTP)

8. Will the Minister make a statement on the adequacy of the social housing supply in south-east Wales? OAQ(4)0373(CTP)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:51

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. We support the development of new social housing through the social housing grant and the housing finance grant. This year, £7.87 million is being invested across the South Wales East region through the social housing grant, which will support the delivery of 51 affordable housing schemes.

Diolch. Rydym yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu tai cymdeithasol newydd drwy'r grant tai cymdeithasol a'r grant cyllid tai. Eleni, buddsoddwyd £7.87 miliwn ar draws rhanbarth Dwyrain De Cymru drwy'r grant tai cymdeithasol, a fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni 51 o gynlluniau tai fforddiadwy.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:51 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that, Minister. One consequence of the UK Tories' pernicious bedroom tax is that many social housing tenants face a choice of either remaining where they are and losing benefit, or finding somewhere else to live with one or more fewer bedrooms. Unfortunately, Minister, often those smaller homes are not available. Is there any progress in south-east Wales in improving the supply of smaller homes to help deal with these problems?
- Diolch i chi, Weinidog. Un o ganlyniadau treth ystafell wely niweidiol Toriaid y DU yw bod llawer o denantiaid tai cymdeithasol yn wynebu dewis rhwng naill ai aros lle y maent a cholli budd-dal, neu ddod o hyd i rywle arall i fyw gydag un neu ragor yn llai o ystafelloedd gwely. Yn anffodus, Weinidog, yn aml nid oes cartrefi llai o'r fath ar gael. A welwyd unrhyw gynnydd yn ne-ddwyrain Cymru ar wella'r cyflenwad o gartrefi llai o faint i helpu i ymdrin â'r problemau hyn?
- 14:52 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. We certainly saw a move away from one-bedroomed and two-bedroomed houses being built previously and now we're going back to that, because, as you say, people are having to make some very tough decisions when they're faced with that very spiteful bedroom tax. As a Government, we are giving £40 million over three years, invested through the social housing grant programme to specifically target investment in one-bedroomed and two-bedroomed homes for individuals and families. I'm not aware of the specific number for the South Wales East region, but I'd be happy to write to the Member.
- Diolch. Yn sicr gwelsom symud oddi wrth y tai un a dwy ystafell wely a gâi eu hadeiladu yn flaenorol ac yn awr rydym yn mynd yn ôl at hynny, oherwydd fel y dywedwch, mae pobl yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd iawn wrth wynebu'r dreth ystafell wely sbeityd honno. Fel Llywodraeth, rydym yn rhoi £40 miliwn dros dair blynedd, i'w fuddsoddi drwy'r rhaglen grant tai cymdeithasol i dargedu buddsoddiad mewn cartrefi un a dwy ystafell wely ar gyfer unigolion a theuluoedd yn benodol. Nid wyf yn ymwybodol o'r nifer penodol ar gyfer rhanbarth Dwyrain De Cymru, ond byddwn yn hapus i ysgrifennu at yr Aelod.
- 14:53 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, a recent report by the Building Research Establishment says that Newport City Homes have more than 250 cases in their social housing stock where damp, mould and condensation have caused very considerable problems, resulting in some cases where families have had to be rehoused, and this has been caused by inappropriate cavity wall insulation. There have been over 1,000 cases in south Wales. What is the Welsh Government doing now to further address this important issue?
- Weinidog, mae adroddiad diweddar gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu yn dweud bod gan Cartrefi Dinas Casnewydd fwy na 250 o enghreifftiau yn eu stoc tai cymdeithasol lle y mae lleithder, llwydni ac anwedd wedi achosi problemau sylweddol iawn, gan arwain at rai achosion lle y bu'n rhaid ailgartrefu teuluoedd. Achoswyd hyn gan inswleiddiad waliau ceudod amhriodol. Cafwyd dros 1,000 o achosion yn ne Cymru. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn awr i fynd i'r afael â'r mater pwysig hwn?
- 14:53 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I'm not aware of that report, but I'd be very happy to look at it in detail and write to the Member.
- Wel, nid wyf yn ymwybodol o'r adroddiad hwnnw, ond byddwn yn hapus iawn i edrych arno'n fanwl a byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod.
- 14:53 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you very much.
- Diolch yn fawr iawn.
- 14:53 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, Minister, between 2014 and 2015, only 294 new social housing units were built in the whole of South Wales East. Just over 100 of them were, in fact, those one-bedroomed properties that my colleague, John Griffiths, says are so badly needed, and I do agree with him. Minister, one local authority—I won't say which—has over 4,500 people on its waiting list, so it's quite clear that a lot more needs to be done. How can this be acceptable to you, Minister, and please could you tell us what you are going to do about it?
- Wel, Weinidog, rhwng 2014 a 2015, dim ond 294 o unedau tai cymdeithasol newydd a adeiladwyd ar draws Dwyrain De Cymru. Ychydig dros 100 ohonynt, mewn gwirionedd, a oedd yn eiddo un ystafell wely y soniodd fy nghyd-Aelod, John Griffiths, fod cymaint o'u hangen, ac rwy'n cytuno ag ef. Weinidog, mae gan un awdurdod lleol—ni ddywedaf pa un—dros 4,500 o bobl ar ei restr aros, felly mae'n gwbl amlwg fod angen gwneud llawer mwy. Sut y gall hyn fod yn dderbyniol i chi, Weinidog, ac a fyddech cystal â dweud wrthym beth rydych yn mynd i'w wneud am y peth?

14:54

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You're quite right, there is a lot more that needs to be done and we are putting a significant amount of funding into building new homes. I've spoken in previous answers about the level—you know, £400 million through the social housing grant for affordable homes—and we've got the Welsh housing quality standard, and, again, you'll be aware of the significant amount of money that's been put into that. But, all my engagement with house builders is for the very purpose to get more homes built. So, that is a significant part of my portfolio. You'll be aware of the housing pact that was recently launched between the Welsh Government and the Home Builders Federation.

Rydych chi'n hollol iawn, mae llawer mwy sydd angen ei wneud ac rydym yn rhoi swm sylweddol o arian tuag at adeiladu cartrefi newydd. Rwyf wedi siarad mewn atebion blaenorol am y lefel—wyddoch chi, £400 miliwn drwy'r grant tai cymdeithasol ar gyfer cartrefi fforddiadwy—ac mae gennym safon ansawdd tai Cymru, ac unwaith eto, fe fyddwch yn ymwybodol o'r swm sylweddol o arian a roddwyd tuag at hynny. Ond holl bwrpas fy ymgysylltiad ag adeiladwyr tai yw sicrhau bod mwy o gartrefi yn cael eu hadeiladu. Felly, dyna ran sylweddol o fy mhortffolio. Fe fyddwch yn ymwybodol o'r cytundeb tai a lansiwyd yn ddiweddar rhwng Llywodraeth Cymru a'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Tlodi Plant

Child Poverty

14:54

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

9. *A wnaiffy Gweinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant ledled Cymru?* OAQ(4)0378(CTP)

9. *Will the Minister please make a statement on the Welsh Government's strategy to tackle child poverty across Wales?* OAQ(4)0378(CTP)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

12. *A wnaiffy Gweinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru?* OAQ(4)0379(CTP)[W]

12. *Will the Minister make a statement on Welsh Government efforts to tackle child poverty in Wales?* OAQ(4)0379(CTP)[W]

14:55

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Presiding Officer, I understand you've given your permission for questions 9 and 12 to be grouped.

Diolch. Lywydd, rwy'n deall eich bod wedi rhoi eich caniatâd i grwpio cwestiynau 9 a 12.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The 2015 child poverty strategy sets out our objectives for tackling child poverty, by reducing worklessness, increasing skills and reducing inequalities in education, health and economic outcomes. It includes two new objectives to reduce in-work poverty in Wales and to support families to increase their household income by addressing the poverty premium.

Mae strategaeth tlodi plant 2015 yn nodi ein hamcanion ar gyfer trechu tlodi plant, drwy leihau diweithdra, cynyddu sgiliau a lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli ym maes addysg, iechyd a chanlyniadau economaidd. Mae'n cynnwys dau amcan newydd i leihau tlodi mewn gwaith yng Nghymru ac i gynorthwyo teuluoedd i gynyddu incwm eu cartref drwy roi sylw i'r premiwm tlodi.

14:55

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful to the Minister for that response. The benefits for pupils from disadvantaged backgrounds having the right to claim free school meals are well known. However, it is widely acknowledged that not all children who are currently eligible to claim meals are actually doing so. This can be a particular problem for schools in rural areas and also for smaller schools, where parents may be less aware of the criteria for eligibility to claim or, in certain cases, reluctant for teachers and, indeed, their children's peers to know of their financial circumstances. This can also have a double effect in terms of the consequent underfunding of the schools when that measure was taken. In the context of this difficulty, Minister, what more can you do in partnership with Cabinet colleagues to raise awareness of the criteria for claiming free school meals and also the benefits of doing so, thereby encouraging all of those who are eligible to benefit from the scheme?

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Mae manteision yr hawl i brydau ysgol am ddim i ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn hysbys iawn. Fodd bynnag, cydnabyddir yn eang nad yw pob plentyn sy'n gymwys ar hyn o bryd i hawlio prydau yn gwneud hynny mewn gwirionedd. Gall hon fod yn broblem arbennig i ysgolion mewn ardaloedd gwledig a hefyd mewn ysgolion llai o faint, lle y gallai rhieni fod yn llai ymwybodol o'r meini prawf cymhwyster ar gyfer ei hawlio neu mewn rhai achosion, yn amharod i athrawon, a chyfoedion eu plant, yn wir, gael gwybod am eu hamgylchiadau ariannol. Gall hyn greu effaith ddwbl hefyd wrth i ysgolion gael eu tanariannu o ganlyniad i fesur yr angen am brydau ysgol am ddim. Yng nghyd-destun yr anhawster hwn, Weinidog, beth arall y gallwch ei wneud mewn partneriaeth â'ch cyd-Aelodau yn y Cabinet i godi ymwybyddiaeth o'r meini prawf ar gyfer hawlio prydau ysgol am ddim a hefyd y manteision o wneud hynny, a thrwy hynny annog pawb sy'n gymwys i fanteisio ar y cynllun?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:56 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- It is really important that everybody who is eligible for free school meals understands the criteria and is able to apply for them. I'm very happy to continue to work with my colleague the Minister for Education and Skills on this issue. If we feel a letter to schools around the guidance is necessary, we could do that. You will have heard, in my answer to Rhodri Glyn Thomas about food banks, that I mentioned, having visited the food bank in Cardiff, the advice services there, and that was actually one issue that was raised with one of the volunteers from an advice service, around the criteria. So, it's good that that's also being undertaken in different places across Wales.
- Mae'n wirioneddol bwysig fod pawb sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn deall y meini prawf ac yn gallu gwneud cais amdanynt. Rwy'n hapus iawn i barhau i weithio gyda fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y mater hwn. Os teimlwn fod angen llythyr at ysgolion ar y canllawiau, gallem wneud hynny. Byddwch wedi clywed, yn fy ateb i Rhodri Glyn Thomas am fanciau bwyd, fy mod wedi sôn, ar ôl ymweld â'r banc bwyd yng Nghaerdydd, am y gwasanaethau cynghori yno, ac roedd y meini prawf hyn yn un o'r materion a grybwyllwyd wrth un o wirfoddolwyr gwasanaeth cynghori mewn gwirionedd. Felly, mae'n dda fod hynny hefyd yn cael ei wneud mewn gwahanol leoedd ar draws Cymru.
- 14:57 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Fel y dywedoch chi wrth ateb fy nghyfaill, Rhodri Glyn Thomas, Cymunedau'n Gyntaf yw prif arf strategol y Llywodraeth er mwyn lleihau tlodi ymysg plant, ac mae'r ardaloedd hynny wedi'u diffinio, wrth gwrs, gan y 'Welsh index of multiple deprivation'. Faint o'r 100 cymuned dlotaf yna a adwaenwyd yn y rhestr wreiddiol sydd wedi codi allan o'r rhestr honno yn dilyn llwyddiant y cynllun hwn?
- In your response to Rhodri Glyn Thomas, you mentioned that Communities First is the main strategic tool of Governments to reduce child poverty, and those areas are defined, of course, by the Welsh index of multiple deprivation. How many of the 100 poorest communities included in the original list have now actually been raised out of that list as a result of the success of that project?
- 14:57 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- I don't have those figures to hand but I'll be happy to write to the Member.
- Nid oes gennyf y ffigurau hynny wrth law, ond rwy'n hapus i ysgrifennu at yr Aelod.
- 14:57 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- This week, in Manchester, we are seeing, once again, the difference between the rhetoric and reality under this Tory UK Government. They talk about supporting hard-pressed, hard-working families, whilst at the same time pressing ahead with their unfair cuts to tax credits, which the independent Institute for Fiscal Studies says could cost 3 million families across the UK an average of £1,000 per year. In the light of these and their other cuts, what assessment has the Minister made of the likely impact on child poverty of the UK Government's changes to the welfare system?
- Yr wythnos hon, ym Manceinion, gwelwn unwaith eto y gwahaniaeth rhwng rhethreg a realiti o dan Lywodraeth Doriaidd y DU. Maent yn siarad am gefnogi teuluoedd gweithgar dan bwysau, ac ar yr un pryd yn bwrw ymlaen gyda'u toriadau annheg i greddyau treth y dywed y Sefydliad Astudiaethau Cyllid annibynnol y gallent gostio £1,000 y flwyddyn ar gyfartaledd i 3 miliwn o deuluoedd ar draws y DU. Yng ngoleuni'r toriadau hyn a rhai eraill, pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith debygol newidiadau Llywodraeth y DU i'r system les ar dlodi plant?
- 14:58 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- That's a piece of work that is ongoing around all the welfare reform coming from the UK Government. Tax credits have been incredibly helpful. We've all got constituents who've told us of the benefit of tax credits, and it's very sad to see what the UK Government are doing with tax credits at the current time.
- Dyna waith sydd ar y gweill mewn perthynas â holl ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU. Mae credydau treth wedi bod yn hynod o ddefnyddiol. Mae gan bawb ohonom etholwyr sydd wedi dweud wrthym am fudd credydau treth, ac mae'n drist iawn gweld yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud gyda chredydau treth ar hyn o bryd.

14:58

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Across the UK, the proportion of children living in low-income households is at its lowest level since the 1980s, but child poverty in Wales is the highest amongst the UK nations and only falling at half the rate of England and Scotland. How do you respond to the statement by the University of Worcester's senior lecturer in early childhood at the recent Policy Forum for Wales Tackling poverty in Wales seminar? She said that child poverty is multifaceted, complex and alive and kicking in Wales today, impacting on a child's ability to reach their potential and that there is therefore a need for effective evidence-based early interventions for young and older children, moving from a one-size-fits-all approach to personalised intervention.

Lleded y DU, mae cyfran y plant sy'n byw mewn cartrefi incwm isel ar ei lefel isaf ers y 1980au, ond lefel tlodi plant yng Nghymru yw'r uchaf ymysg gwledydd y DU ac mae'n gostwng ar hanner y cyflymdra a welir yn Lloegr a'r Alban. Sut rydych yn ymateb i'r datganiad gan uwch ddarlithydd ym maes plentyndod cynnar ym Mhrifysgol Caerwrangon mewn seminar yn y Fforwm Polisi ar Drechu Tlodi yng Nghymru yn ddiweddar? Dywedodd fod tlodi plant yn amlochrog, yn gymhleth ac yn fyw ac yn iach yng Nghymru heddiw, gan effeithio ar allu plentyn i gyrraedd ei botensial ac felly, bod angen ymyriadau cynnar ar sail tystiolaeth effeithiol i blant ifanc a hŷn, gan symud o agwedd un ateb sy'n addas i bawb i ymyrraeth wedi'i phersonoli.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:59

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I absolutely agree that early intervention and preventative schemes are very important in tackling poverty. You will have heard me say in my answer to Bethan Jenkins that I'm currently having to look very closely at the spending of my early intervention programmes, such as Flying Start, such as Families First—you know, hugely successful, preventative programmes. Until we get the comprehensive spending review, we don't know what our budget will be for next year and, alongside what the UK Government are doing with welfare reform, you're really not helping us with our ambition to eradicate child poverty—an ambition we've kept and the UK Government have got rid of.

Cytunaf yn llwyr fod ymyrraeth gynnar a chynlluniau ataliol yn bwysig iawn wrth drechu tlodi. Byddwch wedi fy nghlywed yn dweud yn fy ateb i Bethan Jenkins fy mod ar hyn o bryd yn gorfod edrych yn ofalus iawn ar wariant fy rhaglenni ymyrraeth gynnar, megis Dechrau'n Deg, megis Teuluoedd yn Gyntaf—wyddoch chi, rhaglenni ataliol hynod o lwyddiannus. Hyd nes y cawn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, nid ydym yn gwybod beth fydd ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf a chyda'r hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud gyda diwygio lles, nid ydych yn ein helpu o gwbl gyda'n huchelgais i ddileu tlodi plant—uchelgais rydym wedi'i gadw ac un y mae Llywodraeth y DU wedi cael gwared arni.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mudiadau Gwirfoddol

Voluntary Organisations

15:00

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth sydd ar gael i fudiadau gwirfoddol mewn ardaloedd a oedd yn arfer bod yn rhan o'r cynllun Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)0374(CTP)[W]

10. Will the Minister make a statement on the assistance that is available to voluntary organisations in former Communities First areas? OAQ(4)0374(CTP)[W]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:00

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch. The few former Communities First areas not included in the current programme have access to the range of support I've made available for third sector organisations, including £4 million through county voluntary councils, £1.4 million in volunteering grants and £10 million through the community facilities programme.

Diolch. Mae'r ychydig ardaloedd a oedd yn arfer bod yn rhan o'r cynllun Cymunedau yn Gyntaf nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhaglen bresennol yn cael mynediad at yr ystod o gymorth rwyf wedi'i sicrhau ar gyfer mudiadau'r trydydd sector, gan gynnwys £4 miliwn drwy gynghorau gwirfoddol sirol, £1.4 miliwn mewn grantiau gwirfoddoli a £10 miliwn drwy'r rhaglen cyfleusterau cymunedol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:00

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, ers i gymuned Penparcau gollir statws Cymunedau'n Gyntaf, mae fforwm Penparcau wedi cynnal y momentwm o'r gwaith hynny ac wedi cyflawni gwaith da mewn amgylchiadau digon heriol. Fe wnaethoch chi ymweld a chwrrdd â phobl y fforwm yn ystod yr haf—rwy'n ddiolchgar am hynny—a gobeithio eich bod chi wedi gweld y gwaith maen nhw'n ceisio ei gyflawni eto o ran pobl ym Mhenparcau. Maen nhw'n awyddus iawn, fel rŷch chi'n gwybod, i ddatblygu canolfan gymunedol gyflawn yn y clwb bocsiio ym Mhenparcau. Tybed a ydych chi mewn sefyllfa i roi diweddariad i mi, ac iddyn nhw, ar ba gymorth y mae Llywodraeth Cymru'n gallu ei gynnig i fforwm Penparcau i wireddu hyn.

Minister, since the Penparcau community lost its Communities First status, the forum there has maintained the momentum of that work and has done good work in challenging circumstances. You met with members of the forum during the summer—I'm grateful for that—and I hope that you saw the work that they're endeavouring to do on behalf of the people of Penparcau. They are very eager, as you know, to develop a community centre in the boxing club in Penparcau. I wonder if you are in a situation to give me an update, and them an update, as to what support the Welsh Government can provide to the Penparcau forum to achieve this.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 15:01 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, thank you. I very much enjoyed my visit and my meeting with the members. You'll be aware, at that meeting, I offered a further meeting with my officials. I understand that that was declined on the grounds that it wasn't the correct time, but they wanted to resubmit an application for funding. I understand that has now been done and is being considered by officials and I will be receiving advice in the very near future.
- le, diolch. Mwynheais fy ymweliad yn fawr, a chyfarfod â'r aelodau. Fe fyddwch yn gwybod fy mod, yn y cyfarfod hwnnw, wedi cynnig cyfarfod pellach gyda fy swyddogion. Deallaf fod hynny wedi'i wrthod ar y sail nad oedd yr amser yn iawn, ond roeddent am ailgyflwyno cais am gyllid. Deallaf fod hyn wedi'i wneud bellach a bod swyddogion yn ystyried y mater a byddaf yn cael cyngor ganddynt yn y dyfodol agos iawn.
- 15:01 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the Lansdown area of Abergavenny in my constituency was initially designated as one of the small-scale Communities First areas. What support are you making available to the smaller former areas of Communities First, like Lansdown, where much of the drivers now for regenerating those areas has transferred to local voluntary organisations in my area under the umbrella of the Gwent Association of Voluntary Organisations?
- Weinidog, yn wreiddiol cafodd ardal Lansdown y Fenni yn fy etholaeth ei dynodi'n un o'r ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf bach. Pa gymorth rydych yn ei roi i'r hen ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf llai o faint, fel Lansdown, lle y mae llawer o'r ysgogiadau bellach ar gyfer adfywio'r ardaloedd hyn wedi cael eu trosglwyddo i fudiadau gwirfoddol lleol yn fy ardal dan ymbarél Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent?
- 15:02 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. I'm assuming they will have had their six months exit strategy funding in the first instance. We have a variety of schemes within the third sector; they're very welcome to apply for grant funding. You've just heard, in an area in Elin Jones's region, they've now put forward a bid, so they can access any funding within the third sector grants that are available.
- Diolch. Rwy'n tybio, yn y lle cyntaf, y byddant wedi cael eu cyllid strategaeth ymadael chwe mis. Mae gennym amrywiaeth o gynlluniau yn y trydydd sector; mae croeso iddynt ymgeisio am gyllid grant. Rydych newydd glywed fod ardal yn rhanbarth Elin Jones bellach wedi cyflwyno cais, er mwyn iddynt gael gafael ar gyllid o'r grantiau trydydd sector sydd ar gael.
- Rhaglen Dechrau'n Deg** **The Flying Start Programme**
- 15:02 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ehangu'r rhaglen Dechrau'n Deg yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0376(CTP)[W]*
- 11. Will the Minister make a statement on expanding the Flying Start programme in west Wales? OAQ(4)0376(CTP) [W]*
- 15:02 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. Over 37,000 children benefited from Flying Start services in Wales in 2014-15, reaching our target a year early. Good progress has been made with the expansion of the programme in west Wales, and we remain committed to delivering Flying Start to children and their families.
- Diolch. Elwodd dros 37,000 o blant ar wasanaethau Dechrau'n Deg yng Nghymru yn 2014-15, gan gyrraedd ein targed flwyddyn yn gynnar. Mae cynnydd da wedi cael ei wneud ar ehangu'r rhaglen yng ngorllewin Cymru, ac rydym yn parhau'n ymrwymedig i gyflwyno Dechrau'n Deg i blant a'u teuluoedd.

15:03

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Minister for the reply and I certainly support Flying Start and the expansion—it's an excellent programme. However, I still get constituents contacting me—most recently, for example, in the Waterloo area of Pembroke Dock—where they are very closely located to a Flying Start area, where their child misses out, and where they're unable to take advantage of Flying Start, even though they are living in the community served by the same school that Flying Start is located in—in this case, of course, the excellent Pembroke Dock primary school. What sort of advice can you give to my constituents who are in this situation, when they clearly want to take advantage of Flying Start and be part of the community that's pulling itself up from the condition it's in?

Diolch i'r Gweinidog am yr ateb ac rwy'n sicr yn cefnogi Dechrau'n Deg a'r ehangu—mae'n rhaglen ardderchog. Fodd bynnag, mae etholwyr yn dal i gysylltu â mi—yn fwyaf diweddar, er enghraifft, yn ardal Waterloo yn Noc Penfro—Ile y maent yn agos iawn at ardal Dechrau'n Deg, ac mae eu plant ar eu colled am na allant fanteisio ar Dechrau'n Deg er eu bod yn byw yn y gymuned a wasanaethir gan yr un ysgol ag y mae Dechrau'n Deg wedi'i leoli ynnddi—yn yr achos hwn, wrth gwrs, ysgol gynradd ardderchog Doc Penfro. Pa fath o gyngor y gallwch ei roi i fy etholwyr sydd yn y sefyllfa hon, a hwythau'n amlwg yn awyddus i fanteisio ar Dechrau'n Deg a bod yn rhan o'r gymuned sy'n gwella'i hun o'r cyflwr y mae ynddo?

15:03

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The thing is, it is a geographical programme and that does throw up—you're not the first Member to raise that with me—the situation that you've spoken to. One thing we have done is invest significantly in Families First, and that works outside Flying Start areas. That is a very effective multi-agency programme that supports families with a clear emphasis on prevention—again, it's another big preventative programme. So, we do have that alongside Flying Start.

Y peth yw, mae'n rhaglen ddaearyddol ac mae hynny'n creu—nid chi yw'r Aelod cyntaf i ddwyn hyn i fy sylw—y sefyllfa rydych wedi siarad amdani. Un peth rydym wedi'i wneud yw buddsoddi'n sylweddol yn ardaloedd Teuluoedd yn Gyntaf, ac mae'r cynllun hwnnw'n gweithio y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae'n rhaglen amlasiantaethol effeithiol iawn sy'n cefnogi teuluoedd gyda phwyslais clir ar atal—unwaith eto, mae'n rhaglen ataliol fawr arall. Felly, mae gennym honno ochr yn ochr â Dechrau'n Deg.

15:04

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Question 12 was grouped with question 9, so there are no more questions. Thank you, Minister.

Gwrpiwyd cwestiwn 12 gyda chwestiwn 9, felly nid oes rhagor o gwestiynau. Diolch yn fawr, Weinidog.

15:04

3. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau—Deddfwriaeth Orfodol i Sicrhau bod Diffibrilwyr ar gael ym Mhob Man Cyhoeddus

3. Debate on a Petitions Committee Report—Mandatory Welsh Legislation to Ensure Defibrillators in All Public Places

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 3, which is a debate on the Petitions Committee report on mandatory Welsh legislation to ensure defibrillators in all public places. I call on the Chair of the committee, William Powell, to move the motion—William Powell.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar deddfwriaeth orfodol i Gymru i sicrhau bod diffibrilwyr ar gael ym mhob man cyhoeddus. Galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor, William Powell, i gynnig y cynnig—William Powell.

Cynnig NDM5838 William Powell

Motion NDM5838 William Powell

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar y ddeiseb, 'Deddfwriaeth orfodol i sicrhau bod diffibrilwyr ar gael ym mhob man cyhoeddus' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Gorffennaf 2015.

Notes the report of the Petitions Committee on the petition, 'Mandatory Welsh legislation to ensure defibrillators in all public places', which was laid in the Table Office on 9 July 2015.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

15:04

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr, Lywydd. I'm very pleased indeed to be opening this debate today on the Petitions Committee report about the accessibility and use of automated external defibrillators—or AEDs—in public places in Wales.

Diolch yn fawr, Lywydd. Rwy'n falch iawn o gael agor y ddadl hon heddiw ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau am hygyrchedd a defnydd o ddifibrilwyr allanol awtomataidd (AEDs) mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru.

This petition was organised by a Mr Phil Hill and was supported by 78 other people. Mr Hill is an advanced nurse practitioner and prescriber working within the Welsh NHS. Among the main ambitions that Mr Hill had for the petition were the following: to begin to raise public awareness of AEDs to improve knowledge of who can use them and how to use them; to raise awareness amongst businesses and service providers of the benefits of providing AEDs to consumers and to their clients; to make it easier to locate public-access AEDs when they are needed; and also legislation to provide a legislative framework to ensure that AEDs are as widely available as possible and to give lay rescuers the reassurance and the protection that they need to use them and to do so with confidence.

In considering the petition, the committee wrote to a wide range of relevant bodies seeking their views. The Welsh Government, Welsh fire and rescue services, the Welsh ambulance service trust, Welsh local health boards, and, indeed, the British Heart Foundation, were amongst those we consulted. All the responses that the committee received supported the benefits of early defibrillation and the need to ensure adequate provision of AED equipment in public places across Wales.

In the light of the written responses, the committee agreed to invite the petitioner to present his proposals and, indeed, to answer questions from members of our committee. Phil Hill was accompanied by Mr Richard Lee, a clinical services manager and paramedic with the Welsh ambulance services trust, and by Ms June Thomas, a campaigner for 'Jack's Law', which aims to get defibrillators placed in all local schools. Now, the Jack's Law campaign is named after Ms Thomas's 15-year-old son, Jack, who died because of sudden cardiac arrest. I understand that Ms Thomas was hoping to attend today's debate and, indeed, she is in the public gallery, so I would wish to pay tribute to her for the way that she has campaigned so effectively and so passionately in memory of Jack.

One of the committee's concerns was to get an understanding of how difficult AEDs are to use for members of the public and whether untrained people might use them in a way that causes harm. As well as answering our questions, Phil Hill and Mr Lee gave the committee a practical demonstration of an AED in use. That demonstration provided us with the knowledge as to just how straightforward these devices are to use and how little, if any, training is needed, as the device itself provides automated instructions. If anyone has any doubts on these points, their demonstration is still available on Senedd.tv, and I would commend it to Members so that they can judge for themselves just how simple and failsafe these devices are. In his evidence, Mr Lee told us, and I quote, that defibrillators are:

'increasingly designed to be used by somebody with no formal training. The machine...gives you very clear instructions on what to do, including...telling you to remain calm and giving some reassurance to the user'.

Trefnwyd y ddeiseb hon gan Mr Phil Hill a'i chefnogi gan 78 o bobl eraill. Mae Mr Hill yn uwch-ymarferydd nyrzio a phresgripsiynydd sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru. Ymhlith y prif uchelgeisiau a oedd gan Mr Hill ar gyfer y ddeiseb oedd y canlynol: dechrau codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ddiffibrilwyr allanol awtomataidd i wella gwybodaeth ynglŷn â phwy a all eu defnyddio a sut i'w defnyddio; codi ymwybyddiaeth ymysg busnesau a darparwyr gwasanaethau o fanteision darparu diffibrilwyr allanol awtomataidd i ddefnyddwyr ac i'w cleientiaid; ei gwneud yn haws i ddod o hyd i ddiffibrilwyr allanol awtomataidd at ddefnydd cyhoeddus pan fo'u hangen; a hefyd, deddf ar gyfer darparu fframwaith deddfwriaethol i sicrhau bod diffibrilwyr allanol awtomataidd ar gael mor eang â phosibl ac i sicrhau bod achubwyr lleig yn cael y sicrwydd a'r diogelwch y maent eu hangen i'w defnyddio ac i allu gwneud hynny gyda hyder.

Wrth ystyried y ddeiseb, ysgrifennodd y pwyllgor at ystod eang o gyrff perthnasol yn gofyn am eu barn. Roedd Llywodraeth Cymru, y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru, ymddiriedolaeth gwasanaethau ambiwlans Cymru, byrddau iechyd lleol Cymru a Sefydliad Prydeinig y Galon, ymhlith y rhai yr aethom ati i ymgynghori â hwy. Roedd yr holl ymatebion a gyflwynwyd i'r pwyllgor yn cefnogi manteision diffibrilio cynnar a'r angen i sicrhau bod darpariaeth ddigonol o offer diffibrilio allanol awtomataidd ar gael mewn mannau cyhoeddus ar draws Cymru.

Yng ngoleuni'r ymatebion ysgrifenedig, cytunodd y pwyllgor i wahodd y deisebydd i gyflwyno ei gynigion ac i ateb cwestiynau gan aelodau o'n pwyllgor. Gyda Phil Hill, roedd Mr Richard Lee, rheolwr gwasanaethau clinigol a pharafeddyg gydag ymddiriedolaeth gwasanaethau ambiwlans Cymru, a Ms June Thomas, ymgyrchydd dros 'Ddeddf Jack', sy'n anelu at gael diffibrilwyr ym mhob ysgol leol. Nawr, enwyd ymgyrch Deddf Jack ar ôl mab 15 oed Ms Thomas, Jack, a fu farw oherwydd ataliad sydyn ar ei galon. Deallaf fod Ms Thomas yn gobeithio bod yn bresennol yn y ddadl heddiw ac yn wir, mae hi'n yn yr oriel gyhoeddus, felly hoffwn dalu teyrnged iddi am y ffordd y mae wedi ymgyrchu mor effeithiol ac mor angerddol er cof am Jack.

Un o orchwylion y pwyllgor oedd deall pa mor anodd yw hi i aelodau'r cyhoedd ddefnyddio diffibrilwyr allanol awtomataidd ac a oedd perygl y gallai pobl heb eu hyfforddi eu defnyddio mewn modd sy'n achosi niwed. Yn ogystal ag ateb ein cwestiynau, rhoddodd Phil Hill a Mr Lee arddangosiad ymarferol i'r pwyllgor o ddiffibriliwr allanol awtomataidd yn cael ei ddefnyddio. Dangosodd yr arddangosiad i ni pa mor hawdd yw'r dyfeisiau hyn i'w defnyddio a chyn lleied o hyfforddiant, os o gwbl, sydd ei angen, gan fod y ddyfais ei hun yn darparu cyfarwyddiadau awtomatig. Os oes gan unrhyw un amheuson o gwbl ynglŷn â'r pwyntiau hyn, mae eu harddangosiad yn dal ar gael ar Senedd.tv, a byddwn yn argymhell i'r Aelodau ei wyllo er mwyn iddynt allu barnu drostynt eu hunain pa mor syml a diogel yw'r dyfeisiau hyn. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Mr Lee wrthym fod diffibrilwyr, a dyfynnaf:

'increasingly designed to be used by somebody with no formal training. The machine...gives you very clear instructions on what to do, including...telling you to remain calm and giving some reassurance to the user'.

He went on to say:

'It is impossible to inappropriately treat a patient with an automated defibrillator...they will deliver an electric shock only to somebody whose heart has stopped and whose heart is in a particular type of rhythm when it has stopped.'

The petitioner expressed concern that there were some misconceptions amongst the public that there is a requirement to provide AEDs on health and safety grounds, for instance, and that only trained personnel can use them. It was why he felt that legislation is required.

There was also a call for emergency contact—999—centres to know the location of defibrillators. This information is currently incomplete and could be improved. As Mr Lee told us:

'A lot of companies will have...a defibrillator in their workplace, and we need to find a way to make sure that all of those are captured.'

The committee was told that each device costs approximately £1,000. The petitioners clearly believed that this represents excellent value for money. As June Thomas told us:

'Obviously, as a mum, losing a child, it is about the importance of having this equipment to save a life; £1,000 is nothing and...the public should have easy access to it so that everybody can use it.'

Mr Lee went on to tell us of one leisure centre in Wales that had resuscitated people on three occasions over the past five years. As he stated:

'That is really powerful for a device that costs £1,000'.

In the light of the evidence received, the committee agreed that we should report to the Assembly to provide an opportunity for the important issues raised to be aired more fully in this Chamber. But the committee did not want a debate simply for the sake of having one. The evidence we received convinced us of the significant benefits of AEDs and of the need to improve availability and to raise awareness. It is fair to say that we were not wholly convinced that legislation is needed at this time, but we did agree that the need for legislation should be kept under active consideration, and I'm very glad that the Welsh Government has accepted our recommendation on this point in principle.

Aeth ymlaen i ddweud:

'It is impossible to inappropriately treat a patient with an automated defibrillator...they will deliver an electric shock only to somebody whose heart has stopped and whose heart is in a particular type of rhythm when it has stopped.'

Mynegodd y deisebydd bryder fod y cyhoedd yn camdybio bod yna ofyniad i ddarparu diffibrilwyr allanol awtomataidd ar sail iechyd a diogelwch, er enghraifft, ac na all neb ond personél hyfforddedig eu defnyddio. Dyma pam y teimlai fod angen deddfwriaeth.

Roedd yna alw hefyd am ganolfannau cyswllt mewn argyfwng—999—i wybod lle y mae dod o hyd i ddiffibriliwr. Mae'r wybodaeth hon yn anghyflawn ar hyn o bryd a gellid ei gwella. Fel y dywedodd Mr Lee wrthym:

'A lot of companies will have...a defibrillator in their workplace, and we need to find a way to make sure that all of those are captured. "

Dywedwyd wrth y pwyllgor fod pob dyfais yn costio tua £1,000. Roedd y deisebwyr yn amlwg yn credu ei fod yn werth rhagorol am arian. Fel y dywedodd June Thomas wrthym:

'Obviously, as a mum, losing a child, it is about the importance of having this equipment to save a life; £1,000 is nothing and...the public should have easy access to it so that everybody can use it. '

Aeth Mr Lee ymlaen i ddweud wrthym am un ganolfan hamdden yng Nghymru a oedd wedi dadebru pobl ar dri achlysur dros y pum mlynedd diwethaf. Fel y dywedodd:

'That is really powerful for a device that costs £1,000'.

Yng ngoleuni'r dystiolaeth a gafwyd, cytunodd y pwyllgor y dylem adrodd i'r Cynulliad er mwyn rhoi cyfle i wyntyllu'r materion pwysig a drafodwyd yn llawn yn y Siambr hon. Ond nid oedd y pwyllgor am gael dadl er mwyn cael dadl yn unig. Mae'r dystiolaeth a gawsom yn ein hargyhoeddi ynghylch manteision sylweddol diffibrilwyr allanol awtomataidd ac am yr angen i wella argaeledd a chodi ymwybyddiaeth. Mae'n deg dweud nad oeddem yn gwbl argyhoeddedig fod angen deddfwriaeth ar hyn o bryd, ond roeddem yn cytuno y dylem gadw'r angen am ddeddfwriaeth dan ystyriaeth weithredol, ac rwy'n falch iawn fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn ein hargymhellid ar y pwynt hwn mewn egwyddor.

AEDs are now widely available throughout Wales. When someone goes into cardiac arrest, every minute without CPR and defibrillation may reduce their chance of survival by 10 per cent. So, defibrillators save lives and increase survival rates, and their benefits are considerable compared to the relatively modest cost, to which I've already referred. So, we were surprised to learn that not all fire engines in Wales are equipped with AED devices currently. I'm glad that the Welsh Government has also accepted our recommendation in this regard, although I do understand that they cannot compel fire and rescue authorities actually to fit them.

Many public buildings provide AEDs, and they are often prominently displayed in much the same way as firefighting equipment. From the evidence we've heard, there is widespread support from professionals—the fire, rescue, police and health services—on this point and from Government at all levels in Wales for the benefits of early defibrillation and for the widespread availability of AEDs in public places. There is already considerable provision in many locations throughout the country. Indeed some may feel that their presence has become ubiquitous. We were, therefore, also somewhat surprised to learn that there is no legal or other requirement to provide devices in public buildings.

Although they may be widely available, there is no central register of the location of these devices. The ambulance and rescue services may be unaware of a nearby device, which could assist a member of the public who has made an emergency phone call. Even local health boards do not know the locations of all AEDs in their area, particularly if they're provided independently of the health board. That is why we recommended that the Welsh Government take steps to ensure that the location of all publicly available AEDs in Wales is registered with the relevant Welsh ambulance service. I'm very glad that the Deputy Minister has accepted our recommendation on this point.

We're aware that the Welsh Government has launched 'Together for Health—a Heart Disease Delivery Plan' and that an element of that work will focus on the provision of defibrillators and adequate training in public places. We feel that some of the key concerns that we discovered as part of our consideration of this issue may contribute towards the implementation of that plan.

Erbyn hyn mae diffibrilwyr allanol awtomataidd ar gael yn eang ledled Cymru. Pan fydd rhywun yn cael ataliad ar y galon, gall pob munud heb driniaeth adfywio cardio-pwlmonaidd a diffibrilio leihau'r siawns o oroesi 10 y cant. Felly, mae diffibrilwyr yn achub bywydau, yn cynyddu cyfraddau goroesi, ac fel y dywedais eisoes, mae eu budd yn sylweddol o'i gymharu â'r gost gymharol fach. Felly, syndod oedd clywed nad yw pob injan dân yng Nghymru yn cario dyfeisiau diffibrilio allanol awtomataidd ar hyn o bryd. Rwy'n falch fod Llywodraeth Cymru hefyd wedi derbyn ein hargymhelliad yn hyn o beth, er fy mod yn deall na allant orfodi awdurdodau tân ac achub i'w gosod mewn gwirionedd.

Mae llawer o adeiladau cyhoeddus yn darparu diffibrilwyr allanol awtomataidd, ac maent yn aml yn cael eu harddangos yn amlwg yn yr un ffordd ag offer diffodd tân. O'r dystiolaeth a glywsom, mae gweithwyr proffesiynol—y gwasanaeth tân, y gwasanaeth achub, yr heddlu a gwasanaethau iechyd—a'r Llywodraeth ar bob lefel yng Nghymru yn cefnogi'r pwynt hwn yn gyffredinol, ynghyd â manteision diffibrilio cynnar a sicrwydd bod diffibrilwyr allanol awtomataidd ar gael yn gyffredinol mewn mannau cyhoeddus. Ceir darpariaeth sylweddol mewn nifer o leoliadau ar hyd a lled y wlad eisoes. Yn wir, efallai y bydd rhai'n teimlo bod eu presenoldeb wedi dod yn hollbresennol. Syndod braidd felly oedd clywed nad oes unrhyw ofyniad cyfreithiol na gofyniad arall i ddarparu dyfeisiau mewn adeiladau cyhoeddus.

Er efallai eu bod ar gael yn eang, ni cheir cofrestr ganolog i nodi lleoliad y dyfeisiau hyn. Efallai nad yw'r gwasanaethau ambiwlans ac achub yn gwybod bod dyfais ar gael yn agos a allai gynorthwyo aelod o'r cyhoedd sydd wedi gwneud galwad ffôn mewn argyfwng. Nid yw'r byrddau iechyd lleol hyd yn oed yn gwybod lle mae pob diffibriliwr allanol awtomataidd yn eu hardal, yn enwedig os ydynt wedi'u darparu yn annibynnol ar y bwrdd iechyd. Dyna pam rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi camau ar waith i sicrhau bod lleoliad pob diffibriliwr allanol awtomataidd sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru wedi ei gofrestru gyda'r gwasanaeth ambiwlans perthnasol. Rwy'n falch iawn fod y Dirprwy Weinidog wedi derbyn ein hargymhelliad ar y pwynt hwn.

Rydym yn ymwybodol fod Llywodraeth Cymru wedi lansio 'Law yn Llaw at Iechyd—Cynllun Cyflawni ar gyfer Clefyd y Galon' ac y bydd elfen o'r gwaith hwnnw'n canolbwyntio ar ddarparu diffibrilwyr a hyfforddiant digonol mewn mannau cyhoeddus. Teimlwn y gallai rhai o'r pryderon allweddol y daethom ar eu traws wrth i ni ystyried y mater hwn gyfrannu tuag at weithredu'r cynllun hwnnw.

As I've already explained, we were very pleasantly surprised at how straightforward these devices are to use. The demonstration of their use brought home to us just how simple AEDs are to use and how difficult it is to do so in a way that causes harm. That single fact is perhaps the one that struck us most effectively. There seems very little doubt that they are capable of being used by almost everyone, with very little, if any, training. Despite this, we do understand that many members of the public may be reticent to use them in real life-saving situations. I am very pleased, therefore, that the Minister has responded so positively to our recommendation to take steps to raise public awareness of the benefits of AEDs, including that untrained people can use them safely.

In concluding, Llywydd, I'd like to reiterate that the committee fully supports the main aim of the petition and recognises the considerable benefits that AEDs provide. Finally, I would like to place on record the committee's thanks to Phil Hill, the lead petitioner, for his hard work and enthusiasm on this point. I'd also like to thank the members of the committee and the staff who helped in the consideration of the petition and the production of our report, and also Mr Lee and Ms Thomas for providing such compelling evidence to our committee when they did so at the end of 2013. Diolch yn fawr.

15:14

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very pleased to take part in this debate on the committee report. I think it's very important that this has initiated a debate and certainly will raise awareness about the use of AEDs and how important they are, with such life-saving potential. I think it's very important that we do discuss this and that we're able to get rid of the misconceptions that William Powell referred to, because, as he said, these are life-saving devices that can be easily used. I think that, if that one message comes over, that is very, very important.

Fel rwyf wedi egluro eisoes, cawsom ein synnu ar yr ochr orau ynglŷn â pha mor syml yw'r dyfeisiau hyn i'w defnyddio. Dangosodd yr arddangosiad o'u defnydd i ni pa mor syml yw diffibrilwyr allanol awtomataidd i'w defnyddio a pha mor anodd yw gwneud hynny mewn modd sy'n achosi niwed. Efallai mai'r ffaith honno a wnaeth yr argraff fwyaf arnom. Ymddengys nad oes fawr o amheuaeth fod modd i bron bawb eu defnyddio, gydag ond ychydig iawn o hyfforddiant, os o gwbl. Er hynny, deallwn efallai y byddai llawer o aelodau o'r cyhoedd yn gyndyn i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd achub bywyd go iawn. Rwy'n falch iawn, felly, fod y Gweinidog wedi ymateb mor gadarnhaol i'n hargymhelliad y dylid rhoi camau ar waith i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynglŷn â manteision diffibrilwyr allanol awtomataidd, gan gynnwys y ffaith y gall pobl heb eu hyfforddi eu defnyddio'n ddiogel.

Wrth gloi, Lywydd, hoffwn ailadrodd fod y pwyllgor yn llwyr gefnogi prif nod y ddeiseb ac yn cydnabod y manteision sylweddol y mae diffibrilwyr allanol awtomataidd yn eu cynnig. Yn olaf, hoffwn gofnodi diolch y pwyllgor i Phil Hill, y prif ddeisebydd, am ei waith caled a'i frwdfrydedd ynglŷn â'r mater hwn. Hoffwn hefyd ddiolch i aelodau'r pwyllgor ac i'r staff a fu'n helpu wrth i ni ystyried y ddeiseb a chynhyrchu ein hadroddiad, a hefyd i Mr Lee a Ms Thomas am ddarparu tystiolaeth mor gryf i'n pwyllgor pan wnaethant hynny ar ddiwedd 2013. Diolch yn fawr.

Rwy'n falch iawn i gymryd rhan yn y ddatl hon ar adroddiad y pwyllgor. Credaf ei bod yn bwysig iawn fod hyn wedi cychwyn datl, a bydd yn sicr o godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r defnydd o ddiffibrilwyr allanol awtomataidd a pha mor bwysig ydynt, gyda'r fath botensial i achub bywydau. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i ni drafod hyn a'n bod yn gallu cael gwared ar y camdybiaethau y cyfeiriodd William Powell atynt, oherwydd, fel y dywedodd, mae'r rhain yn ddyfeisiau achub bywyd sy'n hawdd eu defnyddio. Yn anad yr un arall, rwy'n credu bod honno'n neges bwysig iawn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I wanted to use the opportunity of this debate to highlight the work of Dr Gareth Roberts, who works at the University Hospital of Wales and is an anaesthetist and pre-hospital emergency medicine doctor. In his spare time, he worked on a project to teach students and children in Wales how to use CPR and publicly-accessible defibrillators. He did this between 2014 and 2015 for about 15 months, and his team of 200 volunteers taught over 3,000 students in 25 schools over Wales. I was very pleased to introduce him at the start of his project to schools in my constituency, and he carried out training in Cathays High School, Corpus Christi High School and Hawthorn Primary School, and certainly during that period of time, during that training, one life was saved by what he did. But his project was particularly unique in that the training was carried out by healthcare professionals in the NHS, which included doctors, nurses and paramedics, and they were doing it all on a voluntary basis, and they were doing it in their spare time. I was really struck by how enthusiastic he was—so enthusiastic about doing this. He said that the other health professionals who worked with him were equally enthusiastic and enjoyed working with the young people. I felt that this scheme that he ran for 15 months was a really very high-quality scheme that did bring life-saving equipment into use. He did start with the help of a local charity, Welsh Hearts, who provided administrative support, but he himself has been to see me recently to say that he would be very keen to extend a scheme like this where you are using health service professionals, because he says that many of them are prepared to do this sort of work in their spare time, and it only needs a small amount of funding.

So, it does seem to me that there's a huge amount of goodwill about developing the use of AEDs that could be harnessed among the medical professions, and of course we all know of the voluntary bodies who save up to provide these pieces of equipment all over Wales. I support very strongly what the committee says—that it is really important to know where all these defibrillators are, so that certainly the ambulance service has got an idea of where they are all over Wales. That in itself could be life-saving. The important thing, I think, as the Chair's already said, is to get over the fear that people have of using them. It's very easy to understand that the public will think that you have to have a certain skill to use them, but I think the Chair made the point very well that, when the heart has stopped, there's probably not much harm—any harm, or very little harm—that you could possibly do if you use the defibrillators.

So, I support the recommendations of the committee. I do think this is an area where, working with the voluntary sector and the goodwill of professionals, we could extend enormously the use of AEDs, which would be life-saving. So, thank you very much.

Roeddwn i eisiau defnyddio'r cyfle y mae'r ddadl hon yn ei gynnig i dynnu sylw at waith Dr Gareth Roberts, sy'n gweithio yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac sy'n anesthetydd ac yn feddyg meddygaeth frys cyn mynd i'r ysbyty. Yn ei amser hamdden, bu'n gweithio ar brosiect i addysgu myfyrwyr a phlant yng Nghymru sut i ddefnyddio triniaeth adfywio cardio-pwlmonaidd a diffibrilwyr at ddefnydd y cyhoedd. Gwnaeth hyn rhwng 2014 a 2015 am tua 15 mis, a dysgodd ei dîm o 200 o wirfoddolwyr dros 3,000 o fyfyrwyr mewn 25 o ysgolion ledled Cymru. Roeddwn yn falch iawn o'i gyflwyno ar ddechrau ei brosiect i ysgolion yn fy etholaeth i, a chynhaliodd hyfforddiant yn Ysgol Uwchradd Cathays, Ysgol Uwchradd Corpus Christi ac Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen, ac yn sicr, yn ystod y cyfnod hwnnw, yn ystod yr hyfforddiant, achubwyd un bywyd gan yr hyn a wnaeth. Ond roedd ei brosiect yn arbennig o unigryw am fod yr hyfforddiant yn cael ei roi gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y GIG, a oedd yn cynnwys meddygon, nyrsys a pharafeddygon, ac roeddent yn gwneud y cyfan ar sail wirfoddol, ac yn eu hamser hamdden. Cefais fy nharo'n fawr gan ei frwdfrydedd—roedd mor frwdfrydig ynglŷn â gwneud hyn. Dywedodd fod y gweithwyr iechyd proffesiynol eraill a weithiai gydag ef yr un mor frwdfrydig ac yn mwynhau gweithio gyda'r bobl ifanc. Roeddwn yn teimlo fod y cynllun, a gynhaliwyd ganddo dros 15 mis yn un o ansawdd gwirioneddol uchel a sicrhaodd fod cyfarpar achub bywyd yn cael ei ddefnyddio. Dechreuodd gyda chymorth elusen leol, Calonnau Cymru, a ddarparai gefnogaeth weinyddol, ond bu ef ei hun yn fy ngweld yn ddiweddar i ddweud y byddai'n awyddus iawn i ymestyn cynllun fel hwn lle rydych yn defnyddio gweithwyr proffesiynol y gwasanaeth iechyd, oherwydd mae'n dweud bod llawer ohonynt yn barod i wneud y math hwn o waith yn eu hamser hamdden, ac ni fyddai angen swm mawr o arian ar ei gyfer.

Felly, mae'n ymddangos i mi fod yna lawer iawn o ewyllys da'n bodoli tuag at ddatblygu'r defnydd o ddiffibrilwyr allanol awtomataidd, ewyllys da y gellid manteisio arno ymhlith y proffesiynau meddygol, ac wrth gwrs rydym i gyd yn gwybod am y cyrff gwirfoddol sy'n codi arian i ddarparu cyfarpar o'r fath ar hyd a lled Cymru. Rwy'n cefnogi'n fawr iawn yr hyn y mae'r pwyllgor yn ei ddweud—ei bod yn bwysig iawn gwybod lle mae'r holl ddiffibrilwyr hyn, fel bod gan y gwasanaeth ambiwlans, yn bendant, syniad lle y maent ym mhob rhan o Gymru. Gallai hynny ynddo'i hun achub bywydau. Y peth pwysig, rwy'n meddwl, fel y dywedodd y Cadeirydd eisoes, yw dod dros yr ofn sydd gan bobl o'u defnyddio. Mae'n hawdd iawn deall y bydd y cyhoedd yn meddwl bod rhaid i chi feddu ar sgiliau penodol i'w defnyddio, ond rwy'n meddwl bod y Cadeirydd wedi gwneud y pwynt yn dda iawn, pan fydd y galon wedi stopio, nid yw'n debygol fod yna lawer o niwed—unrhyw niwed, neu ond ychydig iawn o niwed—y gallai fod yn bosibl i chi ei wneud os ydych yn defnyddio'r diffibrilwyr.

Felly, rwy'n cefnogi argymhellion y pwyllgor. Rwy'n credu bod hwn yn faes lle y gallem ehangu'r defnydd o ddiffibrilwyr allanol awtomataidd yn enfawr gan weithio gyda'r sector gwirfoddol ac ewyllys da gweithwyr proffesiynol, ac achub bywydau. Felly, diolch yn fawr iawn.

Could I also thank the petitioner and the Petitions Committee for bringing this matter before the Assembly? Fewer than 10 per cent of people who suffer a cardiac arrest outside of the hospital environment will survive to be subsequently discharged from hospital. Those are the British Heart Foundation figures from a few years ago, if I remember them rightly, but my recent conversations with co-responders in my region suggest that the number of victims who survive a cardiac arrest outside the hospital environment may be as low as just 3 per cent.

As we heard, with each minute that passes in cardiac arrest before defibrillation, the chances of survival are reduced by about 10 per cent. A lack of blood circulation for just a few minutes can lead to irreversible brain damage. Of course, sometimes nothing can be done to save someone from one of the country's greatest killers, but I think people across Wales have decided now that they must do something to improve the odds. On Monday, I was talking to somebody in Brecon who told me that the local Freemasons there had installed a defibrillator on the outside of their building. Yesterday, I heard that the friends of Gnoll park in Neath in my region are planning to buy a defibrillator. Last week, I spoke to the chairman of a community council in Gower in my region about what they and a number of neighbouring community councils were doing, which is acquiring defibrillators for accessible buildings throughout their rural area. And they were doing that in partnership with the charity Cariad of Llanelli, which was providing the machines while local co-responders were helping with the awareness-raising and training. So, whether it's in a co-ordinated way, in line with the heart delivery plan, Minister, or more sporadically through active communities and organisations, I think it's fair to say that society is catching up with the value of defibrillators and society wants them in as many places as possible—not just public places either, but publicly accessible private land like that Freemasons building I was talking about.

So, I am pleased that the petitioner has not made this just about the Government providing machines. He recognised that these can be funded through private or charitable funds as well as the NHS. Someone in trouble isn't really going to care who bought the defibrillator—only that it is there. If citizens feel a direct responsibility for being part of the wider provision of these life-saving machines, then they are more likely to know where they are and be trained to operate them, ensuring just a little extra capacity in the community as a whole to save lives.

The machines—and I've seen more than one model, actually—are pretty straightforward to use. Some are simpler than others, but I accept the petitioner's point that some basic training on how to use these machines means that the device is used more effectively.

A gaf fi hefyd ddiolch i'r deisebydd a'r Pwyllgor Deisebau am ddod â'r mater gerbron y Cynulliad? Mae nifer y bobl sy'n dioddef ataliad ar y galon y tu allan i amgylchedd yr ysbty ac sy'n goroesi i gael eu rhyddhau o'r ysbty wedyn yn llai na 10 y cant. Dyna oedd ffigurau Sefydliad Prydeinig y Galon ychydig flynyddoedd yn ôl, os cofiaf yn iawn, ond mae fy sgysiau gyda chyd-ymatebwyr yn fy rhanbarth yn ddiweddar yn awgrymu y gall nifer y dioddefwyr sy'n goroesi ataliad ar y galon y tu allan i amgylchedd yr ysbty fod mor isel â 3 y cant yn unig.

Fel y clywsom, gyda phob munud sy'n pasio o ataliad ar y galon cyn diffibrilio, mae'r gobaiht o oroesi yn lleihau tua 10 y cant. Gall diffyg cylchrediad gwaed am ychydig funudau'n unig arwain at niwed na ellir ei wella i'r ymennydd. Wrth gwrs, weithiau nid oes dim y gellir ei wneud i achub rhywun rhag un o laddwyr mwyaf y wlad, ond rwy'n meddwl bod pobl ledled Cymru wedi penderfynu yn awr fod yn rhaid iddynt wneud rhywbeth i wella'u gobaiht o oroesi. Ddydd Llun, roeddwn yn siarad â rhywun yn Aberhonddu a ddywedodd wrthyf fod y Seiri Rhyddion lleol yno wedi gosod diffibriliwr ar y tu allan i'w hadeilad. Ddoe, clywais fod cyfeillion Parc y Gnoll yng Nghastell-nedd yn fy rhanbarth yn bwriadu prynu diffibriliwr. Yr wythnos diwethaf, bûm yn siarad â chadeirydd cyngor cymuned yng Ngŵyr yn fy rhanbarth am yr hyn y maent hwy a nifer o gynghorau cymuned cyfagos yn ei wneud, sef caffael diffibrilwyr ar gyfer adeiladau hygyrch ledled eu hardal wledig. Ac roeddent yn gwneud hynny mewn partneriaeth â'r elusen Cariad o Lanelli, a ddarparai'r peiriannau tra bo cyd-ymatebwyr lleol yn helpu i godi ymwybyddiaeth a rhoi hyfforddiant. Felly, boed mewn ffordd gydlynol, yn unol â'r cynllun cyflawni ar gyfer y galon, Weinidog, neu'n fwy gwasgaredig drwy gymunedau a sefydliadau gweithredol, rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud bod cymdeithas yn dod i weld gwerth diffibrilwyr ac mae'r gymdeithas am eu cael mewn cymaint o lefydd ag sy'n bosibl—nid manau cyhoeddus yn unig chwaith, ond ar dir preifat sy'n hygyrch i'r cyhoedd fel adeilad y Seiri Rhyddion y soniais amdano.

Felly, rwy'n falch nad yw'r deisebydd wedi cyfyngu hyn i'r Llywodraeth yn darparu peiriannau. Roedd yn cydnabod y gellid ariannu'r rhain drwy gronfeydd preifat neu elusennol yn ogystal â'r GIG. Nid yw rhywun sydd mewn trafferth yn mynd i boeni pwy brynodd y diffibriliwr—dim ond ei fod yno. Os yw dinasyddion yn teimlo cyfrifoldeb uniongyrchol ynglŷn â bod yn rhan o'r ddarpariaeth ehangach hon o beiriannau achub bywyd, yna maent yn fwy tebygol o wybod lle y maent a chael eu hyfforddi sut i'w defnyddio, gan sicrhau ychydig bach o allu ychwanegol yn y gymuned gyfan i achub bywydau.

Mae'r peiriannau—ac rwyf wedi gweld mwy nag un model, mewn gwirionedd—yn eithaf syml i'w defnyddio. Mae rhai'n symlach nag eraill, ond rwy'n derbyn pwynt y deisebydd fod rhywfaint o hyfforddiant sylfaenol ar sut i ddefnyddio'r peiriannau hyn yn golygu y gellir defnyddio'r ddyfais yn fwy effeithiol.

But even someone who has been trained in the practical use of a defibrillator can panic or freeze in the face of actual cardiac arrest. So, I come back to the first request I made of this Government almost exactly four years ago, actually, in 2011, and that is: make emergency life-saving skills a compulsory part of the school curriculum. Yes, widespread training in the community has to be helpful, and there are many organisations who can do that—who can train the trainer, even—but let's get our children used to the idea that they can use these machines without fear, that they can do CPR and that this is a skill that, once acquired and practised, could be the most important skill they ever have.

Two points to finish on, Llywydd. Even if you are the most confident and most skilled life-saver, that doesn't matter if you don't know where your nearest defibrillator actually is. Certainly, I agree, the ambulance service needs rolling mapping of existing and new locations, and I think there is a separate job for community councils or other organisations to inform local residents of locations. I think that will help identify gaps in provision; I'm not entirely sure that they are ubiquitous. Once those gaps are identified, as we've seen, I think there's an enthusiasm to fill them.

I'm not sure whether legislation is necessary; there is a real societal will to help with this. The machines also need to be very visible, and I do wonder how many I must have walked past without realising throughout my life.

Finally, I think there's still some work to do with equipping all of the fire engines in mid and west Wales with defibrillators, for example, but I understand that work is under way. But what about police vehicles? Now, I appreciate this may stray into non-devolved territory, but police vehicles are often the first on the scene at an accident. I think we really need to consider fire officers being able to administer analgesics and police officers operating their own defibrillators, particularly when ambulance response times are so poor. Thank you.

Ond gall hyd yn oed rhywun sydd wedi cael ei hyfforddi i ddefnyddio diffibrilwr yn ymarferol fynd i banig neu rewi yn wyneb ataliad ar y galon go iawn. Felly, dof yn ôl at y cais cyntaf a gyflwynais i'r Llywodraeth hon bron bedair blynedd union yn ôl, mewn gwirionedd, yn 2011, sef: gwneud sgiliau achub bywyd mewn argyfwng yn rhan orfodol o gwricwlwm yr ysgol. Iawn, rhaid bod hyfforddiant helaeth yn y gymuned yn ddefnyddiol, ac mae yna lawer o sefydliadau sy'n gallu gwneud hynny—sy'n gallu hyfforddi'r hyfforddwr, hyd yn oed—ond gadewch i ni gael ein plant i arfer â'r syniad y gallant ddefnyddio'r peiriannau hyn heb ofn, eu bod yn gallu gwneud triniaeth adfywio cardio-pwlmonaidd ac mai dyma'r sgil pwysicaf, o'i ddysgu a'i ymarfer, a gânt byth o bosibl.

Dau bwynt i orffen, Lywydd. Hyd yn oed os mai chi yw'r achubwr bywyd mwyaf hyderus a mwyaf medrus, nid yw hynny'n gwneud gwahaniaeth os nad ydych yn gwybod lle mae eich diffibrilwr agosaf. Yn sicr, rwy'n cytuno, mae angen i'r gwasanaeth ambiwlans greu mapiau cyson o leoliadau cyfredol a newydd, ac rwy'n credu bod yna waith ar wahân i gynghorau cymuned neu sefydliadau eraill roi gwybod am y lleoliadau i drigolion lleol. Rwy'n credu y bydd hynny'n helpu i nodi bylchau yn y ddarpariaeth; nid wyf yn hollol siŵr eu bod yn hollbresennol. Ar ôl nodi'r bylchau, fel y gwelsom, rwy'n meddwl bod yna frwdfrydedd i sicrhau eu bod yn cael eu llenwi.

Nid wyf yn siŵr a oes angen deddfwriaeth; mae yna ewyllys go iawn yn y gymdeithas i helpu gyda hyn. Hefyd, mae angen i'r peiriannau fod yn weladwy iawn, ac rwy'n meddwl tybed sawl un y mae'n rhaid fy mod wedi cerdded heibio iddynt heb sylweddoli ar hyd fy oes.

Yn olaf, rwy'n meddwl bod yna waith i'w wneud o hyd ar osod diffibrilwyr ym mhob injan dân yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, er enghraifft, ond deallaf fod y gwaith hwnnw ar y gweill. Ond beth am gerbydau'r heddlu? Nawr, rwy'n sylweddoli y gallai hyn grwydro i diriogaeth materion sydd heb eu datganoli, ond cerbydau'r heddlu yn aml yw'r cyntaf i gyrraedd lleoliad damwain. Rwy'n credu bod angen i ni ystyried o ddifrif y gallai swyddogion tân weinyddu cyffuriau lladd poen a gallai swyddogion yr heddlu weithredu eu diffibrilwyr eu hunain, yn enwedig pan fo amseroedd ymateb ambiwlansys mor wael. Diolch.

Rwy'n falch ein bod yn cael y ddaid hon heddiw, a hoffwn hefyd ddiolch i Mr Hill, Richard Lee a June Thomas am roi tystiolaeth. Yr hyn rwy'n hoff iawn ohono ynglŷn â bod ar yr Pwyllgor Deisebau yw'r ffordd y cawn flas ar yr ymgyrchoedd ledled Cymru sy'n ennyn diddordeb pobl mewn gwirionedd, yn enwedig gyda chefnid mor emosïynol i'r symbyliad hwn. Mae defnyddio eich gallu i wneud hynny mewn ffordd gadarnhaol iawn, fel aelod o'r cyhoedd, yn rhywbeth y mae'r Pwyllgor Deisebau yn caniatáu i unrhyw un allu ei wneud. Mae cyrraedd cam lle y cawn ddaid yn ei gylch, ac adroddiad, yn dangos y dylanwad a sut yr effeithiodd arnom ni, fel Aelodau Cynulliad ar y pwyllgor, ac rwy'n credu bod hynny i'w ganmol.

15:23

Bethan Jenkins [Bywgraffiad Biography](#)

I'm pleased that we're having this debate today, and I would also like to thank Mr Hill, Richard Lee and June Thomas for giving evidence. What I love about being on the Petitions Committee is how we get to see a taste of the campaigns across Wales that really spark people's interest, especially with such an emotional background to this motivation. Utilising your ability to do that in a really positive way, as a member of the public, is something that the Petitions Committee allows anyone to be able to do. To get to a stage where we have a debate about it, and a report, shows the influence and how it affected us, as Assembly Members, on the committee, and I think that's to be commended.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

As has been said, defibrillators do save lives; of this, there can be no doubt. Survival rates for people having a heart attack go from 6 per cent when nothing is done until an ambulance arrives to around 74 per cent when defibrillators are used. As Suzy Davies hinted at in the end of her speech, I'm dealing with cases day in, day out where ambulance responses are slower and where there are problems with access. I think that if people could be using defibrillators in the meantime, then this may mean a situation of life or death, and I think that's something that we all need to be responsible for in our communities.

As has been mentioned as well, many businesses are not able to register with the ambulance service that they have a defibrillator, so the information is currently incomplete, and that's why we do really need to talk to as many organisations as possible about recording if they have a defibrillator, if they're secure within their cabinets, if they are up to date and if they can be used. I would add on to community councils and so forth sports organisations in our local communities, as well as other third sector organisations that may have an interest in knowing about them if they don't already.

As we know, there are no legal requirements for buildings to have them—public sector or otherwise—and this should change. The example I can think of here is fire extinguishers. It would be unthinkable these days not to have them in public buildings, but that wasn't always the case, and we have to see defibrillators in the same light.

As many have said already, we do need to break down the barriers and the misconceptions so they can use them. To be honest, I had those misconceptions, even though I've been trained as a lifeguard previously. You feel intimidated by this machine and how it may affect another person, especially if you watch programmes like 'Casualty' and 'Holby City', you seem to be a bit intimidated by them. So, I think we need to try and—. I, personally, would have liked to be given that display, and I think perhaps you don't need the training, but seeing how it's done will aid people in their everyday lives, and I think that's only to be commended. Again, I would reiterate the point that we do need to have this in our schools, because if young people have the skills—the lifesaving skills—at an early age, then surely as adults, they will have the confidence to be able to take this on, and defibrillators should be part of that training.

One thing I did pick up from the report, which I'll finish on, relates to the Government's heart disease plan. There was a priority in that for local health boards, ambulance trusts, the NHS and the British Heart Foundation to review its defibrillators in public places. I'd like to hear from the Government whether that work is happening and whether we've seen progress so that we know that, on the ground, this situation is being prioritised and it is being developed for the future. But, again, thank you to the petitioners for bringing this forward.

Fel y dywedwyd, nid oes amheuaeth nad yw diffibrilwyr yn achub bywydau. Mae cyfraddau goroesi ar gyfer pobl sy'n cael trawiad ar y galon yn amrywio o 6 y cant pan na wneir unrhyw beth nes i'r ambiwlans gyrraedd i tua 74 y cant pan ddefnyddir diffibriliwr. Fel yr awgrymodd Suzy Davies ar ddiwedd ei haraith, rwy'n ymdrin ag achosion ddydd ar ôl dydd pan fo ymatebion ambiwlans yn arafach a lle y ceir problemau o ran mynediad. Pe gallai pobl ddefnyddio diffibrilwyr yn y cyfamser, rwy'n credu y gallai hynny arbed bywydau, ac rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth y mae angen i bob un ohonom fod yn gyfrifol amdano yn ein cymunedau.

Fel y crybwyllwyd hefyd, mae yna lawer o fusnesau nad ydynt yn gallu cofrestru'r ffaith fod ganddynt ddiffibriliwr gyda'r gwasanaeth ambiwlans, felly mae'r wybodaeth yn anghyflawn ar hyn o bryd, a dyna pam y mae gwir angen i ni siarad â chymaint o sefydliadau â phosibl ynglŷn â chofnodi a oes ganddynt ddiffibriliwr, a yw'n ddiogel yn ei flwch, a yw'n gyfredol ac a oes modd ei ddefnyddio. Byddwn yn ychwanegu sefydliadau chwaraeon yn ein cymunedau lleol at gynghorau cymuned ac yn y blaen, yn ogystal â sefydliadau eraill yn y trydydd sector a allai fod â diddordeb mewn gwybod amdanynt os nad ydynt yn gwybod eisoes.

Fel y gwyddom, nid oes unrhyw ofnion cyfreithiol i adeiladau eu cael—yn y sector cyhoeddus nac fel arall—a dylai hyn newid. Yr enghraifft y gallaf feddwl amdani yma yw diffoddyddion tân. Mae'n amhosibl meddwl y dyddiau hyn nad ydynt ar gael mewn adeiladau cyhoeddus, ond nid oedd hynny'n wir bob amser a rhaid i ni ystyried diffibrilwyr yn yr un modd.

Fel y mae llawer wedi'i ddweud eisoes, mae angen i ni chwalu'r rhwystrau a'r camdybiaethau fel bod modd eu defnyddio. I fod yn onest, roeddwn innau'n coleddu'r camdybiaethau hynny, er fy mod wedi cael fy hyfforddi i fod yn achubwr bywydau o'r blaen. Mae arnoch ofn y peiriant a sut y gallai effeithio ar berson arall, yn enwedig os ydych chi'n gwyllo rhaglenni fel 'Casualty' a 'Holby City', maent yn eich dychryn braidd. Felly, rwy'n credu bod angen i ni geisio—. Yn bersonol, byddwn wedi hoffi gweld yr arddangosiad, ac rwy'n meddwl efallai nad oes angen hyfforddiant arnoch, ond bydd gweld sut i'w wneud yn cynorthwyo pobl yn eu bywydau bob dydd, ac rwy'n credu bod hynny i'w ganmol. Unwaith eto, hoffwn ailadrodd y pwynt fod angen i ni gael hyn yn ein hysgolion, oherwydd os yw'r sgiliau—sgiliau achub bywyd—gan bobl yn ifanc, yna'n sicr fel oedolion, bydd ganddynt yr hyder i allu gwneud hyn, a dylai diffibrilwyr fod yn rhan o'r hyfforddiant hwnnw.

Roedd un peth a nodais yn yr adroddiad, a gorffennaf ar hyn, yn ymwneud â chynllun clefyd y galon y Llywodraeth. Roedd yna flaenoriaeth ynddo i fyrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau ambiwlans, y GIG a Sefydliad Prydeinig y Galon adolygu ei ddiffibrilwyr mewn mannau cyhoeddus. Hoffwn glywed gan y Llywodraeth a yw'r gwaith hwnnw'n digwydd ac a ydym wedi gweld cynnydd er mwyn i ni wybod bod y sefyllfa hon yn cael ei blaenoriaethu ar lawr gwlad, a'i bod yn cael ei datblygu ar gyfer y dyfodol. Ond unwaith eto, diolch yn fawr i'r deisebwyr am gyflwyno hyn.

I want to also put on record my thanks to Mr Hill for submitting the petition in the way that he did. It made it easy for us to understand and that, in turn, will make it easy for the wider public to understand, and very much come on board. As is often the case, the strength of the appeal is its clarity that, like fire extinguishers—and we've heard this today—defibrillators should be available in all public places. A few years ago, I did raise a similar statement of opinion to deliver the life-saving equipment to every school in Wales. I campaigned with the charity SADS UK, which stands for sudden arrhythmic death syndrome. At that time, I was amazed to learn that around 270 cardiac arrests occur on school premises in the UK each year.

I am encouraged by the Welsh Government's positive response to the committee's report, accepting wholly or in principle each of our five recommendations. The crux of the issue, it seems to me, is mapping the whereabouts of publicly-available defibrillators, and they do exist within small businesses, large businesses, charities and public organisations. Should they be compelled by law to register them, or should we encourage them to do so voluntarily? It does bring to mind the requirement to give an address when buying tv equipment, which was enshrined in the Wireless Telegraphy Act 1967—and I learned this through my research—but it was apparently abolished in 2013.

I also want to pay tribute to those people who have voluntarily put in defibrillators that are accessible to the public. As many of you know, I do an awful lot of walking; that is clearly in the countryside, and I want to pay tribute here to the National Trust, who have put defibrillators on sites—very remote sites—throughout Pembrokeshire. I do, however, accept the Government's view that legislation might not be the best way forward at this time. I agree that efforts should be directed to mapping coverage, and I will follow with interest the Welsh Ambulance Services NHS Trust's work with the British Heart Foundation on that.

I do want to make two points. When a clearer picture of where defibrillators are on hand becomes available, has the Government considered how it will respond to the gaps? Will it, for example, approach businesses or public facilities to promote defibrillators?

Secondly, the Government response mentions the Social Action, Responsibility and Heroism Act 2015. It aims to reassure people that if they step into help someone in an emergency the law will support them. I think that that is a crucially important point, because in an age of litigation all too often what prevents people from helping is the fact that they might be sued because they have helped. More importantly, health professionals when they are off duty are particularly acutely aware of that possibility. So, I think that that is good news that that has been put within this response and I think that should be promoted more widely. I am thinking of the Vinnie Jones 'Staying Alive' advert—a defibrillator will only save a life if someone is willing and uses it after all.

Rwyf hefyd am gofnodi fy niolch i Mr Hill am gyflwyno'r ddeiseb yn y ffordd y gwnaeth. Mae'n gwneud y mater yn hawdd i ni ei ddeall ac yn ei dro, yn ei wneud yn hawdd i'r cyhoedd yn ehangach ei ddeall, a chefnogi'r ymgyrch. Fel sy'n digwydd yn aml, cryfder yr apêl yw ei heglurder y dylai diffribilwyr fod ar gael, fel diffoddyddion tân—ac rydym wedi clywed hyn heddiw—dylai diffribilwyr fod ar gael ym mhob man cyhoeddus. Ychydig flynyddoedd yn ôl, rhoddais ddatganiad tebyg o farn y dylid darparu'r cyfarpar achub bywyd i bob ysgol yng Nghymru. Ymgyrchais gyda'r elusen SADS UK, mewn perthynas â syndrom marwolaeth sydyn arhythmig. Ar y pryd, syndod oedd deall bod tua 270 o achosion o ataliad ar y galon yn digwydd ar dir ysgolion yn y DU bob blwyddyn.

Rwy'n cael fy nghalonogi gan ymateb cadarnhaol Llywodraeth Cymru i adroddiad y pwyllgor, gan dderbyn yn gyfan gwbl neu mewn egwyddor bob un o'n pum argymhelliad. Craidd y mater, mae'n ymddangos i mi, yw mapio lleoliad y diffribilwyr sydd ar gael i'r cyhoedd, ac maent yn bodoli mewn busnesau bach, busnesau mawr, elusennau a sefydliadau cyhoeddus. A ddylid eu gorfodi yn ôl y gyfraith i'w cofrestru, neu a ddylem eu hannog i wneud hynny'n wirfoddol? Mae'n atgoffa rhywun am y gofyniad i roi cyfeiriad wrth brynu cyfarpar teledu, a gafodd ei ymgorffori yn Neddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 1967—dysgais hyn drwy fy ymchwil—ond yn ôl pob golwg, cafodd y gofyniad ei ddiddymu yn 2013.

Rwyf hefyd eisiau talu teyrnged i'r bobl sydd wedi mynd ati'n wirfoddol i osod diffribilwyr i fod ar gael i'r cyhoedd. Fel y gwyr llawer ohonoch, rwy'n cerdded llawer iawn; yng nghefn gwlad rwy'n gwneud hynny, yn amlwg, ac rwyf am dalu teyrnged yma i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sydd wedi rhoi diffribilwyr ar safleoedd—safleoedd anghysbell—drwy Sir Benfro. Er hynny, rwy'n derbyn safbwynt y Llywodraeth efallai nad deddfwriaeth yw'r ffordd orau ymlaen ar hyn o bryd. Cytunaf y dylid cyfeirio ymdrechion at fapio lleoliadau, a byddaf yn dilyn gwaith Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gyda Sefydliad Prydeinig y Galon ar hynny gyda diddordeb.

Rwyf am wneud dau bwynt. Pan geir darlun cliriach o leoliadau diffribilwyr, a yw'r Llywodraeth wedi ystyried sut y bydd yn ymateb i'r bylchau? A fydd yn mynd at fusnesau neu gyfeusterau cyhoeddus, er enghraifft, i hyrwyddo diffribilwyr?

Yn ail, mae ymateb y Llywodraeth yn sôn am Ddeddf Gweithredu Cymdeithasol, Cyfrifoldeb a Gwroldeb 2015. Ei nod yw sicrhau pobl os ydynt yn mynd ati i helpu rhywun mewn argyfwng, y bydd y gyfraith yn eu cefnogi. Credaf fod hwnnw'n bwynt hollbwysig, oherwydd mewn oes o ymgyfreitha rhy fynych, yr hyn sy'n atal pobl rhag helpu yw'r ffaith y gallent gael eu herlyn am eu bod wedi helpu. Yn bwysicach, mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn arbennig o ymwybodol o'r posibilrwydd hwnnw pan fyddant ar ddyletswydd. Felly, rwy'n meddwl ei fod yn newydd da fod hynny wedi'i roi yn yr ymateb ac rwy'n meddwl y dylid hyrwyddo hynny'n ehangach. Rwy'n meddwl am hysbyseb 'Staying Alive' Vinnie Jones—wedi'i cyfan ni fydd diffribilwr ond yn achub bywyd os oes rhywun yn barod i'w ddefnyddio, ac yn ei ddefnyddio.

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Fel pawb arall sydd wedi siarad y prynhawn yma, rwy'n falch hefyd i gyfrannu i'r ddatl hon. Nid wyf ar y pwyllgor sydd wedi edrych ar y peth, ond diolch yn yr un modd i'r holl Aelodau, y tystion a'r tîm clerico am eu gwaith caled, ac yn arbennig i'r deisebwyr am ddoed â'r pwnc pwysig hwn i'n sylw. Mater difrifol yw trawiad ar y galon ac efallai y dylwn i ddweud nawr y gwnes i ddiodeff ddeng mlynedd yn ôl. Y peth sy'n ein synnu ni gyd ydy bod hyn yn gallu digwydd i bobl ifanc, i bobl ffit, ac rydych yn cofio am y pêl-droediwr a oedd wedi cael trawiad y llynedd.

Like all other contributors, I'm very pleased to contribute to this debate this afternoon. I'm not a member of the committee that's looked at this, but I would like to thank all Members, witnesses and the clerking team for their hard work, and, particularly, the petitioners for bringing this important issue to our attention. Heart attack is a very serious and grave issue, and perhaps I should say that I suffered this condition 10 years ago. What surprises us all is that this can happen to young people, to people who seem to be fit, and you will recall the footballer who suffered a heart attack last year.

Yn gefndir i'r adroddiad, peth da ac eithaf prin yn y Siambur hon yw bod yr adroddiad wedi'i ysbrydoli gan ddiwyddiad bywyd go iawn, sef, yn amlwg, ymgyrch y teulu wedi marwolaeth drist Jack Thomas yn 2012, fel yr oedd Bill Powell wedi sôn yn gynharach. Y pethau pwysig sy'n sefyll allan i fi wrth ddarllen yr adroddiad ydy'r angen am gyhoeddusrwydd pellach ynghylch lleoliad diffibrilwyr, ac mae rhai hefyd wedi sôn am hyn y prynhawn yma. Rwy'n croesawu'r gwaith a wnaed yn barod gyda 'Be a Defib Hero' yn hyrwyddo ymhle mae'r peiriannau. Yn amlwg, dyma gam hollbwysig yn y gadwyn oroesi wedi i rywun gael 'cardiac arrest'. Rwy'n credu bod mantais i edrych yn bellach ar addysgu, a'r gymhariaeth rhwng parodrwydd i ddefnyddio diffoddwyr tân ym meddwl y cyhoedd.

As a background to this report, a good but rare thing in this Chamber is that the report actually came about as a result of a real-life story, namely, obviously, the family's campaign following the sad death of Jack Thomas in 2012, as William Powell mentioned earlier. The important things standing out for me in reading the report is the need for further publicity on the location of defibrillators, and others have already mentioned this this afternoon. I welcome the work already done with Be a Defib Hero promoting the location of these machines. Obviously, this is a crucially important step in the chain of survival once someone actually suffers cardiac arrest. I think there is an advantage to looking further at education, and the comparison between the willingness of the public to use fire extinguishers.

O ran yr argymhelliad cyntaf, mae'r Dirprwy Weinidog wedi sôn am y cyhoeddusrwydd a chodi ymwybyddiaeth am y cynllun ataliad y galon y tu allan i'r ysbyty. Dirprwy Weinidog, pa sianeli ydych chi'n eu hystyried i fanteisio ar raglen codi ymwybyddiaeth? A fyddai hynny'n cael ei redeg ar y cyd â'r byrddau iechyd? Sut ydych yn bwriadu amrywio'r dulliau cyhoeddusrwydd er mwyn rhoi'r neges i gynulleidfa eang?

In terms of the first recommendation, the Deputy Minister has talked about publicity and raising awareness about the out-of-hospital cardiac arrest scheme. Deputy Minister, what channels are you considering to take advantage of an awareness-raising programme? Would that be jointly run with health boards? How do you intend to vary the means of raising awareness in order to reach the broadest possible audience?

Mae'n rhaid hefyd llongyfarch y gwaith sy'n digwydd ledled y wlad, fel y mae Julie Morgan wedi sôn yn gynharach. Yn Llanelli—a gwnaeth Suzy Davies sôn am hyn yn gynharach—mae elusen Cariad wedi codi arian sydd nawr bron yn £0.25 miliwn i ddarparu yn agos at 100 o beiriannau, gan ddechrau'n gyntaf mewn ysgolion yn Llanelli a nawr ar draws Cymru gyfan. Rydym yn gwneud symudiadau cryf yn y cyfeiriad cywir ac rwy'n falch i gefnogi'r adroddiad hwn a'r ymgais i gadw'r mater ar ben yr agenda.

The work that's done throughout the country must also be congratulated, as Julie Morgan has already mentioned. In Llanelli—and Suzy Davies mentioned this earlier—the Cariad charity has raised almost £0.25 million to provide nearly 100 defibrillators, starting within schools in Llanelli and now across the whole of Wales. We are making strong moves forward and I'm pleased to support this report and the efforts to keep this issue at the top of the agenda.

15:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Deputy Minister for Health, Vaughan Gething, to speak on behalf of the Government.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Iechyd, Vaughan Gething, i siarad ar ran y Llywodraeth.

15:33 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. I'm very happy to respond to today's debate and I'd like to thank the Chair, members of the Petitions Committee, Members who have spoken today and the original petitioners for this particular petition and today's debate. The Welsh Government, of course, notes the report and the motion. I'm also grateful to the Welsh Ambulance Service for the evidence they provided to the committee and, of course, their assistance in the Welsh Government response.

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n hapus iawn i ymateb i'r ddatl heddiw a hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd, aelodau'r Pwyllgor Deisebau, yr Aelodau sydd wedi siarad heddiw a'r deisebwyr gwreiddiol am y ddeiseb hon a'r ddatl heddiw. Mae Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, yn nodi'r adroddiad a'r cynnig. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i Wasanaeth Ambiwlaens Cymru am y dystiolaeth a ddarparwyd ganddynt i'r pwyllgor ac wrth gwrs, am eu cymorth gydag ymateb Llywodraeth Cymru.

In 2013, we launched 'Together for Health—A Heart Disease Delivery Plan'. Within that plan there's a requirement to review the provision of defibrillators, as has been mentioned, in public places and with community first responders to ensure adequate provision and training. In addition, we're working on an out-of-hospital cardiac arrest plan for Wales. That aims to increase the survival rate for cardiac arrests that happen outside an advanced medical environment. Members will know that I submitted a joint written response to the committee, together with the Minister for Public Services, and I'll turn to the recommendation responses.

We've been very happy to agree recommendation 1. The Welsh Ambulance Services NHS Trust, in conjunction with a number of charities, have been educating the public about defibrillators—I won't call them AEDs, for the purpose of clarity—and, in particular, the availability of them, and that's what we want to build on in the out-of-hospital cardiac arrest plan.

We're happy to accept recommendation 2 in principle as well. As the Chair has mentioned, we don't have a specific power to require fire and rescue authorities to install particular items on fire appliances. However, we do support diversifying the role of fire and rescue authorities, including supporting the NHS, and that's been emphasised in the new draft fire and rescue framework.

Both the Fire Brigades Union and the Retained Firefighters Union are now supportive of diversifying the traditional role of the firefighter, and that is an important point—the willingness of the staff to undertake slightly different duties. However, all front-line appliances in south Wales are equipped with defibrillators. In north Wales, there is a rolling programme equipping appliances with defibrillators, and training crews is taking place as well. And in mid and west Wales, which was mentioned earlier in the debate, 14 stations already provide a co-responding service with the ambulance service, including those cases of cardiac arrest, and that will shortly rise to 21 stations.

Here in south Wales, they've already undertaken a highly successful trial, in which fire crews have responded to medical emergencies, including cardiac arrest, and there are plans to extend that trial. From November, in north Wales, they will pilot an emergency medical response scheme from seven different stations. So, you see, there is already a programme of working hand in hand with the fire and rescue authorities to make better use of their staff and the availability of access to defibrillators.

Yn 2013, lanswyd 'Law yn Llaw at Iechyd—Cynllun Cyflawni ar gyfer Clefyd y Galon'. Yn y cynllun, ceir gofyniad i adolygu'r ddarpariaeth o ddiffibrilwyr mewn mannau cyhoeddus, fel y crybwyllwyd, a chydag ymatebwyr cyntaf cymunedol i sicrhau bod darpariaeth a hyfforddiant digonol ar gael. Yn ogystal, rydym yn gweithio ar gynllun ataliad ar y galon y tu allan i'r ysbyty ar gyfer Cymru. Ei nod yw cynyddu'r gyfradd o bobl sy'n goroesi ar ôl cael ataliad ar y galon y tu allan i amgylchedd uwchfeddygol. Bydd yr Aelodau'n gwybod fy mod wedi cyflwyno ymateb ysgrifenedig i'r pwyllgor ar y cyd â'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, a throf at yr ymatebion i'r argymhellion.

Rydym wedi bod yn hapus iawn i dderbyn argymhelliad 1. Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, ar y cyd â nifer o elusennau, wedi bod yn addysgu'r cyhoedd ynghylch diffibrilwyr, ac yn arbennig, eu hargaeledd, a dyna'r hyn rydym am adeiladu arno yn y cynllun ataliad ar y galon y tu allan i'r ysbyty.

Rydym yn hapus i dderbyn argymhelliad 2 mewn egwyddor hefyd. Fel y mae'r Cadeirydd wedi'i grybwyll, nid oes gennym bŵer penodol i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau tân ac achub osod eitemau penodol ar beiriannau tân. Fodd bynnag, rydym yn cefnogi arallgyfeirio rôl yr awdurdodau tân ac achub, gan gynnwys cefnogi'r GIG, a phwysleiswyd hynny yn y fframwaith tân ac achub drafft newydd.

Mae Undeb y Brigadau Tân ac Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn bellach yn cefnogi arallgyfeirio rôl draddodiadol y diffoddwr tân, ac mae hwnn'n bwynt pwysig—parodrwydd y staff i gyflawni dyletswyddau ychydig yn wahanol. Fodd bynnag, mae pob peiriant rheng flaen yn ne Cymru wedi'u cyfarparu â diffibrilwyr. Yng ngogledd Cymru, ceir rhaglen dreigl ar gyfer cyfarparu peiriannau â diffibrilwyr, ac mae hyfforddiant ar y gweill i griwiau hefyd. Ac yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, a grybwyllwyd yn gynharach yn y ddadl, mae 14 gorsaf eisoes yn darparu gwasanaeth cyd-ymateb gyda'r gwasanaeth ambiwlans, gan gynnwys yr achosion o ataliad ar y galon, a bydd y ffigur yn codi cyn bo hir i 21 o orsafoedd.

Yma yn ne Cymru, maent eisoes wedi cynnal treial llwyddiannus iawn, lle roedd criwiau tân yn ymateb i argyfyngau meddygol, gan gynnwys achosion o ataliad ar y galon, ac mae cynlluniau i ymestyn y treial. O fis Tachwedd, yn y gogledd, byddant yn treialu cynllun ymateb meddygol brys o saith gorsaf wahanol. Felly, fel y gwelwch, mae yna raglen ar waith eisoes yn gweithio law yn llaw â'r awdurdodau tân ac achub i wneud gwell defnydd o'u staff ac argaeledd diffibrilwyr.

The Welsh Government accepts recommendation 3. In February, I had the great pleasure in the Senedd, to launch the Be a Defib Hero campaign with the British Heart Foundation and the Welsh Ambulance Services NHS Trust. Now, this is really crucial, because we are appealing to all organisations, public and private, to register their defibrillators with the Welsh ambulance services trust. That in itself can be crucial in ensuring there's proper access to them at a time of need. The campaign has already signed up over 1,200 defibrillators, which are now available to members of the public. Nonetheless, there is an opportunity to increase awareness of that campaign, and I'd urge anyone taking notice of today's debate who has a defibrillator but is not registered with the Welsh ambulance services trust to do so.

The Welsh Government accepts recommendation 4 in principle. Since 2006, in partnership with the ambulance service, health boards and charities, we've been working to promote and install publicly available defibrillators across Wales. Typically, the sites selected have been determined due to large footfall, associated high incidence of heart disease and, in particular, our more remote locations. The ambulance service continue to promote a public access scheme, visiting communities across Wales to assist and train members of the public in the use of defibrillators. And I'm pleased to endorse what other Members said about how delightfully simple the defibrillators are to use. They actually talk you through the whole process themselves. I've seen this myself on a St John Ambulance training course.

The Welsh Government also accepts recommendation 5 in principle. But the Welsh Government does not consider creating Welsh legislation would be the most beneficial step for increasing the number of defibrillators, or providing legal protection for good samaritans. And I note the point that Joyce Watson made, and the recent Act passed by the UK Government. However, there are no reported cases where a person in need of help, where the heart has stopped, has successfully sued someone who came to their aid; it is one of the more unlikely causes. But part of the problem about reassurance is we don't think that that is the thing that will make the most difference.

We actually think that what will make the biggest difference to people in Wales is making the best use of what we already have, in providing better public access to defibrillators that exist, having those properly registered with the Welsh ambulance service, and in demystifying the use and especially the ease of use of actually using defibrillators to help to save someone's life. That's why the Be a Defib Hero campaign is so important, working with the third sector and the public sector to achieve that.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn argymhelliad 3. Ym mis Chwefror, cefais y pleser mawr o lansio'r ymgyrch Byddwch yn Arwr Di-ffib yn y Senedd gyda Sefydliad Prydeinig y Galon ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru. Nawr, mae hyn yn wirioneddol hanfodol, gan ein bod yn apelio ar bob sefydliad, cyhoeddus a phreifat, i gofrestru eu diffibrilwyr gydag ymddiriedolaeth gwasanaethau ambiwlans Cymru. Gall hynny ynddo'i hun fod yn hanfodol er mwyn sicrhau bod modd dod o hyd iddynt yn briodol ar adeg o angen. Mae'r ymgyrch eisoes wedi cofrestru dros 1,200 o ddiffibrilwyr, sydd bellach ar gael i aelodau o'r cyhoedd. Serch hynny, mae yna gyfle i gynyddu ymwybyddiaeth o'r ymgyrch honno, a byddwn yn annog unrhyw un sy'n clywed y ddadl heddiw sy'n meddu ar ddiffibriliwr ond heb ei gofrestru gydag ymddiriedolaeth gwasanaethau ambiwlans Cymru i wneud hynny.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn argymhelliad 4 mewn egwyddor. Ers 2006, mewn partneriaeth â'r gwasanaeth ambiwlans, byrddau iechyd ac elusennau, rydym wedi bod yn gweithio ar hyrwyddo a gosod diffibrilwyr i fod ar gael i'r cyhoedd ar draws Cymru. Yn nodweddiadol, cafodd y safleoedd a ddewiswyd eu pennu yn ôl nifer fawr o ymwelwyr, nifer uchel cysylltiedig o achosion o glefyd y galon ac yn arbennig, ein lleoliadau mwy anghysbell. Mae'r gwasanaeth ambiwlans yn parhau i hyrwyddo cynllun mynediad cyhoeddus, gan ymweld â chymunedau ledled Cymru i gynorthwyo a hyfforddi aelodau o'r cyhoedd i ddefnyddio diffibrilwyr. Ac rwy'n falch o ategu'r hyn a ddywedodd Aelodau eraill ynglŷn â pha mor fendigedig o syml yw diffibrilwyr i'w defnyddio. Maent yn eich tywys drwy'r holl broses eu hunain. Gwelais hyn fy hun ar gwrs hyfforddi Ambiwllans Sant Ioan.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn derbyn argymhelliad 5 mewn egwyddor. Ond nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried mai creu deddfwriaeth ar gyfer Cymru fyddai'r cam mwyaf buddiol ar gyfer cynyddu nifer y diffibrilwyr, na darparu amddiffyniad cyfreithiol i Samariaid trugarog. A nodaf y pwynt a wnaeth Joyce Watson, a'r Ddeddf a basiwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, ni chofnodwyd unrhyw achos lle y llwyddodd person a oedd angen help, a'i galon wedi stopio, i erlyn rhywun a ddaeth i roi cymorth iddo; mae'n un o'r achosion mwy annhebygol. Ond rhan o'r broblem ynglŷn â sicrwydd yw nad ydym yn credu mai dyna'r peth a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf.

Mewn gwirionedd, credwn mai'r hyn a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i bobl yng Nghymru yw gwneud y defnydd gorau o'r hyn sydd gennym yn barod, o ran darparu mynediad cyhoeddus gwell at ddiffibrilwyr sy'n bodoli, sicrhau eu bod yn cael eu cofrestru'n iawn gyda gwasanaeth ambiwlans Cymru, chwalu'r dirgelwch sydd ynghlwm wrth y defnydd o ddiffibrilwyr a dangos pa mor hawdd ydynt i'w defnyddio mewn gwirionedd i helpu i achub bywyd rhywun. Dyna pam y mae'r ymgyrch Byddwch yn Arwr Di-ffib mor bwysig, gan weithio gyda'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus i gyflawni hynny.

A good example—to build on others mentioned by other Members in the Chamber of the difference it can make—took place in late August this year, in rural south Powys. A member of the public had a sudden cardiac arrest. With the intervention of CPR, and guided by phone by the Welsh ambulance services trust, a public-access defibrillator was identified, retrieved and used. The member of public was shocked, taken to hospital and has since recovered and been discharged. And that is a real-life example that demonstrates the sort of difference we can make for members of the public, if we have better access to defibrillators, identify them properly, register them with the ambulance services trust, and then help the public to use them to save lives right across Wales. We will also continue, of course, to support community first responder teams. I'm very pleased to have an opportunity to respond to the committee and look forward to providing further updates to Members in due course on the progress we're making on this particular issue.

Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair.

Cafwyd enghraifft dda—i adeiladu ar eraill a grybwyllodd Aelodau eraill yn y Siambr i gyfeirio at y gwahaniaeth y gall ei wneud—ddiwedd mis Awst eleni, yng nghefn gwlad de Powys. Cafodd aelod o'r cyhoedd ataliad sydyn ar y galon. Gydag ymyrraeth adfywio cardio-pwlmonaidd a chydag arweiniad dros y ffôn gan ymddiriedolaeth gwasanaethau ambiwlans Cymru, nodwyd lleoliad diffibriliwr cyhoeddus, aethpwyd i'w nôl a chafodd ei ddefnyddio. Cafodd yr aelod o'r cyhoedd ei ddiffibrilio, ei gludo i'r ystyby ac mae wedi gwella ers hynny ac wedi'i ryddhau o'r ystyby. A dyna enghraifft go iawn sy'n dangos y math o wahaniaeth y gallwn ei wneud i aelodau o'r cyhoedd o sicrhau mynediad gwel at ddiffibrilwyr, nodi eu lleoliad, eu cofrestru gyda'r ymddiriedolaeth gwasanaethau ambiwlans, a helpu'r cyhoedd i'w defnyddio i achub bywydau ar draws Cymru. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi timau ymatebwyr cyntaf cymunedol, wrth gwrs. Rwy'n falch iawn o gael y cyfle i ymateb i'r pwyllgor ac yn edrych ymlaen at ddarparu diweddariadau pellach i'r Aelodau maes o law ar y cynnydd rydym yn ei wneud ar y mater penodol hwn.

The Deputy Presiding Officer took the Chair.

15:40 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And William Powell to reply to the debate.

A William Powell i ymateb i'r ddadl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:40 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I'd like to thank all Members who've contributed to the wide-ranging debate that we've had this afternoon; people from all sides of the Chamber have contributed. Firstly, Julie Morgan, who emphasised the important work of Dr Gareth Roberts and his team of volunteers over a 15-month period in developing capacity and building knowledge and understanding around the importance of cardiac health and the key role of defibrillation. Suzy Davies stressed that she had, from early on in this Assembly, emphasised the importance of the British Heart Foundation campaign to extend the curriculum to include life-saving skills, and I know that's something that she's made a particular cause of in recent years. She also flagged how wide-ranging a group of organisations, from the Brecon masonic lodge to town and community councils throughout her own region, had seized the initiative in terms of promoting the benefits of publicly accessible defibrillators. And also she emphasised the fact that there is still work to do in the area of fire and rescue authorities, and that things are still not as uniform as we would like to see.

Bethan Jenkins, as a member of the committee, commended the petitioners; indeed, in particular, Mrs Thomas, present today, for her work, particularly given the poignant background to the campaign that she's run so successfully. Bethan emphasised the importance of AEDs in terms of the life and death situation that people face in a time of crisis. She also spoke of the important role that public halls and sports clubs have to play in this regard. She also spoke, and spoke with the authority of being a trained lifeguard, and the fact that it can be, on occasion, difficult to have the confidence to go forward with a defibrillator and to put it into practical use.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau sydd wedi cyfrannu at y ddadl eang rydym wedi'i chael y prynhawn yma; mae pobl o bob ochr i'r Siambr wedi cyfrannu. Yn gyntaf, Julie Morgan, a bwysleisiodd y gwaith pwysig a wnaeth Dr Gareth Roberts a'i dîm o wirfoddolwyr dros gyfnod o 15 mis yn datblygu gallu ac yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch pwysigrwydd iechyd y galon a rôl allweddol y diffibriliwr. Pwysleisiodd Suzy Davies ei bod, ers yn gynnar yn y Cynulliad hwn, wedi datgan pwysigrwydd ymgyrch Sefydliad Prydeinig y Galon i ymestyn y cwricwlwm i gynnwys sgiliau achub bywyd, a gwn fod hynny'n rhywbeth y mae hi wedi gwneud achos arbennig ohono yn y blynyddoedd diwethaf. Tynnodd sylw hefyd at ba mor eang yw'r grŵp o sefydliadau, o gyfriffa Seiri Rhyddion Aberhonddu i gynghorau tref a chymuned drwy ei rhanbarth, sydd wedi achub ar y cyfle i hyrwyddo manteision diffibrilwyr sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Hefyd, pwysleisiodd fod gwaith i'w wneud o hyd o ran awdurdodau tân ac achub, ac nad yw pethau mor unfurfur ag y byddem yn hoffi eu gweld o hyd.

Canmolodd Bethan Jenkins y deisebwyr, fel aelod o'r pwyllgor; yn arbennig, Mrs Thomas, yn wir, sy'n bresennol heddiw, am ei gwaith, yn enwedig o ystyried cefndir ingol yr ymgyrch y mae hi wedi'i harwain mor llwyddiannus. Pwysleisiodd Bethan bwysigrwydd diffibrilwyr allanol awtomataidd o ran y perygl i fywyd y mae pobl yn ei wynebu ar adeg o argyfwng. Siaradodd hefyd am y rhan bwysig sy'n rhaid i neuaddau cyhoeddus a chlybiau chwaraeon ei chwarae yn hyn o beth. Siaradodd hefyd, gydag awdurdod rhywun sy'n achubwr bywyd hyfforddedig, a'r ffaith y gall fod yn anodd cael hyder ar adegau i fwrw ati i ddefnyddio diffibriliwr yn ymarferol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Joyce Watson again commended the petitioners, as other colleagues have done, for the clarity and simplicity of the message that they brought to our committee, and thus to this Chamber. She referenced her involvement in the SADS UK campaign, which highlighted that 270 cardiac arrests take place each year in UK schools—therefore a critical location for defibrillation. She emphasised the importance of a comprehensive mapping of AEDs throughout Wales. She also commended the National Trust for its work in providing defibrillators in more remote locations, particularly in the context of walkers who could be vulnerable to cardiac arrest. She referenced, and this was picked up by the Deputy Minister in his response, the potential danger of litigation coming forward and entrapping a good samaritan, which she thought was an issue that was worthy of further study.

Keith Davies, as a survivor of cardiac disease himself, spoke passionately about the importance of taking this disease seriously, and also pointed out that cardiac disease is no respecter of youth, age or, indeed, different levels of physical activity. He also challenged the Deputy Minister, and the Deputy Minister responded to his points, with regard to the Welsh Government's work in terms of promoting AEDs in Wales, and he particularly emphasised how active his own community of Llanelli has been in this regard.

Vaughan Gething, our Deputy Minister, spoke about the key importance of defibrillation in targeting those victims of heart disease. He spoke of the need to increase survival rates and the central role of the heart disease delivery plan in achieving that objective. He addressed the issues of the current level of provision within the fire and rescue services and flagged up that the North Wales Fire and Rescue Service has been a trailblazer in that regard, but that other areas are moving forward in a positive way to take forward that agenda. He also spoke of the fact that 1,200 defibrillators had been registered with the Welsh Ambulance Services NHS Trust following the campaign launch earlier this year, and he issued a plea for further registration so that we can have that comprehensive mapping that Members have called for.

I'm conscious of the fact that my time is rapidly going to expire. I'd just like to thank once again the petitioners for having brought forward this petition, the Welsh Government for its positive response and all colleagues who contributed to this important debate this afternoon. Diolch yn fawr.

Unwaith eto, canmolodd Joyce Watson y deisebwyr, fel y gwnaeth cyd-Aelodau eraill, am eglurder a symrlwydd y neges a gyflwynwyd ganddynt i'n pwyllgor, ac felly i'r Siambr hon. Cyfeiriodd at y rhan a gafodd yn ymgyrch SADS UK, a oedd yn dangos bod 270 o achosion o ataliad ar y galon yn digwydd yn ysgolion y DU bob blwyddyn—lleoliadau hanfodol, felly, ar gyfer diffibrilwyr. Pwysleisiodd bwysigrwydd mapiau cynhwysfawr i nodi lleoliadau diffibrilwyr allanol awtomataidd ledled Cymru. Canmolodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol am ei gwaith yn darparu diffibrilwyr mewn lleoliadau mwy anghysbell, yn enwedig yng nghyd-destun cerddwyr a allai fod yn agored i berygl ataliad ar y galon. Cyfeiriodd at y perygl posibl o ymgyfreitha i erlyn Samariad trugarog a chredai ei fod yn fater a haeddai ei astudio ymhellach, a chyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at hyn yn ei ymateb.

Siaradodd Keith Davies, fel goroeswr clefyd y galon ei hun, yn angerddol am bwysigrwydd bod o ddifrif ynghylch y clefyd hwn, a nododd hefyd nad yw clefyd y galon yn parchu ieuencid, oedran neu'n wir, lefelau gwahanol o weithgaredd corfforol. Heriodd y Dirprwy Weinidog hefyd, ac ymatebodd y Dirprwy Weinidog i'w bwyntiau, mewn perthynas â gwaith Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo diffibrilwyr allanol awtomataidd yng Nghymru, a phwysleisiodd yn arbennig pa mor weithgar y mae ei gymuned ei hun yn Llanelli wedi bod yn hyn o beth.

Siaradodd Vaughan Gething, ein Dirprwy Weinidog, am bwysigrwydd allweddol diffibrilio wrth dargedu dioddefwyr clefyd y galon. Siaradodd am yr angen i gynyddu cyfraddau goroesi a rôl ganolog y cynllun cyflawni ar gyfer clefyd y galon yn gwireddu'r amcan hwnnw. Aeth i'r afael â materion yn ymwneud â lefel bresennol y ddarpariaeth o fewn y gwasanaethau tân ac achub a thynnodd sylw at y ffaith fod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi arwain yn hynny o beth, ond bod ardaloedd eraill yn symud ymlaen mewn ffordd gadarnhaol i frwr ati ar yr agenda honno. Soniodd hefyd am y ffaith fod 1,200 o ddiffibrilwyr wedi'u cofrestru gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn dilyn lansio'r ymgyrch yn gynharach eleni, a chyhoeddodd apêl i gofrestru rhagor er mwyn i ni sicrhau'r mapiau cynhwysfawr y mae'r Aelodau wedi galw amdanynt.

Rwy'n ymwybodol o'r ffaith fod fy amser yn prysur ddod i ben. Hoffwn ddiolch unwaith eto i'r deisebwyr am gyflwyno'r ddeiseb hon, i Lywodraeth Cymru am ei hymateb cadarnhaol a phob un o fy nghyd-Aelodau a gyfrannodd at y ddadl bwysig hon y prynhawn yma. Diolch yn fawr.

15:45

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to note the Petitions Committee's report. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

4. Dadl Plaid Cymru: Datganoli

Detolwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Aled Roberts.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbyniwyd y cynnig felly yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

4. Plaid Cymru Debate: Devolution

The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of Aled Roberts.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 4 yw dadl Plaid Cymru: datganoli. Galwaf ar Leanne Wood i wneud y cynnig.

Item 4 is the Plaid Cymru debate: devolution. I call on Leanne Wood to move the motion.

Cynnig NDM5839 Elin Jones

Motion NDM5839 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bwriad datganedig Llywodraeth y DU i gyflwyno model cadw pwerau ar gyfer datganoli drwy Fil Cymru newydd;

1. Notes the UK Government's stated intention to deliver a reserved powers model for devolution through a new Wales Bill;

2. Yn aildatgan ei gefnogaeth i ddatganoli yng Nghymru ar sail model cadw pwerau;

2. Reiterates its support for Welsh devolution to function on the basis of a reserved powers model;

3. Yn gwrthod unrhyw fodel cadw pwerau sy'n dileu unrhyw bwerau sy'n arferadwy gan y Cynulliad o dan y trefniadau presennol;

3. Rejects any form of reserved powers model that removes any powers currently exercisable by the Assembly under the present arrangements;

4. Yn galw am greu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru fel y fframwaith cyfreithiol mwyaf dymunol ac effeithiol i gyd-fynd â'r broses o weithredu'r model cadw pwerau ar gyfer datganoli; a

4. Calls for the creation of a Welsh legal jurisdiction as the most desirable and effective legal framework to accompany the implementation of a reserved powers model for devolution; and

5. Yn galw am ddatganoli cyfiawnder troseddol a phlisma i gyd-fynd â chreu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru.

5. Calls for the devolution of criminal justice and policing to accompany the creation of a Welsh legal jurisdiction.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

I move the motion in the name of Elin Jones.

Cynigiau y cynnig yn enw Elin Jones.

The forthcoming Wales Bill is an opportunity to deliver a measure of absolute importance to the future development of this nation. I would argue, though, that the delivery of public services is even more important, and that should be the focus of us all. I can already predict the response, possibly, from some parts of the Chamber today, and possibly from outside, that we shouldn't be debating the constitution as often as we do.

Mae Bil Cymru sydd ar y gweill yn gyfle i gyflwyno mesur o bwys gwirioneddol i ddatblygiad y genedl hon yn y dyfodol. Byddwn yn dadlau, fodd bynnag, fod darparu gwasanaethau cyhoeddus hyd yn oed yn bwysicach, a dylai hynny fod yn ffocws i ni i gyd. Gallaf eisoes ragweld yr ymateb, o bosibl, o rai rhannau o'r Siambr heddiw, ac o bosibl o'r tu allan, na ddylem fod yn trafod y cyfansoddiad mor aml ag a wnawn.

Plaid Cymru has tabled this debate today, not because we are obsessed with the constitution, but because without a working and functional constitution, Welsh Governments of any colour will not be able to fully deliver their programme, or at the very least they risk coming into difficulties. For as long as the Welsh constitution is not operating at its most effective, Governments of any colour will always have reasons for not being able to deliver to their full ability. It therefore falls to Plaid Cymru to hold these debates. It's right that we do: it's part of our role in Welsh politics, and it's in line with our commitment to building the nation that our people deserve.

Mae Plaid Cymru wedi cyflwyno'r ddadl hon heddiw, nid oherwydd bod gennym obsesiwn gyda'r cyfansoddiad, ond oherwydd na all Llywodraeth Cymru o unrhyw liw gyflawni ei rhaglen yn llawn heb gyfansoddiad gweithredol a phwrpasol, neu, fan lleiaf, mae mewn perygl o wynebu anawsterau. Cyhyd â bod cyfansoddiad Cymru yn methu â gweithredu ar ei fwyaf effeithiol, bydd gan Lywodraethau o bob lliw resymau bob amser dros fethu â chyflawni hyd eithaf ei gallu. Lle Plaid Cymru felly yw cynnal y dadleuon hyn. Mae'n briodol ein bod yn gwneud hynny: mae'n rhan o'n rôl yng ngwleidyddiaeth Cymru, ac mae'n cyd-fynd â'n hymrwymiad i adeiladu'r genedl y mae ein pobl yn ei haeddu.

The UK Government has agreed to the need for a reserved-powers model and intends to implement it through a Wales Bill. The reasons for pursuing this are practical and pragmatic, and we've seen cross-party support expressed for such a reserved-powers model in this Chamber. However, there are significant problems with the intended reservations that the UK Government set out in its St David's Day process—and note that I've called it a 'process'; it cannot be called an 'agreement'.

I know that other Plaid Cymru speakers intend to comment further on this, but the scope and nature of the reservations have the potential to limit the Assembly's existing powers, and that is a matter of grave concern. We cannot and will not allow the rolling back of devolution. We're not saying that there's a deliberate plot to take powers back, but that there has no doubt been a failure to recognise the kind of political progress needed in expanding our current powers to match the kind of settlement Scotland initially had at the very beginning of devolution.

Plaid Cymru has long argued for the creation of a Welsh legal jurisdiction. We are of the view that that is now the most effective way to implement the reserved-powers model. This is a position that could be shared by those in this Chamber, who I accept in good faith are sincere in their belief that the United Kingdom can deliver for Wales. We may well disagree on that point, but I believe that we can find common ground on this, and our motion today is about trying to find agreement with those in this Chamber who do not share our long-term vision for Wales, but still want to see Wales become a distinct legal jurisdiction within the United Kingdom.

We're also explicitly calling for the devolution of the criminal justice system, including policing. In effect, this would be a non-reservation of those powers. It makes logical sense that such steps would enable a Welsh legal jurisdiction to function properly and efficiently. And, of course, they closely match the devolved public services powers already vested in this nation.

The cross-party and independent Silk commission envisaged criminal justice and policing being phased in over time, and we in the Party of Wales know that creating a legal jurisdiction will not be an instant process. Our motion doesn't preclude an evolutionary approach—if that is unavoidable—as long as the process is transparent, pragmatic and cannot be hijacked by party politics.

I turn to the Liberal Democrat amendments. We welcome amendment 1, which notes the report of the Wales Governance Centre and the Constitution Unit. The report has highlighted the problems in this process. I note that the amendment states that a hybrid jurisdiction could be possible. Plaid Cymru doesn't have a problem with noting this, as it doesn't delete our earlier point about creating a jurisdiction.

Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno ar yr angen am fodel cadw pwerau ac mae'n bwriadu ei weithredu drwy Fil Cymru. Mae'r rhesymau dros fynd ar drywydd hyn yn ymarferol ac yn bragmataidd, a gwelsom fynegi cefnogaeth drawsbleidiol i fodel cadw pwerau o'r fath yn y Siambr hon. Fodd bynnag, ceir problemau sylweddol gyda'r cymalau cadw arfaethedig a nododd Llywodraeth y DU yn ei phroses Dydd Gŵyl Dewi—a nodwch fy mod wedi'i galw'n 'broses'; ni ellir ei alw'n 'gytundeb'.

Gwn fod siaradwyr eraill Plaid Cymru yn bwriadu gwneud sylwadau pellach ar hyn, ond gallai cwmplas a natur y cymalau cadw gyfyngu ar bwerau presennol y Cynulliad, ac mae hynny'n fater sy'n peri pryder difrifol. Ni allwn ac ni fyddwn yn caniatáu dal yn ôl ar ddatganoli. Nid ydym yn dweud bod yna gynllwyn bwriadol i gymryd pwerau yn ôl, ond nid oes unrhyw amheuaeth y bu methiant i gydnabod y math o gynnydd gwleidyddol sydd ei angen ar gyfer ehangu ein pwerau presennol i gyd-fynd â'r math o setliad a oedd gan yr Alban yn wreiddiol ar ddechrau datganoli.

Mae Plaid Cymru wedi dadlau ers tro dros greu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru. Rydym o'r farn mai dyna'r ffordd fwyaf effeithiol bellach o weithredu'r model cadw pwerau. Mae hwn yn safbwynt y gellid ei rannu gan y rhai yn y Siambr hon yr wyf yn derbyn yn ddiwyll eu bod yn ddiffuant yn eu cred y gall y Deyrnas Unedig gyflawni dros Gymru. Efallai'n wir ein bod yn anghytuno ar y pwynt hwnnw, ond rwy'n credu y gallwn ddod o hyd i dir cyffredin ar hyn, ac mae ein cynnig heddiw yn ymwneud â cheisio dod o hyd i gytundeb gyda'r rhai yn y Siambr hon nad ydynt yn rhannu ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru, ond sy'n dal i fod eisiau gweld Cymru yn dod yn awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân o fewn y Deyrnas Unedig.

Galwn yn benodol hefyd am ddatganoli'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys plismona. I bob pwrpas, byddai'r pwerau hynny heb eu cadw'n ôl. Mae'n gwneud synnwyr rhesymegol y byddai camau o'r fath yn galluogi awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru i weithio'n briodol ac yn effeithlon. Ac wrth gwrs, maent yn cyfateb yn agos i'r pwerau gwasanaethau cyhoeddus datganoledig a freiniwyd eisoes yn y wlad hon.

Roedd y comisiwn Silk trawsbleidiol ac annibynnol yn rhagweld y câi cyfiawnder troseddol a phlismona eu cyflwyno'n raddol dros amser, ac rydym ni ym Mhlaid Cymru yn gwybod na fydd creu awdurdodaeth gyfreithiol yn broses a fydd yn digwydd dros nos. Nid yw ein cynnig yn nacáu dull esblygiadol—os na ellir osgoi hynny—cyhyd â bod y broses yn dryloyw, yn bragmataidd ac nad oes modd i wleidyddiaeth plaid ei herwgipio.

Trof at welliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol. Rydym yn croesawu gwelliant 1, sy'n nodi adroddiad Canolfan Llywodraethiant Cymru ac Uned y Cyfansoddiad. Mae'r adroddiad wedi tynnu sylw at y problemau yn y broses hon. Nodaf fod y gwelliant yn datgan y gallai awdurdodaeth hybrid fod yn bosibl. Nid oes gan Plaid Cymru broblem gyda nodi hyn, gan nad yw'n dileu ein pwynt cynharach ynglŷn â chreu awdurdodaeth.

I know that the Secretary of State for Wales has tried to claim that there is political bias on the part of those responsible for the Wales Governance Centre and Constitution Unit report, yet that report has been commended by the likes of Lord Chief Justice, the former head of the Wales Office and the former First Parliamentary Counsel. It is unbecoming, in my view, of the Secretary of State, to dismiss and disparage those who are critical of his approach on this.

We cannot accept amendment 2 from the Liberal Democrats, as it deletes our call for the creation of a jurisdiction. I would accept the point that a jurisdiction would be developed over time, but I see development as being an inherent part of creation.

I welcome amendment 3 on the devolution of income tax powers. A Plaid Cymru Government would anticipate such powers being devolved, in our view, without the need for a referendum.

I very much look forward to Members' contributions on this question this afternoon, and I hope that we can find at least some agreement on some of Plaid Cymru's points in this debate. Diolch yn fawr.

Gwn fod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi ceisio honni bod tuedd wleidyddol i'w gweld gan y rhai sy'n gyfrifol am adroddiad Canolfan Llywodraethiant Cymru ac Uned y Cyfansoddiad, ac eto canmolwyd yr adroddiad gan bobl fel yr Arglwydd Brif Ustus, cyn bennaeth Swyddfa Cymru a'r cyn Gwnsler Seneddol. Yn fy marn i, mae'n anwedus i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiystyru a dibrisio'r rhai sy'n feirniadol o'i ddull gweithredu ar hyn.

Ni allwn dderbyn gwelliant 2 gan y Democratiaid Rhyddfrydol, gan ei fod yn dileu ein galwad am greu awdurdodaeth. Byddwn yn derbyn y pwynt y byddai awdurdodaeth yn cael ei datblygu dros amser, ond rwy'n gweld datblygiad yn rhan gynhenid o greu.

Rwy'n croesawu gwelliant 3 ar ddatganoli pwerau treth incwm. Byddai Llywodraeth Plaid Cymru yn rhagweld pwerau o'r fath yn cael eu datganoli, yn ein barn ni, heb fod angen refferendwm.

Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at gyfraniadau'r Aelodau ar y cwestiwn hwn y prynhawn yma, ac rwy'n gobeithio y gallwn ddod o hyd i rywfaif o gytundeb o leiaf â rhai o bwyntiau Plaid Cymru yn y ddatl hon. Diolch yn fawr.

15:53

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliannau 1, 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I have selected the three amendments to the motion. I call on Kirsty Williams to move amendments 1, 2 and 3, tabled in the name of Aled Roberts.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Amendment 1—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 5 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new point 5 and renumber accordingly:

Yn nodi adroddiad diweddar Canolfan Llywodraethiant Cymru ac Uned y Cyfansoddiad, 'Darparu Model Pwerau Wedi Cadw'n ôl ar gyfer Datganoli i Gymru', sy'n datgan bod y 'gallai awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru fod yn wahanol, ond ni fyddai'n rhaid iddi fod ar wahân i'r awdurdodaeth yn Lloegr';

Notes the recent Wales Governance Centre and The Constitution Unit Report, 'Delivering a Reserved Powers Model of Devolution for Wales', which states that a 'Welsh legal jurisdiction might be distinct, but need not be separate from that of England';

Gwelliant 2—Aled Roberts

Amendment 2—Aled Roberts

Ym mhwynt 5, dileu 'chreu' a rhoi 'datblygu'.

In point 5, delete 'creation' and replace with 'development'.

Gwelliant 3—Aled Roberts

Amendment 3—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of the motion:

Yn galw ar Lywodraeth y DU i ddatganoli pwerau i amrywio treth incwm i Gymru ar y cyfle cyntaf.

Calls on the UK Government to devolve income tax varying powers for Wales at the earliest opportunity.

Cynigiwyd gwelliannau 1, 2 a 3.

Amendments 1, 2 and 3 moved.

15:52

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I formally move the amendments tabled in the name of Aled Roberts on behalf of the Welsh Liberal Democrat group.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Cynigaf y gwelliannau a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts ar ran grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ffurfiol.

One way, I believe, that we can avoid these endless debates on constitutional issues that Leanne Wood acknowledged in her opening contribution, which, sometimes, are to the despair of people outside of this Chamber, is if we can move to a lasting devolution settlement—a settlement that creates clarity of the powers this institution has. Only this morning in the Health and Social Services Committee, we spent a great deal of time wondering whether we could do something on whistleblowing, whether we could do something on zero-hours contracts. Maybe it's a tactic by the Government, but maybe it's a reality of the situation we find ourselves in. Without that clarity, we've always got one eye on whether legislation will be held up in the Supreme Court, and we constantly judge our actions and our policy interventions on the possibility of that.

It also needs to be a settlement that creates accountability for this institution and for the Welsh Government, so that we have a Government—any government, this Government, governments in the future—that can't hide behind the issue of, 'Well, we would do that, if only we had the power to do it'. So, we need clarity of our settlement and we need a settlement that delivers accountability. I think, inevitably, that does mean we will need to move to a separate legal Welsh jurisdiction.

The irony is, when we all signed up to a reserved-powers model, perhaps in naivety, we thought that was the answer. It's only when you begin to actually think about how you create that reserved-powers model and you, perhaps, then go and ask Westminster Government departments what they regard to be a reserved-powers model that you run into difficulties. We were perhaps naive to think—because they've certainly never done it before without a great deal of pressure—that Westminster Governments were going to turn around and say, 'Yes, have all of this'. It's not in the nature of the beast to do that, and we will wait to see what comes out of that process. But, I am absolutely clear that any rowing back on the powers that we currently have and have exercised over the last four and a half years cannot be tolerated by this institution or by the people of Wales.

Can I turn to the substance of amendment 1? I, too, was dismayed to see the Secretary of State's reaction to the report by the Wales Governance Centre. I think there is a great deal of merit in what the authors of that report say about how we could create a Welsh legal jurisdiction that must be distinct, but need not be separate completely from that of England. As Liberal Democrats, we are cautious over whether we need a fully separate system from England, especially at the outset of this process, at least in the first years, but we could aim to reduce the duplication and cost by sharing resources and operations. I think there is much to be looked at and noted in the report, as I said, by the Wales Governance Centre. 'As a result', they say,

Rwy'n credu mai un ffordd y gallwn osgoi'r dadleuon diddiwedd hyn ar faterion cyfansoddiadol a gydnabu Leanne Wood yn ei chyfraniad agoriadol, sydd, weithiau, yn destun anobaith i bobl y tu allan i'r Siambr hon, yw i ni symud at setliad datganoli parhaol—setliad sy'n creu eglurder ynghylch y pwerau sydd gan y sefydliad hwn. Y bore yma yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, treuliasom lawer o amser yn meddwl tybed a allem wneud rhywbeth ynglŷn â chwythu'r chwiban, a allem wneud rhywbeth ynglŷn â chontractau dim oriau. Efallai ei fod yn dacteg gan y Llywodraeth, ond efallai mai dyna realiti'r sefyllfa rydym ynddi. Heb eglurder o'r fath, rydym bob amser ag un llygad ar ba un a fydd deddfwriaeth yn cael ei dal yn ôl yn y Goruchaf Lys, ac rydym yn gyson yn barnu ein gweithredoedd a'n hymyriadau polisi ar y posibilrwydd y gallai hynny ddioglydd.

Mae angen iddo hefyd fod yn setliad sy'n creu atebolrwydd ar gyfer y sefydliad hwn ac ar gyfer Llywodraeth Cymru, fel bod gennym Lywodraeth—unrhyw lywodraeth, y Llywodraeth hon, llywodraethau yn y dyfodol—na all guddio y tu ôl i, 'Wel, byddem yn gwneud hynny, pe bai gennym y pŵer i'w wneud'. Felly, mae angen eglurder ynghylch ein setliad ac mae arnom angen setliad sy'n sicrhau atebolrwydd. Yn anochel, rwy'n meddwl, mae hynny'n golygu y bydd angen i ni symud at awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru.

Yr eironi yw, pan ymrwymodd pawb ohonom i fodel cadw pwerau, efallai mewn diniweidrwydd, credem mai dyna oedd yr ateb. Pan ddechreuoch feddwl mewn gwirionedd sut yr ewch ati i greu'r model cadw pwerau a phan ewch i ofyn i adrannau Llywodraeth San Steffan wedyn, efallai, beth y maent yn ei ystyried yn fodel cadw pwerau, dyna pryd yr ewch i drafferthion. Roeddem yn naif i feddwl efallai—am nad ydynt wedi'i wneud o'r blaen heb lawer iawn o bwysau, yn bendant—fod Llywodraethau San Steffan yn mynd i ddweud, 'le, ewch â hyn i gyd'. Nid yw gwneud hynny yn natur y bwystfil, ac arhoswn i weld beth a ddaw o'r broses honno. Ond rwy'n gwbl glir na all y sefydliad hwn na phobl Cymru oddef unrhyw ddal yn ôl ar y pwerau sydd gennym ar hyn o bryd ac a arferwyd gennym dros y pedair blynedd a hanner diwethaf.

A gaf fi droi at sylwedd gwelliant 1? Siom i minnau hefyd oedd gweld ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol i adroddiad Canolfan Llywodraethiant Cymru. Rwy'n credu bod llawer iawn o deilyngdod yn yr hyn y mae awduron yr adroddiad yn ei ddweud ynglŷn â sut y gallem greu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru y bydd yn rhaid iddi fod yn wahanol, ond nid o anghenraid yn gyfan gwbl ar wahân i un Lloegr. Fel Democratiaid Rhyddfrydol, rydym yn ochelgar ynglŷn ag a ydym angen system hollol ar wahân i Loegr, yn enwedig ar ddechrau'r broses hon, o leiaf yn y blynyddoedd cyntaf, ond gallem anelu at leihau dyblygu a chost drwy rannu adnoddau a gweithrediadau. Credaf fod llawer i edrych arno a'i nodi yn yr adroddiad, fel y dywedais, gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru. O ganlyniad, dywedant,

'Wales would gain a legal boundary that best addresses the problems of a reserved powers model, but without losing advantages of the shared jurisdiction or adding to the costs of running the courts and legal system.'

'What this offers is a way of establishing a legal jurisdiction for Wales that is distinct, without necessarily being separate.'

I'm glad to see the indication from Plaid Cymru that they're willing to support that today. With regard to our second point, we're quite clear: we believe in the devolution of criminal justice, especially, in the first instance, of youth justice, and we're quite clear in our position that we want to see policing devolved here. Our amendment is worded in such a way as to try and create a space where we can coalesce around these issues and to not have the devolution of those particular issues held up over an argument over a separate jurisdiction. I wouldn't like to see that happening because we can't get an agreement on a separate legal jurisdiction. So, I think that's why we've amended it in the way that we have. We see this, as always, as a process, not an event, and we want to keep the momentum rolling. That is the danger of the point that we currently find ourselves at in this process. We have to find a way of coalescing and keeping momentum rolling and not losing the opportunity that was presented to us by Silk under the pressure to try and create a new Bill.

Finally, we wanted to take this opportunity to reiterate again that it is not just issues around jurisdiction that need to be addressed by the Westminster Government. We wanted, again, to reiterate our support for the devolution of income tax raising powers to Wales at the earliest opportunity.

'Wales would gain a legal boundary that best addresses the problems of a reserved powers model, but without losing advantages of the shared jurisdiction or adding to the costs of running the courts and legal system.'

'What this offers is a way of establishing a legal jurisdiction for Wales that is distinct, without necessarily being separate.'

Rwy'n falch o weld Plaid Cymru yn dynodi eu bod yn barod i gefnogi hynny heddiw. O ran ein hail bwynt, rydym yn eithaf clir: rydym yn credu y dylid datganoli cyfiawnder troseddol, yn enwedig cyfiawnder ieuencid, yn y lle cyntaf, ac rydym yn eithaf clir o ran ein safbwynt ein bod am weld plismona'n cael ei ddatganoli yma. Mae ein gwelliant wedi'i eirio yn y fath fodd ag i geisio creu gofod lle y gallwn ddod at ein gilydd ar y materion hyn a pheidio â chael y broses o ddatganoli'r materion hynny wedi'i dal yn ôl gan ddadl dros awdurdodaeth ar wahân. Ni hoffwn weld hynny'n digwydd am na allwn gytuno ar awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân. Felly, rwy'n meddwl mai dyna pam ein bod wedi'i ddiwygio yn y ffordd a wnaethom. Fel bob amser, rydym yn edrych ar hyn fel proses, nid digwyddiad, ac rydym am gadw'r momentwm i fynd. Dyna berygl y pwynt rydym arno ar hyn o bryd yn y broses hon. Mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ffordd o ymglyfuno a chadw momentwm a pheidio â cholli'r cyfle a roddwyd i ni gan Silk o dan y pwysau i geisio creu Bil newydd.

Yn olaf, roeddem yn awyddus i fanteisio ar y cyfle hwn i ailadrodd eto nad materion yn ymwneud ag awdurdodaeth yn unig sydd angen i Lywodraeth San Steffan fynd i'r afael â hwy. Unwaith eto, roeddem eisiau ailadrodd ein cefnogaeth i ddatganoli pwerau codi treth incwm i Gymru cyn gynted â phosibl.

15:57

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n ffrainc gennyf i gael cymryd rhan yn y ddadl hon ar ddatblygiad datganoli, er, weithiau, mi fyddaf yn meddwl fy mod wedi treulio gormod o'm mywyd yn trafod datganoli. Fel yr awgrymodd farweinydd yn gynharach, mae'r peth yn gallu bod yn obsesiwn ac yr ydw i'n cyfaddef yn gyhoeddus, 'Ydy, mae cyfansoddiad Cymru yn obsesiwn gennyf'. Rwyf wedi cael y cyfle i arbenigo yn y maes yma, diolch i chi fel Aelodau Cynulliad, yn y Cynulliad hwn ac yn y Cynulliadau blaenorol. Felly, rwyf am ganolbwyntio'r hyn sydd gennyf i'w ddweud ar ddyfodol y sefydliad hwn, ond fe ddywedaf air neu ddau yn gryno am bwerau llywodraeth.

It's a privilege for me to participate in this debate on the development of devolution, although, on occasion, I think that I have spent too much of my life discussing devolution. As was suggested by my leader, earlier, it can become an obsession, and I publicly admit, 'Yes, the constitution of Wales is an obsession of mine'. I have had the opportunity to specialise in this area, thanks to you as Assembly Members, in this Assembly and in previous Assemblies. Therefore, I want to concentrate my comments on the future of this institution, but I will say a few words briefly on the powers of government.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Os ydych chi'n chwilio am enghraifft o bwerau cadwedig gydag eithriadau sydd yn rhesymol, yna nid oes unman gwell i edrych na Deddf Gogledd Iwerddon 1998. Mae honno o ddiddordeb i mi oherwydd ei bod hi'n ymwneud â rhanbarth deddfwriaethol sydd yn rhan o un aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd ac sydd yn gorfod gweithredu yn agos, gan ei bod hi'n rhannu ynys, gydag aelod-wladwriaeth arall. Ac y mae'r eithriadau, yn ddiddorol iawn, yn ymwneud efo capasiti Gogledd Iwerddon i ymwneud â'r de tra'n parhau'n rhan o'r Deyrnas Unedig. Dyna'r math o ystyriaeth gyfansoddiadol ddwys a ddylai fod ynglŷn â rhannu pwerau—nid beth sydd yn wleidyddol hwylus ar y pryd, neu'n wleidyddol ddadleuol i bobl eraill ar y pryd. Gwendid yr holl broses Gŵyl Ddewi yma ydy bod y cyfan wedi troi o gwmpas manylion datganoli am bolisiau a meysydd arbennig, yn hytrach nag edrych ar y pictiwr mwy.

Mae'r ail beth rwyf am ei ddweud am awdurdodaeth. Rwy'n cofio yr Arglwydd Brif Ustus, cyn iddo fod yn Brif Ustus, yn dweud ar ein hystâd ni, yn y Pierhead, ein bod ni'n byw mewn dwy neu dair neu bedair awdurdodaeth, efallai, yn barod: awdurdodaeth ddatblygol Cymru, awdurdodaeth Cymru a Lloegr, deddfwriaeth y Deyrnas Unedig, deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ac, wrth gwrs, yn gynyddol felly, yn enwedig mewn materion amgylcheddol, cytundebau rhyngwladol ac awdurdodaeth y Cenhedloedd Unedig. Felly, nid oes dim byd yn newydd ynglŷn ag awdurdodaeth sydd yn rhannu ei grym.

Ond beth rwyf am droi ato yma rŵan, Ddirprwy Lywydd, ydy edrych ar yr hyn sydd wedi digwydd i'r lle hwn, a phwysleisio mor bwysig yw hi ein bod ni'n gweithredu ar fyrd, gyda'r cytundeb llwyr sydd ynglŷn ag etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ac ynglŷn â hawl y Cynulliad yma i fod yn gyfrifol, drwy gonsensws rhwng y pleidiau, am ei faint, ei drefn ethol, a'i holl drefniadau seneddol ei hun. Oherwydd rwyf i'n credu, o'm mhrofiad i yn y lle hwn, mai'r hyn sydd fwyaf awdurdodol amdanom ni ydy ein bod ni'n gallu cynyddu'n pwerau'n raddol, gyda chytuniad pobl Cymru, a hynny gyda chonsensws rhwng y pleidiau. Mae consensws i mi yn golygu dwy ran o dair o fwyaf neu fwy. Mae'n amlwg y bydd unrhyw symudiad, gan barchu lleiafrifoedd efallai nad ydynt yn rhan o'r consensws—. Ond cawn ni weld am hynny pan fyddant yn cyrraedd yma. Ond mae'n rhaid inni ystyried y consensws yma yn hanfodol i'n datblygiad ni. Mae uwch fwyaf i ddwy ran o dair yn bwysig fel cyfreithloniad cyfansoddiadol i newid.

Felly, rwyf am ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol a ydy o'n barod i wahanu rhwng gosod pwerau i ni, yma, fel Cynulliad, i fod yn gyfrifol am y dyfodol, a'r dadleuon y mae o'n ei weld sy'n bwysig ynglŷn â'r pwerau cadwedig i Weinidogion yn San Steffan. Rwy'n gofyn hynny iddo fo, oherwydd mae'n amlwg i mi nad ydy o'n briodol i unrhyw Ysgrifennydd Gwladol—ac mae gennyf restr, wrth gwrs, o'r Ysgrifenyddion Gwladol mwyaf hoffus yn fy mywyd; ni fydd yn eich synnu chi i mi ddweud bod Paul Murphy ar dop y rhestr ac nid yw hyd yn oed Peter Hain yn bell, ond mae yna un sydd ar y gwaelod. Gallech chi feddwl pwy yw hwnnw. Ond nid wyf yn dymuno i Stephen Crabb i fod yn yr un gwaelod ac i'w anfon i lawr y gynghrair gyda'r Aelod dros Wokingham.

If you are seeking an example of reserved powers with exceptions that are reasonable, then there's no better place to look than the Northern Ireland Act 1998. That's of interest to me because it relates to a legislative region that is part of one member state of the European Union and that has to work closely, because it shares an island, with another member state. And the exceptions, rather interestingly, relate to Northern Ireland's capacity to deal with southern Ireland whilst remaining part of the United Kingdom. That's the kind of thorough constitutional consideration that should be involved in sharing powers—not what is politically expedient at the time or politically contentious for others. The weakness of the whole St David's Day process is that it has all turned around the minutiae of devolution in terms of particular policies and particular fields, rather than looking at the bigger picture.

The second point that I wanted to make was on jurisdiction. I recall the Lord Chief Justice, before he became Chief Justice, saying on our estate here, in the Pierhead, that we live in two or three, possibly four, jurisdictions already: the evolving jurisdiction of Wales, the England and Wales jurisdiction, and the UK and European jurisdictions. And, increasingly, particularly on environmental issues, there are international treaties and UN auspices. So, there is nothing new in terms of a jurisdiction that shares powers.

But what I want to turn to here now, Deputy Presiding Officer, is to look at what will happen to this place, and to emphasise how important it is that we do take action as a matter of urgency, with the full agreement that exists about elections to this National Assembly and the right of this Assembly to be responsible, through consensus between the parties, for its size, its electoral arrangements, and all of its own parliamentary functions and procedures. Because I believe, from my own experience in this place, that what is most authoritative about us is that we can enhance our powers gradually, with the agreement of the people of Wales, and do that with consensus between the parties. For me, consensus means a majority of two thirds or more. It's clear that any movement, respecting minorities that may not form any part of that consensus—. But we'll see about that when they get here. But we have to consider this consensus to be crucial to our development. A super majority of two thirds is important as constitutional justification for change.

Therefore, I will ask the Secretary of State whether he is willing to separate the issue of giving us, as an Assembly, powers to be responsible for our own future, and the arguments that he believes to be important in relation to the reserved powers for Ministers in Westminster. I ask that of him, because it appears to me that it's not appropriate for any Secretary of State—and I have a list, of course, of the Secretaries of State that I have been most fond of; it won't surprise you that Paul Murphy tops that list, and Peter Hain, even, isn't a long way off the top, but there is one who's at the bottom. I'm sure you can guess which one that is. But I don't want Stephen Crabb to fall to that same level and to send him down the league with the Member for Wokingham.

Felly, dyna'r her iddo fo: i dderbyn bod gan Gynulliad Cymru hawl i ddisgwyl cael ei drin fel partner cyfartal mewn cyd-ddeddfu am ei ddyfodol a'i gyfansoddiad ei hun.

So, that's the challenge for him: to accept that the National Assembly for Wales has a right to expect to be treated as an equal partner in jointly legislating on its own future and constitution.

16:02

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It's not only Leanne Wood who has an obsession with dealing with constitutional matters. As Members probably remember, I've led two individual Member debates on issues around this. I intend to address, this afternoon, three points: the need for a reserved-powers model, the ending of asymmetric devolution in Britain, and the mantelpiece model, as was used in Northern Ireland and used to devolve policing.

The change to a reserved-powers model is not about Assembly powers outside the 20 devolved areas. But it also must not be used as a means of taking powers back from the Assembly. What it should do and must do is bring clarity to the devolution settlement. Without the reserved-powers model, every piece of legislation passed is in danger of being referred to the court—good for the lawyers; bad for democracy. And, if I can quote the Law Society and what they said to the Silk commission:

'The overriding principle should be that the law is clear and accessible, which law is applicable to those residing in the border areas should be no less clear than that for a person residing in Cardiff.

'It is difficult to defend the current situation when its present effects are the confusion of powers rather than clarity of where power lies—whether for the legal practitioner or for the individual citizen simply seeking to understand and enforce their legal rights in twenty-first century Wales.'

The current system lacks the clarity of the reserved-powers model, exemplified by the first piece of legislation, the hardly contentious local authorities bye-law Bill, being called before the courts. I believe the same clarity that Scotland and Northern Ireland have got should be extended to Wales.

Wales has a conferred powers devolution model. This makes Wales different from Scotland and Northern Ireland and also the majority of other European countries and other parts of the world that enjoy the reserved-powers model. It is a telling point that it is a method not just in Northern Ireland, but across mainland Europe, because it provides clarification on where responsibility lies.

However, the main lesson from continental Europe's experience of devolution is that, while there are many different ways of creating a devolved structure, all have the reserved-powers model in common. The legislative powers of Northern Ireland set up in the Act of 1998 and the Scotland Act of 1998 state that, where a matter is not explicitly listed in that Act, it implicitly devolves to the Scottish Parliament. It makes sense, it makes life easy, and people know exactly where they are.

Nid Leanne Wood yn unig sydd ag obsesiwn ag ymdrin â materion cyfansoddiadol. Fel y mae'r Aelodau'n cofio, yn ôl pob tebyg, rwyf wedi ei arwain dwy ddadl Aelod unigol ar faterion yn ymwneud â hyn. Rwy'n bwriadu trafod tri phwynt y prynhawn yma: yr angen am fodel cadw pwerau, rhoi diwedd ar ddatganoli anghymesur ym Mhrydain, a'r model sillf ben tân, fel a ddefnyddiwyd yng Ngogledd Iwerddon, a'i ddefnyddio i ddatganoli plismona.

Nid yw'r newid i fodel cadw pwerau yn ymwneud â phwerau'r Cynulliad y tu allan i'r 20 maes datganoledig. Ond ni ddylai gael ei ddefnyddio chwaith fel ffordd o gymryd pwerau'n ôl oddi wrth y Cynulliad. Yr hyn y dylai ei wneud ac y mae'n rhaid iddo'i wneud yw dod ag eglurder i'r setliad datganoli. Heb y model cadw pwerau, mae pob deddfwriaeth a basiwyd mewn perygl o gael ei chyfeirio at y llys—da i gyfreithwyr; drwg i ddemocratiaeth. Ac os caf ddyfynnu Cymdeithas y Cyfreithwyr a'r hyn a ddywedasant wrth gomisiwn Silk:

Yr egwyddor bwysicaf y dylid ei harddel yw bod y gyfraith yn glir ac yn ddealladwy, a dylai'r gyfraith sy'n berthnasol i'r rhai sy'n byw yn y gororau fod yr un mor glir ag ydyw i rywun sy'n byw yng Nghaerdydd.

Mae'n anodd amddiffyn y sefyllfa bresennol gan ei bod yn arwain ar hyn o bryd at ddryswch ynglŷn â phwerau yn hytrach nag eglurder ynglŷn â phwerau—boed hynny i'r ymarferydd cyfreithiol neu'r dinesydd unigol sydd ond yn ceisio deall ac arfer eu hawliau cyfreithiol yng Nghymru yn y unfed ganrif ar hugain.

Mae'r system bresennol yn brin o eglurder y model cadw pwerau, fel y dengys y ffaith fod y ddeddfwriaeth gyntaf, y Bil is-ddeddfau awdurdodau lleol na ellir honni ei fod yn gynhennus o gwbl, wedi'i ddwyn gerbron y llysoedd. Rwy'n credu y dylid ymestyn yr un eglurder ag a geir yn yr Alban a Gogledd Iwerddon i Gymru.

Mae gan Gymru fodel rhoi pwerau o ddatganoli. Mae hyn yn gwneud Cymru'n wahanol i'r Alban a Gogledd Iwerddon, a hefyd i'r rhan fwyaf o wledydd eraill Ewrop a rhannau eraill o'r byd sy'n mwynhau'r model cadw pwerau. Mae'n dweud llawer ei fod yn ddull nid yn unig yng Ngogledd Iwerddon, ond ar draws tir mawr Ewrop, gan ei fod yn egluro lle y mae'r cyfrifoldeb.

Fodd bynnag, y brif wers o brofiad cyfandir Ewrop o ddatganoli yw, er bod llawer o wahanol ffyrdd o greu strwythur datganoledig, mae'r model cadw pwerau yn gyffredin iddynt oll. Mae pwerau deddfwriaethol Gogledd Iwerddon a sefydlwyd yn Neddf 1998, a Deddf yr Alban 1998 sy'n datgan, lle nad yw mater wedi'i restru'n benodol yn y Ddeddf honno, mae'n ddealedig ei fod wedi'i ddatganoli i Senedd yr Alban. Mae'n gwneud synnwyr, mae'n gwneud bywyd yn hawdd, ac mae pobl yn gwybod yn union lle y maent yn sefyll.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The reserved-powers model is very similar to the devolution model in state and regional government across Europe—Germany, Spain and Italy. Of the other European states that have decentralised Governments, Spain is the most like Britain, in that it has a system that you might call asymmetrical devolution. Interestingly, Spain has started moving towards a more symmetrical model in recent times.

Powers that should continue to be held at Westminster, things like foreign affairs, defence, citizenship, currency and money, the unity of the customs and trading area, which, if they were devolved, we'd actually become a separate country—I know some people would probably like that, but those are areas that obviously would stay if we intend to stay as a unified state. That's not a definitive list or an exhaustive list, but it's an indication of what is probably best left, if we want to stay as a united state, at Westminster.

Asymmetric devolution is causing huge anomalies, and will continue to do so. There is a need to have an endpoint of the devolution journey that is the same for Wales, Scotland and Northern Ireland. The time to reach that point may be different, and almost certainly will be different, but the endpoint needs to be exactly the same.

I also commend the Northern Ireland model, where items are devolved when the Assembly votes to do so. I'd like a lock of two thirds of the Assembly supporting it, something that Lord Elis-Thomas mentioned earlier. This would allow a series of functional areas, such as policing, to be devolved, but only after discussion and agreement between the two Governments and the agreement of the Assembly as a whole, thus giving a way forward to reaching the endpoint. I have serious concerns about the dumping principle of the Westminster Government: 'We'll give you this, there's no money with it, but it's now devolved to you, good luck, you're now responsible for it'—responsibility without money. Dare I say it, local authorities have had that many times from both central Government and, they would say, from this Assembly as well? They've been given responsibility and the money hasn't followed it. I would hate us to be in a situation where we have huge responsibilities—and, as people know, I'm a big fan of devolving policing; that's another one of the debates I led on and spoke in earlier last year. I'm very much in favour of it, but we want the money to come as well. I think it would be ridiculous to have the power without the money.

In conclusion, we need a reserved-powers model. We need an agreed endpoint for Wales, Scotland and Northern Ireland devolution, and with different methods of getting there. I'm sure we'll get there at different times, but we must all be aiming to get to exactly the same place.

On income tax devolution, just very briefly, it will put huge financial pressure on the Welsh Government. It can vary by up to £400 million or £500 million, year on year. We need some sort of protection first.

Mae'r model cadw pwerau yn debyg iawn i'r model datganoli mewn llywodraethau gwladwriaethol a rhanbarthol ar draws Ewrop—yr Almaen, Sbaen a'r Eidal. O blyth y gwladwriaethau Ewropeaidd eraill sydd â Llywodraethau datganoledig, Sbaen sydd debycaf i Brydain, yn yr ystyr fod ganddi system y gallech ei galw'n ddatganoli anghymesur. Yn ddi-ddorol, mae Sbaen wedi dechrau symud tuag at fodel mwy cymesur yn y cyfnod diweddar.

Pwerau y dylid parhau i'w cadw yn San Steffan, pethau fel materion tramor, amddiffyn, dinasyddiaeth, arian, unoliaeth tollau ac ardal fasnachu, a fyddai, pe baent yn cael eu datganoli, yn golygu mewn gwirionedd ein bod yn dod yn wlad ar wahân—gwn y byddai rhai pobl yn hoffi hynny yn ôl pob tebyg, ond mae'r rheini'n feysydd a fyddai'n amlwg yn aros os ydym yn bwriadu aros yn wladwriaeth unedig. Nid yw hon yn rhestr derfynol na'n rhestr gynhwysfawr, ond mae'n rhoi syniad o'r hyn y byddai'n well ei adael ar ôl yn San Steffan mae'n debyg, os ydym am aros yn wladwriaeth unedig.

Mae datganoli anghymesur yn achosi anghysondebau enfawr, a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae angen cael pwynt terfynol i daith datganoli sydd yr un fath ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Efallai y bydd amser cyrraedd y pwynt hwnnw'n wahanol, ac mae bron yn sicr o fod yn wahanol, ond mae angen i'r pwynt terfynol fod yn union yr un fath.

Rwyf hefyd yn cymeradwyo model Gogledd Iwerddon, lle y mae eitemau'n cael eu datganoli pan fydd y Cynulliad yn pleidleisio dros wneud hynny. Hoffwn weld dwy ran o dair o'r Cynulliad yn ei gefnogi, rhywbeth a grybwyllwyd gan yr Arglwydd Elis-Thomas yn gynharach. Byddai hyn yn caniatáu i gyfres o feysydd gweithredol, megis plismona, gael eu datganoli, ond nid cyn cael trafodaeth a chytundeb rhwng y ddwy Lywodraeth a chytundeb y Cynulliad cyfan, gan gynnig ffordd ymlaen i gyrraedd y pwynt terfynol. Mae gennyf bryderon difrifol ynglŷn ag egwyddor ddympio Llywodraeth San Steffan: 'Rhown hyn i chi, nid oes arian yn dod gydag ef, ond mae wedi'i ddatganoli i chi, pob lwc, chi sy'n gyfrifol amdano bellach'—cyfrifoldeb heb arian. Meiddiaf ddweud bod awdurdodau lleol wedi cael hynny lawer gwaith gan y Llywodraeth ganolog, a byddent yn dweud, gan y Cynulliad hwn hefyd. Rhoddwyd cyfrifoldeb iddynt heb arian i'w ddilyn. Byddai'n gas gennyf fod mewn sefyllfa lle y mae gennym gyfrifoldebau enfawr—ac fel y mae pobl yn gwybod, rwy'n ffan mawr o ddatganoli plismona; dyna un arall o'r dadleuon a arweiniais ac y siaradais ynnddi yn gynharach y llynedd. Rwy'n bendant o blaid hynny, ond rydym am i'r arian ddod hefyd. Rwy'n credu y byddai'n hurt cael y pŵer heb yr arian.

I gloi, mae angen model cadw pwerau. Mae angen pwynt terfynol wedi'i gytuno ar gyfer datganoli yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a chyda gwahanol ddulliau o gyrraedd yno. Rwy'n siŵr y byddwn yn cyrraedd yno ar adegau gwahanol, ond mae'n rhaid i ni i gyd anelu i gyrraedd yr un lle'n union.

Ar ddatganoli treth incwm, yn fyr iawn, bydd yn rhoi pwysau ariannol enfawr ar Lywodraeth Cymru. Gall amrywio hyd at £400 miliwn, neu £500 miliwn, o un flwyddyn i'r llall. Mae angen rhyw fath o amddiffyniad yn gyntaf.

Now, the National Assembly must be able to legislate with confidence if we are to deliver effective governance for the nation. Legal challenges, as mentioned by Mike Hedges earlier, and, of course, Supreme Court referrals, are costly in terms of time, money and confidence, I think, in the Assembly's competence. Although a reserved-powers model doesn't entirely rule out disagreements that lead to Supreme Court battles, it can certainly give more clarity.

These arguments, I think, have already been convincingly put forward this afternoon by previous speakers, so I'd like to focus on the desirability of the devolution of criminal justice and policing. The Silk commission part 2 report included a recommendation that policing and related areas of community safety, crime prevention and youth justice should be devolved to Wales. This is a necessary step forward for us if the Welsh Government and this Assembly are able ever to deliver coherent public policy and integrated, cohesive public services. Now, Silk found public support for the devolution of policing and criminal justice; their opinion poll showed 63 per cent were in favour of the National Assembly and the Welsh Government having responsibility for policing in Wales. The Welsh Government was also in support of policing, I think, and it's supported by the professional police bodies and the chief constables, and only one of the police and crime commissioners opposed the idea.

Silk also argued that criminal justice could follow later. Now, the argument in favour of this, I think, was put forward by the Counsel General and does put it well, I think—in a nutshell, that there would be great advantages for us, because each nation has its own challenges in addressing crime, including population density, terrain, cultural trends and the structure and organisation, of course, of the forces. Control of police and justice at a local level—it is easier to promote and encourage efficiencies through restructuring administrative services, while devolved boundaries can focus then on the tackling of the crimes that most greatly affect those communities. And, of course, it is kind of difficult to disagree with that, but policing is a public service and tackling crime and its causes should be done holistically with the other public services. Of course, we already have the other devolved emergency services.

Nawr, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol allu deddfu'n hyderus os ydym i lywodraethu'n effeithiol er mwyn y genedl. Fel y crybwyllodd Mike Hedges yn gynharach, mae heriau cyfreithiol a chyfeiriadau i'r Goruchaf Lys, wrth gwrs, yn gostus o ran amser, arian a hyder, rwy'n meddwl, yng ngymhwysedd y Cynulliad. Er nad yw model cadw pwerau yn atal anghydweld sy'n arwain at frwydrau yn y Goruchaf Lys yn llwyr, gall gynnig mwy o eglurder yn bendant.

Rwy'n credu bod y dadleuon eisoes wedi cael eu cyflwyno'n argyhoeddiadol gan siaradwyr blaenorol y prynhawn yma, felly hoffwn ganolbwyntio ar fuddioldeb datganoli cyfiawnder troseddol a phlisma. Roedd adroddiad comisiwn Silk rhan 2 yn cynnwys argymhelliad y dylai plisma a meysydd cysylltiedig diogelwch cymunedol, atal troseddau a chyfiawnder ieuencid gael eu datganoli i Gymru. Mae hwn yn gam angenrheidiol ymlaen i ni os yw Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad hwn yn mynd i allu cyflwyno polisi cyhoeddus cydlynol a gwasanaethau cyhoeddus integredig a chydgyssylltiedig. Nawr, gwelodd Silk fod cefnogaeth gyhoeddus i ddatganoli plisma a chyfiawnder troseddol; dangosodd eu harolwg barn fod 63 y cant o blaid rhoi cyfrifoldeb am blisma yng Nghymru i'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi plisma, rwy'n meddwl, ac mae cyrff proffesiynol yr heddlu a'r prif gwnstablaid o'i blaid, ac un comisiynydd heddlu a throseddau yn unig a wrthwynebai'r syniad.

Dadleuodd Silk hefyd y gallai cyfiawnder troseddol ddilyn yn nes ymlaen. Nawr, cyflwynwyd y ddadl o blaid hyn, rwy'n meddwl, gan y Cwnsler Cyffredinol ac mae'n ei roi'n dda, rwy'n credu—sef yn gryno, y byddai manteision gwych i ni, am fod gan bob cenedl ei heriau ei hun wrth fynd i'r afael â throseddau, gan gynnwys dwysedd poblogaeth, tir, tueddiadau diwylliannol a strwythur a threfniadaeth yr heddluoedd, wrth gwrs. Rheoli heddlu a chyfiawnder ar lefel leol—mae'n haws hyrwyddo ac annog arbedion effeithlonrwydd drwy ailstrwythuro gwasanaethau gweinyddol, tra gall ffiniau datganoledig ganolbwyntio wedyn ar fynd i'r afael â'r troseddau sy'n effeithio ar y rhan fwyaf o'r cymunedau hynny. Ac wrth gwrs, mae'n eithaf anodd anghytuno â hynny, ond mae plisma yn wasanaeth cyhoeddus a dylid mynd i'r afael â throseddau a'i achosion mewn ffordd gyfannol gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill. Wrth gwrs, mae'r gwasanaethau brys eraill eisoes wedi'u datganoli i ni.

Now, the situation on accountability and funding is complex, I think, at the moment. Significant amounts of police funding come from devolved sources. Perhaps one of the most visible examples of the complication of the current devolved settlement is the ongoing existence of police and crime commissioners. The UK Government needed the Assembly's agreement for the reforming of the police authorities into police and crime panels as part of the introduction of the police and crime commissioners, and their decision to bring in the changes to policing despite the National Assembly voting not to give them that authority, I think, was undemocratic, and it undermined the elected voice of the people of Wales. I'm sure that, if this was a devolved area, we probably wouldn't opt for the commissioner model that we have at the moment. I've said this many times in the Chamber, that I can see a time when we no longer have them. But is it beyond the realms of imagination for a future National Assembly to want police and crime commissioners? Well, I hope it wouldn't, but it could happen. However, with almost five years more of Conservative Government in Westminster ahead of us, we need to accept that police and crime commissioners are now a reality for us in the foreseeable future, and, of course, we've got those elections for commissioners next year. I think we should try our best to get the best out of them and, perhaps, while we still have them, work with them for better outcomes and better transparency and accountability for their work, especially where it impacts on devolved areas.

Of course, we have yet to see the new Wales Bill. So, any concerns about the details of its content, well we'll just have to speculate on that at the moment. However, there has been no indication from the UK Government that the new Bill will finally produce the devolution of policing or criminal justice. I think Wales remains trapped in an incomplete devolution settlement that prevents us from taking true control over the direction of our public services.

Nawr, mae'r sefyllfa o ran atebolrwydd a chyllid yn gymhleth ar hyn o bryd, rwy'n credu. Daw symiau sylweddol o gyllid yr heddlu o ffynonellau sydd wedi'u datganoli. Efallai mai un o'r enghreifftiau mwyaf gweladwy o gymhlethdod y setliad datganoledig presennol yw'r ffaith fod comisiynwyr heddlu a throseddu'n dal i fodoli. Roedd angen cytundeb y Cynulliad ar Lywodraeth y DU i ailffurfio'r awdurdodau heddlu yn baneli heddlu a throseddu fel rhan o'r broses o gyflwyno'r comisiynwyr heddlu a throseddu, ac mae eu penderfyniad i gyflwyno'r newidiadau i blismona er gwaethaf y ffaith fod y Cynulliad Cenedlaethol wedi pleidleisio i beidio â rhoi'r awdurdod hwnnw iddynt, rwy'n meddwl, yn annemocrataidd, ac yn tanseilio llais etholedig pobl Cymru. Pe bai hwn yn faes wedi'i ddatganoli, rwy'n siwr na fyddem yn dewis y model comisiynydd sydd gennym ar hyn o bryd. Rwyf wedi dweud droeon yn y Siambr y gallaf weld adeg pan na fyddant gennym mwyach. Ond a yw y tu hwnt i ddychymyg y gallai Cynulliad Cenedlaethol yn y dyfodol fod yn awyddus i gael comisiynwyr heddlu a throseddu? Wel, rwy'n gobeithio na fyddai, ond gallai ddigwydd. Fodd bynnag, gyda bron i bum mlynedd yn fwy o Lywodraeth Geidwadol yn San Steffan o'n blaenau, mae angen i ni dderbyn bod y comisiynwyr heddlu a throseddu yn realiti i ni yn awr ac yn y dyfodol agos, ac wrth gwrs, mae gennym etholiadau'r comisiynwyr y flwyddyn nesaf. Rwy'n meddwl y dylem geisio gwneud ein gorau i sicrhau ein bod yn cael y gorau ganddynt ac efallai, tra byddant yn dal i fod gennym, y dylem weithio gyda hwy i sicrhau gwell canlyniadau a gwella tryloywder ac atebolrwydd eu gwaith, yn enwedig lle y mae'n effeithio ar feysydd datganoledig.

Wrth gwrs, nid ydym wedi gweld y Bil Cymru newydd eto. Felly, o ran unrhyw bryderon am fanylion ei gynnwys, wel bydd yn rhaid i ni ddyfalu ynghylch hynny ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw arwydd gan Lywodraeth y DU y bydd y Bil newydd o'r diwedd yn datganoli plismona neu gyfiawnder troseddol. Rwy'n meddwl bod Cymru yn parhau yn gaeth i setliad datganoli anghyflawn sy'n ein hatal rhag cymryd rheolaeth go iawn dros gyfeiriad ein gwasanaethau cyhoeddus.

16:12

Paul Davies [Bywgraffiad Biography](#)

Rwy'n falch o gael y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon y prynhawn yma, ac rwy'n hynod o falch bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn parhau i ddangos ei hymrwymiad i ddatganoli yng Nghymru drwy gynnig model cadw pwerau ar gyfer y sefydliad hwn. Fel mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi'i gwneud yn glir, bydd y cynlluniau yn rhoi mwy o rym i'r Cynulliad Cenedlaethol, nid llai. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn gobeithio y bydd yn cael ei groesawu gan bobl plaid yn y Siambr hon. Bydd Aelodau'n gwybod fy mod i wedi ymgyrchu dros y model hwn yn y Siambr hon dros y blynyddoedd diwethaf, gydag Aelodau o bob plaid, ac rwy'n falch o weld yr agenda honno nawr yn symud ymlaen ac y bydd yn dod yn realiti yn y dyfodol agos.

I'm pleased to have the opportunity to take part in this debate this afternoon, and I am very pleased that the UK Government is continuing to show its commitment to devolution in Wales by offering a reserved-powers model for this institution. As the Secretary of State for Wales has made clear, the plans will give more powers to the Assembly, not fewer. That is something that I hope will be welcomed by every party in this Chamber. Members will know that I have campaigned for this model in the Chamber over the years, with Members of every party, and I'm pleased to see that agenda now moving forward and that it will become a reality in the near future.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Nodaf fod adroddiad diweddar Canolfan Llywodraethiant Cymru yn credu y gall cynigion ar gyfer model cadw pwerau fod yn anymarferol a bod yna berig y gall methu â darparu setliad clir, cadarn a pharhaol. Rwy'n derbyn y bydd model cadw pwerau yn gofyn am sail resymegol glir ar gyfer penderfynu pa swyddogaethau y dylid eu datganoli a pha swyddogaeth y dylid eu cadw yn San Steffan. Fodd bynnag, byddwn i ar hyn o bryd yn gofyn i bobl beidio â neidio i unrhyw gasgliadau, nes ein bod ni mewn sefyllfa i weld y ddeddfwriaeth ddrafft a bod y Mesur wedi'i gyhoeddi. Wrth gwrs, mae'n bwysig ein bod ni'n cael y model cadw pwerau yn gywir a bod y pwerau datganoledig newydd yn briodol. Dyna pam y mae'n hanfodol yn fy marn i fod y trafodaethau rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru yn parhau mewn ffordd adeiladol. Felly, byddwn i'n annog y ddwy Lywodraeth i sicrhau bod y trafodaethau hynny'n parhau mewn modd cadarnhaol.

O ran yr egwyddorion y tu ôl i'r model cadw pwerau, rŷm ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn cefnogi'r model cadw pwerau ar gyfer y Cynulliad, ac rwy'n cytuno â phwynt 3 y cynnig, sef y dylai'r model cadw pwerau newydd ddim cael gwared ar unrhyw bwerau sy'n aferadwy gan y Cynulliad o dan y trefniadau presennol oherwydd byddai hynny'n groes i ddymuniadau pobl Cymru a bleidleisiodd mewn mwyafrif llethol am bwerau pellach yn 2011. Mae'r model newydd hwn wedi cael cefnogaeth eang nid yn unig gan wleidyddion, ond hefyd gan sefydliadau a busnesau ledled Cymru sydd eisiau dealltwriaeth gliriach a mwy tryloyw o'r hyn sydd ddim wedi'i ddatganoli. Rhoddodd cadeirydd cyngor Cymru Cymdeithas Feddygol Prydain, Phil Banfield, a'r ysgrifennydd yng Nghymru, Richard Lewis, dystiolaeth i gomisiwn Silk ynghylch y Bil trawsblannu dynol, fel yr oedd ar y pryd, a'i ddefnyddio fel enghraifft o fodel datganoli ag ymylon garw yma yng Nghymru. Dadleuent fod yna amwysedd i gychwyn ynglŷn ag a oedd gan Gymru'r pwerau angenrheidiol i ddatblygu polisi ar roi organau yng Nghymru. Felly, byddai symud at fodel cadw pwerau yn arwain at fwy o eglurder ynghylch y mathau hyn o faterion. Byddai hefyd yn cael gwared ar unrhyw densynau posibl yn y dyfodol rhwng y Cynulliad a San Steffan, ac mae'n rhaid bod hynny o fudd i'n democratiaeth ni. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach hefyd wedi galw am symud i fodel cadw pwerau gan ddadlau bod busnesau yn ffafrio eglurder yn eu hamgylchedd gwaith a bod angen setliad datganoli gweithredol i alluogi Cymru i elwa yn fwyaf effeithiol ar bob haen o Lywodraeth.

Mae'r cynnig heddiw hefyd yn galw am greu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru a hefyd datganoli cyfiawnder troseddol a phlisma i gyd-fynd â hynny. Nid wyf wedi fy argyhoeddi eto bod angen sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru o ystyried bod polisi yn y maes hwn o gyfraith a threfn, gan gynnwys troseddau mawr, yn parhau i fod ar lefel San Steffan. Fodd bynnag, rwyf yn derbyn y gall fod yna angen i sefydlu mecanweithiau priodol i adlewyrchu deddfau sy'n cael eu gwneud yng Nghymru. Ond fel mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi dweud heddiw, yn ei adroddiad, mae comisiwn Silk yn dweud na fyddai awdurdodaeth ar wahân o anghenraid yn dilyn yn sgil cyflwyno model cadw pwerau.

I note that a recent report by the Wales Governance Centre says that proposals for the reserved-powers model could be impractical and that there is a danger of it failing to provide a clear, robust and permanent settlement. I accept that the reserved-powers model will require a clear logical basis for deciding which functions should be devolved, and which functions should be reserved to Westminster. However, at present, I would ask people not to jump to any conclusions until we are in a position to see the draft legislation, and the Bill is published. Of course, it's important that we get the reserved-powers model right and that the new devolved powers are appropriate. That's why it's critical, in my opinion, that the discussions between the UK Government and the Welsh Government continue in a constructive way. So, I would encourage both Governments to ensure that those negotiations continue in a positive way.

In terms of the principles behind the reserved-powers model, we on this side of the Chamber support the reserved-powers model for the Assembly, and I agree with point 3 of the motion, that the reserved-powers model should not remove any powers that are currently exercisable by the Assembly under the present arrangements because that would conflict with the wishes of the people of Wales who voted in an overwhelming majority for further powers in 2011. This new model has had broad support not only from politicians, but also from institutions and businesses across Wales who want a clear and more transparent understanding of what hasn't been devolved. The chair of the Welsh council of the British Medical Association, Phil Banfield, and his Welsh secretary, Richard Lewis, gave evidence to the Silk commission about the human transplantation Bill, as it was at the time, and used it as an example of a devolution model with jagged edges here in Wales. There was some ambiguity as to whether Wales had the necessary powers to develop policy on organ donation in Wales. So, moving to a reserved-powers model would lead to greater clarity on these kinds of issues. It would also remove any possible tensions in future between the Assembly and Westminster, and that can only be of benefit for our democracy. The Federation of Small Businesses has also called for a reserved-powers model, arguing that businesses favour clarity in their working environment, and that we need a devolution settlement that allows Wales to benefit most at all levels of Government.

Today's motion also calls for the creation of a Welsh legal jurisdiction and the devolution of criminal justice and policing to accompany that. I'm not yet convinced that we need a separate legal jurisdiction for Wales given that policy in this area of law and order, including serious crime, continues to be at the Westminster level. However, I do accept that there could be a need to establish appropriate mechanisms to reflect laws made here in Wales. But as the leader of the Welsh Liberal Democrats has said today, in its report, the Silk commission says that a separate jurisdiction wouldn't necessarily follow as a result of the introduction of a reserved-powers model.

Cyn belled ag y mae datganoli plismona yn y cwestiwn, gallai un ddadlau bod hyn eisoes wedi digwydd drwy gyflwyno comisiynwyr yr heddlu a throseddu. Maent yn gyfrifol am osod blaenoriaethau a chyllidebau plismona lleol, gyda'u gweithredoedd uniongyrchol yn atebol i'r etholwyr. Mae comisiynwyr yr heddlu a throseddu yn sicrhau bod dymuniadau cymunedau lleol yn cael eu hystyried ac maent yn defnyddio gwybodaeth leol i leihau lefelau troseddu. Dyna yw datganoli go iawn: trosglwyddo mwy o rym ac ymreolaeth i'n cymunedau lleol a dod â gwleidyddiaeth yn nes at y bobl.

Dirprwy Lywydd, wrth gloi, rydym ni ar ochr hon y Siambr am weld model cadw pwerau a fydd yn sicrhau mwy o gysondeb a thryloywder yn setliad cyfansoddiadol Cymru. Diolch.

As far as the devolution of policing is concerned, one could argue that this has already happened through the introduction of police and crime commissioners. They are responsible for setting the priorities and budgets for local policing and they are accountable to their electorate. Police and crime commissioners do ensure that the wishes and aspirations of local communities are taken into account and they use local knowledge to reduce crime levels. That is real devolution: transferring more power to our local communities and bringing politics closer to the people.

Deputy Presiding Officer, in conclusion, we on this side of the Chamber want to see a reserved-powers model that will ensure more consistency and transparency in the constitutional settlement of Wales. Thank you.

16:17

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n dda gennyf gyfrannu at y ddatl. Rwyf eisiau dechrau lle gorffennodd Paul Davies, gyda'r mater o awdurdodaeth gyfreithiol. Yn gyntaf oll, rwy'n croesawu'r hyn a ddywedodd ef, o leiaf drwy ddatgan ei gefnogaeth lwyr i'r egwyddor na ddylai unrhyw system pwerau a gadwyd yn ôl gollu unrhyw bwerau o'r lle hwn. Fel y dywedwyd gan Paul Davies, mi oedd yna referendwm go bwysig yng Nghymru lle cadarnhawyd nid yn unig bod pobl Cymru am inni gael y pwerau, ond roeddent am inni ddeddfu ar y pwerau yn y lle yma hefyd.

I raddau helaeth, er nad wyf eisiau anghytuno gyda fy nghynnig fy hun, mewn ffordd, nid ydym yn sôn am greu awdurdodaeth gyfreithiol wahanol i Gymru. Mae eisoes yn bodoli. Mae hynny wedi cael ei gyfleu yn glir iawn yn y dystiolaeth i'r pwyllgor yr ydych chi yn ei gadeirio, Ddirprwy Lywydd, yn ystod y drafodaeth gyhoeddus yn ddiweddar ynglŷn ag awdurdodaeth gyfreithiol. Mae modd cael awdurdodaeth gyfreithiol gyda dwy ddeddfwrfa—mae San Steffan yn deddfu dros Gymru, ac mae'r Senedd fan hyn hefyd yn deddfu dros Gymru. Er bod yna ddwy genedl wedi'u datganoli y tu fewn i'r hen ynys, fel petai—yr Alban a Chymru—mae San Steffan yn dal i deddfu dros yr Alban, er bod ganddynt awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân.

I'm pleased to contribute to this debate. I want to start where Paul Davies finished off, with the issue of a legal jurisdiction. First of all, I welcome what he said, at least in declaring his full support for the principle that no system of reserved powers should actually see any powers removed from this place. As was said by Paul Davies, there was an important referendum in Wales, where it was confirmed not only that the people of Wales wanted us to have the powers, but they wanted us to legislate on those powers in this place.

To a great extent, and although I don't want to disagree with my own motion, in a way, we're not talking about the creation of a different legal jurisdiction in Wales. It's already there. That's been very clearly conveyed in the evidence to the committee that you Chair, Deputy Presiding Officer, during the public debate that took place recently on a legal jurisdiction. You can have a legal jurisdiction with two legislatures—Westminster makes legislation for Wales, and the Senedd here also makes legislation for Wales. Although there are two devolved nations on this island—Scotland and Wales—Westminster does still legislate for Scotland, although they do have a separate legal jurisdiction

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Yn Gymraeg, mae'n anodd gwahaniaethu, weithiau, rhwng y geiriau yma—'ar wahân' a 'gwahanol'. 'Gwahanol' yw 'distinct' ac 'ar wahân' yw 'separate'. I fod yn glir, dyna beth rwy'n ceisio ei ddweud fan hyn. Rwy'n cytuno, mewn ffordd, â'r hyn a ddywedwyd gan Kirsty Williams—mae modd cael awdurdodaeth gyfreithiol wahanol heb iddi fod o reidrydd ar wahân. Ond nid yw 'ar wahân' chwaith yn golygu'r hyn y mae rhai pobl yn ei feddwl. Nid yw 'ar wahân' yn golygu nad yw bargyfreithiwr yn Lloegr yn gallu arfer ei grefft, er enghraifft, yng Nghymru. Nid yw hyn o reidrydd yn golygu hynny, achos bod modd rhannu'r pethau hyn ar draws awdurdodaethau cyfreithiol, fel sydd eisoes yn digwydd. Beth fuasem yn ei wneud drwy beidio sefydlu yn glir iawn awdurdodaeth gyfreithiol wahanol, o leiaf, sy'n cyd-fynd â'r model pwerau a gadwyd yn ôl, yw colli'r grym economaidd o Gymru. Mae gwasanaethau cyfreithiol yn yr Alban yn werth £3 biliwn y flwyddyn i'r Alban. Mae Dafydd Elis-Thomas eisoes wedi sôn am yr hyn sy'n digwydd yng Ngogledd Iwerddon, lle mae yna 16,000 o bobl, os rwy'n cofio'n iawn o'r astudiaeth y gwnaethom ni yn y pwyllgor ar ymweliad â Gogledd Iwerddon—16,000 o bobl wedi'u cyflogi yn y system o dan awdurdodaeth gyfreithiol wahanol ac ar wahân, fel y mae'n digwydd, yn y fan honno.

Nid oes modd cychwyn achos llys yn yr Uchel Lys yma yng Nghymru; mae'n rhaid ichi fynd i Lundain yn gyntaf ac wedyn mewnfio'r achos, os liciwch chi. Yn y cyd-destun yna, mae tipyn o rym economaidd yn cael ei golli i Gymru, ac mae modd ail-wladoli rhywfaint o hynny drwy sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol wahanol o leiaf.

We see this, as well, in the bread-and-butter issues that face our constituents. I, at the moment—today—have sent in my submission to the consultation on the closure of Crown and magistrates' courts in Dolgellau, Brecon and Carmarthen. Those courts—. We can't lift a finger here to protect our own citizens—our own constituents—who are really being deprived of access to justice. Dolgellau, for example: some 30 per cent of people won't be able to access Dolgellau within an hour's transport on public transport. The issues of the Welsh language have been completely ignored in that consultation.

In Northern Ireland, we saw clearly—in the visit that the Constitutional and Legislative Affairs Committee paid to Northern Ireland—how Stormont had been able to read across the different public services. The town hall could be a justice centre—it could be a village hall or a community centre—and could perform lots of different roles, because of the way that they could integrate their justice and provision of justice into the wider issue of public services. That has allowed some sharing of costs, but it's also allowed them to retain, for example, legal aid—questions that I think the people of Wales would want us to ask in this place. Certainly, they don't really want another place to make those decisions around them.

In Welsh, it's difficult to differentiate between these words—'ar wahân' and 'gwahanol'. 'Gwahanol' is 'distinct' and 'ar wahân' is 'separate'. To be clear, that is what I am trying to state here. I agree, in a way, with Kirsty Williams's comments—you can have a distinct legal jurisdiction without it necessarily being separate. But 'separate' doesn't necessarily mean what people think it does, either. It doesn't mean that barristers in England can't practise here in Wales. That doesn't necessarily follow, because you can actually share these functions across legal jurisdictions, as is already happening. What we would do by not clearly establishing a distinct legal jurisdiction which corresponds with a reserved-powers model is to lose economic power from Wales. Legal services in Scotland are worth £3 billion per annum for Scotland. Dafydd Elis-Thomas has already mentioned what's happening in Northern Ireland, where there are 16,000 people, if memory serves me correctly from the study that we as a committee carried out when we visited Northern Ireland—there are 16,000 people who are employed in the system under that distinct and separate legal jurisdiction there.

You can't start a case in the High Court in Wales; you have to go to London first and then it has to be exported from there, if you like. In that context, a lot of the economic power is lost to Wales, and one can renationalise some of that by establishing a distinct legal jurisdiction at least.

Rydym yn gweld hyn, hefyd, yn y materion bara menyh sy'n wynebu ein hetholwyr. Rwyf i, ar hyn o bryd—heddiw—wedi anfon fy nghyflwyniad i'r ymgynghoriad ar gau llysoedd y Goron a llysoedd ynadon yn Nolgellau, Aberhonddu a Chaerfyrddin. Mae'r llysoedd hynny—. Ni allwn godi bys yma i ddiogelu ein dinasyddion ein hunain—ein hetholwyr ein hunain—sy'n cael eu hamddifadu o gyfiawnder. Dolgellau, er enghraifft: ni fydd oddeutu 30 y cant o bobl yn gallu cyrraedd Dolgellau o fewn awr o daith ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae materion yr iaith Gymraeg wedi cael eu hanwybyddu'n llwyr yn yr ymgynghoriad hwnnw.

Yng Ngogledd Iwerddon, gwelsom yn glir—yn ymweliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol â Gogledd Iwerddon—sut y mae Stormont wedi gallu darllen ar draws y gwahanol wasanaethau cyhoeddus. Gallai neuadd y dref fod yn ganolfan gyfiawnder—gallai fod yn neuadd bentref neu'n ganolfan gymunedol—a gallai gyflawni llawer o swyddogaethau gwahanol, oherwydd y ffordd y gallent integreiddio eu cyfiawnder a'r modd y maent yn darparu cyfiawnder o fewn y mater ehangach o wasanaethau cyhoeddus. Mae hynny wedi caniatáu rhywfaint o rannu costau, ond mae hefyd wedi eu galluogi i gadw cymorth cyfreithiol, er enghraifft—westiynau cyfreithiol rwy'n meddwl y byddai pobl Cymru am i ni eu gofyn yn y lle hwn. Yn sicr, nid ydynt eisiau i le arall wneud y penderfyniadau hynny yn eu cylch.

When it comes to access to justice, and supporting access to justice, we can do better than Westminster with the resources that would be devolved to us. That is why Plaid Cymru is convinced that a separate legal jurisdiction would not only work for Wales but would benefit Wales economically and in terms of justice and access to justice. But even if we don't go that far today with this motion, and if we don't achieve that with the Wales Bill, we have to accept that a distinct legal jurisdiction is now a reality for us in Wales. It does go hand in hand with the reserved-powers model, and we can no longer allow people to use spurious arguments about porous borders, which are not sufficient to hold back different tax regimes, to hold back different legal jurisdictions.

O ran mynediad at gyfiawnder, a chefnogi mynediad at gyfiawnder, gallwn wneud yn well na San Steffan gyda'r adnoddau a fyddai'n cael eu datganoli i ni. Dyna pam y mae Plaid Cymru yn argyhoeddedig y byddai awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân nid yn unig yn gweithio dros Gymru ond byddai o fudd i Gymru yn economaidd ac o ran cyfiawnder a mynediad at gyfiawnder. Ond hyd yn oed os nad awn gyn belled â hynny heddiw gyda'r cynnig hwn, ac os na chyflawnwn hynny gyda Bil Cymru, mae'n rhaid i ni dderbyn bod awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yn awr yn realiti i ni yng Nghymru. Mae'n mynd law yn llaw â'r model cadw pwerau, a bellach ni allwn ganiatáu i bobl ddefnyddio dadleuon annilys ynghylch ffiniau bylchog sy'n annigonol i ddal cyfundrefnau treth gwahanol yn ôl, i ddal awdurdodaethau cyfreithiol gwahanol yn ôl.

16:22

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think, like many others in different parts of the Chamber this afternoon, I share a sense of disappointment with where we are and the sort of debate that we seem to be having. The Secretary of State, both on St David's Day and here in this Chamber in June, was very generous, and he made, I thought, a very thoughtful speech here in June where he sought to establish a consensus for a lasting settlement. I don't know whether he's reviewed that speech recently, but, certainly, the angry words and the frustration that he seemed to be expressing over the last few weeks were a long way from his warm words of June. I hope that he will be good to his word.

We've had over a year now since the Scottish referendum. In that year, what the Secretary of State seems to have delivered is an agreement that isn't an agreement. What we haven't had is a vision of a lasting settlement, how that will change the way we operate here and the impact that it'll have on Wales. I think we need to see that vision from the Secretary of State, and I think, when he publishes his Bill—I believe next week—then that Bill must be accompanied by a very clear vision of what it seeks to achieve.

Like others, I hope that a reserved-powers model will deliver a lasting settlement. I hope that when we have a reserved-powers model, the exemptions will be exactly that—exceptions from an assumed sense of power—and they must be narrow, specific and there for a good reason. We cannot exist with a reserved-powers model where large areas of responsibility are carved out from those reserved powers and we're back either to where we are today or where, possibly, we were in 1999; that is not an acceptable vision for the future, it does not reflect where we are today and it certainly doesn't establish a firm basis for a successful model of devolved government anywhere in the United Kingdom.

Fel llawer o bobl eraill mewn gwahanol rannau o'r Siambr y prynhawn yma, rwy'n meddwl fy mod yn rhannu ymdeimlad o siom ynglŷn â lle rydym a'r math o ddadrydym i'n gweld yn ei chael. Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol, ar Ddydd Gŵyl Dewi ac yma yn y Siambr hon ym mis Mehefin, yn hael iawn, ac rwy'n meddwl ei fod wedi rhoi araith feddylgar iawn yma ym mis Mehefin pan geisiodd sefydlu consensws dros setliad parhaol. Nid wyf yn gwybod a yw wedi adolygu'r araith yn ddiweddar, ond yn sicr, roedd y geiriau dig a'r rhwystredigaeth yr oedd i'w weld yn eu mynegi yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf yn wahanol iawn i'w eiriau cynnes ym mis Mehefin. Rwy'n gobeithio y bydd yn cadw at ei air.

Rydym wedi cael dros flwyddyn bellach ers refferendwm yr Alban. Yn y flwyddyn honno, yr hyn y mae'r Ysgrifennydd Gwladol i'w weld wedi'i ddarparu yw cytundeb nad yw'n gytundeb. Yr hyn nad ydym wedi'i gael yw gweledigaeth setliad parhaol, sut y bydd hynny'n newid y ffordd y gweithredwn yma a'r effaith a gaiff ar Gymru. Rwy'n credu bod angen i ni gael y weledigaeth honno gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a phan fydd yn cyhoeddi ei Fil—yr wythnos nesaf rwy'n credu—rhaid cael gweledigaeth eglur iawn i gyd-fynd â'r Bil ynglŷn â'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni.

Fel eraill, rwy'n gobeithio y bydd model cadw pwerau yn darparu setliad parhaol. Pan fydd gennym fodel cadw pwerau, rwy'n gobeithio y bydd yr eithriadau yn union hynny—eithriadau rhag synnwyr rhagdybiedig o bŵer—a rhaid iddynt fod yn gul, yn benodol ac yno am reswm da. Ni allwn fodoli ar fodel cadw pwerau lle y mae meysydd mawr o gyfrifoldeb yn cael eu cerfio oddi ar y pwerau hynny a gadwyd a'n bod yn ôl naill ai yn y sefyllfa rydym ynddi heddiw neu, o bosibl, lle roeddem yn 1999; nid yw honno'n weledigaeth dderbyniol ar gyfer y dyfodol, nid yw'n adlewyrchu lle rydym heddiw ac yn sicr nid yw'n sefydlu sail gadarn ar gyfer model llwyddiannus o lywodraeth ddatganoledig yn unman yn y Deyrnas Unedig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I hope that we will be able, in delivering a vision, if you like, for where we want to be—that it will be rooted in a belief of where power should lie. Fair funding and fair financial powers for this place, but also fair funding and fair financial powers that reflect the devolution settlement across the United Kingdom. I believe there can be little argument that, if we want a stable solution here and a settlement here, that we have a legal jurisdiction here as well, and we need law-making powers in a domestic setting. All too often, we seek to argue why a specific power should lie here or there, rather than to have a clear vision of how a home-rule Parliament here in Wales will operate within the overall settlement of the United Kingdom.

I'm afraid that the lowest common denominator is no longer good enough. A settlement based on the lowest common denominator is no settlement at all. We also, though, need to have a clear vision of the relationship between Wales and the United Kingdom, and across the United Kingdom. All too often over the last 20 years we've seen piecemeal devolution and dealing with each part of the United Kingdom separately and in isolation. Why on earth is one Secretary of State saying that we can have the devolution of policing in Manchester, whilst another Secretary of State is saying that we can't have that in Wales? It makes no sense at all—no sense for the United Kingdom and no sense for Wales. We need to have a clear concept of what English devolution is going to mean for us here in Wales and what it's going to mean for the UK as a whole. And, I believe we need clarity over what the purpose of United Kingdom institutions are going to be in the future. We all recognise the importance of the United Kingdom in economic terms and in terms of its wider foreign policy and issues of representation, but what is the role of the United Kingdom in delivering welfare reforms and welfare budgets? What is the interrelationship between those responsibilities and responsibilities we have here? We need to have that discussion, and we need that now. We also need to say very clearly that powers over this institution and our democracy should rest here.

I'll finish by saying this: we need the clarity, simplicity, transparency and accountability that have already been discussed, but a clear constitutional settlement comes from having a clear vision of where we want the United Kingdom and Wales to be today. I believe that we should start to have that debate as widely as possible. I know it's been suggested that the Wales Bill should not be published and that its publication should be delayed; I disagree with that. I believe it should be published as early as possible and that we should have this debate as widely as possible.

Gobeithio y gallwn, wrth gyflwyno gweledigaeth ar gyfer lle yr hoffem fod—y bydd wedi'i wreiddio yn lle y credir y dylai pŵer fod. Ariannu teg a phwerau ariannol teg i'r lle hwn, ond hefyd ariannu teg a phwerau ariannol teg sy'n adlewyrchu'r setliad datganoli ar draws y Deyrnas Unedig. Rwy'n credu nad oes fawr o ddadl, os ydym am ateb sefydlog yma a setliad yma, y dylem gael awdurdodaeth gyfreithiol yma hefyd, ac mae angen pwerau deddfu arnom mewn lleoliad domestig. Yn rhy aml, rydym yn ceisio dadlau pam y dylem gael pŵer penodol yma neu acw, yn hytrach na chael gweledigaeth glir o sut y bydd Senedd ymreolaethol yma yng Nghymru yn gweithredu o fewn setliad cyffredinol y Deyrnas Unedig.

Rwy'n ofni nad yw'r cyfenwador lleiaf yn ddigon da mwyach. Nid yw setliad ar sail y cyfenwador lleiaf yn setliad o gwbl. Fodd bynnag, mae angen i ni hefyd gael gweledigaeth glir o'r berthynas rhwng Cymru a'r Deyrnas Unedig, ac ar draws y Deyrnas Unedig. Yn rhy aml dros y 20 mlynedd diwethaf rydym wedi gweld datganoli tameidiog ac ymdrin â phob rhan o'r Deyrnas Unedig ar wahân ac yn ynysig. Pam yn y byd y mae un Ysgrifennydd Gwladol yn dweud y gallwn ddatganoli plismona ym Manceinion, tra bod Ysgrifennydd Gwladol arall yn dweud na allwn gael hynny yng Nghymru? Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr o gwbl—dim synnwyr i'r Deyrnas Unedig nac unrhyw synnwyr i Gymru. Mae angen i ni gael syniad clir o'r hyn y mae datganoli yn Lloegr yn mynd i olygu i ni yma yng Nghymru a beth y mae'n mynd i olygu i'r DU yn gyfan. Ac rwy'n credu ein bod angen eglurder ynglŷn â beth fydd diben sefydliadau'r Deyrnas Unedig yn y dyfodol. Rydym i gyd yn cydnabod pwysigrwydd y Deyrnas Unedig mewn termau economaidd ac o ran ei pholisi tramor ehangach a materion yn ymwneud â chynrychiolaeth, ond beth yw rôl y Deyrnas Unedig o ran cyflawni diwygiadau lles a chyllidebau lles? Beth yw'r berthynas rhwng y cyfrifoldebau hynny a'r cyfrifoldebau sydd gennym yma? Mae angen i ni gael y drafodaeth honno, ac mae angen hynny yn awr. Hefyd, mae angen i ni ddweud yn glir iawn mai yma y dylai pwerau dros y sefydliad hwn a'n democratiaeth fod.

Gorffennaf drwy ddweud hyn: mae angen eglurder, symlrydd, tryloywder ac atebolrwydd sydd eisoes wedi cael eu trafod, ond daw setliad cyfansoddiadol clir o gael gweledigaeth glir o ble rydym am i'r Deyrnas Unedig ac i Gymru fod heddiw. Credaf y dylem ddechrau cael y ddadl honno mor eang â phosibl. Rwy'n gwybod ei fod wedi cael ei awgrymu na ddylai Bil Cymru gael ei gyhoeddi ac y dylid oedi cyn ei gyhoeddi; rwy'n anghytuno â hynny. Rwy'n credu y dylid ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl ac y dylem gael y ddadl hon mor eang â phosibl.

16:27

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Prif Weinidog.

I call on the First Minister.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Dirprwy Lywydd. I rise in the knowledge that I have had the advantage of seeing part of the Bill and have gone through it with a fine-toothed comb, as Members would expect, together with the lawyers: the part of the Bill that deals with the structure of devolution in the future and, indeed, the powers that will be devolved to this place. I'll just begin by saying what I wish to see at the end of this is a lasting settlement and, whatever might be said in public in terms of what happens around party conferences, this is more important than that. This is about how our nation of Wales has the right constitutional settlement for the future.

The St David's Day agreement, as it's been called, was never an agreement, it was a process. The only party that wants to take it forward in its current form is the Conservative Party, but, there we are, that's where we are at the moment. We need to move forward with devolution more generally for Wales. I think it's worth emphasising that the way in which this was done was that there was a write-around to Whitehall departments, who were invited to express a view as to what they thought was devolved and what wasn't—or, I suspect, what should not be devolved. And, I'm afraid, that's where we are at the moment. We were not involved at that stage. We were presented with the Bill, we made representations to the Secretary of State about the Bill and its shortcomings, to my mind, and those discussions will continue, of course, on a Government-to-Government basis. It would have been easier, I have to say, if we had been involved much earlier on so that we could have shaped the Bill together, but now, of course, we must deal with the situation as we find it.

There are three areas that cause us concern within the Bill itself. Yes, the list of powers, which in some areas, potentially take us back to pre-1999, which needs to be resolved. In some areas, for example, there's doubt as to the clarity of the Bill, and in other areas it does take us backwards in terms of devolution. There is no question about that in my mind, and that will become clear to Members and members of the public when the Bill is published.

Secondly, the issue of Minister of the Crown consents. Minister of the Crown consents, to me, are archaic and should wither away over time. The Bill does the opposite, and Members will be able to see that. Indeed, it removes the Assembly's ability to modify Minister of the Crown powers that are consequential and incidental, which means that the Local Government Byelaws (Wales) Bill would not even have made it to the Supreme Court. It would have required the consent of the Secretary of State, otherwise it would not have happened, and that does take us backwards in terms of the powers that the Assembly actually has.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n codi gan wybod fy mod wedi cael y fantais o weld rhan o'r Bil ac wedi mynd drwyddo gyda chrib fân, fel y byddai'r Aelodau yn ei ddisgwyl, gyda'r cyfreithwyr: y rhan o'r Bil sy'n ymdrin â strwythur datganoli yn y dyfodol ac yn wir, y pŵerau a fydd yn cael eu datganoli i'r lle hwn. Dechreuaf drwy ddweud mai'r hyn rwyf am ei weld ar ddiwedd hyn yw setliad parhaol a beth bynnag a allai gael ei ddweud yn gyhoeddus o ran yr hyn sy'n digwydd yn y cynadleddau pleidiau, mae hyn yn bwysicach na hynny. Mae hyn yn ymwneud â sut y mae sicrhau bod ein cenedl yng Nghymru yn cael y setliad cyfansoddiadol cywir ar gyfer y dyfodol.

Nid oedd cytundeb Dydd Gŵyl Dewi, fel y'i gelwir, erioed yn gytundeb; proses oedd hi. Yr unig blaid sydd am iddi symud ymlaen ar ei ffurf bresennol yw'r Blaid Geidwadol, ond dyna ni, dyna ble rydym ar hyn o bryd. Mae angen i ni symud ymlaen gyda datganoli yn fwy cyffredinol ar gyfer Cymru. Rwy'n credu ei bod yn werth pwysleisio mai'r ffordd y gwnaed hyn oedd bod neges wedi mynd i adrannau Whitehall yn eu gwahodd i fynegi barn ynghylch yr hyn y maent yn meddwl oedd wedi'i ddatganoli a beth nad oedd wedi'i ddatganoli—neu, rwy'n amau, yr hyn na ddylid ei ddatganoli. Ac yn anffodus, dyna ble rydym ar hyn o bryd. Nid ydym wedi ein cynnwys yn rhan o'r cam hwnnw. Cyflwynwyd y Bil i ni, cyflwynasom sylwadau i'r Ysgrifennydd Gwladol am y Bil a'i ddiffygion, yn fy marn i, a bydd y trafodaethau hynny'n parhau, wrth gwrs, ar sail Llywodraeth i Lywodraeth. Byddai wedi bod yn haws, rhaid i mi ddweud, pe baem wedi bod yn rhan o'r broses yn llawer cynharach fel y gallem fod wedi dylanwadu ar y Bil gyda'n gilydd, ond bellach, wrth gwrs, mae'n rhaid i ni ymdopi â'r sefyllfa fel y gwelwn ni hi.

Mae yna dri maes sy'n peri pryder i ni yn y Bil ei hun. Ie, y rhestr o bwerau, a allai, mewn rhai meysydd o bosibl, fynd â ni yn ôl i'r cyfnod cyn 1999, a bydd angen eu datrys. Mewn rhai meysydd, er enghraifft, mae yna amheuaeth ynghylch eglurder y Bil, ac mewn meysydd eraill mae'n mynd â ni tuag yn ôl o ran datganoli. Nid oes amheuaeth am hynny yn fy meddwl i, a daw hynny'n glir i'r Aelodau ac i'r cyhoedd pan fydd y Bil yn cael ei gyhoeddi.

Yn ail, mae mater cydsyniadau Gweinidogion y Goron. I mi, mae cydsyniadau Gweinidogion y Goron yn hynafol a dylent ddiffannu dros amser. Mae'r Bil yn gwneud y gwrthwyneb, a bydd yr Aelodau'n gallu gweld hynny. Yn wir, mae'n cael gwared ar allu'r Cynulliad i addasu pŵerau Gweinidogion y Goron sy'n ganlyniadol ac yn ddarpariaethau cysylltiedig, sy'n golygu na fyddai Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) wedi cyrraedd y Goruchaf Lys hyd yn oed. Byddai gofyn bod wedi cael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, fel arall ni fyddai wedi digwydd, ac mae hynny'n mynd â ni tuag yn ôl o ran y pŵerau sydd gan y Cynulliad mewn gwirionedd.

It means, for example, by our analysis, that only three Bills could have been passed in the course of this Assembly term freely and in total by this Chamber. Every other Bill would have needed a consent from, in effect, an English Minister to take that Bill forward, including the organ donation Bill, which would not have been possible to take forward under the proposed settlement. Again, Members will be able to see this for themselves. But we cannot surely have a situation where we have a suggestion that we should extend the Assembly's powers, yet still keep what is in effect an English veto over areas of Welsh law.

The third area that is problematic is the area of the test that would have to be applied in order for the Assembly to be able to change the law, particularly the creation of new criminal penalties. The test is much stricter than the test we have now. On a very strict reading, for example, there is a question mark as to whether the Assembly will be able to enforce the collection of taxes. Collect them, yes; enforce their collection with penalties, no. It's not clear. That needs to be rectified. And so, what will appear before Members and, indeed, members of the public is a Bill that does need more work.

The area I suspect that's most problematic is that, in effect, the Bill reserves the law, so a conferred-powers model remains as far as the law is concerned. So, for example, as Members will see in time, even though we are a law-making Parliament, as we will be before long, we will have no inherent powers to pass any laws of our own except for those powers that are given to us by Westminster. That is a much stricter situation than the people of Wales would have expected given the referendum that they voted in in 2011, which gave overwhelming support to the idea of those laws that only affect Wales being made in Wales. The Bill doesn't give effect to that; indeed, I would argue it goes in a separate direction.

So, what we need is to end the uncertainty; we are all on the same page, I suspect, as parties in that regard. And above all else, we have an election in May. There are some who say, 'Well, what's this got to do with the general public? This is about arcane constitutional debates.' Well, we need to know exactly where we are and understand the situation so that all of us in this Chamber can stand on a manifesto in May. If it is not clear what the Assembly's powers are, that will be difficult. Even worse, we may end up in a situation where the Assembly has one set of powers up to the point halfway through the next Assembly, and another set of powers in the second half of the next Assembly; two different manifestos. That's something that, surely, sensibly has to be resolved.

Could I turn now to the motion itself? With regard to amendment 1, we will be supporting that, and I'll come back to the main motion in a moment. Amendment 2 we'll also support. Amendment 3 we will abstain on, mainly because—well, two issues. Firstly, the amendment

'Calls on the UK Government to devolve income tax varying powers for Wales'

Mae'n golygu, er enghraifft, yn ôl ein dadansoddiad ni, mai dim ond tri Bil y gellid bod wedi eu pasio'n rhydd ac yn llwyr yn ystod tymor y Cynulliad hwn gan y Siambr hon. Byddai wedi bod angen cydsyniad, i bob pwrpas, gan Weinidog yn Lloegr i fwrw ymlaen â phob Bil arall, gan gynnwys y Bil rhoi organau, na fyddai wedi bod yn bosibl bwrw ymlaen ag ef o dan y setliad arfaethedig. Unwaith eto, bydd yr Aelodau'n gallu gweld hyn drostynt eu hunain. Ond yn sicr ni allwn gael sefyllfa lle y mae gennym awgrym y dylem ymestyn pwerau'r Cynulliad, a dal i gadw'r hyn sydd i bob pwrpas yn feto gan Loegr dros feysydd cyfraith Cymru.

Y trydydd maes sy'n peri problemau yw mater y prawf y byddai'n rhaid ei gymhwyso er mwyn i'r Cynulliad allu newid y gyfraith, yn enwedig creu cosbau troseddol newydd. Mae'r prawf yn llawer llymach na'r prawf sydd gennym yn awr. O ddarlleniad caeth iawn, er enghraifft, ceir marc cwestiwn ynglŷn ag a fydd y Cynulliad yn gallu gorfodi'r broses o gasglu trethi. Casglwch hwy, ie; gorfodwch eu casglu gyda chosbau, na. Nid yw'n glir. Mae angen cywiro hynny. Ac felly, yr hyn a fydd yn ymddangos gerbron yr Aelodau ac yn wir, aelodau o'r cyhoedd yw Bil sydd angen mwy o waith arno.

Rwy'n amau mai'r maes mwyaf problemus yw bod y Bil i bob pwrpas, yn cadw'n ôl y gyfraith, felly mae'r model rhoi pwerau yn parhau o ran y gyfraith. Felly, er enghraifft, fel y gwêl yr Aelodau ymhen amser, er ein bod yn Senedd â hawl i ddeddfu, fel y byddwn cyn bo hir, ni fydd gennym unrhyw bwerau cynhenid i basio unrhyw gyfreithiau ein hunain ac eithrio'r pwerau a roddir i ni drwy San Steffan. Mae honno'n sefyllfa lawer mwy caeth nag y byddai pobl Cymru wedi'i disgwyl o ystyried y referendum y bu iddynt bleidleisio ynddi yn 2011, a roddodd gefnogaeth lethol i'r syniad y byddai deddfau sydd ond yn effeithio ar Gymru yn cael eu gwneud yng Nghymru. Nid yw'r Bil yn rhoi effaith i hynny; yn wir, byddwn yn dadlau ei fod yn mynd i gyfeiriad gwahanol.

Felly, yr hyn rydym ei angen yw rhoi diwedd ar yr ansicrwydd; fel pleidiau rydym i gyd yn cytuno ar hynny, rwy'n amau. Ac yn anad dim arall, mae gennym etholiad ym mis Mai. Mae rhai sy'n dweud, 'Wel, beth sydd a wnelo hyn â'r cyhoedd? Mae hyn yn ymwneud â dadleuon cyfansoddiadol astrus.' Wel, mae angen i ni wybod ble yn union rydym ni a deall y sefyllfa fel y gall pob un ohonom yn y Siambr hon sefyll ar fanifesto ym mis Mai. Os nad yw'n glir beth yw pwerau'r Cynulliad, bydd hynny'n anodd. Hyd yn oed yn waeth, efallai y byddwn mewn sefyllfa yn y pen draw lle y bydd gan y Cynulliad un set o bwerau hyd at hanner ffordd drwy'r Cynulliad nesaf, a set arall o bwerau yn ail hanner y Cynulliad nesaf; dau fanifesto gwahanol. Mae hynny'n sicr yn rhywbeth sy'n rhaid ei ddatrys yn synhwyrol.

A gaf fi droi yn awr at y cynnig ei hun? O ran gwelliant 1, byddwn yn ei gefnogi, a dof yn dod yn ôl at y prif gynnig mewn munud. Byddwn yn cefnogi gwelliant 2 hefyd. Byddwn yn ymatal ar welliant 3, yn bennaf oherwydd—wel, dau fater. Yn gyntaf, mae'r gwelliant

'Yn galw ar Lywodraeth y DU i ddatganoli pwerau i amrywio treth incwm i Gymru'

without limit. I'd be genuinely happy if the Lib Dems want to clarify that.

heb derfyn. Byddwn yn wirioneddol hapus pe bai'r Democratiaid Rhyddfrydol yn awyddus i egluro hynny.

16:33 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The First Minister will be well aware that what the Liberal Democrats believe in is having an element of income tax.

Bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol iawn mai'r hyn y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn credu ynddo yw cael elfen o dreth incwm.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I'm grateful; that's what I suspected. But the second issue is that, as we have always said, tax-varying powers cannot come without fair funding. And so the amendment goes, I suppose, halfway towards an objective, but as I've always said before, we would not be prepared to accept any kind of income tax varying powers unless the issue of fair funding is settled first, and so that would need to be part of the amendment before we could support it. But, as the leader of the Liberal Democrats can see, we propose to abstain.

Diolch; dyna roeddwn yn ei amau. Ond yr ail fater, fel rydym wedi'i ddweud bob amser, yw na all pwerau amrywio trethi ddod heb ariannu teg. Ac felly y mae'r gwelliant, am wn i, yn mynd hanner ffordd tuag at amcan, ond fel rwyf bob amser wedi'i ddweud o'r blaen, ni fyddem yn barod i dderbyn unrhyw fath o bwerau i amrywio treth incwm oni bai bod mater ariannu teg wedi'i setlo yn gyntaf, ac felly byddai angen i hynny fod yn rhan o'r gwelliant cyn y gallem ei gefnogi. Ond fel y gall arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol weld, rydym yn bwriadu ymatal.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

With regard to the motion itself, of course we support the reserved-powers model—a proper reserved-powers model. But if I could turn to the fourth and fifth bullet points of the motion itself—the jurisdiction. The jurisdiction goes further than simply the way the law is actually administered; jurisdiction is at the heart of the drafting of the Wales Bill. If you don't have a separate jurisdiction, you make it far harder to draft a Bill that defines powers. And so we are in a situation where we're the only legal jurisdiction anywhere in the world where there are two legislatures within the same jurisdiction. It means that defining the powers of each legislature becomes progressively more difficult because of that issue. If I can explain it this way, if there was a jurisdiction and you wanted to build a road between Wrexham and London, you could build it straight. Not having a jurisdiction means that you have to build it via Inverness, in a very, very complicated and convoluted way. Can a jurisdiction be established overnight? No. It hasn't existed since 1536. Nobody can pretend that it can be established easily or overnight. Is it such a radical step? Scotland has a jurisdiction, Northern Ireland has a jurisdiction, the Isle of Man has a jurisdiction; so do Jersey and Guernsey. In the US, there are 51 different jurisdictions, not counting the native American lands as well. So, this is not quite the radical suggestion that it is sometimes portrayed as.

O ran y cynnig ei hun, wrth gwrs ein bod yn cefnogi'r model cadw pwerau priodol. Ond os caf fi droi at y pedwerydd a'r pumed pwynt bwled yn y cynnig ei hun—yr awdurdodaeth. Mae'r awdurdodaeth yn mynd ymhellach na'r ffordd y mae'r gyfraith yn cael ei gweinyddu yn unig; mae awdurdodaeth yn ganolog i ddrafftio Bil Cymru. Os nad oes gennych awdurdodaeth ar wahân, rydych yn ei gwneud yn llawer anos drafftio Bil sy'n diffinio pwerau. Ac felly rydym mewn sefyllfa lle mai ni yw'r unig awdurdodaeth gyfreithiol yn unman yn y byd lle y ceir dwy ddeddfwrfa o fewn yr un awdurdodaeth. Mae'n golygu bod diffinio pwerau'r ddwy ddeddfwrfa yn mynd yn fwyfwy anodd o'r herwydd. Os gallaf ei egluro fel hyn, pe bai yna awdurdodaeth a'ch bod eisiau adeiladu ffordd rhwng Wrecsam a Llundain, gallech ei hadeiladu'n syth. Mae peidio â chael awdurdodaeth yn golygu bod yn rhaid i chi ei hadeiladu drwy Inverness, mewn ffordd gymhleth ac astrus iawn. A ellir sefydlu awdurdodaeth dros nos? Na. Nid yw wedi bodoli ers 1536. Ni all neb esgus y gellir ei sefydlu'n hawdd neu dros nos. A yw'n gam mor radical â hynny? Mae gan yr Alban awdurdodaeth, mae gan Gogledd Iwerddon awdurdodaeth, mae gan Ynys Manaw awdurdodaeth; felly hefyd Jersey a Guernsey. Yn yr Unol Daleithiau, mae yna 51 o awdurdodaethau gwahanol, heb gyfrif y tiroedd brodorol Americanaidd hefyd. Felly, nid yw'n awgrym mor radical ag a honnir weithiau.

Does it mean we cut ourselves off, and our own legal profession off from working in England and elsewhere? The answer is 'no'. No-one would suggest we should have a legal system like Scotland's, which isn't a common law system—it has a wholly separate body of law. But Northern Ireland is a parallel jurisdiction to that of England and Wales. When I was practising law, I could go and practise in Northern Ireland as long as I paid to join the Bar of Northern Ireland. That was the only bar, if you'll forgive my pun, to stop that from happening. So, no, it would not be sensible for us to have a jurisdiction that was so separate that it ended up as a bar for people from being able to practise.

A yw'n golygu y byddwn yn torri ein hunain i ffwrdd, a'n torri ein proffesiwn cyfreithiol ein hunain i ffwrdd o weithio yn Lloegr a mannau eraill? Yr ateb yw 'na'. Ni fyddai unrhyw un yn awgrymu y dylem gael system gyfreithiol fel yr Alban, nad yw'n system gyfraith gyffredin—mae ganddi gorff o gyfreithiau sy'n gyfan gwbl ar wahân. Ond mae Gogledd Iwerddon yn awdurdodaeth gyfochrog ag un Cymru a Lloegr. Pan oeddwn yn ymarfer y gyfraith, gallwn fynd i ymarfer yng Ngogledd Iwerddon ar yr amod fy mod yn talu i ymuno â Bar Gogledd Iwerddon. Dyna oedd yr unig far, os maddeuwch y gair mwys, i atal hynny rhag digwydd. Felly, na, ni fyddai'n synhwyrol i ni gael awdurdodaeth a oedd cymaint ar wahân fel ei fod yn rhwystr yn y pen draw i bobl allu ymarfer.

Indeed, in terms of the fifth point in the motion itself, that is something, of course, that we'd also seek to support in time, namely the devolution of criminal justice and policing. Alun Davies my friend has said already—why should Manchester have policing devolved and not Wales?

I'm aware of the time, Dirprwy Lywydd. I'll just simply say this: I don't think this is the Bill the Secretary of State wants. I don't think it's the Bill the Prime Minister wants. I take the Secretary of State at his word that he wants to extend the powers of the National Assembly. I am generous in saying that I think that is his legitimate and honest intention. I will continue, of course, to work with him, but we need that generosity reciprocated, and there needs to be an understanding that an awful lot more work needs to be done in order to get a clear and lasting settlement for Wales.

Yn wir, o ran y pumed pwynt yn y cynnig ei hun, mae hwnnw'n rhywbeth y byddem yn ceisio'i gefnogi hefyd gydag amser, wrth gwrs, sef datganoli cyfiawnder troseddol a phlisma. Mae fy ffrind Alun Davies wedi dweud eisoes—pam y dylai Manceinion gael plisma datganoledig ac nid Cymru?

Rwy'n ymwybodol o'r amser, Ddirprwy Lywydd. Dywedaf hyn yn syml: nid wyf yn credu mai hwn yw'r Bil y mae'r Ysgrifennydd Gwladol ei eisiau. Nid wyf yn credu mai dyma'r Bil y mae Prif Weinidog y DU ei eisiau. Rwy'n credu gair yr Ysgrifennydd Gwladol pan ddywed ei fod am ymestyn pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol. Rwy'n hael yn dweud fy mod yn credu mai dyna yw ei fwrriad cyfreithlon a gonest. Byddaf yn parhau i weithio gydag ef, wrth gwrs, ond mae angen iddo ategu'r haelioni hwnnw, ac mae angen cael dealltwriaeth fod angen gwneud llawer iawn mwy o waith er mwyn cael setliad clir a pharhaol i Gymru.

16:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Leanne Wood i ymateb i'r ddadl.

I call on Leanne Wood to reply to the debate.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:35 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd like to thank all Members for their contributions to today's debate. I'll run through some of my responses to those contributions.

Hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau am eu cyfraniadau at y ddadl heddiw. Af drwy rai o fy ymatebion i'r cyfraniadau hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The leader of the Liberal Democrats said that we needed to move to a lasting settlement and pointed to debates in committee where Members are forever wondering whether or not they can legislate on something or not, and that is a question that simply cannot continue. Accountability is also an important point that she raised, and I'm glad that she agrees with Plaid Cymru that we should not tolerate any rolling back of the devolution settlement. She's absolutely right: that would simply not be acceptable.

Dywedodd arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol fod angen symud at setliad parhaol a thynnodd sylw at ddadleuon yn y pwyllgor lle y mae Aelodau byth a beunydd yn meddwl tybed a allant ddeddfu ar rywbeth ai peidio, ac mae hwnnw'n gwestiwn na all barhau. Mae atebolrwydd hefyd yn bwynt pwysig a grybwyllodd, ac rwy'n falch ei bod yn cytuno â Phlaid Cymru na ddylem oddef unrhyw gamu'n ôl o'r setliad datganoli. Mae hi'n hollol gywir: ni fyddai hynny'n dderbyniol.

Dafydd Elis-Thomas referred to developments elsewhere in the UK and specifically mentioned Northern Ireland. He argued that we should avoid the minutiae and focus on the bigger picture, and also outlined the arguments in favour of us being able to determine our own size ourselves, through consensus. I'm fully supportive of his demand to the Secretary of State for Wales to separate out these powers.

Cyfeiriodd Dafydd Elis-Thomas at ddatblygiadau mewn rhannau eraill o'r DU a chrybwyllodd Ogledd Iwerddon yn benodol. Dadleuodd y dylem osgoi'r manion a chanolbwyntio ar y darlun ehangach, a hefyd amlinellodd y dadleuon o blaid gallu penderfynu ar ein maint ein hunain drosom ein hunain, drwy gonsensws. Rwy'n llwyr gefnogi ei alwad ar Ysgrifennydd Gwladol Cymru i wahanu'r pwerau hyn.

Mike Hedges, I welcome your self-confessed obsession; long may it continue. [Laughter.] His point about the only beneficiaries from the current system being lawyers is a point very well made.

Mike Hedges, rwy'n croesawu eich obsesiwn yn ôl eich cyfaddefiad eich hun; hir y parhaed. [Chwerthin.] Mae ei sylw mai'r unig fuddiolwyr yn y system bresennol yw cyfreithwyr yn bwynt da iawn.

Jocelyn made the point about Supreme Court battles and highlighted how the lowest-common-denominator approach pursued by the Secretary of State has resulted in the downgrading of the consensus that was arrived at by Silk. She also outlined how there's public support for the devolution of policing and justice, and how it makes sense to align public services and emergency services. The case against police and crime commissioners was well made indeed, even though they are clearly here to stay for the short term.

Gwnaeth Jocelyn y pwynt am frwydrau'r Goruchaf Lys ac amlygodd y modd y mae'r ymagwedd cyfenwador isaf a ddilyniir gan yr Ysgrifennydd Gwladol wedi arwain at israddio'r consensws a gyrhaeddwyd gan Silk. Hefyd, amlinellodd y gefnogaeth gyhoeddus sydd i ddatganoli plisma a chyfiawnder, a sut y mae'n gwneud synnwyr i alinio gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau brys. Gwnaed yr achos yn erbyn y comisiynwyr heddlu a throdeddu yn dda iawn wir, er eu bod yma i aros, mae'n amlwg, yn y tymor byr.

Paul Davies, you staggered but didn't surprise me when I heard you welcome this model despite the concerns that have been outlined here this afternoon. Paul asks us not to jump to conclusions, but he hasn't really provided us with any reassurance either. I'm glad that he accepts the point that the rolling back of any devolution would be against the wishes of people in Wales; on that point, at least, we can agree.

I was further staggered to hear the claim that policing is already devolved because we've got police and crime commissioners. Well, that's not the devolution people in Wales have consistently said that they want, and Simon Thomas answered those points very well. He also pointed out the economic and social dangers from not pursuing a jurisdiction, and referred to the courts closure programme and the fact that this Assembly is impotent in dealing with that. We can do better than Westminster on justice—that's a point I fully agree with and I'm sure most people here will, too.

Alun Davies pointed to the lack of vision and a lasting settlement from the Secretary of State for Wales, and you also raised the point about funding, which our motion hasn't addressed this afternoon. Perhaps that's a debate for another day.

The First Minister's given us an idea as to how the process took place in Westminster, and I thank him for the detail that he shared with the Assembly this afternoon. His contribution goes some way towards explaining why we've arrived at where we have arrived and how this Bill takes us backwards. We would agree with him that this Bill needs a lot more work and on the importance of clarity ahead of the next Assembly. And, of course, a demand for a legal jurisdiction is not a radical demand at all. It's just getting Wales to the normal state that other nations are at. It shouldn't be too much of an ask.

There are, of course, many other changes to devolution taking place outside the scope of the reserved-powers model—for example, on tax devolution. This is a complex and challenging agenda as we're starting from quite a low base compared to the situation in Scotland. But I'll repeat here a point I've made in other debates: the unusual nature of Wales and how we've been tied closely to England historically should not be used as reasons to set a low bar or a low ambition on what we can achieve. Other nations and other regions will not stand still. They will be seeking greater empowerment, and we can already see the agenda around the English city regions moving forward. Nation-building gives us huge opportunities, but there are also costs to not proceeding with the jurisdiction or not proceeding with the other normal features that other UK countries enjoy. It's fair to say that, based on what we've heard from the Conservative Party today, it's unlikely that the Bill will be sufficient.

Paul Davies, fe synnoch chi fi ond ni wnaethoch fy syfrdanu pan glywais eich croeso i'r model hwn er gwaethaf y pryderon a amlinellwyd yma y prynhawn yma. Mae Paul yn gofyn i ni beidio â neidio i gasgliadau, ond nid yw wedi rhoi unrhyw sicrwydd i ni chwaith. Rwy'n falch ei fod yn derbyn y pwynt y byddai unrhyw gamu'n ôl oddi wrth ddatganoli yn groes i ddymuniadau pobl Cymru; ar y pwynt hwnnw, o leiaf, gallwn gytuno.

Cefais fy synnu ymhellach o glywed yr honiad fod plismona eisoes wedi'i ddatganoli am fod gennym gomisiynwyr heddlu a throseddau. Wel, nid dyna'r datganoli y mae pobl Cymru wedi dweud yn gyson eu bod eisiau, ac atebodd Simon Thomas y pwyntiau hynny'n dda iawn. Soniodd hefyd am beryglon economaidd a chymdeithasol peidio â mynd ar drywydd awdurdodaeth, a chyfeiriodd at y rhaglen cau llysoedd a'r ffaith fod y Cynulliad hwn yn ddiymddferth i fynd i'r afael â hynny. Gallwn wneud yn well na San Steffan ar gyfiawnder—mae hwnnw'n bwynt rwy'n cytuno'n llwyr ag ef ac rwy'n siŵr fod y rhan fwyaf o'r bobl yma'n cytuno, hefyd.

Cyfeiriodd Alun Davies at ddiffyg gweledigaeth a setliad parhaol gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ac fe grybwyllodd y pwynt hefyd ynglŷn â chyllid, mater nad yw ein cynnig wedi mynd i'r afael ag ef y prynhawn yma. Efallai mai dadl ar gyfer diwrnod arall yw honno.

Mae'r Prif Weinidog wedi rhoi syniad i ni sut y mae'r broses wedi bod yn mynd rhagddi yn San Steffan, a diolch iddo am y manylion a rannodd gyda'r Cynulliad y prynhawn yma. Mae ei gyfraniad yn mynd beth o'r ffordd tuag at esbonio pam ein bod wedi cyrraedd lle rydym wedi'i gyrraedd a sut y mae'r Bil hwn yn mynd â ni tuag yn ôl. Byddem yn cytuno ag ef fod angen llawer mwy o waith ar y Bil hwn ac ar bwysigrwydd eglurder cyn y Cynulliad nesaf. Ac wrth gwrs, nid yw galw am awdurdodaeth gyfreithiol yn alwad radical o gwbl. Mae'n mynd â Chymru tuag at sefyllfa normal cenhedloedd eraill, dyna'i gyd. Ni ddylai fod yn ormod i'w ofyn.

Wrth gwrs, mae yna lawer o newidiadau eraill i ddatganoli yn digwydd y tu allan i gwmpas y model cadw pwerau—er enghraifft, ar ddatganoli treth. Mae hon yn agenda gymhleth a heriol gan ein bod yn dechrau o sylfaen eithaf isel o gymharu â'r sefyllfa yn yr Alban. Ond rwyf am ailadrodd pwynt a wneuthum mewn dadleuon eraill: ni ddylid defnyddio natur anarferol Cymru a'r modd rydym wedi ein clymu'n agos â Lloegr yn hanesyddol fel rheswm i osod y bar neu ein huchelgais yn isel o ran yr hyn y gallwn ei gyflawni. Ni fydd gwledydd eraill a rhanbarthau eraill yn aros yn llonydd. Byddant yn ceisio mwy o rym, a gallwn eisoes weld agenda'r dinas-ranbarthau yn Lloegr yn symud yn eu blaen. Mae adeiladu cenedl yn rhoi cyfleoedd enfawr i ni, ond mae costau ynghlwm hefyd wrth beidio â bwrw ymlaen â'r awdurdodaeth neu beidio â bwrw ymlaen â'r nodweddion normal eraill y mae gwledydd eraill y DU yn eu mwynhau. Mae'n deg dweud, yn seiliedig ar yr hyn rydym wedi'i glywed gan y Blaid Geidwadol heddiw, ei bod hi'n annhebygol y bydd y Bil yn ddigonol.

My final point is to recognise the significant shift in the Labour Party's position on these questions, which is to be welcomed. For years, Plaid Cymru has been consistent, and we welcome the fact that others are now accepting that our position on Wales's development has been correct. Let's move forward now, together, as a nation. Diolch yn fawr.

Fy mhwynt olaf yw cydnabod y newid arwyddocaol yn safbwynt y Blaid Lafur ar y cwestiynau hyn, sydd i'w groesawu. Am flynyddoedd, mae Plaid Cymru wedi bod yn gyson, ac rydym yn croesawu'r ffaith fod pobl eraill yn awr yn derbyn bod ein safbwynt ar ddatblygiad Cymru wedi bod yn gywir. Gadewch i ni symud ymlaen yn awr, gyda'n gilydd, fel cenedl. Diolch yn fawr.

16:42

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y cwestiwn yw: a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I will defer all voting on this item until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

5. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Iechyd Meddwl

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Paul Davies.

5. Welsh Liberal Democrats Debate: Mental Health

The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of Paul Davies.

16:42

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to item 5, which is a Welsh Liberal Democrats debate—this one on mental health. I call on Eluned Parrott to move the motion.

Symudwn yn awr at eitem 5, sef dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar iechyd meddwl. Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5840 Aled Roberts

Motion NDM5840 Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi y gall problemau iechyd meddwl, heb gymorth a thriniaeth briodol, gael effaith ddinistriol ar ansawdd bywyd person, gan effeithio ar ei waith, ei fywyd cartref a'i berthnasau;

1. Notes that without proper support and treatment, mental health problems can have a devastating impact on a person's quality of life, affecting their work, their home life and their relationships;

2. Yn croesawu diwrnod iechyd meddwl y byd, Amser i Newid Cymru, Gyda'n Gilydd Nawr! ac ymgyrchoedd eraill sy'n helpu i godi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a rhoi terfyn ar stigma a gwahaniaethu;

2. Welcomes world mental health day, Time to Change Wales, All Together Now! and other campaigns which help to raise awareness of mental health and end stigma and discrimination;

3. Yn credu bod llawer i'w wneud o hyd er mwyn darparu gwell gofal a chymorth i bobl o bob oedran sydd â phroblemau iechyd meddwl yng Nghymru; a

3. Believes that there is still much to be done to provide better care and support for people of all ages with mental health problems in Wales;

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

4. Calls on the Welsh Government to:

a) rhoi blaenoriaeth gyfartal i iechyd meddwl ac iechyd corfforol yn y gyfraith i helpu i yrru newid diwylliannol mewn agweddau;

a) give equal priority to mental health and physical health in law to help drive a culture change in attitudes;

b) sicrhau bod y gyfran o gyllid ar gyfer iechyd meddwl o fewn cyllideb gyffredinol GIG Cymru yn gyson â'r baich clefydau, gan adlewyrchu maint cymharol yr her iechyd mewn perthynas ag iechyd corfforol;

b) ensure that the proportion of funding for mental health within the overall NHS Wales budget is consistent with the disease burden, reflecting the relative size of the health challenge in relation to physical health;

c) cyflwyno safonau amseroedd aros newydd ar gyfer iechyd meddwl, gan gynnwys ar gyfer mynediad at therapiau seicolegol;

c) introduce new waiting time standards for mental health, including for access to psychological therapies;

d) gwella hyfforddiant iechyd meddwl i athrawon, gweithwyr iechyd proffesiynol a chyflogwyr er mwyn rhoi'r sgiliau iddynt adnabod a chefnogi'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl; ac

e) cyflwyno set graidd o ddata iechyd meddwl, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau, i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar flaenoriaethau gweithredu a sicrhau bod adnoddau yn cael eu dyrannu yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Cynigiwyd y cynnig.

d) improve mental health training to equip teachers, health professionals and employers with the skills to identify and support those experiencing mental health problems; and

e) introduce a core set of mental health data, focused on outcomes for service users, to inform decision making on priorities for action and to ensure the most effective allocation of resources.

Motion moved.

16:42

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. It's a real pleasure to have an opportunity to open this debate today. If this Assembly is truly representative of the population as a whole, 15 of the people who sit in this Chamber will experience mental ill health in the course of any given year. This year. Next year. And all of us—all of us—will have a family member or friend who we've seen suffer. I remember being told, regarding the word 'suffer', in disability training once that we shouldn't use the word 'suffer' to describe a disability, that it's emotive language, it's not professional and that you should say that a person presents certain symptoms, that they experience difficulties because society has not adapted to enable them. Both of those things are true, but let me tell you plainly: 'suffer' is exactly the right word to describe the experience of a person with a mental health problem. Mental ill health attacks the very essence of what we believe ourselves to be. It destroys our sense of self-belief because it destroys our sense of self. Recovery is the process of rebuilding that self, and I think it's for that reason that recovery can be so individual, so complex and why a drug alone is unlikely ever to be the full answer for most individuals.

We've tabled this debate today in advance of World Mental Health Day on 10 October to highlight the continued importance of improving mental health services in Wales. We welcome, of course, the progress that has already been made and we want to suggest ideas for what more can be done. One of the great successes that I'd like to talk about today is the positive start we've made here in Wales towards raising awareness of mental health and challenging discrimination where we find it. Campaigns such as World Mental Health Day here in Wales, Time to Change Wales and All Together Now! have played a huge role in helping raise the profile of mental health, and I think we should recognise that success. If we look at Time to Change Wales, for example, they've reached more than 19 million people via social marketing; they've worked with more than 250 organisations and many of the parties in this room, I think, have signed an organisational pledge; they've developed a network of more than 300 champions; they've delivered 2,500 anti-stigma sessions; and they've seen a 3.5 per cent positive attitude shift in the general public's opinions.

Diolch, Lywydd. Mae'n bleser go iawn i gael cyfle i agor y ddadl hon heddiw. Os yw'r Cynulliad hwn yn wirioneddol gynrychioliadol o'r boblogaeth yn gyffredinol, bydd 15 o'r bobl sy'n eistedd yn y Siambr hon yn profi salwch meddwl yn ystod unrhyw flwyddyn benodol. Eleni. Y flwyddyn nesaf. A bydd gan bob un ohonom—pob un ohonom—aelod o'r teulu neu ffrind rydym wedi'u gweld yn dioddef. O ran y gair 'dioddef', rwy'n cofio cael gwybod mewn hyfforddiant anabledd un tro na ddylem ddefnyddio'r gair 'dioddef' i ddisgrifio anabledd, ei fod yn ddefnydd emosïynol o iaith, nad yw'n broffesiynol ac y dylech ddweud bod rhywun yn dangos symptomau penodol, eu bod yn cael anawsterau oherwydd nad yw cymdeithas wedi addasu er mwyn eu galluogi. Mae'r ddau beth yn wir, ond gadewch i mi ddweud wrthyhych yn blaen: 'dioddef' yw'r union air cywir i ddisgrifio profiad person sydd â phroblem iechyd meddwl. Mae salwch meddwl yn ymosod ar hanfod yr hyn rydym yn ei gredu rydym ni. Mae'n dinistrio ein hymdeimlad o hunan-gred am ei fod yn dinistrio ein hymdeimlad o'r hunan. Mae adferiad yn broses o ailadeiladu'r hunan, ac rwy'n meddwl mai dyna pam y gall adferiad fod mor unigolyddol, mor gymhleth a pham nad yw cyffur ar ei ben ei hun byth yn debygol o fod yn ateb cyflawn i'r rhan fwyaf o unigolion.

Rydym wedi cyflwyno'r ddadl hon heddiw cyn Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd ar 10 Hydref i dynnu sylw at bwysigrwydd parhaus gwella gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru. Wrth gwrs, rydym yn croesawu'r cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud ac rydym am awgrymu syniadau ar gyfer beth arall y gellir ei wneud. Un o'r llwyddiannau mawr yr hoffwn siarad amdano heddiw yw'r dechrau cadarnhaol rydym wedi'i wneud yma yng Nghymru ar godi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a herio gwahaniaethu lle y down o hyd iddo. Mae ymgyrchoedd fel Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd yma yng Nghymru, Amser i Newid Cymru a Gyda'n Gilydd Nawr! wedi chwarae rhan enfawr yn helpu i godi proffil iechyd meddwl, ac rwy'n meddwl y dylem gydnabod y llwyddiant hwnnw. Os edrychwn ar Amser i Newid Cymru, er enghraifft, maent wedi cyrraedd mwy na 19 miliwn o bobl drwy gyfrwng marchnata cymdeithasol; maent wedi gweithio gyda mwy na 250 o sefydliadau ac mae llawer o'r pleidiau yn yr ystafell hon, rwy'n meddwl, wedi llofnodi adduned sefydliadol; maent wedi datblygu rhwydwaith o fwy na 300 o hyrwyddwyr; maent wedi cyflwyno 2,500 o sesiynau gwrth-stigma; ac maent wedi gweld newid agwedd cadarnhaol o 3.5 y cant ym marn y cyhoedd yn gyffredinol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I'm very proud to have been an ambassador for that campaign, alongside Members from all of the parties in this room, but I think that there is still so much more that we can do. Nine out of 10 people with mental health problems are affected by stigma and discrimination, still, and that can prevent them from seeking help. That stigmatisation just has a toxic effect on the individual and their families and their networks. The anxiety that people feel around admitting a problem that grows out of that fear—and that fear, of course, grows out of our experience of society's attitudes—adds to the pain, because it adds to the symptoms, but of course it prolongs the suffering for the individual, because it acts as a barrier to them going out and proactively searching for help. It also acts as a barrier to the individual in looking for help and support from their family networks, in admitting problems to people, in talking to employers about why it is that they're finding it challenging, why it is that, perhaps, they're having relationship problems with their colleagues at work, and why it is that they are late in the morning and tired every day. All of these things affect people: it leads to relationship breakdowns; it leads to people losing their jobs; it leads on then, obviously, to problems with things like poverty and joblessness, and, inevitably, it can lead to homelessness as well. It is a very, very toxic effect and we must do everything in our power to do something about that.

So, I think that, alongside these excellent campaigns, which are doing extraordinary work in changing our society's attitudes—and we can't underestimate how difficult that is as a task—I believe we can send, as an Assembly, a strong signal that mental health is no different to physical health by enshrining that principle in law. But we have to be very clear that funding must also follow principle, and we need to ensure that the mental health budget is consistent with the disease burden that we have here in Wales. With one in four British adults now estimated to suffer from some form of mental health problem within any given year, as I say, the strain on the mental health services within the NHS has never been higher. And, demand for youth mental health services is also increasing dramatically with more than 1,700 vulnerable young people waiting more than 14 weeks, currently, to access CAMHS services, compared to 515 two years ago—an increase of more than 200 per cent.

Parity in principle must mean parity in practice. Why should someone experiencing a mental health crisis only be able to access services between 9.00 a.m. and 5.00 p.m. when someone with a broken leg could go to A&E at any time of day or night? Why are targets such as ambulance response times and cancer waiting times widely reported while mental health statistics receive very much less attention in the public arena?

Rwy'n falch iawn o fod wedi bod yn llysgennad i'r ymgyrch hon, ochr yn ochr ag Aelodau o bob un o'r pleidiau yn yr ystafell hon, ond rwy'n meddwl bod cymaint mwy y gallwn ei wneud o hyd. Mae stigma a gwahaniaethu yn effeithio ar naw o bob 10 o bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl o hyd, a gall hynny eu hatal rhag ceisio cymorth. Mae stigmatiddio o'r fath yn effeithio'n wenwynig ar yr unigolyn a'u teuluoedd a'u rhwydweithiau. Mae'r pryder y mae pobl yn ei deimlo ynglŷn â chyfaddef problem sy'n tyfu o'r ofn—ac mae'r ofn hwnnw, wrth gwrs, yn tyfu o'n profiad o agweddau cymdeithas—yn ychwanegu at y boen, am ei fod yn ychwanegu at y symptomau, ond wrth gwrs mae'n ymestyn dioddefaint yr unigolyn am ei fod yn eu rhwystro rhag mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am help. Mae hefyd yn rhwystro'r unigolyn rhag chwilio am gymorth a chefnogaeth gan eu rhwydweithiau teuluol, cyfaddef problemau wrth bobl, siarad â chyfflogwyr ynglŷn â pham eu bod yn ei chael hi'n anodd, pam eu bod, o bosibl, yn cael problemau yn eu perthynas â'u cydweithwyr yn y gwaith, a pham eu bod yn hwyr yn y bore ac yn flinedig bob dydd. Mae pob un o'r pethau hyn yn effeithio ar bobl: mae'n arwain at chwalu perthnasoedd; mae'n arwain at bobl yn colli eu swyddi; mae'n arwain wedyn, yn amlwg, at broblemau gyda phethau fel tlodi a diweithdra, ac yn anochel, gall arwain at ddigartrefedd yn ogystal. Mae'n effaith wenwynig tu hwnt ac mae'n rhaid i ni wneud popeth yn ein gallu i wneud rhywbeth am hynny.

Felly, ochr yn ochr â'r ymgyrchoedd rhagorol hyn, sy'n gwneud gwaith hynod yn newid agweddau ein cymdeithas—ac ni allwn bwysleisio gormod pa mor anodd yw'r dasg honno—rwy'n credu y gallwn, fel Cynulliad, anfon neges gref nad yw iechyd meddwl yn ddim gwahanol i iechyd corfforol drwy ymgorffori'r egwyddor honno yn y gyfraith. Ond mae'n rhaid i ni fod yn glir iawn fod yn rhaid i gyllid hefyd ddilyn yr egwyddor, ac mae angen i ni sicrhau bod y gyllideb iechyd meddwl yn cyfateb i'r baich clefyd sydd gennym yma yng Nghymru. Gydag amcangyfrif fod un o bob pedwar oedolyn ym Mhrydain yn awr yn dioddef rhyw fath o broblem iechyd meddwl mewn unrhyw flwyddyn benodol, fel y dywedais, mae'r straen ar wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn uwch nag erioed. Ac mae'r galw am wasanaethau iechyd meddwl ieuentid hefyd yn cynyddu'n ddramatig gyda mwy na 1,700 o bobl ifanc sy'n agored i niwed yn aros dros 14 wythnos, ar hyn o bryd, i gael mynediad at wasanaethau CAMHS, o gymharu â 515 ddwy flynedd yn ôl—cynnydd o fwy na 200 y cant.

Rhaid i gydraddoldeb mewn egwyddor olygu cydraddoldeb yn ymarferol. Pam mai rhwng 9 a.m. a 5 p.m. yn unig y gall rhywun sy'n profi argyfwng iechyd meddwl gael mynediad at wasanaethau er bod rhywun sydd wedi torri ei goes yn gallu mynd i'r adran ddamweiniau ac achosion brys ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos? Pam y mae targedau megis amseroedd ymateb ambiwlansys ac amseroedd aros canser yn cael sylw eang tra bod ystadegau iechyd meddwl yn cael llawer iawn llai o sylw cyhoeddus?

So, what does that parity really mean? What does that look like in practice? Well, the Centre for Mental Health has outlined what parity of esteem might look like: appropriate waiting times and targets, so that people with mental health issues can expect when to access services, just as people with physical health problems do, so that they know that there is a level playing field there; parity of treatments, so that there's a greater entitlement to psychological therapies, as there is to approved drugs, and as I say, approved drugs are very helpful in helping people find an even keel and stability in their lives, but they are very often unable, on their own, to provide people with a route to recovery; comprehensive liaison psychiatry services in every hospital, which is something that we've discussed before and we've welcomed the Minister's previous words on this issue; physical health checks for those with mental health issues and vice versa, so that we know, in the population who are accessing the doctors, that we are looking at the whole person, at the same time, and that the service that we're providing is appropriate for that. We need 24/7 access to crisis support across the country, routinely, and I think we do need to recognise that if we mean what we say, then it will mean a fundamental change in the commissioning of services. There will be a more equal distribution of resources for physical and mental health, but that has implications in many, many areas.

But we do believe that enshrining this principle of parity in law is important. It would be creating a mandate for the Welsh Government, then, to the NHS to put mental health services on a par with physical health, and I think that would really demonstrate that we mean to raise the profile and priority of mental health services in all areas.

My colleagues today will talk about some of the specific issues, such as waiting times and training and support for teachers and health professionals, which we think can also be very, very helpful and will give further weight to our case, but can I say I look forward to the positive contributions of Members from across the Chamber on what I know is a subject close to very many hearts?

Felly, beth y mae cydraddoldeb o'r fath yn ei olygu mewn gwirionedd? Sut olwg sydd ar hynny'n ymarferol? Wel, mae'r Ganolfan ar gyfer Iechyd Meddwl wedi amlinellu beth a olygir wrth barch cydradd: amseroedd aros a thargedau priodol er mwyn i bobl â phroblemau iechyd meddwl wybod pa bryd y gallant ddefnyddio gwasanaethau, yn union fel pobl â phroblemau iechyd corfforol, er mwyn iddynt wybod bod chwarae teg i bawb; cydraddoldeb o ran triniaethau, fel bod mwy o hawl i therapiau seicolegol, fel sydd i gyffuriau a gymeradwywyd, ac fel y dywedais, mae cyffuriau a gymeradwywyd yn ddefnyddiol iawn i helpu pobl i ddod o hyd i sefydlogrwydd yn eu bywydau, ond yn aml iawn, ni allant gynnig llwybr i adferiad ar eu pen eu hunain; gwasanaethau seiciatreg gyswllt cynhwysfawr ym mhob ystyby, rhywbeth rydym wedi'i drafod yn y gorffennol ac rydym wedi croesawu geiriau'r Gweinidog ar y mater hwn o'r blaen; archwiliadau iechyd corfforol i rai â phroblemau iechyd meddwl ac archwiliadau iechyd meddwl i rai â phroblemau iechyd corfforol, er mwyn i ni wybod, yn y boblogaeth sy'n gweld meddygon, ein bod yn edrych ar y person cyfan ar yr un pryd, a bod y gwasanaeth a ddarparwn yn briodol ar gyfer hynny. Mae angen mynediad 24/7 at gymorth mewn argyfwng ar draws y wlad, fel mater o drefn, ac rwy'n meddwl bod angen i ni gydnabod, os ydym yn golygu'r hyn a ddywedwn, yna bydd yn golygu newid sylfaenol yn y gwaith o gomisiynu gwasanaethau. Dosberthir adnoddau ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol yn fwy cyfartal, ond mae goblygiadau i hynny mewn llawer iawn o feysydd.

Ond rydym yn credu bod ymgorffori egwyddor cydraddoldeb yn y gyfraith yn bwysig. Byddai'n creu mandad i Lywodraeth Cymru, ac yna'r GIG i wneud gwasanaethau iechyd meddwl yn gyfartal ag iechyd corfforol, ac rwy'n meddwl y byddai hynny'n dangos go iawn ein bod yn bwriadu codi proffil a blaenoriaeth gwasanaethau iechyd meddwl ym mhob maes.

Bydd fy nghyd-Aelodau heddiw yn siarad am rai o'r materion penodol, megis amseroedd aros a hyfforddiant a chymorth i athrawon a gweithwyr iechyd proffesiynol y credwn y gall fod yn ddefnyddiol iawn hefyd ac a fydd yn cryfhau ein hachos ymhellach, ond a gaf fi ddweud fy mod edrych ymlaen at gyfraniadau cadarnhaol yr Aelodau o bob rhan o'r Siambr ar yr hyn y gwn ei fod yn bwnc sy'n agos at galonau llawer o bobl?

16:50

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have selected the three amendments to the motion, and I call on Darren Millar to move amendments 1, 2 and 3, tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliannau 1, 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

Gwelliant 1—Paul Davies

Amendment 1—Paul Davies

Ym mhwynt 4, cynnwys is-bwynt newydd:

In point 4, add as new sub-point:

ystyried clustnodi cyllid i sicrhau bod buddsoddiad digonol mewn gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

consider the introduction of a ring fence to ensure that there is adequate investment in mental health services for children and young people in Wales.

Gwelliant 2—Paul Davies

Amendment 2—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn nodi pryderon parhaus ynghylch gallu gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yng Nghymru i ateb y galw.

Gwelliant 3—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith y bydd toriadau termau real i wariant y GIG yng Nghymru yn ei gwneud yn fwy heriol i sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau iechyd meddwl.

Cynigiwyd gwelliannau 1, 2 a 3.

Notes ongoing concerns regarding the capacity of mental health services for children and young people in Wales to meet demand.

Amendment 3—Paul Davies

Add as new point at end of motion:

Regrets that real term cuts to NHS expenditure in Wales will make securing improvements in mental health services more challenging.

Amendments 1, 2 and 3 moved.

16:50

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer, I do move the amendments on the order paper in the name of my colleague Paul Davies. I welcome very much the opportunity to mark this very important week, with World Mental Health Day arriving on Saturday, with a debate on mental health in the National Assembly. Of course, the one great thing that we have managed to achieve here in Wales is a lot of consensus around how to tackle these issues that we're discussing today. Of course, we've also raised the priority level very much, I think, of mental health here in Wales. We have a willingness to tackle it, on all sides of the Chamber, in a constructive way.

I won't rattle off the statistics once again that have already been touched on, but I do want to put on record my thanks to those organisations that work in this field. You mentioned some of them in your opening remarks, but Hafal, Gofal, Mind Cymru and some of the much smaller organisations that work, sometimes, in only parts of Wales—in our own individual constituencies—do a tremendous amount of excellent work. I too share the view that the Time to Change campaign has been enormously successful, but there's still work to do in overcoming some of the stigma that is attached to mental health problems around Wales. Of course, we've got the All Together Now campaign as well, which is seeking to address the loneliness issues that can sometimes be caused as people bottle up their mental health problems and don't share them more widely with their employers, their friends and their loved ones. I think it's really important that we send a message here today, from this National Assembly, that we not only support the organisations that participate in those campaigns, but we actively encourage people to get behind them as well, so that they can achieve as much as is possible to achieve.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, rwy'n cynnig y gwelliannau ar y papur trefn yn enw fy nghyd-Aelod, Paul Davies. Rwy'n croesawu'n fawr y cyfle i nodi'r wythnos bwysig hon, gyda Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd i ddod ddydd Sadwrn, â dadl ar iechyd meddwl yn y Cynulliad Cenedlaethol. Wrth gwrs, yr un peth gwych rydym wedi llwyddo i'w sicrhau yma yng Nghymru yw llawer o gonsensws ar sut i fynd i'r afael â'r materion rydym yn eu trafod heddiw. Wrth gwrs, rwy'n credu ein bod hefyd wedi codi lefel blaenoriaeth iechyd meddwl yn helaeth yma yng Nghymru. Mae gennym barodrywydd i fynd i'r afael ag ef, ar bob ochr i'r Siambr, mewn ffordd adeiladol.

Nid wyf am restru ystadegau eto gan eu bod eisoes wedi'u crybwyll, ond rwyf am gofnodi fy niolch i'r sefydliadau sy'n gweithio yn y maes hwn. Fe sonioch am rai ohonynt yn eich sylwadau agoriadol, ond mae Hafal, Gofal, Mind Cymru a rhai o'r sefydliadau llai o lawer sydd weithiau'n gweithio mewn rhannau'n unig o Gymru—yn ein hetholaethau unigol—yn gwneud llawer iawn o waith rhagorol. Rwyf hefyd yn rhannu'r farn fod ymgyrch Amser i Newid wedi bod yn hynod o lwyddiannus, ond mae gwaith o hyd i'w wneud i oresgyn peth o'r stigma sydd ynghlwm wrth broblemau iechyd meddwl ledled Cymru. Wrth gwrs, mae gennym ymgyrch Gyda'n Gilydd Nawr! hefyd, sy'n mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag unigrwydd a achosir weithiau wrth i bobl guddio'u problemau iechyd meddwl a pheidio â'u rhannu yn ehangach â'u cyflogwyr, eu ffrindiau a'u hanwyliad. Rwy'n credu ei bod yn bwysig i ni anfon neges yma heddiw, o'r Cynulliad Cenedlaethol hwn, ein bod nid yn unig yn cefnogi'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yn yr ymgyrchoedd hyn, ond ein bod hefyd yn annog pobl yn weithredol i'w cefnogi fel y gallant gyflawni cymaint ag sy'n bosibl ei gyflawni.

We know that the cost of mental health problems has been estimated at about £7.2 billion per year in some reports. That's a huge amount of money that these things are costing us. We know, also, that by 2020 mental ill health will be second only to heart disease as the leading contributor to the global burden of disease. It manifests itself, of course, in many, many different ways, from self-harm or low mood right through to feelings of suicide. It's an awful statistic to know that suicide amongst young men, in particular, in Wales is higher than in other parts of the United Kingdom. We also know that there are increasing demands on mental health services for the elderly, with the increasing prevalence of dementia in old age as our population is living longer. But, there's also been a tidal increase in demands on our child and adolescent mental health services.

I just want to take a few moments to reflect on that, if I may. I know that the National Assembly's children and young people's committee has done a great deal of work on this, and we mustn't forget that their report highlighted some very, very interesting facts. It said that the waiting times had not only bloomed in respect of referrals to CAMHS services, but that, also, the spending per head is much lower on children and young people's mental health problems than it is for the adult population. That concerns me. That concerns me greatly, because we all know that if you intervene in a mental health problem earlier, you're much likelier to have better outcomes and be able to manage problems more easily in the future.

The waiting times for access to CAMHS services, in fact, have increased by thousands of per cent in recent years. I think that is a great concern for all of us. We know that there are almost 4,000 young people now waiting, across Wales, to receive the help that they need. We also know that you're seven times more likely, if you're a young person waiting now, than you were five years ago, to be waiting for more than 14 weeks for treatment. When you understand and have met people with mental health problems, we all know that it's very important to strike quickly while the iron is hot, when young people in particular are seeking some support. That's why we've tabled some amendments today that seek to challenge the Government yet again—and all of us in this Chamber—to do more on the need to address these problems in children and young people's services in particular.

Just one final point, if I may. I know that the PricewaterhouseCoopers report has alluded to some of the challenges around the mental health ring fence, which the Government has rightly put in place in recent years. I wonder, Minister, whether you'll be able to put on record today your response to some of the key recommendations in that report, and whether you will also consider putting in place a ring fence for children and young people's services within that ring fence.

Gwyddom fod problemau iechyd meddwl yn costio tua £7.2 biliwn amcangyfrifedig y flwyddyn yn ôl rhai adroddiadau. Dyna swm enfawr o arian y mae'r pethau hyn yn ei gostio i ni. Gwyddom hefyd y bydd salwch meddwl, erbyn 2020, yn ail i glefyd y galon fel y prif gyfrannwr at y baich clefyd byd-eang. Mae'n amlygu ei hun, wrth gwrs, mewn llawer iawn o wahanol ffyrdd, o hunan-niwed neu hwyliau drwg i deimladau o fod eisiau cyflawni hunanladdiad. Mae'n ystadegyn ofnadwy i wybod bod hunanladdiad ymysg dynion ifanc, yn enwedig, yng Nghymru yn uwch na mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Rydym hefyd yn gwybod bod galw cynyddol am wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer yr henoed, gyda nifer cynyddol yr achosion o ddementia henaint wrth i'n poblogaeth fyw yn hirach. Ond hefyd, cafwyd cynnydd enfawr yn y galw am ein gwasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoed.

Hoffwn dreulio ychydig funudau'n ystyried hynny, os caf. Gwn fod pwyllgor plant a phobl ifanc y Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud llawer iawn o waith ar hyn, a rhaid i ni beidio ag anghofio bod eu hadroddiad yn tynnu sylw at rai ffeithiau diddorol tu hwnt. Dywedai nid yn unig fod amseroedd aros wedi ymestyn yn helaeth mewn perthynas ag atgyfeiriadau at wasanaethau CAMHS, ond roedd gwariant y pen ar broblemau iechyd meddwl plant a phobl ifanc hefyd yn llawer is nag ar gyfer oedolion. Mae hynny'n peri pryder i mi. Mae hynny'n peri pryder mawr i mi, oherwydd fel y gwyr pawb ohonom, os ydych yn ymyrryd mewn problem iechyd meddwl yn gynharach, rydych yn llawer mwy tebygol o gael canlyniadau gwell a gallu rheoli problemau'n haws yn y dyfodol.

Mewn gwirionedd, mae amseroedd aros ar gyfer mynediad at wasanaethau CAMHS wedi cynyddu filoedd y cant dros y blynyddoedd diwethaf. Credaf fod hwnnw'n destun pryder mawr iawn i bob un ohonom. Gwyddom fod bron i 4,000 o bobl ifanc bellach yn aros ledled Cymru i gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Os ydych yn berson ifanc sy'n aros yn awr, gwyddom hefyd eich bod saith gwaith yn fwy tebygol o orfod aros am fwy na 14 wythnos am driniaeth nag y buasech bum mlynedd yn ôl. Pan fyddwch yn deall ac wedi cyfarfod â phobl â phroblemau iechyd meddwl, rydym i gyd yn gwybod ei bod yn bwysig iawn taro tra bod yr haearn yn boeth, pan fydd pobl ifanc yn arbennig yn chwilio am gymorth. Dyna pam y cyflwynwyd gwelliannau gennym heddiw sy'n ceisio herio'r Llywodraeth unwaith eto—a phob un ohonom yn y Siambr hon—i wneud mwy ynglŷn â'r angen i fynd i'r afael â'r problemau hyn yn y gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn arbennig.

Un pwynt i gloi, os caf. Gwn fod adroddiad PricewaterhouseCoopers wedi cyfeirio at rai o'r heriau'n ymwneud â chlustnodi cyllid ar gyfer iechyd meddwl, fel y mae'r Llywodraeth wedi bod yn ei wneud, a hynny'n briodol, yn y blynyddoedd diwethaf. Weinidog, tybed a allwch gofnodi heddiw eich ymateb i rai o'r argymhellion allweddol yn yr adroddiad hwnnw, ac a wnewch chi hefyd ystyried clustnodi cyllid ar gyfer gwasanaethau i blant a phobl ifanc o fewn y cyllid a glustnodir.

I'd like to begin by looking at the issue of waiting times. Timely access to mental health services is crucial as individuals can often deteriorate very quickly, which can lead to an exacerbation of their problems to more serious problems, having to take time off work, or perhaps hospitalisation, and a reliance on more acute services, which are more costly for the individual and, indeed, the public purse. I recognise that, in Wales, as part of the Mental Health (Wales) Measure 2010 and action by the Government, we have two key targets under Part 1 of the Measure for measuring the performance of mental health services. That is for people to have a mental health assessment within 28 days and an intervention within 56 days, which has recently been reduced to 28 days. That's to be welcomed, but I think that the experience for many, many people, especially with regard to timely access to psychological services, is very different. Perhaps these targets, simply expressed as they are currently, do not give us the full picture of what it is really like there, out on the ground.

A recent survey by the Royal College of General Practitioners' Wales mental health in primary care network showed that 85 per cent of respondents considered lack of timely access to psychological therapies to be the most significant barrier to accessing a treatment. A report by the network suggests that services have prioritised, understandably, because of the targets, processing assessments to meet the 28-day target and, as a result, focus and funding have been moved away from a timely intervention afterwards, especially if that timely intervention is access to psychological therapies.

The Welsh Government's review of psychological therapy treatments found that individuals' complex needs requiring high-intensity psychological therapy are often placed on long waiting lists that can last up to two years. So, the Government is well aware of this problem. Gofal's 'Snapshot 3' highlights some revealing quotes about service users' experiences:

'Although my GP was very supportive, it's the bit after the GP that lets the mental health service down. 10 months and still waiting CBT appointment.'

'I have had an assessment but am still waiting for counselling after 9 months.'

Another lady said,

'I requested counselling (following 3 miscarriages) as I was experiencing a lot of tearfulness. The GP apologised saying that with a 6 month waiting list it was not worth referring me.'

Hoffwn ddechrau drwy edrych ar amseroedd aros. Mae mynediad amserol at wasanaethau iechyd meddwl yn hanfodol gan y gall unigolion ddirywio'n gyflym iawn yn aml, gan beri i'w problemau waethygu'n rhai mwy difrifol, a golygu bod yn rhaid iddynt gymryd amser o'r gwaith, neu fynd i ysbyty, efallai, a dibyniaeth ar wasanaethau mwy aciwt, sy'n fwy costus i'r unigolyn ac yn wir, i'r pwrs cyhoeddus. Rwy'n cydnabod bod gennym yng Nghymru, yn rhan o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a chamau gan y Llywodraeth, ddau darged allweddol o dan Ran 1 y Mesur ar gyfer mesur perfformiad y gwasanaethau iechyd meddwl, sef y dylai pobl gael asesiad iechyd meddwl o fewn 28 diwrnod ac ymyrraeth o fewn 56 diwrnod, targed sydd wedi'i ostwng yn ddiweddar i 28 diwrnod. Mae hynny i'w groesawu, ond rwy'n meddwl bod profiad llawer iawn o bobl, yn enwedig o ran mynediad amserol at wasanaethau seicolegol, yn wahanol iawn. Efallai nad yw'r targedau hyn, wedi'u mynegi fel y maent ar hyn o bryd, yn rhoi'r darlun llawn o sut y mae hi mewn gwirionedd, ar lawr gwlad.

Dangosodd arolwg diweddar gan Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol ar iechyd meddwl yn y rhwydwaith gofal sylfaenol fod 85 y cant o'r ymatebwyr yn ystyried mai diffyg mynediad amserol at therapiau seicolegol yw'r rhwystr mwyaf sylweddol o ran cael mynediad at driniaeth. Mae adroddiad gan y rhwydwaith yn awgrymu bod gwasanaethau wedi blaenoriaethu, yn ddealladwy o ystyried y targedau, y gwaith o brosesu asesiadau er mwyn cyrraedd y targed o 28 diwrnod ac o ganlyniad i hynny, mae ffocws a chyllid wedi symud oddi ar ymyrraeth amserol ar ôl hynny, yn enwedig os mai mynediad at therapiau seicolegol yw'r ymyrraeth amserol honno.

Canfu adolygiad Llywodraeth Cymru o driniaethau therapi seicolegol fod unigolion ag anghenion cymhleth sydd angen therapi seicolegol dwys yn aml yn cael eu rhoi ar restrau aros hir a all bara hyd at ddwy flynedd. Felly, mae'r Llywodraeth yn ymwybodol iawn o'r broblem hon. Mae 'Cipolwg 3' gan Gofal yn tynnu sylw at rai dyfyniadau dadlennol am brofiadau defnyddwyr gwasanaethau:

'Er bod fy Meddyg Teulu yn gefnogol iawn, y rhan ar ôl y Meddyg Teulu sy'n gadael y gwasanaeth iechyd meddwl i lawr. 10 mis ac yn dal i aros ar gyfer apwyntiad CBT.'

'Rydw i wedi cael asesiad ond yn dal i aros ar gyfer cwnsela ar ôl 9 mis.'

Dyweddodd dynes arall,

'Gofynnais am gwnsela (yn dilyn colli 3 babi) gan fy mod yn profi llawer o grio. Roedd y Meddyg Teulu yn ymddiheuro gan ddweud nad oedd yn werth gwneud atgyfeiriad gyda rhestr aros o 6 mis.'

We also need to have a more sophisticated assessment of CAMHS targets. There are a staggering 1,700 vulnerable young people in Wales who are currently waiting over 14 weeks to access services that they desperately need. In our motion today we are asking for the Government to review how targets are developed, and also looking for parity for CAMHS services in line with adult mental health problems.

If I can then turn to the issue of funding, as has been expressed earlier, we often talk in this Chamber about the disproportionality of money that is spent in secondary care versus primary care. Well, I think that the same could be said if we looked at the split of funding between money spent on physical health and mental health. Here, we know that because less funding translates into fewer staff, which often translates into longer waiting lists, we actually end up with a mental health service that is costing us more than it needs to, because many people end up requiring more costly interventions over a longer period of time than they would if we were able to intervene earlier. So, we really need to look at—. Should the Conservative Government in Westminster be good to its word of providing an additional £450 million-worth of consequential, if they are to put the promised £9 billion into the health service in England, we would look to prioritise some of that new funding into investment in mental health services.

But of course then we need to know that the targets and the money are doing what they need to do for patients. Our motion also calls for better data collection so that we can monitor how existing funds are being spent to ensure that they're achieving the very best outcomes for Welsh patients. The development of meaningful and transparent mental health core data sets, focused on the patient outcome, is one of the key points in Gofal's manifesto, which they will officially launch later today.

Now, the mental health Measure is a good piece of legislation, but there needs to be more focus on whether it is truly delivering outcomes for patients. Much of the performance data are simply about a tick box—whether we've hit those 28-day targets. Data are important, but we also have to make sure that it's the right kind of data that we are collecting.

Now, the PricewaterhouseCoopers report reiterates this point, calling for a standard mental health care data set. There are examples out there, and I know that Welsh Government is looking to develop them, but I'd be asking the Government when those will be ready for implementation.

Hefyd, mae angen i ni gynnal asesiad mwy soffistigedig o dargedau CAMHS. Ceir y swm anhygoel o 1,700 o bobl ifanc agored i niwed yng Nghymru sydd ar hyn o bryd yn aros dros 14 wythnos i gael mynediad at wasanaethau sydd eu hangen arnynt yn ddifawr. Yn ein cynnig heddiw gofynnwn i'r Llywodraeth adolygu'r modd y datblygir targedau, a sicrhau cydraddoldeb rhwng gwasanaethau CAMHS a phroblemau iechyd meddwl oedolion.

Os caf droi wedyn at fater ariannu, fel y soniwyd yn gynharach, rydym yn aml yn siarad yn y Siambr hon am anghymesuredd rhwng yr arian sy'n cael ei wario mewn gofal eilaidd o gymharu â gofal sylfaenol. Wel, rwy'n meddwl y gellid dweud yr un peth os edrychwn ar y rhaniad rhwng arian a werir ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Yma, oherwydd bod llai o gyllid yn trosi'n llai o staff, sy'n trosi'n aml wedyn yn rhestrau aros hirach, gwyddom mai'r hyn sydd gennym yn y pen draw yw gwasanaeth iechyd meddwl sy'n costio mwy na sydd angen iddo wneud, gan fod llawer o bobl angen ymyriadau mwy costus dros gyfnod hwy o amser yn y pen draw nag y byddent pe baem wedi gallu ymyrryd yn gynharach. Felly, mae gwir angen i ni edrych—. Pe bai'r Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan yn cadw at ei gair ac yn darparu gwerth £450 miliwn ychwanegol o symiau canlyniadol, os yw am roi'r £9 biliwn a addawodd i'r gwasanaeth iechyd yn Lloegr, byddem yn ceisio blaenoriaethu rhywfaint o'r cyllid newydd hwnnw i'w fuddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl.

Ond wrth gwrs, mae angen i ni wybod wedyn bod y targedau a'r arian yn gwneud yr hyn sydd angen iddynt ei wneud ar gyfer cleifion. Mae ein cynnig hefyd yn galw am gasglu data gwell er mwyn i ni allu monitro sut y mae cronfeydd presennol yn cael eu gwario i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau i gleifion yng Nghymru. Mae datblygu setiau data craidd iechyd meddwl sy'n ystyrlon ac yn dryloyw, yn canolbwyntio ar y canlyniadau i gleifion, yn un o'r pwyntiau allweddol ym manifestio Gofal sy'n cael ei lansio'n swyddogol yn nes ymlaen heddiw.

Nawr, mae'r Mesur iechyd meddwl yn ddeddfwriaeth dda, ond mae angen mwy o ffocws ar edrych i weld a yw'n cyflawni canlyniadau i gleifion mewn gwirionedd. Mae llawer o'r data perfformiad yn ymwneud yn syml â thicio blychau—pa un a ydym wedi cyrraedd y targedau 28 diwrnod. Mae data'n bwysig, ond rhaid i ni hefyd wneud yn siŵr ein bod yn casglu'r math cywir o ddata.

Nawr, mae adroddiad PricewaterhouseCoopers yn ailadrodd y pwynt hwn, gan alw am set ddata safonol ar ofal iechyd meddwl. Mae enghreifftiau ar gael, a gwn fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu datblygu, ond byddwn yn gofyn i'r Llywodraeth pa bryd y bydd y rheini'n barod i'w rhoi ar waith.

This is one of the services where it's absolutely crucial to have the participation and active engagement of the patients, a bit like maternity services. Without that, you absolutely aren't going to arrive at the outcome that you want. My view is that the Government has a very good story to tell here. Today's statement from the health Minister about the amount of money that has been spent on mental health services during the last few years—. The waiting times for mental health referrals from assessment to treatment are being halved from 56 days to 28 days, and I feel that that really reflects the seriousness with which this is being addressed. We have to acknowledge that this has been a cinderella service in the past, and I feel that it isn't any longer. Now we have the Government's commitment to continue to ring-fence money for mental health services, which is another important contribution to adjusting the imbalance that's been there in the past, but I feel that we now need to focus on the quality of the outcomes in the delivery of those mental health services.

Following up on some of the remarks made by Kirsty Williams, I'd just like to draw our attention to an interesting report that was published this week into a study carried out at the Tavistock and Portman NHS Foundation Trust in London, which indicates that long-term psychoanalytic psychotherapy merits further consideration as a treatment for people with what is known as treatment-resistant depression, or, as we might call it, long-term chronic depression. The study notes that the potential to follow a chronic relapsing course is a substantial part of what makes depression one of the largest contributors to human disease worldwide. They worked with 129 people with treatment-resistant depression who'd had it for at least two years who'd experienced at least two failed treatment attempts, one with anti-depressant medication, which, in my understanding, merely suppresses the mood problems of the patient, and the other with either medication or a psychological intervention, almost certainly counselling.

Now, each of these individuals received 60 50-minute sessions of individual psychoanalytic therapy over 18 months. The benefits emerged when they looked at it over the long term. Compared with the control group, the participants who received the psychoanalytic psychotherapy after 24 months were much less likely to relapse, and, after two years, nearly one third of participants were still in partial remission, compared to 4 per cent of those in the control group. By 42 months, 44 per cent were in remission, compared to 10 per cent of the control group. After two years, 44 per cent of those who'd received the psychoanalytic psychotherapy were no longer classed as having a major depressive disorder, and I feel that this is really quite a significant outcome for people who have long-term mental illness and one that I hope that we can look further at. I understand that similar research is being done in Germany and will soon be reporting. It could offer real hope for those patients for whom treatment as usual has failed, if the NHS would give this serious consideration.

The current NHS Wales advice line is:

Dyma un o'r gwasanaethau lle y mae'n hollol hanfodol sicrhau cyfranogiad ac ymgysylltiad gweithredol y cleifion, ychydig fel gwasanaethau mamolaeth. Heb hynny, nid ydych byth yn mynd i sicrhau'r canlyniad rydych ei eisiau. Yn fy marn i, mae gan y Llywodraeth stori dda iawn i'w hadrodd yma. Datganiad heddiw gan y Gweinidog iechyd am y swm o arian a wariwyd ar wasanaethau iechyd meddwl yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf—. Mae'r amseroedd aros ar gyfer atgyfeiriadau iechyd meddwl rhwng asesu a thriniaeth yn cael eu haneru o 56 diwrnod i 28 diwrnod, ac rwy'n teimlo bod hynny'n adlewyrchiad o'r sylw difrifol sy'n cael ei roi i hyn. Mae'n rhaid i ni gydnabod bod hwn wedi bod yn wasanaeth sinderela yn y gorffennol, ac rwy'n teimlo nad yw hynny'n wir mwyach. Nawr mae gennym ymrwymiad y Llywodraeth i barhau i glustnodi cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, sy'n gyfraniad pwysig arall i addasu'r anghydbwysedd a fu yno yn y gorffennol, ond rwy'n teimlo bod angen i ni ganolbwyntio yn awr ar ansawdd y canlyniadau wrth ddarparu'r gwasanaethau iechyd meddwl hynny.

I ddilyn rhai o'r sylwadau a wnaed gan Kirsty Williams, hoffwn dynnu ein sylw at adroddiad diddorol a gyhoeddwyd yr wythnos hon ar astudiaeth a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Tavistock a Portman yn Llundain, sy'n nodi bod seicotherapi seicdreiddiol hirdymor yn teilyngu ystyriaeth bellach fel triniaeth ar gyfer pobl â'r hyn a elwir yn iselder sy'n gwrthsefyll triniaeth, neu iselder cronig hirdymor, fel y gallem ei alw. Mae'r astudiaeth yn nodi bod y posibilrwydd o ddilyn patrwm atglafychol cronig yn rhan sylweddol o'r hyn sy'n gwneud iselder yn un o'r prif gyfranwyr at afiechydon dynol ledled y byd. Gweithiodd yr astudiaeth gyda 129 o bobl ag iselder sy'n gwrthsefyll triniaeth a fu'n dioddef ohono ers o leiaf ddwy flynedd ac a oedd wedi rhoi cynnig ar driniaeth o leiaf ddwywaith, unwaith gyda meddyginiaeth gwrth-iselder, nad yw, yn ôl yr hyn a ddeallaf, ond yn mygu problemau â hwyliau'r claf, a'r tro arall gyda meddyginiaeth neu ymyrraeth seicolegol, sef cwnsela yn ôl pob tebyg.

Nawr, cafodd pob un o'r unigolion hyn 60 o sesiynau 50 munud o hyd o therapi seicdreiddiol unigol dros 18 mis. Daeth y manteision i'r amlwg pan edrychwyd arno dros y tymor hir. O'u gymharu â'r grŵp rheoli, ar ôl 24 mis, roedd y cyfranogwyr a oedd wedi cael seicotherapi seicdreiddiol yn llawer llai tebygol o atglafychu, ac ar ôl dwy flynedd, roedd anhwylder bron i draean o'r cyfranogwyr yn dal i fod wedi cilio'n rhannol, o'i gymharu â 4 y cant o'r rhai yn y grŵp rheoli. Erbyn 42 mis, roedd anhwylder 44 y cant wedi cilio, o'i gymharu â 10 y cant o'r grŵp rheoli. Ar ôl dwy flynedd, ni châi 44 y cant o'r rhai a oedd wedi cael seicotherapi seicdreiddiol eu dosbarthu mwyach fel rhai'n dioddef o anhwylder iselder difrifol, ac rwy'n teimlo bod hwn yn ganlyniad arwyddocaol iawn i bobl â salwch meddwl hirdymor ac yn un rwy'n gobeithio y gallwn edrych ymhellach arno. Deallaf fod gwaith ymchwil tebyg ar y gweill yn yr Almaen ac y bydd yn cyflwyno'i adroddiad yn fuan. Gallai gynnig gobaith go iawn i gleifion y mae triniaeth arferol wedi methu â'u gwella, pe bai'r GIG yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i hyn.

Cyngor GIG Cymru ar hyn o bryd yw:

'Psychotherapy is available in some areas of the NHS by referral from your GP. However, there are often long waiting lists to see psychotherapists, so you may want to consider seeing a private therapist.'

That is not what I think we should be doing, and I'm sure it does not reflect the philosophy of the current health Minister. I'd be grateful to hear his view on the results of the Tavistock study.

17:06

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to start by talking about two groups of people close to my own heart: farmers and military veterans. Farming and rural communities are often more susceptible than many others to poor health and wellbeing for a variety of reasons, such as stress or anxiety around losing livestock from disease or, indeed, the impact of a sudden downturn in prices and the wider economic situation. This is also exacerbated often by the remote nature of their work, which can leave them socially isolated and, indeed, less able to access support services.

Thankfully, organisations like the Farming Community Network and the Addington Fund offer farmers and other rural workers support in overcoming the challenges that they face. I'm particularly impressed by a scheme that was introduced recently in Northern Ireland by their agriculture Minister, Michelle O'Neill MLA, called the farm families health checks programme. This has seen a number of portable clinics that visit local markets, country shows, machinery fairs and other rural events to offer on-the-spot health checks, consisting of blood-pressure monitoring, body mass index and cholesterol checks and diabetes screening, as well as mental health advice. After all, we know all too well that farmers are often more concerned about the health of their livestock than about their own health. I would encourage the Minister to examine this scheme to see whether it is something that could be introduced here, given the huge benefits that it could potentially deliver for the mental wellbeing of rural workers in Wales. This would also, potentially, be an effective deployment of rural development plan funds.

I've also previously highlighted the need for better mental health services for the former members of our armed forces. It is deeply saddening that significant proportions of the armed forces community suffer from post-traumatic stress disorder, depression and other forms of mental ill health, often leading to high rates of alcohol and substance abuse. One of our armed forces champions—the Ceredigion armed forces champion, Councillor Paul Hinge—recently informed me that he had attended four funerals since January of this year of military veterans in Wales who had taken their own lives following periods of mental ill-health.

'Psychotherapy is available in some areas of the NHS by referral from your GP. However, there are often long waiting lists to see psychotherapists, so you may want to consider seeing a private therapist.'

Nid dyna y dylem fod yn ei wneud yn fy marn i, ac rwy'n siŵr nad yw'n adlewyrchiad o athroniaeth y Gweinidog iechyd presennol. Byddwn yn falch o glywed ei farn ar ganlyniadau astudiaeth Tavistock.

Hoffwn ddechrau drwy siarad am ddau grŵp o bobl sy'n agos at fy nghalon: ffermwyr a chyn-filwyr. Mae cymunedau ffermio a chymunedau gwledig yn aml yn fwy agored na llawer o bobl eraill i iechyd a lles gwael am amryw o resymau, megis straen neu bryder ynghylch colli da byw yn sgil defyd neu'n wir, effaith cwmp sydyn yn y prisiau a'r sefyllfa economaidd ehangach. Caiff hyn ei waethygu'n aml hefyd gan natur anghysbell eu gwaith, sy'n gallu eu gwneud yn ynysig yn gymdeithasol ac yn wir, yn llai abl i ddod o hyd i wasanaethau cymorth.

Diolch byth, mae sefydliadau fel y Rhwydwaith Cymunedol Ffermio a Chronfa Addington yn cynnig cymorth i ffermwyr a gweithwyr cefn gwlad eraill i oresgyn yr heriau y maent yn eu hwynebu. Rwy'n llawn edmygedd o gynllun a gyflwynwyd yn ddiweddar yng Ngogledd Iwerddon gan eu Gweinidog amaethyddiaeth, Michelle O'Neill MLA, sef rhaglen o archwiliadau iechyd i deuluoedd fferm. Mae wedi arwain at nifer o glinigau symudol yn ymweld â marchnadoedd lleol, sioeau gwledig, ffeiriau peiriannau a digwyddiadau gwledig eraill i gynnig archwiliadau iechyd yn y fan a'r lle, gan gynnwys monitro pwysau gwaed, mynegai màs y corff, profion colesterol a sgrinio diabetes, yn ogystal â chynngor iechyd meddwl. Wedi'r cyfan, gwyddom yn rhy dda fod ffermwyr yn aml yn poeni mwy am iechyd eu da byw nag am eu hiechyd eu hunain. Byddwn yn annog y Gweinidog i edrych ar y cynllun hwn i weld a yw'n rhywbeth y gellid ei gyflwyno yma, o ystyried y manteision enfawr y gallai eu creu o ran lles meddyliol gweithwyr gwledig yng Nghymru. Byddai hefyd, o bosibl, yn ddefnydd effeithiol ar gronfeydd y cynllun datblygu gwledig.

Rwyf hefyd wedi tynnu sylw yn y gorffennol at yr angen am well gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer cyn-aelodau ein lluoedd arfog. Mae'n drist iawn fod cyfrannau sylweddol o gymuned y lluoedd arfog yn dioddef o anhwylder straen wedi trawma, iselder a mathau eraill o salwch meddwl, sy'n aml yn arwain at gyfraddau uchel o gamddefnyddio alcohol a sylweddau. Dywedodd un o hyrwyddwyr y lluoedd arfog—hyrwyddwr lluoedd arfog Ceredigion, y Cynghorydd Paul Hinge—wrthyf yn ddiweddar ei fod ers mis Ionawr wedi mynychu pedwar angladd cyn-filwr yng Nghymru a oedd wedi cyflawni hunanladdiad yn sgil cyfnodau o salwch meddwl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Change Step Wales peer-mentoring and advice service has been widely praised for its programme of peer support and training opportunities, and of signposting to relevant health and welfare services. However, it is severely constrained in its funding, and I hope that the Minister can work with the representatives of the Ministry of Defence to look at how this service can be better supported so that armed forces personnel in Wales have access to the support services they need and deserve.

This leads me on to the call in our motion for improved mental health training to equip teachers, health professionals and employers with the skills to identify and support those experiencing mental health problems. To focus on GPs in particular, Gofal's 'Snapshot 3' review of people's experiences of primary mental health services highlights the tremendous support that many people with mental health issues receive from their general practitioner. One service user commented:

'With my GP's encouragement I talked about my experiences over the past ten years. He listened non-judgementally with understanding and empathy, asking questions sensitively when I was struggling to know what to say.'

However, a survey by the Wales mental health primary care network found that GPs are less confident in offering support in this area, with some 70 per cent saying that it is either difficult or very difficult to manage in this area. Meanwhile, demand for this support is increasing, with 50 per cent of respondents identifying that they are spending 20 per cent of their working days dealing with mental ill-health issues. The medical model that underpins medical training does not offer the support that's needed. We need to see improved training for health professionals so that they're equipped to support patients with sometimes multiple and complex needs.

This training must be extended to include teachers so that staff can identify and signpost young people who are experiencing mental ill-health. It must also extend to employers. A recent YouGov/Mind survey on mental health and wellbeing within the workplace found that one in three workers felt that they would not be able to speak openly about stress in the workplace to a superior.

To conclude, there is a clear need for improved training for many professionals to help tackle stigma and discrimination and to ensure that people with mental ill health receive the support that they need. We hope that the Welsh Government will move proactively to improve training in particular for these groups.

Mae'r gwasanaeth mentora a chyingor gan gymheiriaid, Change Step Cymru, wedi'i ganmol yn eang ar ei raglen o gymorth gan gymheiriaid, cyfleoedd hyfforddi a'r modd y mae'n cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles perthnasol. Fodd bynnag, mae ei gyllid wedi'i gyfyngu'n ddifrifol, ac rwy'n gobeithio y gall y Gweinidog weithio gyda chynrychiolwyr o'r Weinyddiaeth Amddiffyn i edrych ar sut y gellid cefnogi'r gwasanaeth yn well er mwyn sicrhau bod personél y lluoedd arfog yng Nghymru yn cael mynediad at y gwasanaethau cymorth y maent yn haeddu a'u hangen.

Mae hyn yn fy arwain at yr alwad yn ein cynnig am wella hyfforddiant iechyd meddwl er mwyn rhoi sgiliau i athrawon, gweithwyr iechyd proffesiynol a chyflogwyr i'w galluogi i adnabod a chefnogi pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. O ganolbwyntio ar feddygon teulu yn arbennig, mae adolygiad 'Ciplun 3' gan Gofal sy'n adolygu profiadau pobl o wasanaethau iechyd meddwl sylfaenol, yn tynnu sylw at y gefnogaeth aruthrol y mae llawer o bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn ei chael gan eu meddyg teulu. Dywedodd un defnyddiwr gwasanaeth:

'Gydag anogaeth fy Meddyg Teulu siaradais am fy mhrofiadau dros y deng mlynedd ddiwethaf. Roedd e'n gwranddo heb feirniadu gan ddangos dealltwriaeth a chydymdeimlad, a gofyn cwestiynau mewn ffordd sensitif pan nad oeddwn yn gwybod beth i ddweud.'

Fodd bynnag, canfu arolwg gan y Rhwydwaith Iechyd Meddwl mewn Gofal Sylfaenol yng Nghymru fod meddygon teulu yn llai hyderus wrth gynnig cymorth yn y maes hwn, gyda thua 70 y cant yn dweud ei bod naill ai'n anodd neu'n anodd iawn i'w reoli yn y maes hwn. Yn y cyfamser, mae'r galw am y cymorth yn cynyddu, gyda 50 y cant o ymatebwyr yn nodi eu bod yn treulio 20 y cant o'u diwrnod gwaith yn ymdrin â materion salwch meddwl. Nid yw'r model meddygol sy'n sail i hyfforddiant meddygol yn cynnig y gefnogaeth sydd ei hangen. Mae angen i ni wella hyfforddiant ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol er mwyn eu paratoi ar gyfer cynorthwyo cleifion sydd ag anghenion lluosog a chymhleth weithiau.

Rhaid ymestyn yr hyfforddiant i gynnwys athrawon er mwyn i staff allu adnabod a chyfeirio pobl ifanc â salwch meddwl. Rhaid iddo hefyd ymestyn i gynnwys cyflogwyr. Canfu arolwg YouGov/Mind diweddar ar iechyd meddwl a lles yn y gweithle fod un o bob tri gweithiwr yn teimlo na fyddent yn gallu siarad yn agored am straen yn y gweithle ag aelod uwch o staff.

I gloi, mae'n amlwg fod angen gwella hyfforddiant i lawer o weithwyr proffesiynol i helpu i fynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu ac i sicrhau bod pobl â salwch meddwl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Gobeithiwn y bydd Llywodraeth Cymru yn symud yn rhagweithiol tuag at wella hyfforddiant yn enwedig ar gyfer y grwpiau hyn.

Diolch i'r Democratiaid Rhyddfrydol am ddod â'r ddatl yma gerbron. Mi oeddwn yn siarad efo rhywun yn ddiweddar a gwnaethon nhw ddweud wrthyf, 'O, mae'n rhaid dy fod di'n eithaf hyderus, achos rwyf ti'n wleidydd; ti'n gallu siarad am unrhyw beth ti eisiau', a dywedais i, 'Wel, ie, rwyf yn hyderus am bopeth heblaw am siarad am iechyd meddwl', achos, ar ôl dioddef o iselder, mae'n bwnc really anodd ei drafod heb fynd yn emosynol amdano. Rwy'n credu heddiw eto rwy'n mynd yn emosynol wrth glywed am yr hyn y mae pobl yn mynd trwyddi, achos rwyf ti'n gallu cofio beth yr wyt ti wedi mynd trwyddo a sut roeddet ti'n teimlo yn y sefyllfa yna.

Meddwl am ffyrdd o allu ymdopi â hynny yw'r peth gorau i mi. Felly, yn ddiweddar, gwnes i ysgrifennu darn ar gyfer llyfr newydd oedd yn cael ei gynhyrchu gan y Lolfa. Syniad merch o'r enw Alaw Griffiths o ardal Ceredigion oedd hi, i roi barn pobl oedd wedi dioddef gyda phroblemau iechyd meddwl, neu farn pobl sy'n byw gyda phobl gyda phroblemau iechyd meddwl, yn y Gymraeg er mwyn rhoi sylw i'r mater yma drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Pan oedd Alaw yn dioddef ei hunan, ar ôl geni ei merch, nid oedd yn gallu ffeindio unrhyw wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, ac roedd hynny, eto, yn rhwystr mawr iddi hi rhag gallu gwella—nad oedd yn gallu siarad ei hiaith ei hun. Felly, mae'r llyfr yna yn rhywbeth sydd wedi fy helpu i ac wedi helpu eraill i ysgrifennu i lawr ein problemau a sut rydym wedi ymdopi, a hynny mewn ffordd greadigol. Dyna pam, rwy'n credu, pan ydym yn cael trafodaethau fel hyn, ni ddylwn ei gyfyngu i faes iechyd yn unig, ond edrych ar sut mae cymdeithas ynddo'i hun yn gallu helpu'i gilydd.

Er enghraifft, y bore yma, roeddwn gyda phobl sy'n gweithio yn y sector diwylliannol, y sector celfyddydol, ac maen nhw'n cynnal pethau fel 'dance therapy', sy'n helpu pobl sy'n dioddef o iselder neu sydd â phroblemau iechyd meddwl eraill. Wedyn, y prynhawn yma, roeddwn yn siarad â NIACE Dysgu Cymru, ac roeddent yn dweud bod yna gydsyniad o'r enw 'recovery', sy'n mynd i mewn i golegau addysg bellach ac sy'n gallu wedyn hybu hynny. Neu fynd i mewn i unedau dialysis: mae pobl yn eistedd yno ac yn aros am driniaeth trwy'r dydd, ac yn aros am 'transplant' mewn nifer o achosion, ac felly mae pobl yn mynd i mewn ac yn eu hybu nhw i fod yn greadigol—maen nhw'n paentio ac yn gwneud pethau er mwyn iddyn nhw beidio â gorfod meddwl am y sefyllfa maen nhw ynddi—a'u helpu nhw, felly, i ddod trwy hynny.

I thank the Liberal Democrats for bringing this debate before the Assembly. I was speaking to somebody recently and they said to me, 'Oh, you must be quite confident, because you're a politician; you can speak about anything you want', and I said, 'Well, yes, I am confident about everything except for talking about mental health issues', because, after suffering from depression, it's a very difficult subject to discuss without becoming emotional. I think today again I'm becoming emotional hearing about what people are going through, because you can remember what you've gone through and you felt in that situation.

Thinking about ways of coping with that is the best thing for me. So, recently, I wrote a piece for a new book that was being produced by Y Lolfa. It was the idea of a girl called Alaw Griffiths from the Ceredigion area, to give the opinions of people who'd suffered from mental health issues, or people living with people with mental health issues, in the Welsh language in order to give attention to this issue through the medium of Welsh. When Alaw was suffering herself, after the birth of her daughter, she couldn't find any services through the medium of Welsh, and that, again, was a great barrier to her being able to get better—she couldn't speak her own language. So, that book is something that has helped me and has helped others to write down our problems and how we've coped, in a creative way. That's why, I think, when we have these kind of debates, we shouldn't limit it to the health area alone, but look at how we can help each other in society.

For example, this morning, I was with people who work in the cultural sector, the arts sector, and they have things like dance therapy, which helps people who suffer from depression or who have other mental health problems. Then, this afternoon, I was talking with NIACE Dysgu Cymru, and they talked about a concept called 'recovery', which goes into further education colleges and then can promote that. Or going into dialysis units: people sit there waiting for treatment all day, and are waiting for a transplant in many cases, and so people go in there and they help them to be creative—they paint and do things so that they don't have to think about the situation they are in—and help them to get through that.

Rwy'n credu, pan ydym yn edrych ar y maes iechyd meddwl, ei fod yn bwysig i ni wneud hynny. Dyna pam rwy'n credu bod yr ymgyrch Amser i Newid Cymru/Time to Change Wales wedi bod yn ddefnyddiol iawn er mwyn gweld sut rydym yn gallu helpu cymdeithas, ac rwy'n falch iawn eu bod yn gallu nawr rhoi bid i mewn i helpu pobl ifanc hefyd, oherwydd mae pawb sydd wedi siarad yma heddiw wedi sôn am bobl ifanc ac, wrth gwrs, y cynharaf rydym yn siarad â phobl, y lleiaf tebygol yw iddyn nhw i fynd yn sâl ac yn waeth fyth wedyn pan fyddant yn oedolion. Mae'n rhywbeth rwy'n becsu'n fawr amdano. Mae mwy a mwy o bobl yn dod i fy swyddfa i gyda phroblemau achos y 'stress' sydd arnyn nhw yn yr ysgol i berfformio, efallai problemau teuluol, a'r diffyg gallu i siarad, yn enwedig ymysg pobl ifanc. Dyna pam mae'n bwysig, pan fo ardaloedd fel ABMU yn comisiynu mas i ardaloedd eraill fel Cwm Taf, eu bod yn deall yn iawn pwy sy'n gyfrifol am gomisiynu'r gwaith yma allan, a bod y bwrdd iechyd penodol yn cymryd cyfrifoldeb am yr hyn sydd yn digwydd. Grêt bod arian newydd yn mynd i mewn i'r byrddau iechyd, ond atebolrwydd yw'r allwedd yma. Nid ydym yn gallu gadael i fwy o bobl ifanc ddioddef yma yng Nghymru, a'u gweld nhw yn dioddef heb fwy o ddatblygiadau yn y dyfodol.

I wanted to speak in this debate originally because I wanted to speak about eating disorders. I think, for me, we have welcomed progress in this area, but I would like to make sure that they are recognised and acted upon within broader mental health policy. I think that it shouldn't be seen in a silo, and that the next 'Together for Mental Health' delivery plan should be inclusive of eating disorders. We have people here in the public gallery who have worked with me on the cross-party group, and one of them said to me—his name is James Downs—that he felt that he suffered clinical neglect as a result of the ineffectual structures that were in place for him. And so I think that in this area, we really need to reduce barriers, make sure that people can access work after they've struggled and that they can live successful lives.

I think, when we look at the mental health area, it is important for us to do that. That's why I think that the Time to Change Wales campaign has been very useful so that we can see how we can help society, and I'm very pleased that they can put a bid in now to help young people as well, because everyone who's spoken today has talked about young people and, of course, the earlier we can speak to people, the less likely it is they will become ill and a great deal worse when they become adults. It's something I'm very concerned about. More and more people are coming to my office with problems with stress in terms of pressure to perform in school, they may have problems at home with their families, and there's a lack of an opportunity to speak about these problems, especially among young people. That's why it's important, when areas such as ABMU commission out to other areas such as Cwm Taf, that they fully understand who is responsible for the commissioning of this work, and that the specific health board does take responsibility for what happens. It's great that new funding is being provided to the health board, but accountability is the key here. We can't allow more young people to suffer here in Wales and to see them suffer without further developments for the future.

Roeddwn i eisiau siarad yn y ddadl hon yn wreiddiol am fy mod i eisiau sôn am anhwylderau bwyta. I mi, rwy'n credu ein bod wedi croesawu cynnydd yn y maes hwn, ond hoffwn wneud yn siŵr fod anhwylderau o'r fath yn cael eu cydnabod yn y polisi iechyd meddwl ehangach, a'u bod yn cael eu trin. Rwy'n credu na ddylai gael ei weld mewn seilo, ac y dylai'r cynllun cyflawni 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' nesaf gynnwys anhwylderau bwyta. Mae gennym bobl yma yn yr oriel gyhoeddus sydd wedi gweithio gyda mi yn y grŵp trawsbleidiol, a dywedodd un ohonynt wrthyf—ei enw yw James Downs—ei fod yn teimlo ei fod wedi dioddef o esgeulustod clinigol o ganlyniad i'r strwythurau aneffeithiol a oedd yn eu lle ar ei gyfer. Ac felly rwy'n meddwl bod gwir angen i ni leihau'r rhwystrau yn y maes er mwyn gwneud yn siŵr fod pobl yn gallu cael gwaith ar ôl brwydro ac y gallant fyw bywydau llwyddiannus.

17:16

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the opportunity to speak in today's debate, especially as we approach World Mental Health Day on 10 October on Saturday, and to take time to reflect upon the progress that is actually being achieved through the 'Together for Mental Health' strategy. Again, like Darren, I won't repeat the statistics, but I want you to think about this for one second. We talk about one in four—it could be any one of us, not just one in four. Any one of us could face the difficult circumstances people face because of a bereavement, loss of job, loss of status, loss of standing, and the pressure that that brings to you—or financial difficulties. Any one of us could face that situation, which could trigger and spark off a situation. So, this is something that we need to take on board and reflect that 'It could be me tomorrow'. I think when we discuss these issues, that's important for us to remember.

Rwy'n croesawu'r cyfle i siarad yn y ddadl heddiw, yn enwedig wrth i ni nesáu at Ddiwrnod Iechyd Meddwl y Byd ar ddydd Sadwrn 10 Hydref, ac i roi amser i fyfyrion ar y cynnydd sy'n cael ei gyflawni mewn gwirionedd drwy strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl'. Unwaith eto, fel Darren, nid wyf am ailadrodd yr ystadegau, ond rwyf am i chi feddwl am hyn am eiliad. Soniwn am un o bob pedwar—gallai fod yn unrhyw un ohonom, nid un o bob pedwar yn unig. Gallai unrhyw un ohonom wynebu'r amgylchiadau anodd y mae pobl yn eu hwynebu oherwydd profedigaeth, colli swydd, colli statws, colli enw da, a'r pwysau a ddaw yn sgil hynny—neu anawsterau ariannol. Gallai unrhyw un ohonom wynebu sefyllfa o'r fath, a allai sbarduno ac ysgogi trafferthion. Felly, dyma rywbeth sydd angen i ni roi sylw iddo a sylweddoli 'y gallai fod yn fi yfory'. Pan fyddwn yn trafod y materion hyn, rwy'n meddwl ei bod hi'n bwysig i ni gofio hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I welcome the Minister's announcement in late August to continue ring-fencing the mental health budget. I think that's a very strong statement being made. And I also welcome the additional recurring funding of £15.4 million or so that he announced in September, and it's important that we see that additional funding being made available to mental health services, but also making sure that it continues to be ring-fenced so that we build up the funding for mental health services here in Wales.

The Welsh Government's focus to deliver improvement in health services is evident through its mental health strategy, which reinforces its commitment and investment in the services we see on the ground, and the impact that these improvements have had on service users, carers and wider society. Once again, it's important to note that the Mental Health (Wales) Measure 2010 that was introduced has also been a major factor, and the committee did look at the post-legislative role of the mental health Measure. I urge the Minister to ensure that the recommendations that we did make in that report are met and delivered upon, because they do deliver for people on the ground.

Bethan Jenkins highlighted a point; I think she mentioned young people very much so. It's important to note that we see that, of the 65 per cent of people who experience mental health illness, the symptoms of their conditions are actually established by the age of 24. In young people, it gets going. We must do something to ensure that as they are young people, we actually deal with it at a younger age. So, we want to look at perhaps schools, colleges and universities. They must develop policies to deliver effective intervention and avoid mental health problems from developing in young people as much as we can. Even the Donaldson review talks about improving the health and wellbeing stream in the education curriculum. It's important we do address that, and address stigma from an early age and stigma in young people, because how many young children still use terms that we think are unacceptable today, which puts pressure on young people? They don't want to talk as a consequence of that. They don't want to share their experiences. They are worried about even telling anybody about those feelings. We must ensure that bullying and stigma do not occur in the environments of children and young people, so that they can speak up with confidence and receive the support when they need that support.

Eluned Parrott was spot on about the stigma. Time for Change has worked tremendously; the stigma must be eradicated. People must feel confident that they can talk to their employer, to their friends, to their family and to someone who can offer the help without fear of being put into a sort of category where they fear job loss or job impact. It must be addressed.

Addressing inequalities in health and social care outcomes is critical, because we find that people with mental illness have the lowest employment rate for any main group of disabled people. They endure greater poverty, they have poorer housing, have fewer training and educational opportunities, and experience greater social isolation. Darren mentioned isolation; it's a terrible thing.

Rwy'n croesawu cyhoeddiad y Gweinidog ddiweddi mis Awst ei fod am barhau i glustnodi'r gyllideb iechyd meddwl. Rwy'n credu bod hwnnw'n ddatganiad cryf iawn. Ac rwyf hefyd yn croesawu'r arian cylchol ychwanegol o £15.4 miliwn neu fwy a gyhoeddodd ym mis Medi, ac mae'n bwysig ein bod yn gweld bod cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, a gwneud yn siŵr hefyd ei fod yn parhau i gael ei glustnodi er mwyn i ni gynyddu'r cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yma yng Nghymru.

Mae ffocws Llywodraeth Cymru ar gyflwyno gwelliannau i'r gwasanaethau iechyd yn amlwg drwy ei strategaeth iechyd meddwl, sy'n atgyfnerthu ei hymrwymiad a'i buddsoddiad yn y gwasanaethau a welwn ar lawr gwlad, a'r effaith y mae'r gwelliannau hyn wedi ei chael ar ddefnyddwyr gwasanaethau, gofalgwyr a'r gymdeithas ehangach. Unwaith eto, mae'n bwysig nodi bod Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a gyflwynwyd wedi bod yn ffactor pwysig hefyd, ac mae'r pwyllgor wedi edrych ar rôl ôl-ddeddfwriaethol y Mesur iechyd meddwl. Rwy'n annog y Gweinidog i sicrhau bod yr argymhellion a wnaethom yn yr adroddiad hwnnw'n cael eu hateb a'u cyflawni, gan eu bod yn cyflawni ar gyfer pobl ar lawr gwlad.

Cyfeiriodd Bethan Jenkins at un pwynt; rwy'n credu iddi sôn yn helaeth am bobl ifanc. Mae'n bwysig nodi ein bod yn gweld bod symptomau cyflyrau'r 65 y cant o bobl sy'n cael salwch meddwl wedi'u sefydlu mewn gwirionedd erbyn eu bod yn 24 oed. Mewn pobl ifanc, mae'n dechrau datblygu. Mae'n rhaid i ni wneud rhywbeth i sicrhau, gan eu bod yn bobl ifanc, ein bod mewn gwirionedd yn ei drin ar oedran iau. Felly, rydym yn awyddus i edrych, o bosibl, ar ysgolion, colegau a phrifysgolion. Rhaid iddynt ddatblygu polisiau i gyflwyno ymyrraeth effeithiol ac atal problemau iechyd meddwl rhag datblygu mewn pobl ifanc cymaint ag y gallwn. Mae hyd yn oed adolygiad Donaldson yn sôn am elfen gwella iechyd a lles yn y cwricwlwm addysg. Mae'n bwysig ein bod yn ymdrin â hynny, a mynd i'r afael â stigma o oedran cynnar a stigma ymhlith pobl ifanc, oherwydd faint o blant ifanc sy'n dal i ddefnyddio termau y credwn eu bod yn annerbyniol heddiw, sy'n rhoi pwysau ar bobl ifanc? Nid ydynt am siarad o ganlyniad i hynny. Nid ydynt am rannu eu profiadau. Maent yn poeni ynglŷn â chrybwyll y teimladau hynny wrth unrhyw un. Rhaid i ni sicrhau nad yw bwlio a stigma yn digwydd yn amgylcheddau plant a phobl ifanc, er mwyn iddynt allu siarad yn hyderus a chael y cymorth pan fyddant ei angen.

Roedd Eluned Parrott yn llygad ei lle ynglŷn â'r stigma. Mae Amser i Newid wedi gwneud gwaith aruthrol; rhaid dileu'r stigma. Rhaid i bobl deimlo'n hyderus y gallant siarad â'u cyflogwr, â'u ffrindiau, â'u teuluoedd ac â rhywun a all gynnis cymorth heb ofni cael eu rhoi mewn rhyw fath o gategori lle y byddant yn ofni colli eu swydd neu effaith ar eu swydd. Rhaid rhoi sylw i hyn.

Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol, gan ein bod yn gweld mai ymhlith pobl â salwch meddwl y mae'r gyfradd gyflogaeth isaf o bob un o'r prif grwpiau o bobl anabl. Maent yn dioddef mwy o dlodi, mae eu tai yn dlotach, maent yn cael llai o gyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd addysgol, ac yn profi mwy o ynysu cymdeithasol. Soniodd Darren am ynysu; mae'n beth ofnadwy.

Let's not forget one other issue we've got today. We're in the twenty-first century; we're in a century of technology. We encourage online—by encouraging online, we're encouraging more people to get less social with other people. We're interacting more, individually, in our own homes. We must be aware of the dangers that can cause.

Minister, in January, we had a similar debate and I welcome the money you've put into psychological therapies—it's been mentioned by Eluned Parrott. We need to ensure that there's sufficient capacity in the service to deliver for the people, and I would like to see those treatments, and the access to those treatments, being improved across the whole of Wales, in both primary and secondary care services, as people are still facing long waiting lists, and that does cause further distress and delay in their recovery. We must ensure that we train, develop and retain more staff that are capable of delivering a range of these therapies through the medium of English and Welsh, because it's important that they feel they're able to have that support in their natural language as well.

We must ensure we always treat mental health as an important element of our health service, and that we provide individuals who experience mental health conditions with the support and service they need.

Gadwch i ni beidio ag anghofio un mater arall sydd gennym heddiw. Rydym yn byw yn yr unfed ganrif ar hugain, mewn canrif o dechnoleg. Rydym yn annog pobl i fynd ar-lein—drwy annog pobl i fynd ar-lein, rydym yn annog mwy o bobl i fod yn llai cymdeithasol gyda phobl eraill. Rydym yn rhyngweithio mwy, ar ein pen ein hunain, yn ein cartrefi ein hunain. Rhaid i ni fod yn ymwybodol o'r peryglon y gall hynny eu creu.

Weinidog, ym mis Ionawr, cawsom ddadl debyg ac rwy'n croesawu'r arian rydych wedi'i roi tuag at therapïau seicolegol—crybwyllodd Eluned Parrott hyn. Mae angen i ni sicrhau bod yna ddigon o gapasiti yn y gwasanaeth i gyflawni dros y bobl, a hoffwn weld y triniaethau hynny, a mynediad at y triniaethau hynny, yn gwella ar hyd a lled Cymru, mewn gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd, gan fod pobl yn dal i wynebu rhestrau aros hir, ac mae hynny'n achosi trallod ac oedi pellach yn eu hadferiad. Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn hyfforddi, yn datblygu ac yn cadw mwy o staff sy'n gallu darparu ystod o'r therapïau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, am ei bod yn bwysig iddynt deimlo eu bod yn gallu cael y gefnogaeth honno yn eu hiaith eu hunain yn ogystal.

Rhaid i ni sicrhau ein bod bob amser yn trin iechyd meddwl fel elfen bwysig o'n gwasanaeth iechyd, a'n bod yn rhoi'r cymorth a'r gwasanaeth sydd ei angen arnynt i unigolion â chyflyrau iechyd meddwl.

17:21

Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

Diolch. Well, investment in prevention, intervention and high-quality mental health services makes economic sense, because delivering positive outcomes for people also delivers savings for the public purse. As the Gofal and Mental Health Foundation manifesto states, we should promote good mental health from an early stage, improve access to psychological therapies and tackle stigma and discrimination, especially in the workplace and health service.

Although money for mental health remains ring-fenced, the charity Hafal has highlighted the conclusion, by PricewaterhouseCoopers, that the basis of the ring fence lacked effectiveness. They've called for the completion of robust needs assessments as the basis for ring-fenced mental-health expenditure for each health board, and noted that health board compliance with the requirements of ring fencing had not been adequately monitored by the Welsh Government.

We've heard about the £7.2 billion cost, each year, of mental health problems in Wales, and Hafal state that recovery-focused, high-quality mental health services can help decisively support people, moving from a dependence on high-cost services through to lower-cost support and greater independence. As they state, we must ensure that no person with a mental illness feels isolated, alone and without support, and we must work to reduce the inequalities whereby people with mental illness,

Diolch. Wel, mae buddsoddi mewn atal, ymyrraeth a gwasanaethau iechyd meddwl o ansawdd uchel yn gwneud synnwyr yn economaidd, oherwydd bod sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl hefyd yn sicrhau arbedion i bwrs y wlad. Fel y mae Gofal a manifesto'r Sefydliad Iechyd Meddwl yn ei ddatgan, dylem hyrwyddo iechyd meddwl da o gyfnod cynnar, gwella mynediad at therapïau seicolegol a mynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu, yn enwedig yn y gweithle a'r gwasanaeth iechyd.

Er bod arian ar gyfer iechyd meddwl yn parhau i fod wedi'i glustnodi, mae'r elusen Hafal wedi tynnu sylw at gasgliad PricewaterhouseCoopers nad oedd y sail dros glustnodi cyllid yn effeithiol iawn. Maent wedi galw am gwblhau asesiadau cadarn o anghenion yn sail ar gyfer clustnodi gwariant iechyd meddwl gan bob bwrdd iechyd, ac wedi nodi nad yw Llywodraeth Cymru wedi monitro digon ar gydymffurfiaeth y byrddau iechyd â'r gofynion i glustnodi cyllid.

Clywsom am gost flynyddol problemau iechyd meddwl yng Nghymru, sef £7.2 biliwn, ac mae Hafal yn nodi y gall gwasanaethau iechyd meddwl o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar adferiad helpu i roi cefnogaeth sicr i bobl sy'n symud o ddibyniaeth ar wasanaethau costus i gymorth llai costus a mwy o annibyniaeth. Fel y dywedant, rhaid i ni sicrhau nad oes unrhyw berson â salwch meddwl yn teimlo wedi'i ynysu, ar ei ben ei hun a heb gefnogaeth, a rhaid i ni weithio i leihau anghydraddoldebau sy'n peri bod pobl â salwch meddwl,

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

'have the lowest employment rate for any main group of disabled people, endure greater poverty, have poorer housing... fewer training and educational opportunities and experience greater social isolation'.

In February 2012, I attended the official launch of the Time to Change Wales campaign, challenging mental health discrimination. I spoke at the launch of the 2014 Let's Get Physical! campaign, setting a challenge to mental health service users and carers to radically improve their physical health.

Motiv8 was originally initiated in Wrexham, promoting links between mental health and physical wellbeing with activity. Motiv8 north-west Wales has also since grown, and may I congratulate their occupational therapy led project on being nominated for a national award promoting excellent work and best practice within the NHS? It was a great pleasure to join the 8-mile Motiv8 charity coastal walk from Penrhyn castle to Llanfairfechan in June, and a privilege to formally open this year's Motiv8 event in Wrexham with the communities Minister.

This summer, I joined the All Together Now! roadshow, supported by Hafal, Bipolar UK, Mental Health Foundation and Diverse Cymru, bringing mental health service users and carers together through music, to progress their recovery, in Mold, Wrexham, Rhyl and in Colwyn Bay. As Elizabeth from Denbighshire said,

'By working together, we can help each other and we can know that we are not alone'.

And, as Dave from Flintshire said,

'To play my guitar... is an escape, as is my visit to Hafal craft group meetings with other carers. You know you're not alone'.

Western Australia's mental health commissioner has spoken in Wales about how Australia has embraced co-production, stating that we have to decide whether we're adding on a programme or reforming the system. He said that, instead of fitting people into programmes, co-production gets to know them and that good political leadership was needed to develop the programme and that there was well-evidenced work on the savings generated. Worryingly, this Welsh Government, or many of its members, still fail to get this.

'have the lowest employment rate for any main group of disabled people, endure greater poverty, have poorer housing... fewer training and educational opportunities and experience greater social isolation.'

Ym mis Chwefror 2012, mynychais lansiad swyddogol ymgyrch Amser i Newid Cymru, i herio gwahaniaethu ar sail iechyd meddwl. Siaradais yn lansiad ymgyrch Caffael ar y Corfforol 2014, a osodai her i ddefnyddwyr a gofalwyr gwasanaethau iechyd meddwl wella eu hiechyd corfforol yn sylweddol.

Dechreuodd Motiv8 yn wreiddiol yn Wrecsam, i hyrwyddo cysylltiadau rhwng iechyd meddwl a lles corfforol drwy weithgaredd. Mae Motiv8 gogledd-orllewin Cymru wedi tyfu ers hynny, a hoffwn longyfarch eu prosiect therapi galwedigaethol ar gael ei enwebu ar gyfer gwobr genedlaethol sy'n hyrwyddo gwaith rhagorol ac arfer gorau yn y GIG? Roedd yn bleser mawr ymuno â thaith gerdded elusennol 8 milltir o hyd Motiv8 ar hyd yr arfordir o gastell Penrhyn i Lanfairfechan ym mis Mehefin, ac yn fraint i gael agor digwyddiad Motiv8 yn ffurfiol eleni yn Wrecsam gyda'r Gweinidog cymunedau.

Yr haf hwn, ymunais â sioe Gyda'n Gilydd Nawr!, drwy gefnogaeth Hafal, Bipolar UK, y Sefydliad Iechyd Meddwl a Diverse Cymru, a ddô i defnyddwyr a gofalwyr gwasanaethau iechyd meddwl at ei gilydd drwy gerddoriaeth, i hybu eu hadferiad, yn yr Wyddgrug, Wrecsam, y Rhyl ac ym Mae Colwyn. Fel y dywedodd Elizabeth o Sir Ddinbych,

'Drwy weithio gyda'ch gilydd, mae modd i ni helpu ein gilydd ac rydym yn gwybod nad ydym ar ben ein hunain'.

Ac fel y dywedodd Dave o Sir y Fflint,

'chwarae fy ngitâr; mae'n ffordd dianc, a hynny'n union fel wyf yn teimlo pan yn mynd i gyfarfodydd o'r grŵp celf ar gyfer gofalwyr. Rydych yn gwybod nad ydych ar ben eich hun'.

Mae comisiynydd iechyd meddwl Gorllewin Awstralia wedi siarad yng Nghymru ynglŷn â sut y mae Awstralia wedi croesawu cydgynhyrchu, gan ddatgan bod yn rhaid i ni benderfynu a ydym yn ychwanegu at raglen neu'n diwygio'r system. Yn hytrach na ffitio pobl i mewn i raglenni, dywedodd fod cydgynhyrchu yn dod i'w hadnabod a bod angen arweiniad gwleidyddol da i ddatblygu'r rhaglen a bod gwaith gyda thystiolaeth dda wedi'i wneud ar yr arbedion a gynhyrchwyd. Yn anffodus, mae'r Llywodraeth hon, neu nifer o'i haelodau, yn dal i fethu â dirnad hyn.

This summer, I was informed by a member of the ex-armed forces community that six serving and former Welsh service personnel had committed suicide so far this year. Another has since told me that five of his ex-forces friends had committed suicide over the last two years. It is disgraceful that, instead of acknowledging the huge remaining gap in support for veterans in Wales, Ministers in this Welsh Government instead self-applaud their current provision, which can only ever help a small minority of those with complex needs.

The last concern I wish to raise is a concern raised by Mind in north Wales that 10 verdicts in coroner's court in north Wales of suicide or death by own hand had been found to be narrative verdicts only, rather than suicide verdicts, because the burden of proof for suicide is the same as homicide, needing 100 per cent of the jury to support it. They're concerned that, given the level of need not being recognised in the sentencing, the Welsh Government should not reduce their support for suicide prevention accordingly, and I'd seek the Minister's acknowledgement and assurance accordingly. Thank you.

Yr haf hwn, cefais wybod gan aelod o gymuned cyn-filwyr y lluoedd arfog fod chwech o bersonél a chyn-bersonél y lluoedd arfog yng Nghymru wedi cyflawni hunanladdiad ers dechrau'r flwyddyn. Mae un arall wedi dweud wrthyf ers hynny fod pump o'i gyfeillion ymhlith cyn-filwyr y lluoedd arfog wedi cyflawni hunanladdiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn lle cydnabod y bwch enfawr sydd wedi'i adael yn y cymorth i gyn-filwyr yng Nghymru, mae'n warthus fod Gweinidogion yn y Llywodraeth hon yng Nghymru yn canmol eu hunain ar eu darpariaeth bresennol, na all byth wneud mwy na helpu lleiafrif bach o'r rhai sydd ag anghenion cymhleth.

Y pryder diwethaf yr hoffwn ei grybwyll yw pryder a fynegwyd gan Mind yng ngogledd Cymru fod 10 rheithfarn o hunanladdiad neu farwolaeth drwy eu llaw eu hunain yn llysoedd crwneriaid gogledd Cymru wedi bod yn rheithfarnau naratif yn unig, yn hytrach na rheithfarnau o hunanladdiad, gan fod y baich profi ar gyfer hunanladdiad yr un fath â dynladdiad, ac angen 100 y cant o'r rheithgor i gefnogi rheithfarnau o'r fath. O ystyried nad yw lefel yr angen yn cael ei gydnabod yn y rheithfarnau, maent yn pryderu bod Llywodraeth Cymru yn mynd i leihau ei chefnogaeth i waith atal hunanladdiad yn sgil hynny, a byddwn yn gofyn i'r Gweinidog gydnabod hyn a rhoi sicrwydd ynghylch y mater. Diolch.

17:26

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:26

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddechrau trwy ddiolch i'r Democratiaid Rhyddfrydol am amserlennu'r ddadl hon i gyd-fynd â Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd, sy'n rhoi cyfle inni drafod iechyd meddwl yma yn y Senedd. Fel y Dywedodd Darren Millar, mae wedi bod yn gryfder, yn fy marn I hefyd, wrth lunio polisiau iechyd meddwl yn ystod y cyfnod ar ôl datganoli, ein bod wedi symud ymlaen I raddau helaeth iawn ar sail drawsbleidiol. Yn yr ysbryd hwnnw, mae'r Llywodraeth yn cefnogi'r cynnig y prynhawn yma, nid oherwydd ein bod yn cytuno â phob agwedd fanwl ohono, ond oherwydd ein bod yn rhannu'r teimlad allweddol y mae'r cynnig yn ei fynegi.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'd like to start by thanking the Liberal Democrats for timetabling this debate to coincide with World Mental Health Day, which gives us an opportunity to discuss mental health issues here in the Senedd. As Darren Millar said, it has been a strength, in my opinion as well, in drawing up mental health policies during the post-devolution period, that we have moved forward to a great extent on a cross-party basis. In that spirit, the Government supports the motion this afternoon, not because we agree with every detail in it, but because we share the key sentiment that the motion expresses.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mental illness is commonplace, as Eluned Parrott set out at the start of this debate, but it can also have a devastating effect on individuals—the suffering it involves, the toxic effect that Eluned Parrott mentioned, if proper support and treatment are not provided. This recognition underpinned the decision to develop a cross-Government 10-year strategy for Wales across the NHS, social services and partner organisations in the field of mental health, an approach now given more strength yet by the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. The motion in front of the Assembly today calls on us to give parity in law to mental and physical health problems. The groundbreaking Mental Health (Wales) Measure 2010 passed by this National Assembly was founded on just that principle. Through it, we have created already a legislative landscape that enshrines in law an individual's right to access mental health services. One of the outcomes identified in the statutory care and treatment plans is physical healthcare, and the first actions in the 'Together for Mental Health' delivery plan relate to parity between mental and physical ill health. The Tavistock report noted by Jenny Rathbone demonstrates that good mental and physical health are dependent on one another, not apart from each other. And I thank William Powell as well for drawing attention this afternoon to developments elsewhere that we might be able to learn from here in Wales.

The motion speaks about funding for services. Members will know that, in Wales, mental health is the single biggest area of expenditure, accounting for 11.4 per cent of the NHS's budget. We have ring-fenced the mental health budget—£587 million in the last financial year—and pledged to continue that protection after the independent review by PricewaterhouseCoopers confirmed that, with its limitations, it remained an effective policy tool. That report was published by the Welsh Government in August. I will draw conclusions from that report later in this term and publish them. I don't expect that to include a commitment to a ring fence within the ring fence, as Darren Millar asked me.

Mae salwch meddwl yn gyffredin, fel y nododd Eluned Parrott ar ddechrau'r ddadl hon, ond gall hefyd effeithio'n ddinistriol ar unigolion—y dioddefaint y mae'n ei achosi, yr effaith wenwynig a grybwyllodd Eluned Parrott, os na ddarperir y gefnogaeth a'r driniaeth briodol. Y gydnabyddiaeth hon sy'n sail i'r penderfyniad i ddatblygu strategaeth 10 mlynedd i Gymru ar draws y Llywodraeth ar gyfer y GIG, gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau partner ym maes iechyd meddwl, dull a gryfheir eto gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r cynnig gerbron y Cynulliad heddiw yn galw arnom i roi cydraddoldeb yn y gyfraith i broblemau iechyd meddwl a chorfforol. Sefydlwyd y Mesur arloesol, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, a basiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol hwn, ar yr union egwyddor honno. Drwyddo, rydym eisoes wedi creu tirwedd ddeddfwriaethol sy'n ymgorffori mewn cyfraith hawl unigolyn i gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl. Un o'r canlyniadau a nodir yn y cynlluniau gofal a thriniaeth statudol yw gofal iechyd corfforol, ac mae'r camau cyntaf yng nghynllun cyflawni 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' yn ymwneud â chydaddoldeb rhwng salwch meddwl a salwch corfforol. Mae adroddiad Tavistock a nododd Jenny Rathbone yn dangos bod iechyd meddwl ac iechyd corfforol da yn ddiabynnol ar ei gilydd, ac nid ar wahân i'w gilydd. Ac rwy'n diolch i William Powell yn ogystal am dynnu ein sylw y prynhawn yma at ddatblygiadau mewn mannau eraill y gallem ddysgu gwersi ohonynt yma yng Nghymru.

Mae'r cynnig yn sôn am arian ar gyfer gwasanaethau. Bydd yr Aelodau'n gwybod mai iechyd meddwl yw'r maes gwariant unigol mwyaf yng Nghymru, ar 11.4 y cant o gyllideb y GIG. Rydym wedi clustnodi'r gyllideb iechyd meddwl—£587 miliwn yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf—ac wedi addo parhau'r diogelwch hwnnw ar ôl i'r adolygiad annibynnol gan PricewaterhouseCoopers gadarnhau ei fod yn parhau, gyda'i gyfyngiadau, i fod yn arf polisi effeithiol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr adroddiad hwnnw ym mis Awst. Byddaf yn llunio casgliadau ar sail yr adroddiad hwnnw yn ddiweddarach yn y tymor hwn ac yn eu cyhoeddi. Nid wyf yn disgwyl i hynny gynnwys ymrwymiad i glustnodi cyllid o fewn y cyllid a glustnodir, fel y gofynnodd Darren Millar i mi yn ei gylch.

17:30 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, will you take an intervention on that point, please?

Weinidog, a wnewch chi dderbyn ymyriad ar y pwynt hwnnw, os gwelwch yn dda?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:30 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, yes.

Wrth gwrs, gwnaf.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:30 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

If you have no intention to introduce a ring fence within the ring fence, perhaps you could seek to address the disparity between the spending per head on adult mental health services versus the spending per head on children's mental health services.

Os oes gennych unrhyw friad i glustnodi cyllid o fewn y cyllid a glustnodir, efallai y gallech geisio mynd i'r afael â'r gwahaniaeth rhwng y gwariant y pen ar wasanaethau iechyd meddwl i oedolion o gymharu â gwariant y pen ar wasanaethau iechyd meddwl plant.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I'll address that directly, immediately, Dirprwy Lywydd, because it is a bit of a canard, because it is just a statistical artefact. Children are children, as far as mental health services are concerned, from about the age of three when people first make any use of the service to the age of 18. People are adults using the service from the age of 18 to 80; it is inevitable that you spend more per head on people during their adult years, than you do during their childhood years, and that's what lies behind the figures that Darren Millar is referring to.

Even so, and despite these very difficult times, this Welsh Government has been able to increase the amount we invest in mental health. In March of this year, when Kirsty Williams's party was still in Government, the Chancellor of the Exchequer, in his budget, provided the Welsh Government with £17 million for every single purpose that this Government has to discharge on behalf of the people of Wales. The Welsh Cabinet took a decision to provide all of that money to the health service, and £15.4 million of that £17 million has gone directly to mental health services. I think our record shows that when money does come to Wales for health purposes, we do our very best to make sure that mental health gets its fair share and sometimes even more than we've been able to offer to others.

The motion asks us today to introduce waiting time standards for mental health services. Well, as you have already heard, we've had waiting time standards for local primary mental health services since the mental health Measure came into force. People referred to the service should be assessed within 28 days, and in July performance stood at 86 per cent against that target. The target time for intervention, including psychological intervention following assessment, is 56 days, but this has now fallen to a new waiting time standard of 28 days from this month. In July, eight out of 10 people who were assessed as needing an intervention were seen within that 28-day time frame.

The motion quite rightly specifically draws attention to psychological therapies. Earlier this year, the national psychological therapies committee produced a national action plan for Wales to help the NHS develop a workforce with the right skills to provide a range of talking therapies. It built on the £650,000 of extra investment in psychological therapies next year, with the extra £3 million that has been provided in this financial year to ensure that adults and children have better access to such care.

The motion also asks to improve mental health training so that teachers and other professionals in pastoral roles can recognise early signs of mental distress. I agree very much with what William Powell had to say about the social model of mental ill health, and for that to inform the way that people who provide services are educated in this field, because as David Rees pointed out, the social impact of mental ill health is absolutely real in people's lives.

Rhoddef sylw i hynny ar unwaith, Dirprwy Lywydd, gan mai chwedl wag yw hi braidd—artefact ystadegol, dyna'i gyd. Mae plant yn blant, o ran gwasanaethau iechyd meddwl, o oddeutu tair oed pan fydd pobl yn defnyddio'r gwasanaeth gyntaf i 18 oed. Mae pobl yn golygu oedolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth rhwng 18 a 80 oed; mae'n anochel eich bod yn gwario mwy y pen ar bobl yn ystod eiblynyddoedd fel oedolion, nag a wnewch yn ystod blynyddoedd eu plentyndod, a dyna sydd wrth wraidd y ffigurau y mae Darren Millar yn cyfeirio atynt.

Er hynny, ac er gwaethaf y cyfnod anodd hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi gallu cynyddu'r swm rydym yn ei fuddsoddi ym maes iechyd meddwl. Ym mis Mawrth eleni, pan oedd plaid Kirsty Williams yn dal i fod yn y Llywodraeth, darparodd Canghellor y Trysorlys, yn ei gyllideb, £17 miliwn ar gyfer pob diben sy'n rhaid i'r Llywodraeth hon ei chyflawni ar ran pobl Cymru. Penderfynodd Cabinet Cymru roi'r arian hwnnw i gyd i'r gwasanaeth iechyd, ac aeth £15.4 miliwn o'r £17 miliwn yn uniongyrchol i'r gwasanaethau iechyd meddwl. Rwy'n credu bod ein record yn dangos, pan ddaw arian i Gymru at ddibenion iechyd, rydym yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod iechyd meddwl yn cael cyfran deg a hyd yn oed mwy weithiau nag y gallem ei gynnig i wasanaethau eraill.

Mae'r cynnig heddiw yn gofyn i ni gyflwyno safonau amser aros ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Wel, fel rydych eisoes wedi clywed, mae gennym safonau amser aros ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol lleol ers i'r Mesur iechyd meddwl ddod i rym. Dylai pobl sy'n cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth gael asesiad o fewn 28 diwrnod, ac ym mis Gorffennaf roedd y perfformiad yn erbyn y targed hwnnw yn 86 y cant. Y targed amser ar gyfer ymyrryd, gan gynnwys ymyrraeth seicolegol yn dilyn asesiad, yw 56 diwrnod, ond mae hwn bellach wedi gostwng i safon amser aros newydd o 28 diwrnod o'r mis hwn ymlaen. Ym mis Gorffennaf, roedd wyth o bob 10 o bobl yr aseswyd eu bod angen ymyrraeth yn cael eu gweld o fewn y cyfnod amser o 28 diwrnod.

Mae'r cynnig yn tynnu sylw'n gwbl briodol at therapïau seicolegol yn benodol. Yn gynharach eleni, cynhyrchodd y pwyllgor therapïau seicolegol cenedlaethol gynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru i helpu'r GIG i ddatblygu gweithlu gyda'r sgiliau cywir ar gyfer darparu ystod o therapïau siarad. Adeiladau ar y £650,000 o fuddsoddiad ychwanegol mewn therapïau seicolegol ar gyfer y flwyddyn nesaf, gyda'r £3 miliwn ychwanegol a ddarparwyd yn y flwyddyn ariannol hon er mwyn sicrhau bod oedolion a phlant yn cael gwell mynediad at ofal o'r fath.

Mae'r cynnig hefyd yn galw am wella hyfforddiant iechyd meddwl fel y gall athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill mewn rolau bugeiliol adnabod arwyddion cynnar o dralloedd meddwl. Rwy'n cytuno'n llwyr â'r hyn a oedd gan William Powell i'w ddweud am y model cymdeithasol o salwch meddwl, ac y dylai lywio'r ffordd y mae pobl sy'n darparu gwasanaethau yn cael eu haddysgu yn y maes, oherwydd fel y nododd David Rees, mae effaith gymdeithasol salwch meddwl yn gwbl real ym mywydau pobl.

Much work in this area is already going on: the Time to Change campaign to tackle stigma and discrimination and the Healthy Working Wales initiative, which has more than 2,600 employers involved in it in Wales and was recently highlighted as good practice in an Organisation for Economic Co-operation and Development report on work and mental health. Professor John Furlong's recent report, 'Teaching Tomorrow's Teachers' with its links to the Donaldson review will help to ensure our teachers of the future will be fully equipped to deliver the requirements of the new national curriculum, with health and wellbeing as one of the six Donaldson areas of learning and experience.

Finally, we are asked to introduce a core mental health data set. This work is being carried forward jointly with Public Health Wales and with the active input of service users. The first stage has been piloted. We will now test the next stage via a phased roll-out across all health boards and we're proud to have developed a set of outcomes that reflect the perspective of service users.

Dirprwy Lywydd, mae'r amser ond yn caniatáu imi roi manylion byr am y gwaith yr ydym wedi'i wneud i wella gwasanaethau iechyd meddwl yma yng Nghymru i chi. Felly, rwyf wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn amlinellu'r camau a gymerir ar noswyl Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd, gan danlinellu'r flaenoriaeth y mae'r Llywodraeth hon yn gosod ar ofal iechyd meddwl o ansawdd uchel. Diolch yn fawr.

Mae llawer o waith eisoes yn digwydd: yr ymgyrch Amser i Newid sy'n mynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu a menter Cymru iach ar Waith, sydd â mwy na 2,600 o gyflogwyr yn rhan ohoni yng Nghymru, ac a gafodd sylw'n ddiweddar fel arfer da yn adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar waith ac iechyd meddwl. Bydd adroddiad diweddar yr Athro John Furlong, 'Addysgu Athrawon Yfory' gyda'i gysylltiadau ag adolygiad Donaldson yn helpu i sicrhau bod ein hathrawon yn y dyfodol yn cael eu paratoi'n llawn ar gyfer cyflawni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol newydd, gydag iechyd a lles yn un o chwe maes dysgu a phrofiad Donaldson.

Yn olaf, gofynnir i ni gyflwyno set ddata graidd iechyd meddwl. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a chyda mewnbwn gweithredol gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'r cam cyntaf wedi'i dreialu. Byddwn yn awr yn cynnal profion ar y cam nesaf drwy ei gyflwyno'n raddol ar draws yr holl fyrddau iechyd ac rydym yn falch o fod wedi datblygu set o ganlyniadau sy'n adlewyrchu persbectif defnyddwyr gwasanaethau.

Deputy Minister, the time only allows me to give you brief details about the work that we've done to improve mental health services here in Wales. So, I have published a written statement outlining the steps to be taken on the eve of World Mental Health Day, underlining the priority that this Government places on high-quality mental health care. Thank you very much.

17:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Eluned Parrott to reply to the debate.

Eluned Parrott i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:35 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Well, I'd like to thank all of the Members who have contributed to this debate today for the very thoughtful and positive spirit of what we've heard. I'd like also to thank the Minister for his support, in principle, to our motion.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Wel, hoffwn ddiolch i bob un o'r Aelodau sydd wedi cyfrannu at y ddatl hon heddiw am natur dra ystyrlon a chadarnhaol yr hyn a glywsom. Hoffwn hefyd ddiolch i'r Gweinidog am ei gefnogaeth, mewn egwyddor, i'n cynnig.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We have to be clear that progress has been made, and we should welcome it, but that progress to this point doesn't mean that further progress is neither possible nor desirable. We should never rest on our laurels. We should never accept that what we have is enough until what we have is equality between mental and physical health. I think that the experience of patients going through those services is that that has not yet been achieved, whilst progress is certainly welcome.

Mae'n rhaid i ni fod yn glir fod cynnydd wedi'i wneud, a dylem ei groesawu, ond nid yw cynnydd hyd at y pwnt hwn yn golygu nad yw cynnydd pellach yn bosibl ac yn ddymunol. Ni ddylem byth orffwys ar ein rhwyfau. Ni ddylem byth dderbyn bod yr hyn sydd gennym yn ddigon hyd nes y bydd gennym gydraddoldeb rhwng iechyd meddwl ac iechyd corfforol. Rwy'n meddwl mai profiad cleifion sy'n mynd drwy'r gwasanaethau hyn yw na chyflawnwyd hynny hyd yn hyn, er bod cynnydd i'w groesawu yn sicr.

Answering the debate: Darren Millar paid tribute to organisations such as Hafal, Gofal and Mind—three organisations, of course, behind Time to Change and so many other fantastic services and campaigns. Of course, we also must recognise that network of smaller organisations that work in individual communities and provide wellbeing services for so many people, without which we would struggle so badly. He also talked about the challenge that we face in terms of the rising cost and the rising demand for mental health services. These are really difficult challenges: nobody sets that aside.

I ateb y drafodaeth: rhoddodd Darren Millar deyrnged i sefydliadau megis Hafal, Gofal a Mind—y tri sefydliad, wrth gwrs, sydd wrth wraidd yr ymgyrch Amser i Newid a chymaint o wasanaethau ac ymgyrchoedd gwych eraill. Wrth gwrs, rhaid i ni hefyd gydnabod y rhwydwaith o sefydliadau llai sy'n gweithio mewn cymunedau unigol ac yn darparu gwasanaethau lles i gymaint o bobl; byddai'n wael iawn arnom hebddynt. Soniodd hefyd am yr her sy'n ein hwynebu o ran y gost gynyddol a'r galw cynyddol am wasanaethau iechyd meddwl. Mae'r rhain yn bendant yn heriau anodd: nid oes neb yn gwadu hynny.

Kirsty Williams talked about waiting times and the very real prospect that a lengthier wait means that someone is much more likely to require an acute care package. Well, yes, that is a cost to Government, but what a terrible cost to that individual to face hospitalisation for an illness that could have been treated in another way. That is an appalling price for our society and for that individual to have to pay. That is why, as I say, we are so keen to see waiting times more illustrative, perhaps, of what the need is. In his response to this debate, the Minister did say that waiting times have been introduced, but, of course, there are some key ones missing, and perhaps the really key one is that we need a stand-alone waiting target for psychological therapies following an assessment. That isn't in the package at the moment. That psychological therapy is critical, and I would ask you to think about whether we can move in that direction.

In terms of the impact on individuals of long waits, we heard also from Kirsty some quotes from service users who had been told either that they would face a long wait or, indeed, that they would not face a long wait because their doctor thought, basically, 'You will have got better by the time you get a treatment' or, alternatively, 'You'll have deteriorated to the point where you need some form of acute treatment.' This is not a positive way forward.

Jenny Rathbone talked about how this has been seen as a cinderella service in the past, but suggested that, perhaps, that was no longer the case. I'd say that progress is being made in a lot of areas, but that's not to say that this is not a cinderella service in some aspects and that is not to say that there aren't persistent negative experiences for some individuals facing mental health services. Persistently, we have people reporting difficulties with GPs, and attitudes such as, 'Well, for goodness's sake, pull yourself together', which is one I've been told myself, frankly. It's not good enough that that persists. So, whilst we welcome the progress that there is, we must push forward, we must carry on and we must not be content with the improvements that we've had.

It's also fair to say that it's very early days in terms of the delivery of the strategies that we have and the impact of the investment that's been put in. So, it will take some time for that impact to really be felt. But, talking about some of the research into new treatments that you brought forward, these are very exciting times. I think we're very proud that Cardiff University hosts, for example, the CUBRIC—the Cardiff University Brain Research Imaging Centre—which allows some of the great progress we're making in things like Alzheimer's and other areas of mental health at the moment.

Bill Powell talked about farmers and veterans, and particularly with regard to farmers, the isolation that can be a causative effect in a mental health issue. But that isolation also means that there's a lack of easy access, then, to services in rural Wales. I think it's an interesting concept to look at the idea of portable clinics and how they might be used—perhaps in a subtler way than the Tenovus bus, but something along those lines might be something we could consider.

Soniodd Kirsty Williams am amseroedd aros a'r posibilrwydd real iawn fod aros yn hirach yn golygu bod rhywun yn llawer mwy tebygol o fod angen pecyn gofal aciwt. Wel, ie, mae honno'n gost i'r Llywodraeth, ond am gost ofnadwy yw hi i'r unigolyn pan fo'n wynebu gorfod aros yn yr ysbyty oherwydd salwch a allai fod wedi cael ei drin mewn ffordd arall. Dyna bris ofnadwy i'n cymdeithas ac i'r unigolyn orfod ei dalu. Dyna pam ein bod, fel y dywedais, mor awyddus i weld amseroedd aros sy'n ddarlun gwell, efallai, o'r angen. Yn ei ymateb i'r ddadl hon, dywedodd y Gweinidog fod amseroedd aros wedi cael eu cyflwyno, ond wrth gwrs, mae yna rai allweddol ar goll, ac efallai mai'r un gwirioneddol allweddol yw bod angen targed aros ar wahân ar gyfer therapiau seicolegol yn dilyn asesiad. Nid yw hynny yn y pecyn ar hyn o bryd. Mae therapi seicolegol o'r fath yn hanfodol, a byddwn yn gofyn i chi feddwl tybed a allwn symud i'r cyfeiriad hwnnw.

O ran effaith aros hir ar unigolion, clywsom hefyd rai dyfyniadau gan Kirsty gan ddefnyddwyr gwasanaethau a oedd wedi cael gwybod naill ai y byddent yn wynebu aros hir neu'n wir, na fyddent yn wynebu aros hir am fod eu meddyg, yn y bôn, yn credu, 'Byddwch wedi gwella erbyn i chi gael triniaeth' neu fel arall, 'Byddwch wedi dirywio i'r pwynt lle y bydd angen rhyw fath o driniaeth aciwt.' Nid yw hon yn ffordd gadarnhaol ymlaen.

Soniodd Jenny Rathbone sut y mae hyn wedi cael ei weld fel gwasanaeth sinderela yn y gorffennol, ond awgrymodd nad yw hynny'n wir bellach, o bosibl. Fe fyddwn i'n dweud bod cynnydd yn cael ei wneud mewn llawer o feysydd, ond nid yw hynny'n golygu nad yw hwn yn wasanaeth sinderela mewn rhai agweddau ac nid yw'n golygu nad oes rhai unigolion yn cael profiadau negyddol cyson mewn gwasanaethau iechyd meddwl. Yn gyson, mae gennym bobl yn sôn am anawsterau gyda meddygon teulu, ac agweddau megis, 'Wel, er mwyn popeth, dowch at eich coed', rhywbeth a glywais fy hun, a dweud y gwir. Nid yw'n ddigon da fod hynny'n parhau. Felly, er ein bod yn croesawu'r cynnydd a wnaed, mae'n rhaid i ni wthio ymlaen, mae'n rhaid i ni barhau ac mae'n rhaid i ni beidio â bodloni ar y gwelliannau rydym wedi'u cael.

Mae hefyd yn deg dweud ei bod yn ddyddiau cynnar iawn o ran cyflwyno'r strategaethau sydd gennym ac effaith y buddsoddiad a wnaed. Felly, bydd yn cymryd peth amser i'r effaith honno gael ei themlo mewn gwirionedd. Ond o ran peth o'r ymchwil i driniaethau newydd a gyflwynwyd gennych, mae hon yn adeg gyffrous iawn. Rwy'n credu ein bod yn falch iawn fod Prifysgol Caerdydd, er enghraifft, yn gartref i CUBRIC—Canolfan Delweddu Prifysgol Caerdydd er Ymchwil yr Ymennydd—sy'n caniatáu rhywfaint o'r cynnydd gwych a wneir mewn pethau fel clefyd Alzheimer a meysydd iechyd meddwl eraill ar hyn o bryd.

Siaradodd Bill Powell am ffermwyr a chyn-filwyr, ac yn arbennig o ran ffermwyr, yr unigedd a all fod yn effaith achosol mewn problem iechyd meddwl. Ond mae'r unigedd hwnnw hefyd yn golygu bod diffyg mynediad hawdd, felly, at wasanaethau yng nghefn gwlad Cymru. Rwy'n credu bod edrych ar glinigau symudol yn gysyniad diddorol a'r modd y gellid eu defnyddio—mewn ffordd fwy cynnil na bws Tenovus, efallai, ond gallem ystyried rhywbeth tebyg i hynny.

It's also very important to talk about the role that teachers have to play. Teachers have a critical role in identifying young people who are at risk of self-harm. If we have a look at the link, or the very demonstrated link between self-harm and later suicide attempts in people's lives, we must recognise how critical that information is. We need to be doing more to offer our schools the support we can give them in helping them to work with young people who are entering into what might be considered harming behaviours—not just obvious ones like cutting, but, perhaps, eating disorders, things like, perhaps, abuse of alcohol, or smoking or other destructive behaviours, because those are indicators of low self-esteem and potential wellbeing issues that we need to take seriously. We need to think a little bit more broadly about how we can help to support schools to refer young people forward before we get to the point where they are actually at need of crisis care. There needs to be something between nought and 60; something between nothing and the nuclear option. We need to think about how we are going to deliver that.

Bethan Jenkins, you talked about confidence and how difficult it is, actually, to talk about this. Yes, it's harder than I thought, as I know. For example, Ken Skates wrote an article saying that he thought that he'd ended his career when he spoke in that debate. I felt exactly the same way. It was a terrifying thing to do. But, actually, with the benefit of a bit more time, can I say it does get easier? A lot of those people who've spoken about mental health find it a very liberating experience eventually. Looking back, I realise that I had that kind of sense of stigma and that sense of shame that someone might find out about that dreadful secret that I had had a mental health problem in the past. That had really felt like it had been dragging around after me like a shadow for years. Casting that shadow off has been an incredibly positive experience, and I thank the Time to Change campaign for encouraging me to do that and giving me a platform to do that. As I say, for those people who are taking that step, it's brave but it's liberating. It is a personal choice for anyone who wants to do so.

David Rees talked a little bit—. That first sentence about, you know, it could be any one of us. Yes, it absolutely could. Whilst we welcome things like the ring fence and the additional funding going in, as you say, with the 'Together for Mental Health' strategy, we're still at quite early days and there are lots to be seen, and I'm grateful for your committee's work on this.

You were so right on the impact of stigmatisation and bullying on young people. It's even worse for young people than it is for adults. For adults, they're just talking about us. For children, they're talking to you. It's a much harder thing to deal with in so many ways.

Mae hefyd yn bwysig iawn siarad am y rôl sy'n rhaid i athrawon ei chwarae. Mae gan athrawon rôl hanfodol yn nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o gyflawni hunan-niwed. Os edrychwn ar y cyswllt, neu'r cysylltiad amlwg iawn rhwng hunan-niweidio ac ymdrechion i gyflawni hunanladdiad yn nes ymlaen ym mywydau pobl, rhaid i ni gydnabod pa mor hanfodol yw'r wybodaeth honno. Mae angen i ni wneud mwy i gynnig y gefnogaeth y gallwn ei rhoi i ysgolion i'w helpu i weithio gyda phobl ifanc sy'n dechrau ar yr hyn y gellid eu hystyried yn batrymau ymddygiad niweidiol—nid rhai amlwg fel torri yn unig, efallai, ond anhwylderau bwyta, pethau fel camddefnyddio alcohol, neu ysmegu, efallai, neu batrymau ymddygiad dinistriol eraill, gan fod y rhain yn ddangosyddion lefelau isel o hunan-barch a phroblemau lles posibl y mae angen i ni fod o ddifrif yn eu cylch. Mae angen i ni feddwl ychydig bach yn fwy cyffredinol ynglŷn â sut y gallwn helpu i gynorthwyo ysgolion i atgyfeirio pobl ifanc cyn i ni gyrraedd y pwynt pan fyddant angen gofal argyfwng. Mae angen cael rhywbeth rhwng dim a 60; rhywbeth rhwng dim byd ac ateb yn niffyg unrhyw ateb arall. Mae angen i ni feddwl sut yr awn ati i gyflawni hynny.

Bethan Jenkins, fe sonioch am hyder a pha mor anodd, mewn gwirionedd, yw siarad am hyn. Ydy, mae'n anos nag a feddyliais, fel y gwn. Er enghraifft, ysgrifennodd Ken Skates erthygl yn dweud ei fod yn meddwl ei fod wedi rhoi diwedd ar ei yrfa pan siaradodd yn y ddadl honno. Roeddwn yn teimlo'r un fath yn union. Roedd yn beth brawychus i'w wneud. Ond mewn gwirionedd, gydag amser, a gaf fi ddweud ei fod yn mynd yn haws? Mae llawer o'r bobl sydd wedi siarad am iechyd meddwl yn ei gael yn brofiad rhyddhaol iawn yn y pen draw. Wrth edrych yn ôl, rwy'n sylweddoli fy mod wedi profi ymdeimlad o stigma o'r fath a'r ymdeimlad o gywilydd y byddai rhywun yn dod i wybod y gyfrinach ofnadwy fy mod wedi cael problem iechyd meddwl yn y gorffennol. Roedd hynny'n sicr yn teimlo fel cysgod wrth fy nghefn a oedd wedi bod yn fy nilyn ers blynnyddoedd. Mae cael gwared ar y cysgod wedi bod yn brofiad anhygoel o gadarnhaol, a diolch i'r ymgyrch Amser i Newid am fy annog i wneud hynny a rhoi llwyfan i mi wneud hynny. Fel rwy'n dweud, i'r bobl sy'n cymryd y cam hwnnw, mae'n ddewr ond mae'n rhyddhaol. Mae'n ddewis personol i unrhyw un sydd eisiau gwneud hynny.

Soniodd David Rees ychydig bach—. Y frawddeg gyntaf, wyddoch chi, y gallai fod yn unrhyw un ohonom. Gallai, mae hynny'n hollol wir. Er ein bod yn croesawu pethau fel clustnodi cyllid a'r cyllid ychwanegol tuag at hyn, fel y dywedwch, gyda strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl', rydym yn dal ar ddyddiau eithaf cynnar ac mae llawer i'w weld, ac rwy'n ddiolchgar am waith eich pwyllgor ar hyn.

Roeddech yn llygad eich lle ynglŷn ag effaith stigma a bwlio ar bobl ifanc. Mae hyd yn oed yn waeth i bobl ifanc nag i oedolion. I oedolion, maent yn siarad amdanom, dyna i gyd. I blant, maent yn siarad â chi. Mae'n beth llawer anos i ymdopi ag ef mewn cymaint o ffyrdd.

Mark Isherwood, of course, talked as well about the life impacts of people who suffer mental ill health in terms of employment chances, in terms of poverty, in terms of housing. It's so, so important to make sure that we're thinking about the whole person and what we can do for them. So, can I say this, just to wrap up? I thank everyone for the positive contributions to this debate, and the Minister for his support. We hope that this has allowed people to focus once again on the importance of mental health as we face World Mental Health Day this weekend.

Siaradodd Mark Isherwood, wrth gwrs, am yr effeithiau ar fywydau pobl sy'n dioddef o salwch meddwl o ran cyfleoedd cyflogaeth, o ran tlodi, o ran tai. Mae mor hynod o bwysig gwneud yn siŵr ein bod yn meddwl am y person cyfan a'r hyn y gallwn ei wneud drostynt. Felly, a gaf fi ddweud hyn, i gloi? Diolch i bawb am eu cyfraniadau cadarnhaol i'r ddaol hon, ac i'r Gweinidog am ei gefnogaeth. Rydym yn gobeithio bod hyn wedi caniatáu i bobl ganolbwyntio unwaith eto ar bwysigrwydd iechyd meddwl wrth i ni wynebu Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd y penwythnos hwn.

17:43

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? The motion without amendment is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

17:43

6. Cyfnod Pleidleisio

6. Voting Time

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to voting time. Before I conduct the vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not. Then we'll vote on the Plaid Cymru debate on devolution. I call for a vote on the motion, tabled in the name of Elin Jones. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 37. There voted against 14. Therefore, the motion without amendment is agreed.

Symudwn ymlaen yn awr at y cyfnod pleidleisio. Cyn i mi gynnal y bleidlais, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes. Felly, pleidleisiwn ar ddaol Plaid Cymru ar ddatganoli. Galwaf am bleidlais ar y cynnig, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Os na dderbynnir y cynnig, pleidleisiwn ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 37 o blaid. Pleidleisiodd 14 yn erbyn. Felly, derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 37, Yn erbyn 14, Ymatal 0.

Motion agreed: For 37, Against 14, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5839](#)

[Result of the vote on motion NDM5839](#)

17:44

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I would ask those Members who are leaving the Chamber to do so quickly and quietly.

Gofynnaf i'r Aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel.

Daeth Sandy Mewies i'r Gadair.

Sandy Mewies took the Chair.

17:44

7. Dadl Fer: Dyfodol Adeiladau Capeli yng Nghymru

7. Short Debate: The Future of Chapel Buildings in Wales

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I now move to the short debate, and I call on Mike Hedges to speak on the topic he has chosen.

Symudaf yn awr at y ddaol fer, a galwaf ar Mike Hedges i siarad ar y pwnc y mae wedi ei ddewis.

17:44

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Chair. I'm giving a minute of this debate to Darren Millar, Keith Davies, Peter Black and Rhodri Glyn Thomas. I'd better declare an interest as a member of Capel Seion Newydd—Eglwys y Bedyddwyr, Treforys.

Diolch, Gadeirydd. Rwy'n rhoi munud o'r ddaol hon i Darren Millar, Keith Davies, Peter Black a Rhodri Glyn Thomas. Mae'n well i mi ddatgan buddiant fel aelod o Gapel Seion Newydd—Eglwys y Bedyddwyr, Treforys.

I'm going to concentrate on nonconformist chapels as opposed to the Church in Wales, due solely to the time constraints. I am well aware of the closure of a large number of those churches, including at least three in my own constituency.

In recent decades, we've seen a gradual and continual decline in what can be referred to as the two great traditions of nineteenth and early twentieth century Welsh society; that being the tradition of attending the local chapel and the local public house. The local chapel has seen a serious decline in attendance, and in many cases closure. New Siloh, which has staved off closure for the moment, holds somewhere over 1,000 people, but often has a congregation in single figures. It was only in the late nineteenth century and the first decade of the twentieth century that we saw these large and ornate nonconformist chapels being built on a regular basis to cater for the ever-growing demands of congregations and local communities. Chapels were built because the old chapels were not quite big enough. In Morriston, Tabernacle was built to hold 1,500 because Libanus, at 700 to 800, wasn't big enough to take all the people who were attending on a Sunday. Things have moved on.

They were once undoubtedly the beating heart of the community, and the question remains: just how has this great Welsh tradition fallen into such decline over the past century? More importantly, what has become of these extraordinary buildings that still dominate local towns and villages throughout Wales? These days, the upkeep of these remarkable buildings has fallen on the shoulders of the remaining members of the congregation, most of whom vary from the elderly to the very elderly. As one deacon said to me, 'We inherited this chapel from our parents, but our children do not want to inherit it from us'.

Wales's ecclesiastical heritage is a very significant part of the nation's built and cultural heritage. Many who do not attend the chapels of Wales attach a huge significance to their architectural merit and the status they carry within their local communities. As you look around Wales, it is obvious that, in this day and age, Wales now has a huge excess of chapels for its current religious needs. What we have seen in response to this excess is the closure of many in an attempt to not only save money, but also save some of the really magnificent buildings of the same denomination. In Swansea alone, we have witnessed former chapels being sympathetically adapted or converted for a number of different uses, ranging from flats, which are the most common, to houses, businesses, restaurants, offices, community centres and, in some cases, converted to places of worship for other religions. One notable example of a former Swansea chapel that has been sympathetically adapted is Bethesda, the chapel of Christmas Evans, which now hosts the NSPCC in Swansea, or their offices, but also, quite interestingly, they allow people to visit it and see the plaque it holds.

Rwy'n mynd i ganolbwyntio ar gapeli anghydfurfiol yn hytrach na'r Eglwys yng Nghymru, a hynny'n unig oherwydd cyfyngiadau amser. Rwy'n ymwybodol iawn fod nifer fawr o'r eglwysi hynny'n cau, gan gynnwys o leiaf dair yn fy etholaeth fy hun.

Yn ystod y degawdau diwethaf, rydym wedi gweld gostyngiad graddol a pharhaus yn yr hyn y gellir cyfeirio ato fel dau draddodiad mawr y gymdeithas Gymreig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, sef y traddodiad o fynychu'r capel lleol a'r dafarn leol. Mae'r capel lleol wedi profi dirywiad difrifol o ran lefelau presennol, ac wedi cau mewn llawer o achosion. Mae Seilo Newydd, sydd wedi osgoi cau am y tro, yn dal rywle dros 1,000 o bobl, ond yn aml ceir llai na deg o bobl yn ei chynulleidfa. Ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a degawd cyntaf yr ugeinfed ganrif y gwelwom gapeli anghydfurfiol mawr ac addurnedig o'r fath yn cael eu hadeiladu'n gyson er mwyn diwallu gofynion cynyddol cynulleidfaoedd a chymunedau lleol. Câi capeli eu hadeiladu am nad oedd yr hen gapeli'n ddigon mawr. Yn Nhreforys, adeiladwyd Tabernacl i ddal 1,500 am nad oedd Libanus, a ddaliai rhwng 700 a 800, yn ddigon mawr i gymryd yr holl bobl a oedd yn ei fynychu ar y Sul. Mae pethau wedi newid.

Yn ddi-os, roeddent yn galon y gymuned, ac mae'r cwestiwn yn aros: sut yn union y mae'r traddodiad Cymreig gwych hwn wedi dirywio i'r fath raddau dros y ganrif ddiwethaf? Yn bwysicach, beth sydd wedi digwydd i'r adeiladau rhyfeddol hyn sy'n dal i ymgodi dros drefi a phentrefi lleol ledled Cymru? Y dyddiau hyn, mae cynnal a chadw'r adeiladau hynod hyn wedi glanio ar ysgwyddau'r aelodau sy'n weddill o'r gynulleidfa, y rhan fwyaf ohonynt yn amrywio o'r hen i'r hen iawn. Fel y dywedodd un diacon wrthyf, 'Fe etifeddod ni'r capel hwn gan ein rhieni, ond nid yw ein plant yn dymuno ei etifeddu oddi wrthym ni'.

Mae treftadaeth eglwysig Cymru yn rhan arwyddocaol iawn o drefnadaeth adeiledig a diwylliannol y genedl. I lawer o bobl nad ydynt yn mynychu capeli Cymru, mae cryn arwyddocâd i'w rhinweddau pensaernïol a'r statws sydd iddynt yn eu cymunedau lleol. Wrth i chi edrych o gwmpas Cymru, mae'n amlwg, yn yr oes sydd ohoni, fod gan Gymru lawer mwy o gapeli na sydd eu hangen ar gyfer ei hanghenion crefyddol cyfredol. Yr hyn rydym wedi'i weld mewn ymateb i'r gormodedd hwn yw cau llawer ohonynt mewn ymdrech nid yn unig i arbed arian, ond hefyd er mwyn arbed adeiladau gwirioneddol wych o'r un enwad. Yn Abertawe yn unig, rydym wedi gweld hen gapeli'n cael eu haddasu neu eu newid mewn modd dymunol i'w defnyddio mewn sawl gwahanol ffordd, yn amrywio o fflatiau, sef y defnydd mwyaf cyffredin, tai, busnesau, bwytai, swyddfeydd, canolfannau cymunedol, ac mewn rhai achosion, eu troi'n fannau addoli ar gyfer crefyddau eraill. Un enghraifft nodedig o hen gapel yn Abertawe a addaswyd yn ddymunol yw capel Bethesda, capel Christmas Evans, sydd bellach yn gartref i'r NSPCC yn Abertawe, neu eu swyddfeydd, ond hefyd, yn ddigon diddorol, maent yn caniatáu i bobl ymweld â'r lle ac i edrych ar y plac sydd arno.

When the congregation falls too small to support the chapel, they inevitably become redundant. And, regrettably, unused chapel buildings often fall into severe decline. They're just left. If nothing is done, they just become a place where youths gather, where drugs and drink are consumed, until such time as they, in some cases, just fall down. In my opinion, what is preferable is for a chapel to remain a place of worship or, failing this, to be converted into a facility available for local communities to use. I believe that keeping these historic buildings in some familiar shape or form is better than the alternative of losing them altogether.

In the past, Welsh chapels could rely on community and congregational donations to fund any maintenance or running costs. We are now, however, seeing some great financial assistance given to chapels in need thanks to Government-sponsored schemes, for which I, on behalf of a number of the chapels, thank the Government—the listed places of worship scheme and, more specifically, the community facilities and activities programme. Of course, Cadw and other organisations like the Big Lottery and Heritage Lottery Fund have also provided funding. Despite this, the level of demand for financial assistance, along with stringent eligibility criteria, have meant that not all chapels have been successful with their applications. It's also worth accepting that, with public finances facing a challenge, the support provided by the Welsh Government and by public organisations is inevitably limited.

Morrison is the area I know better than anywhere else, and is a former copper and tin plate community. I'm going to talk you through what's happened to the chapels. Tabernacle, the cathedral of Welsh nonconformity, is listed; it's used for concerts and community use; it has received Government grants. Seion Newydd Baptist chapel is also used for community events, and also received money. Bethania, a Welsh Calvinistic Methodist chapel, has not received money. Aenon is a Baptist chapel that has just received money. Morrison Methodist chapel is currently applying for grants. Philadelphia chapel is closed—it's now flats and office space. Calfaria: I've used the word 'demolished', but actually it fell down; what you've actually got is the stonework there, but the building itself just collapsed. Soar has become a Catholic church centre. Horeb has been turned into flats; Libanus has become the evangelical church; Grove Mission has been turned into flats; Tabernacle Cwmrhdyceirw is continuing as a chapel and community facility—it has also had a Government grant; Carmel has been turned into flats; and Ebenezer has been turned into flats. You might note a theme there of turning lots of these smaller chapels into flats, which can be done sympathetically and is very good, it's just that you can't turn New Siloh, you can't turn Tabernacle and, without wanting to step on the toes of Keith Davies, you can't turn Capel Als into flats; these buildings are far too big and ornate to be able to do that.

Pan fydd y gynulleidfa'n prinheu ormod i allu cynnal capel, mae'n anochel o fynd yn ddiangen. Ac yn anffodus, mae adeiladau capeli segur yn aml yn dirywio'n ddirifol. Cânt eu gadael. Os na wneir unrhyw beth, dônt yn fannau lle y bydd pobl ifanc yn ymgasglu i gymryd cyffuriau ac yfed, hyd nes y byddant, mewn rhai achosion, yn cwmpo. Yn fy marn i, mae'n well i gapel barhau'n fan ar gyfer addoli neu, os nad hynny, yn lle y gellir ei droi'n gyfleuster at ddefnydd y gymuned leol. Credaf fod cadw'r adeiladau hanesyddol hyn ar ryw wedd gyfarwydd neu'i gilydd yn well na'r dewis arall o'u colli'n gyfan gwbl.

Yn y gorffennol, gallai capeli Cymru ddibynnu ar roddion gan y gymuned a'r gynulleidfa i ariannu unrhyw gostau cynnal a chadw neu gostau gweithredu. Yn awr, fodd bynnag, gwelwn rywfaint o gymorth ariannol gwyh yn cael ei roi i gapeli sydd ei angen diolch i gynlluniau a noddor gan y Llywodraeth, ac rwy'n diolch i'r Llywodraeth, ar ran nifer o'r capeli—y Cynllun Grant Mannau Addoli Rhedredig ac yn fwy penodol y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol. Wrth gwrs, mae Cadw a sefydliadau eraill fel y Loteri Fawr a Chronfa Dreftadaeth y Loteri hefyd wedi darparu cyllid. Er hynny, mae lefel y galw am gymorth ariannol, ynghyd â meini prawf cymhwyster llym, wedi golygu nad yw pob cais gan gapeli wedi bod yn llwyddiannus. Gyda'r her i gyllid cyhoeddus, mae'n werth derbyn bod y cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a chan sefydliadau cyhoeddus yn anochel o fod yn gyfyngedig.

Treforys yw'r ardal rwy'n ei hadnabod yn well nag unrhyw le arall, ac mae'n hen gymuned waith copr a thunplat. Rwy'n mynd i sôn am yr hyn sydd wedi digwydd i'r capeli. Mae Tabernacl, eglwys gadeiriol Gymreig, yn adeilad rhedredig; caiff ei ddefnyddio ar gyfer cyngherddau ac at ddefnydd cymunedol; mae wedi cael grantiau gan y Llywodraeth. Caiff Capel Seion Newydd y Bedyddwyr ei ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau cymunedol yn ogystal, ac mae wedi cael arian hefyd. Nid yw Bethania, capel y Methodistiaid Calfinaidd, wedi cael arian. Capel Bedyddwyr yw Aenon, sydd newydd gael arian. Ar hyn o bryd mae capel Methodistiaidd Treforys yn ymgeisio am grantiau. Mae capel Philadelphia wedi cau—mae'n fflatiau ac yn ofod swyddfeydd bellach. Calfaria: rwyf wedi defnyddio'r ymadrodd 'wedi'i ddyrchwyl', ond cwmpo a wnaeth mewn gwirionedd; yr hyn sydd gennyh yn y bôn yw'r gwaith cerrig yno, ond fe gwmpodd yr adeilad ei hun. Mae Soar wedi troi'n ganolfan eglwys Gatholig. Mae Horeb wedi'i droi'n fflatiau; mae Libanus wedi dod yn eglwys efengylaidd; cafodd Grove Mission ei droi'n fflatiau; mae Tabernacl Cwmrhdyceirw yn parhau fel capel a chyfleuster cymunedol—mae hefyd wedi cael grant gan y Llywodraeth; mae Carmel wedi'i droi'n fflatiau; ac Ebenezer wedi'i droi'n fflatiau. Efallai y sylwch ar thema yn y fan hon, gan fod llawer o'r capeli llai hyn wedi'u troi'n fflatiau, a gellir gwneud hyn yn ddymunol ac yn dda iawn, ond ni allwch droi Seilo Newydd, na Thabernacl, a heb fod eisiau pechu Keith Davies, ni allwch droi Capel Als yn fflatiau; mae'r adeiladau hyn yn llawer rhy fawr ac addurnedig i allu gwneud hynny.

So, at the current rate of attrition, Morriston will be down to one chapel in about 20 years. The congregations are declining and you've got to remember how many chapels there are. According to 'Blwyddiadur Undeb yr Annibynnwyr', there are 668 independent chapels in Wales and four Welsh independent chapels in England. So, if we go back to the question: 'What's going to become of these great buildings?' In many cases, they are huge buildings—they were built at a time to meet a demand—but they dominate the street scene. For those of you who know Morriston—I know you do, Minister—Tabernacle dominates the street scene completely. There are other areas where these chapels are the major buildings in the area. So, if you just leave them to collapse—. We've got a different problem in Morriston with an old church in the middle of the road that is in the process of collapsing under the growth of different plants.

Scotland's had the same problem, and the Historic Environment Advisory Council for Scotland has provided advice to Scottish Ministers. They've produced lots of advice, as, obviously, you get, as the Minister knows, when you ask people to come along with advice. They came up with a lot of things that I think are really important:

'There is a need for guidance and encouragement on adapting churches to accommodate new facilities and new uses similar in intent to the English Heritage campaign 'Inspired!'...Managed reduction of the total number of churches...'

What we have is unmanaged reduction at the moment, which falls on congregations deciding whether they close or not, often when they need large-scale repair.

'There is a need for more formal guidance on the processes of conversion to multiple and/or secular use.'

Also, Cadw need to be less resistant to change, because their resistance to change just means the building falls down.

'There may always be a small number of outstanding places of worship which cannot be retained in ecclesiastical use, but which are of such heritage importance that they should not be altered and converted for any alternative use.'

In fact, many of them can't be.

'In such cases, to prevent places of worship of outstanding architectural or historic interest falling into a ruinous condition, the state should be ready to intervene until a solution can be found...Local authorities should accord greater priority to their historic graveyards.'

There's something that has often been forgotten—there are lots of historic graveyards going back, sometimes, into the seventeenth century.

Felly, ar y gyfradd bresennol o ddirywiad, bydd Treforys i lawr i un capel ymhen tua 20 mlynedd. Mae'r cynulleidfaoedd yn teneuo ac mae'n rhaid i chi gofio faint o gapeli sydd yna. Yn ôl 'Blwyddiadur Undeb yr Annibynnwyr', ceir 668 o gapeli annibynnwyr yng Nghymru a phedwar capel annibynnwyr Cymraeg yn Lloegr. Felly, os dychwelwn at y cwestiwn: 'Beth sy'n mynd i ddod o'r adeiladau gwych hyn?' Mewn llawer o achosion, maent yn adeiladau enfawr—cawsant eu hadeiladu i ateb y galw ar y pryd—ond maent yn dominyddu'r strydlun. I'r rhai ohonoch sy'n gwybod am Dreforys—rwy'n gwybod eich bod chi, Weinidog—mae Tabernacl yn dominyddu'r strydlun yn gyfan gwbl. Mae yna ardaloedd eraill lle y mae'r capeli'n brif adeiladau'r ardal. Felly, os gadewch iddynt gwympo—. Mae gennym broblem wahanol yn Nhreforys gyda hen eglwys yng nghanol y ffordd sydd yn y broses o gwympo o dan y tyfiant o blanhigion gwahanol.

Mae Alban wedi wynebu'r un broblem, ac mae Cyngor Ymgynghorol ar Amgylchedd Hanesyddol yr Alban wedi darparu cyngor i Weinidogion yr Alban. Maent wedi cynhyrchu llawer o gyngor, fel y byddwch yn ei gael pan ofynnwch i bobl roi cyngor, fel y gwyr y Gweinidog. Cynigiwyd llawer o bethau pwysig iawn yn fy marn i:

'There is a need for guidance and encouragement on adapting churches to accommodate new facilities and new uses similar in intent to the English Heritage campaign 'Inspired!'...Managed reduction of the total number of churches...'

Yr hyn sydd gennym yw lleihad heb ei reoli ar hyn o bryd, a'r cynulleidfaoedd sy'n gorfod penderfynu a ydynt am gau ai peidio, yn aml pan fydd angen gwaith atgyweirio ar raddfa fawr.

'There is a need for more formal guidance on the processes of conversion to multiple and/or secular use.'

Hefyd, mae angen i Cadw fod yn llai gwrthwynebus i newid, gan fod eu gwrthwynebiad i newid ond yn mynd i olygu bod yr adeilad yn cwmpo.

'There may always be a small number of outstanding places of worship which cannot be retained in ecclesiastical use, but which are of such heritage importance that they should not be altered and converted for any alternative use.'

A dweud y gwir, mae llawer ohonynt na ellir eu haddasu a'u newid at ddefnydd amgen.

'In such cases, to prevent places of worship of outstanding architectural or historic interest falling into a ruinous condition, the state should be ready to intervene until a solution can be found...Local authorities should accord greater priority to their historic graveyards.'

Dyna rywbeth sy'n aml yn cael eu hanghofio—ceir llawer o fynwentydd hanesyddol yn mynd yn ôl, weithiau, i'r ail ganrif ar bymtheg.

'Joint Agreements should be negotiated between Historic Scotland and the various individual denominations or religious groups.'

I think that's really the key: the Government can't do it on their own. Denominational groups, as they sometimes do, can't just walk away from some of these buildings. There's a need—I think a desperate need—for them to accept that they have a responsibility and not close it down and sell it to the highest bidder.

We need a strategy for ecclesiastical heritage. As I said earlier, denominations need to recognise that they have responsibilities to the local communities. There needs to be money available for repairs,

'identification and assessment by denominations of the places of worship in their ownership...regular meetings between Historic Scotland and the religious group... standards of repair and maintenance...regular review of the Joint Agreement and Action Plan'.

'Scottish Ministers should commission an investigation of the "Repair Grants for Places of Worship in Scotland" scheme to identify patterns, gaps and emerging needs.'

'Guidance should be produced on converting historic places of worship for new uses.'

I really think that recommendation 4—. We need some of these buildings; they have got to be safeguarded. They are, in my opinion, far more important than Norman churches—Norman castles, sorry. These chapels were built and paid for by the pennies of the workers of Wales. They weren't imposed on us, yet it seems much easier to get money to restore something of an alien culture that came and invaded us than it is to support our own chapels.

We know that chapels in Wales provide a powerful source of community identity and cohesion, but also provide us with a proud reminder of our historical past and achievements. Realistically, not all of these chapels will be preserved or restored. Many will have to be converted, hopefully sympathetically—and can I just say that people in Morriston have converted most of the chapels sympathetically? We need to have a long-term, sustainable way of looking after what really are the key iconic buildings.

Finally, I've asked the Deputy Minister to visit both Tabernacle Morriston and New Siloh to see both their architectural merit and their effect on the street scene. Can I make that offer again to you, Minister?

'Joint Agreements should be negotiated between Historic Scotland and the various individual denominations or religious groups.'

Rwy'n credu mai dyna'r allwedd mewn gwirionedd: ni all y Llywodraeth ei wneud ar ei phen ei hun. Ni all grwpiau enwadol droi cefn ar yr adeiladau hyn fel y maent weithiau'n ei wneud. Mae angen—angen dybryd yn fy marn i—iddynt dderbyn bod ganddynt gyfrifoldeb i'r capel yn hytrach na'i gau a'i werthu i'r sawl sy'n cynnig fwyaf amdano.

Mae arnom angen strategaeth ar gyfer treftadaeth eglwysig. Fel y dywedais yn gynharach, mae angen i enwadau gydnabod bod ganddynt gyfrifoldebau i'r cymunedau lleol. Mae angen sicrhau bod arian ar gael ar gyfer gwaith atgyweirio,

'identification and assessment by denominations of the places of worship in their ownership...regular meetings between Historic Scotland and the religious group... standards of repair and maintenance...regular review of the Joint Agreement and Action Plan'.

'Scottish Ministers should commission an investigation of the "Repair Grants for Places of Worship in Scotland" scheme to identify patterns, gaps and emerging needs.'

'Guidance should be produced on converting historic places of worship for new uses..'

Rwy'n meddwl o ddirif fod argymhellad 4—. Mae arnom angen rhai o'r adeiladau hyn; rhaid eu diogelu. Yn fy marn i, maent yn llawer pwysicach nag eglwysi Normanaidd—cestyll Normanaidd, mae'n ddrwg gennyf. Adeiladwyd y capeli hyn a thalwyd amdanynt â cheiniogau gweithwyr Cymru. Ni chawsant eu gorfodi arnom, ac eto mae'n ymddangos yn llawer haws cael arian i adfer tipyn o ddiwylliant estron a ddaeth i'n meddiannu nag yw hi i gefnogi ein capeli eu hunain.

Gwyddom fod capeli yng Nghymru yn ffynhonnell bwerau o hunaniaeth a chydlynad cymunedol, ond maent hefyd yn ein hatgoffa gyda balchder o'n gorffennol a'n cyflawniadau hanesyddol. Yn realistig, ni fydd pob un o'r capeli hyn yn cael eu cadw neu eu hadfer. Bydd yn rhaid addasu sawl un, yn ddymunol gobeithio—ac a gaf fi ddweud bod pobl yn Nhreforys wedi addasu'r rhan fwyaf o'r capeli yn ddymunol? Mae angen i ni gael ffordd hirdymor, ffordd gynaliadwy o ofalu am yr hyn sydd mewn gwirionedd yn adeiladau eiconig allweddol.

Yn olaf, rwyf wedi gofyn i'r Dirprwy Weinidog ymweld â Thabernacl Treforys a Seilo Newydd i weld rhinweddau pensaernïol y ddau le a'u heffaith ar yr olygfa ar y stryd. A gaf fi gynnig eto eich bod yn gwneud hynny, Weinidog?

17:55

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I want to declare an interest as a member of Capel, the Welsh chapel heritage society, and a trustee of the Evan Roberts Institute.

Rwyf am ddatgan buddiant fel aelod o Gapel, Cymdeithas Treftadaeth Capeli Cymru, ac un o ymddiriedolwyr Athrofa Evan Roberts.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I'm delighted that this debate has been brought forward today, because I, too, agree with Mike and share his passion for the need to protect some of our nonconformist heritage here in Wales. He's quite right to say that not every building can be saved, but there are some really important buildings from a historical point of view that have no architectural merit, which are not afforded any protection whatsoever at present. One, of course, is in the Minister's own constituency—Pisgah chapel, which I've been heavily involved in the protection of—and I'm very pleased that that chapel, as a result of international aid, if you like, from Cornerstone Christian church over in Singapore, now has a long-term future and has been adapted for more modern use. I think it is ironic that these places of conversion are now being converted themselves into other forms of use.

I think also that we mustn't forget that this needs to mesh in to the faith tourism action plan that the Welsh Government has delivered. It's important that we put these places on the map for our international visitors, because I think they offer to us an opportunity for some revenue to invest in this heritage in the future to safeguard it for future generations. Thank you.

17:57

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I very much welcome this debate and, like Mike Hedges, I sat there going through the chapels in my own community of Manselton, many of which are still in use: Manselton Welsh Baptist in Cecil Street, Mount Calvary, Christwell, which is a new church, of course; Gorse Mission; the Wesleyan Methodists; and the Bethel Mission church—all are still being used in Manselton, but, of course, we've also lost some valuable buildings in my own community. We've lost Bethel in Robert Street, which was effectively destroyed by lightning, after they stripped all the lightning conductors off it; Libanus on Cwmbwrla roundabout, which has now been demolished after it was set fire to; and, of course, Babell on Carmarthern Road, which is no longer there, but the graveyard is still there as a problem. I think we do need to find a use for many of these buildings if they do fall into disuse. Fortunately, as I said, a number are still carrying on, but clearly those congregations are struggling. At the Welsh Baptist chapel, just three doors down from where I live, a small handful of people go there for one service every Sunday, and I fear for the future of that chapel as well. So, clearly, I think, Minister, that we do need to find that solution as to how we can keep these buildings in use.

Rwyf wrth fy modd fod y ddadl hon wedi'i chyflwyno heddiw, gan fy mod innau hefyd yn cytuno â Mike ac yn rhannu ei angerdd am yr angen i ddiogelu peth o'n treftadaeth anghydfurfiol yma yng Nghymru. Mae'n hollol gywir i ddweud nad oes modd cadw pob adeilad, ond ceir rhai adeiladau pwysig iawn o safbwynt hanesyddol nad oes iddynt unrhyw werth pensaernïol, na roddir unrhyw warchodaeth o gwbl iddynt ar hyn o bryd. Mae un ohonynt, wrth gwrs, yn etholaeth y Gweinidog—capel Pisgah, y bûm yn ymwneud yn helaeth â'r broses o'i warchod—ac rwy'n falch iawn fod y capel hwnnw, o ganlyniad i gymorth rhyngwladol, os mynnwch, gan Eglwys Gristnogol Cornerstone yn Singapore, erbyn hyn yn wynebu dyfodol hirdymor ac wedi'i addasu at ddefnydd mwy modern. Credaf ei bod yn eironig fod y manau hyn lle y cafwyd sawl troedigaeth o'r blaen bellach yn wynebu eu troedigaeth eu hunain i'w gwneud yn addas at fathau eraill o ddefnydd.

Rwy'n credu hefyd fod yn rhaid i ni beidio ag anghofio bod angen cydgysylltu â'r cynllun gweithredu twristiaeth ffydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gyflwyno. Mae'n bwysig ein bod yn rhoi'r lleoedd hyn ar y map ar gyfer ein hymwelwyr rhyngwladol, oherwydd credaf eu bod yn cynnig cyfle i ni gael peth referniw i'w fuddsoddi yn y dreftadaeth hon yn y dyfodol er mwyn ei diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Diolch.

Croesawaf y ddadl hon yn fawr iawn ac fel Mike Hedges, roeddwn yn eistedd yno'n mynd drwy'r capeli yn fy nghymuned fy hun yn Nhrefansel, ac mae llawer ohonynt yn dal mewn defnydd: Capel Bedyddwyr Cymreig Manselton yn Heol Cecil, Eglwys Unedig Christwell, sy'n eglwys newydd, wrth gwrs; Gorse Mission; y Methodistiaid Wesleidd; ac eglwys Bethel—mae pob un yn dal i gael ei ddefnyddio yn Nhrefansel ond wrth gwrs, rydym hefyd wedi colli rhai adeiladau gwerthfawr yn fy nghymuned. Rydym wedi colli Bethel yn Robert Street, a gafodd ei ddistrio, i bob pwrpas, gan felt, ar ôl iddynt dynnu'r dargludyddion melt oddi arno; Libanus ar gylchfan Cwmbwrla, sydd bellach wedi ei ddymchwel ar ôl iddo gael ei roi ar dân; ac wrth gwrs, Babell ar Heol Caerfyrddin, nad yw yno mwyach, ond mae'r fynwent yn dal i fod yno, ac yn broblem. Rwy'n meddwl bod angen i ni ddod o hyd i ddefnydd ar gyfer llawer o'r adeiladau hyn os nad oes defnydd iddynt bellach. Yn ffodus, fel y dywedais, mae nifer yn dal ati, ond mae'n amlwg fod y cynulleidfaoedd hynny'n ei chael hi'n anodd. Yng nghapel y Bedyddwyr Cymreig, dri drws i lawr o ble rwy'n byw, mae llond llaw o bobl yn mynd yno am un gwasanaeth bob dydd Sul, ac rwy'n pryderu ynglŷn â dyfodol y capel hwnnw hefyd. Felly, yn amlwg, Weindog, rwy'n credu y bydd angen i ni ddod o hyd i ateb ynglŷn â sut i gadw'r adeiladau mewn defnydd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:58

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n falch hefyd i fod yn rhan o'r ddadl y prynhawn yma, fel rhywun sy'n angerddol am ein hetifeddiaeth yn Llanelli ac yng Nghymru. Mae ein capeli a'n heglwysi yn ffurfio rhan bwysig o etifeddiaeth pentrefi ledled Cymru, ac mae'n rhaid eu cadw nhw. Yr her yw sut y gallwn ni wneud hynny. Yn y misoedd diwethaf, roedd yna ddau ddigwyddiad roeddwn yn ymwybodol ohonynt yn Llanelli. Roedd y cyntaf yn yr eglwys yn Goring Road, lle mae Cadw—fel yr oedd Mike yn sôn yn gynharach—a'r cyngor lleol yn gwrthod caniatáu troi'r eglwys i mewn i fflatiau y tu fewn a chadw'r adeiladau y tu fas; dyna roeddynt yn trio ei wneud, ond, na, cawsant eu gwrthod. A beth sydd wedi digwydd yn y mis diwethaf? Mae rhywun wedi torri i mewn iddi ddwywaith neu deirgwaith.

Yr ail beth roeddwn eisiau sôn am oedd, ym mis Awst, aeth eglwys yng nghanol tref Llanelli ar dân. Eto, roedd yn wag, nid oedd neb yn ei ddefnyddio hi, ond nid oedd neb yn edrych ar ei hôl hi. Meddai Huw Edwards yn y papur lleol nad oes dim yn cael ei wneud i gadw'r rhain ar agor. Yr her yw: sut ydym yn mynd i'w wneud e? Sut ydym ni'n mynd i ymladd gyda Cadw? Mae'r adeilad hwn yn Goring Road yn adeilad hyfryd o'r tu fas, ond mae Cadw yn dweud, 'Na, ni allwch chi fyth ei droi fe mewn i fflatiau'. Felly, mae her gyda ni o ran y ffordd rydym yn mynd i symud ymlaen a phwy sy'n mynd i fod yn gyfrifol am hyn.

I'm also pleased to participate in this debate this afternoon, as one who is passionate about our heritage in Llanelli and in Wales as a whole. Our chapels and churches form an important part of our heritage for villages across Wales, and they must be retained. The challenge is how we can achieve that. Over the past few months, there have been two events that I'm aware of in Llanelli. The first was in the church in Goring Road, where Cadw—as Mike mentioned earlier—and the local council are refusing to allow the conversion of the inside of the church into flats and retaining the external building; that is what they were trying to do, but, no, that was rejected. And what's happened over the past few months? Well, someone has broken in two or three times.

The second thing I wanted to mention was that, in August, a church in the middle of Llanelli town centre was ablaze. Once again, it was empty, it was disused, but nobody was looking after it. Huw Edwards said in the local newspaper that nothing is being done to keep these buildings open. So, the challenge is: how can we achieve that? How can we actually fight with Cadw? This building on Goring Road is a wonderful building on the outside, but Cadw is saying, 'Well, no, you can't convert it into flats?' So, there is a challenge in terms of how we're going to move forward and who is going to be responsible for this.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:59

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i ddiolch yn fawr iawn i Mike Hedges am godi'r pwnc pwysig yma, ac am ddangos yn glir iawn fod angen rheolaeth ar y broses yma o addasu defnydd rhai adeiladau tra'n cadw yr adeiladau hynny sydd o werth hanesyddol a threftadaeth a phensaernïol?

Ond, a gaf i gyfeirio'r Gweinidog at ddau beth ychwanegol? Mae yna lawer iawn o feirniadaeth o Cadw. Nid Cadw yw'r broblem bob amser—fe gyfeiriodd Keith Davies at hyn—gan fod adrannau treftadaeth cyngorau'n gallu bod yn broblem ac mae hynny, yn aml iawn, yn dylanwadu ar ran yr adrannau cynllunio. Mae angen inni edrych ar hynny, ac mae angen cael trafodaeth hefyd â'r Comisiwn Elusennau, oherwydd mae llawer iawn o'r adeiladau yma yn elusennau ac maen nhw wedi cael eu hadeiladu trwy gyfraniadau gwirfoddol ac mae'n rhaid cael cydweithrediad y Comisiwn Elusennau hefyd, yn aml iawn, a dwyn y cyrff hynny i gyd at ei gilydd.

May I thank Mike Hedges very much for raising this very important issue, and for demonstrating very clearly that we need to manage this process of changing the use of some buildings whilst retaining those buildings that are of historic, heritage and architectural value?

But may I refer the Minister to two additional things? There's been a great deal of criticism of Cadw. Cadw isn't always the problem—and Keith Davies referred to this—as there are heritage departments within councils that can be a problem, and that, very often, has an influence of the role of planning departments. We need to look at that, and we also need to enter into discussion with the Charity Commission, because many of these buildings have charitable status and were built through voluntary donations, and, in many cases, we will need have the co-operation of the Charity Commission. We need to bring all of those bodies together.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:00

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Economy, Science and Transport to reply to the debate—Edwina Hart.

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ymateb i'r ddadl—Edwina Hart.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:00

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. I'm very pleased to respond to this debate today. There've been some very constructive comments about this particular issue. I think we all fully recognise the importance of religious buildings; they have an important place at the heart of our communities and a strong symbolic and spiritual value, which, I think, we do recognise in this Chamber. I think it was last November that we recognised the importance of buildings to our national heritage with a debate in the Assembly.

Diolch. Rwy'n falch iawn o gael ymateb i'r ddadl hon heddiw. Cafwyd rhai sylwadau adeiladol iawn ar y mater hwn. Rwy'n credu ein bod i gyd yn llwyr gydnabod pwysigrwydd adeiladau crefyddol; mae iddynt le pwysig wrth galon ein cymunedau a gwerth symbolaidd ac ysbrydol cryf, fel rydym yn ei gydnabod yn y Siambr hon, rwy'n credu. Rwy'n meddwl ein bod wedi cydnabod pwysigrwydd adeiladau i'n treftadaeth genedlaethol mewn dadl yn y Cynulliad ym mis Tachwedd y llynedd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In Wales, we are actually blessed with so many organisations and individuals who are prepared to champion historic buildings, or our wider historic heritage, including civic societies and building preservation trusts. However, it can sometimes seem that there are too many buildings being managed by too few people, and, in acknowledgement of the important religious buildings, particularly our chapels, our historic environment service, Cadw, has been working with the sector to develop and influence a strategic action plan that will help our historic places of worship continue to deliver social, economic and environmental benefits for Welsh communities.

This action plan will address the recommendation of the Historic Environment Advisory Council for Scotland, which was the Scottish report that I think you alluded to, Mike. There will be an action plan developed, but, if I can digress slightly and turn to some of the points that Rhodri Glyn made, I do think there are issues around the very point that Mike made about whose pennies actually built these chapels. I think the people who put their money into these chapels would wish, in the long run, for these to go to good causes in terms of conversion, and to be utilised by ordinary people in terms of housing, et cetera—not all special places—but certainly for them to have a use for the good of the community. It is important that people recognise those obligations when they're considering things in planning terms in particular.

But, if I return to the action plan, it will do things: it will fill the gap in our knowledge about religious buildings and it will inform the decision on their conservation and management and engage people in the heritage of our religious buildings, which I think is a key element in that particular report.

First, the action plan will focus on improvement of information sources and the development of a toolkit to support the identification of the value and significance, because even people in communities don't realise their significance. When Darren Millar talked about Pisgah chapel in my own constituency, there is very limited local knowledge of its importance in terms of the rich heritage within Wales and, of course, faith tourism in that particular regard. When I had the pleasure of visiting the Bible College of Wales for its opening with you in Swansea, very few people knew the significance of that site, as well, in terms of Welsh heritage and culture.

The second strand is obviously conservation, which will support caring for religious buildings and managing change to give them a future. That is the point I think we all regard—having a future. When Peter Black was outlining the chapels around him—the ones that remain and the ones that went—perhaps if action had been taken earlier on the ones that went, they could've had a future in terms of their role on the high street and what they provided in terms of service and what they could've been turned into. So, keeping a building going requires maintenance and repair, and it needs skilled labour and a community of support. Skilled labour is actually quite important when you're dealing with these historic buildings. Also, there's a need for alteration and adaptation, and that's got to be done sensitively.

Yng Nghymru, rydym wedi ein bendithio mewn gwirionedd â chymaint o sefydliadau ac unigolion sy'n barod i hyrwyddo adeiladau hanesyddol, neu ein treftadaeth hanesyddol ehangach, gan gynnwys cymdeithasau dinesig ac ymddiriedolaethau cadwraeth adeiladau. Fodd bynnag, gall ymddangos weithiau fod gormod o adeiladau yn cael eu rheoli gan nifer rhy fach o bobl, ac i gydnabod yr adeiladau crefyddol pwysig, yn enwedig ein capeli, mae ein gwasanaeth amgylchedd hanesyddol, Cadw, wedi bod yn gweithio gyda'r sector ar ddatblygu a dylanwadu ar gynllun gweithredu strategol a fydd yn helpu ein mannau addoli hanesyddol i barhau i ddarparu manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar gyfer cymunedau Cymru.

Bydd y cynllun gweithredu yn mynd i'r afael ag argymhelliad y Cyngor Ymgynghorol ar Amgylchedd Hanesyddol yr Alban, sef yr adroddiad ar gyfer yr Alban y cyfeiriodd chi ato, rwy'n credu, Mike. Bydd cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu, ond os caf grwydro ychydig a throi at rai o'r pwyntiau a wnaeth Rhodri Glyn, rwy'n credu bod materion yn codi mewn perthynas â'r union bwynt a wnaeth Mike am geiniogau pwy mewn gwirionedd a adeiladodd y capeli hyn. Rwy'n credu y byddai'r bobl a roddodd eu harian tuag at y capeli hyn yn dymuno, yn y tymor hir, i'r rhain fynd at achosion da o ran eu haddasu, a chael eu defnyddio gan bobl gyffredin, fel tai, ac yn y blaen—nid pob man arbennig—ond yn sicr eu bod yn cael eu defnyddio er lles y gymuned. Mae'n bwysig fod pobl yn cydnabod y rhwymedigaethau hyn pan fyddant yn ystyried pethau o safbwynt cynllunio yn arbennig.

Ond os dof yn ôl at y cynllun gweithredu, bydd yn gwneud pethau: bydd yn llenwi'r bwlch yn ein gwybodaeth am adeiladau crefyddol a bydd yn llywio'r penderfyniad ar eu cadwraeth a'u prosesau rheoli a bydd cynnwys pobl yng ngwaith treftadaeth ein hadeiladau crefyddol, rwy'n meddwl, yn elfen allweddol yn yr adroddiad hwnnw.

Yn gyntaf, bydd y cynllun gweithredu yn canolbwyntio ar wella ffynonellau gwybodaeth a datblygu pecyn cymorth i gefnogi'r gwaith o nodi gwerth ac arwyddocâd, gan nad yw pobl yn y cymunedau hyd yn oed yn sylweddoli eu harwyddocâd. Pan soniodd Darren Millar am gapel Pisgah yn fy etholaeth, ychydig iawn o wybodaeth leol a geir ynglŷn â'i bwysigrwydd o ran y dreftadaeth gyfoethog a geir yng Nghymru ac wrth gwrs, twristiaeth fydd yn hynny o beth. Pan gefais y pleser o ymweld â Choleg Beibl Cymru ar adeg ei agor gyda chi yn Abertawe, ychydig iawn o bobl a wyddai am arwyddocâd y safle hwnnw hefyd, o ran treftadaeth a diwylliant Cymru.

Yr ail elfen, yn amlwg, yw cadwraeth, a fydd yn cynorthwyo i ofalu am adeiladau crefyddol a rheoli newid er mwyn rhoi dyfodol iddynt. Dyna'r pwynt rwy'n meddwl ein bod i gyd yn ei ystyried—sicrhau dyfodol. Pan oedd Peter Black yn disgrifio'r capeli o'i gwmpas—y rhai sy'n parhau a'r rhai sydd wedi mynd—efallai pe bai camau wedi'u rhoi ar waith yn gynharach o ran y rhai sydd wedi mynd, gallent fod wedi cael dyfodol o ran eu rôl ar y stryd fawr a'r hyn roeddent yn ei ddarparu o ran gwasanaeth a'r hyn y gellid bod wedi'u haddasu i fod. Felly, mae cadw adeilad i fynd yn galw am waith cynnal a chadw ac atgyweirio, ac mae angen llafur medrus a chymuned o gefnogaeth. Mae llafur medrus yn eithaf pwysig mewn gwirionedd pan fyddwch yn ymdrin â'r adeiladau hanesyddol hyn. Hefyd, mae angen newid ac addasu, a rhaid gwneud hynny mewn modd sensitif.

The third strand is public engagement. I think raising awareness of their value and encouraging people to think about their care and their future use is very good. There's also a good deal of activity focused on faith tourism, which I think can bring significant benefits to the economy of Wales. The pan-Wales approach to interpretation led by our historic environment service, Cadw, offers an important resource, I think, for the development of faith tourism. But, there are a lot of people stories in some of these buildings and we mustn't get too wound up. You alluded to Norman castles there. Sometimes, it would be nice to have the people stories told about some of the chapel buildings that exist: who were they? Was it the quarrymen? Was it the miners? Who established these buildings? Who did what? Who were the ministers? Where did they come from? Where did they learn about their religion? Where did they preach? I don't think that is taken into account enough, and I hope it will be with the plan. So, in developing the action plan, they are going to be discussing with key stakeholders, denominations and local authorities to have this kind of constructive dialogue. A further consultation will be published in the early summer and comments are now being considered. I'm pleased that this plan, hopefully, will be launched this autumn.

The Historic Environment (Wales) Bill still has a role to play in this. We've only got to look at the number of listings with chapels. The Bill aims to introduce heritage partnership agreements that will allow groups responsible for listed chapels to develop long-term management plans. Some people comment that there are too many listed chapels and that their listing can be a bar to development. Listing does not, as many people seem to believe, put a stop to all changes to a historic building, but I must take on board, I think, the points that have been made in debate here that we have to make sure that it doesn't put a stop to it if that helps to maintain the building.

The suite of planning policy advice and good practice guidance has been drafted to complement the Historic Environment (Wales) Bill and, I hope, will introduce greater consistency and flexibility into the operation of listed building consent across Wales. Fundamentally, the issue is not about listing but how we can best manage these changes.

Of particular importance to those involved in the care of historic chapels will be the good practice guidance, 'Managing Change to Listed Buildings in Wales'. That, hopefully, will give a firm foundation. If listed chapels are sadly forced to close, it's important that new uses are found, and I think we're agreed around chapels that we've seen excellent new uses of these buildings all across Wales. We do not want chapels and churches to be altered in a way that undermines their historic character, but, often, there can be very pragmatic solutions. Where there is a will on this, I think there is definitely a way, and there's got to be better dialogue between the building representatives and the local planning authority because, if you look at some of our high streets, that is one of the most important buildings in the high street and if that is falling into disrepair and causing difficulties it also has an impact on the high street, the trade in the high street and the appearance of somewhere.

Y drydedd elfen yw ymgysylltu â'r cyhoedd. Rwy'n meddwl bod codi ymwybyddiaeth o'u gwerth ac annog pobl i feddwl am eu gofal a'u defnydd yn y dyfodol yn dda iawn. Ceir cryn dipyn o weithgarwch hefyd sy'n canolbwyntio ar dwristiaeth ffydd, y credaf y gallai sicrhau manteision sylweddol i economi Cymru. Mae Cynllun Dehongli Cymru Gyfan dan arweiniad ein gwasanaeth amgylchedd hanesyddol, Cadw, yn adnodd pwysig, rwy'n credu, ar gyfer datblygu twristiaeth ffydd. Ond mae yna lawer o straeon pobl yn rhai o'r adeiladau hyn ac ni ddylem gynhyrfu'n ormodol. Fe gyfeirioch at gestyll Normanaid. Weithiau, byddai'n braf adrodd straeon pobl am rai o adeiladau capeli sy'n bodoli: pwy oeddent? Ai'r chwarelwyr oeddent? Ai'r glowyr? Pwy a sefydlodd yr adeiladau hyn? Pwy a wnaeth beth? Pwy oedd y gweinidogion? O ble y doent? Ble y dysgodd y bobl hyn am eu crefydd? Ble roeddent yn pregethu? Nid wyf yn credu bod digon o sylw yn cael ei roi i hyn, ac rwy'n gobeithio y bydd wedi'i gynnwys yn y cynllun. Felly, wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu, maent yn mynd i fod yn trafod â rhanddeiliaid allweddol, enwadau ac awdurdodau lleol i gael deialog adeiladol o'r fath. Cyhoeddir ymgynghoriad pellach yn gynnar yn yr haf ac mae sylwadau'n cael eu hystyried yn awr. Rwy'n falch y bydd y cynllun hwn, gobeithio, yn cael ei lansio yn yr hydref.

Mae gan Fil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ran i'w chwarae yn hyn. Nid oes ond raid i ni edrych ar nifer y capeli rhestredig. Nod y Bil yw cyflwyno cytundebau partneriaeth treftadaeth a fydd yn caniatáu i grwpiau sy'n gyfrifol am gapeli rhestredig ddatblygu cynlluniau rheoli hirdymor. Mae rhai pobl yn dweud bod gormod o gapeli rhestredig ac y gall eu rhestru fod yn rhwystr i ddatblygu. Nid yw rhestru, fel y mae llawer o bobl i'w gweld yn credu, yn rhoi diwedd ar bob newid i adeilad hanesyddol, ond rwy'n meddwl bod rhaid i mi ystyried y pwyntiau a wnaed yn y ddafl fod yn rhaid i ni wneud yn siŵr nad yw'n rhoi diwedd arno os yw hynny'n helpu i gynnal yr adeilad.

Mae'r gyfres o gynghorion polisi cynllunio a chanllawiau arfer da wedi cael ei drafftio i gyd-fynd â Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ac rwy'n gobeithio y bydd yn cyflwyno mwy o gysondeb a hyblygrwydd i broses caniatadau adeiladau rhestredig ar draws Cymru. Yn y bôn, nid yw'r mater yn ymwneud â rhestru ond â sut y gallwn reoli'r newidiadau hyn yn y ffordd orau.

Bydd y canllawiau arfer da, 'Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru' o bwys arbennig i'r rhai sy'n ymwneud â gofalu am gapeli hanesyddol. Gobeithio y bydd hwnnw'n darparu sylfaen gadarn. Os yw capeli rhestredig, yn affodus, yn cael eu gorfodi i gau, mae'n bwysig ein bod yn canfod mathau newydd o ddefnydd iddynt, ac rwy'n meddwl ein bod yn cytuno ein bod wedi gweld mathau newydd rhagorol o ddefnydd i'r adeiladau hyn ledled Cymru. Nid ydym am i gapeli ac eglwysi gael eu haddasu mewn ffordd sy'n tanseilio eu cymeriad hanesyddol, ond yn aml, efallai fod yna atebion pragmataidd iawn. Lle y ceir ewyllys i wneud hyn, rwy'n meddwl yn bendant fod yna ffordd, a rhaid sicrhau gwel deialog rhwng cynrychiolwyr adeilad a'r awdurdod cynllunio lleol, oherwydd, os edrychwch ar rai o'n strydoedd mawr, dyna un o'r adeiladau pwysicaf ar y stryd fawr ac os yw'n dirywio i gyflwr gwael ac yn achosi anawsterau, mae hefyd yn effeithio ar y stryd fawr, y fasnach ar y stryd fawr ac ymddangosiad y lle.

I have to say that I think we've had an excellent discussion this afternoon. There are problems, but I think we can take positive steps together. I will pass on Mike Hedges's kind invitation once again to the Deputy Minister. I, of course, know the chapels that he is referring to. I was interested when he spoke about the importance of this, of chapels, of how workers had dealt with them and, when you referred to the Normans saying that they were an incoming, dominant culture—why did we want to look at that? Well, one could actually say the same about something else: why would we talk about Protestant nonconformity because, of course, it was the Roman Catholic church that was here first?

Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn credu ein bod wedi cael trafodaeth ardderchog y prynhawn yma. Mae yna broblemau, ond rwy'n meddwl y gallwn roi camau cadarnhaol ar waith gyda'n gilydd. Byddaf yn trosglwyddo gwahoddiad caredig Mike Hedges ymlaen i'r Dirprwy Weinidog. Rwy'n gyfarwydd â'r capeli y cyfeiriodd atynt wrth gwrs. Roedd gennyf ddiddordeb mawr yn yr hyn a ddywedodd am bwysigrwydd hyn, pwysigrwydd capeli, sut roedd gweithwyr wedi ymdrin â hwy, a phan oeddech yn cyfeirio at y Normaniaid a'r ffaith eu bod yn ddiwylliant goruchafol a ddaeth i mewn—pam roeddem am edrych ar hynny? Wel, gallai rhywun ddweud yr un peth am rywbeth arall mewn gwirionedd: pam y byddem yn siarad am anghydfurfiaeth Brotestannaidd oherwydd, wrth gwrs, yr eglwys Gatholig Rufeinig oedd yma'n gyntaf.

18:07

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. That brings today's proceedings to a close.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:08.

Diolch yn fawr, Weinidog. Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw.

The meeting ended at 18:08.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)